



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **BIL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU)**

**Memorandwm Esboniadol**  
yn ymgorffori'r  
Aseiad Effaith Rheoleiddiol  
a'r Nodiadau Esboniadol

Ionawr 2014

# **Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

## **Memorandwm Esboniadol**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Caofodd ei baratoi'n wreiddiol a'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Ionawr 2013, ac mae Memorandwm diwygiedig yn cael ei osod nawr yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

### **Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 28 Ionawr 2013, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **Gwenda Thomas AC**

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

28 Ionawr 2014

# Tudalen Gynnwys

## **RHAN 1 - TROSOLWG**

1. Disgrifiad
2. Y Cefndir Deddfwriaethol
3. Diben y Ddeddfwriaeth a'r Effaith y Bwriedir iddi ei Chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i wneud Is-ddeddfwriaeth
6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

## **RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

7. Opsiynau
8. Costau a Manteision
9. Adolygu ar ôl Gweithredu

## **RHAN 3 - ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

10. Y Nodweddion Gwarchoddedig
11. Hawliau Dynol
12. Y Gymraeg
13. Datblygu Cynaliadwy
14. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

## **ATODIAD 1 – NODIADAU ESBONIADOL**

## **ATODIAD 2 – TABL TARDDIADAU**

## 1. Disgrifiad

1. Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu ar gyfer un Ddeddf i Gymru sy'n dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella llesiant y bobl hynny y mae angen gofal a chymorth arnynt, a'r gofalyr hynny y mae angen cymorth arnynt. Mae'r Bil yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gwireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i integreiddio'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cynorthwyo pobl o bob oed, a chynorthwyo pobl fel rhan o deuluoedd a chymunedau.
2. Bydd yn trawsnewid y modd y caiff y gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, yn bennaf drwy hybu annibyniaeth pobl er mwyn rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt. Bydd integreiddio a symleiddio'r gyfraith ar gyfer pobl hefyd yn rhoi mwy o gysondeb ac eglurder i'r bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol, eu gofalyr, staff yr awdurdodau lleol a'r cyrff sy'n bartneriaid iddynt, y llysoedd a'r farnwriaeth. Bydd y Bil yn hybu cydraddoldeb ac yn gwella ansawdd gwasanaethau a'r wybodaeth a gynigir i bobl, yn ogystal â sicrhau bod yna gymhellion priodol i gomisiynwyr sicrhau bod yna bwyslais ar y cyd ar atal ac ymyrryd yn gynnar.

## 2. Y Cefndir Deddfwriaethol

3. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
4. Nodir y darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn adran 108 ac Atodlen 7.
5. Noda paragraff 15 o Ran 1 o Atodlen 7 y pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt, o dan y pennawd "Social Welfare". Nid yw'r testun hwn ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth a wnaed yn Saesneg yn unig ydyw:

"Social welfare including social services. Protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults. Care of children, young adults, vulnerable persons and older persons; including care standards. Badges for display on motor vehicles used by disabled persons."

6. Noda paragraff 14 o Ran 1 o Atodlen 7 y pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt, o dan y pennawd "Public administration":

"Public Services Ombudsman for Wales. Auditor General for Wales. Audit, examination, regulation and inspection of auditable public authorities. Inquiries in respect of matters in relation to which the Welsh Ministers, the First Minister or the Counsel General exercise functions. Equal opportunities in relation to equal opportunities for public authorities. Access to information held by open access public authorities". Wedi hynny, mae'r paragraff yn diffinio "auditable public authorities" ac "equal opportunity public authorities".

7. Noda paragraff 9 o Ran 1 o Atodlen 7 y pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt, o dan y pennawd "Health and health services":

"Promotion of Health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service.

8. Noda paragraff 12 o Ran 1 o Atodlen 7 y pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt, o dan y pennawd “Local Government”:

“Constitution, structure and areas of local authorities. Electoral arrangements for local authorities. Powers and duties of local authorities and their members and officers. Local government finance.”

9. Mae'r darpariaethau ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad gan eu bod yn berthnasol i un neu fwy o'r pynciau hyn ac nad ydynt yn dod o dan unrhyw un o'r eithriadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 7.
10. Mae'r cyfeiriad at baragraff 9 o Ran 1 o Atodlen 7 yn berthnasol i'r cynigion i ddiwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cynigion i osod dyletswyddau newydd ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG.
11. Mae'r cyfeiriad at baragraff 14 o Ran 1 o Atodlen 7 yn berthnasol i'r cynigion i ddiwygio Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.
12. Mae'r cyfeiriad at baragraff 12 o Ran 1 o Atodlen 7 yn berthnasol i'r cynigion i osod pwerau a dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol.

### 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

#### Diben

13. Diben Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ('y Bil') yw nodi'r fframwaith deddfwriaethol craidd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n rhoi grym i'r polisi sydd yn y Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*<sup>1</sup>, sy'n rhoi ymateb Llywodraeth Cymru i'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol o ganlyniad i'r cynnydd a'r newid yn yr hyn y mae cymdeithas yn ei ddisgwyl; newid demograffig a phrinder adnoddau.
14. Mae *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* yn nodi'r fframwaith a'r meysydd blaenoriaeth sydd i'w trawsnewid er mwyn rhoi gwell cefnogaeth i bobl sydd angen gofal yng Nghymru. Mae'r Bil yn darparu'r seilwaith fel y gall awdurdodau lleol a'u partneriaid ymateb i'r heriau hyn; a dechrau ar y broses newid drwy rannu'r cyfrifoldeb am hybu llesiant pobl.
15. Mae'r Bil yn rhoi dyletswyddau ychwanegol ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gymryd camau i atal a lleihau angen pobl eu hardaloedd am ofal a chymorth. Byddai'r gwasanaethau "ataliol" hyn ar gael i bobl sy'n gymwys i dderbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol ar hyn o bryd – carfan o ryw 150,000 i 200,000 – ond hefyd, o bosibl, i'r boblogaeth o 3 miliwn yng Nghymru. Mae hefyd yn cyflwyno fframwaith statudol ar gyfer diogelu 'Oedolion mewn Perygl', am y tro cyntaf erioed, ac yn symleiddio trefniadau presennol y Byrddau Diogelu.
16. Yn wahanol i Fil Gofal (Care Bill) drafft yr Adran Iechyd, mae Bil Cymru yn ymdrin â gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer plant, oedolion a'u gofalwyr. Cyhyd ag y bo modd, bydd yn integreiddio ac yn cysoni trefniadau fel bod yna set gyffredin o brosesau, **ar gyfer pobl**. Ac eithrio'r darpariaethau ar gyfer hygludedd, bydd y Bil hefyd yn darparu hawliau cyfartal i ofalwyr, sy'n golygu y bydd ganddynt yr un statws cyfreithiol â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae holl statudau eraill y DU yn dal i drin y grwpiau hyn o bobl ar wahân.
17. Bydd y Bil hefyd yn cryfhau cydweithredu, yn darparu fframwaith ar gyfer integreiddio gwasanaethau allweddol (sydd i'w nodi gan Weinidogion Cymru) ac yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol, ar Fyrddau Iechyd Lleol ac ar gyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant pobl sydd

---

<sup>1</sup> *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2011)*  
<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?skip=1&lang=cy>

angen gofal a chymorth (ar lefel y boblogaeth ac ar lefel unigol). Darpariaeth arall ynddo yw y gall Gweinidogion bennu fframwaith canlyniadau cenedlaethol newydd ac ymyrryd yn y ffordd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, ar ôl rhoi rhybudd.

18. Mae 11 Rhan i'r Bil, fel y nodir isod:

- 1) Cyflwyniad
- 2) Swyddogaethau cyffredinol
- 3) Asesu anghenion unigolion
- 4) Diwallu anghenion
- 5) Codi ffioedd ac asesiadau ariannol
- 6) Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya
- 7) Diogelu
- 8) Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol
- 9) Cydweithrediad a phartneriaeth
- 10) Cwynion a sylwadau
- 11) Amrywiol a chyffredinol

Trosolwg o brif ddarpariaethau pob Rhan o'r Bil

#### Rhan 1 - Cyflwyniad

19. Mae'r Rhan hon yn bwrw golwg gyffredinol ar y Bil, yn darparu dehongliadau, ac yn rhoi diffiniad newydd, ehangach o lesiant, yn hytrach na'r hyn a geir mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd.

#### Rhan 2 – Swyddogaethau Cyffredinol

##### *Dyletswyddau Cyffredinol*

20. Mae'r Rhan hon yn cynnwys dyletswyddau llesiant hollgynhwysol ar bobl sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil i geisio hybu llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalu y mae angen cymorth arnynt.

21. Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi dyletswydd ar bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil i ystyried nifer o elfennau, gan gynnwys barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn; parchu urddas yr unigolyn; a nodweddion yr unigolyn, fel diwylliant, cred ac iaith; yn ogystal ag ystyriaethau penodol ar gyfer oedolion a phlant.

##### *Canlyniadau Llesiant*

22. Mae'r rhan hon yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad ynghylch y canlyniadau i'w cyflawni o ran llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalu y mae angen cymorth.



23. Bydd y datganiadau canlyniadau cenedlaethol hyn yn berthnasol i'r gofal a'r cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol, ynghyd â'r gofal a'r cymorth a ddarperir gan eraill.

24. Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau hefyd i gyhoeddi Cod i helpu i gyflawni'r canlyniadau. Gall y cod roi gofynion ar awdurdodau lleol a rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol a darparwyr gofal a chymorth eraill.

#### *Trefniadau Lleol*

25. Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau cyffredinol a strategol ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i ddeall yn well nodweddion ac anghenion eu poblogaeth leol o bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a'r gofalmwyr y mae angen cymorth arnynt. Bydd gwasanaethau o'r fath ar gael o fewn y gymuned fel rhan o ystod o ddarpariaethau cyffredinol ar gyfer llesiant, er mwyn lleihau, atal neu ohirio datblygiad anghenion sy'n gymwys ar gyfer gofal a chymorth. Bydd y dyletswyddau hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ystyried eu hasesiad anghenion lleol wrth baratoi eu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, ac wrth wneud trefniadau i'w chyhoeddi.

#### *Gwasanaethau ataliol*

26. Mae dyletswydd gyffredinol hefyd yn cael ei rhoi ar awdurdodau lleol i ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau a fydd yn lleihau, atal neu ohirio yr angen am ofal a chymorth (cyfeirir atynt yn gyffredinol fel "gwasanaethau ataliol"). Diben y gwasanaethau hyn yw hyrwyddo magu plant mewn teuluoedd; lleihau effaith anableddau ar bobl anabl; cyfrannu at atal cam-drin ac esgeuluso; annog plant i beidio ag ymwneud ag ymddygiad troseddol, gan leihau'r angen i osod plant mewn llety diogel.

#### *Mentrau cymdeithasol*

27. Mae'r Rhan hon hefyd yn cynnwys dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i hybu'r gwaith o ddatblygu modelau darparu newydd yn ardaloedd yr awdurdodau lleol drwy fentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a gwasanaethau trydydd sector. Fel rhan o hyn gallai'r awdurdod lleol helpu i sefydlu busnes newydd sy'n perthyn i gategori cwmni cymdeithasol, neu gynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau i ddod i drefniant cydweithredol i helpu ei gilydd â mân anghenion beunyddiol. Yn ôl y dyletswyddau newydd disgwylir hefyd i'r awdurdod lleol hybu'r ffaith fod y trydydd sector yn cynnig gwasanaethau ataliol fel rhan o'i drefniadau ar gyfer darparu gofal a chymorth, a rhoi gwybod i drigolion yr ardal pa wasanaethau sydd ar gael.

#### *Gwybodaeth, cyngor a help*

28. Mae'r Bil yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol, gyda chymorth y Byrddau Iechyd Lleol, i ddarparu gwybodaeth, cyngor a help i helpu pobl i

ddeall sut y mae'r system gofal a chymorth yn gweithio, pa wasanaethau sydd ar gael yn yr ardal, a sut i gael gfael ar y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen yn awr, ac yn y dyfodol. Mewn rhai achosion rhaid i'r awdurdodau lleol hefyd helpu pobl i sicrhau gofal a chymorth.

### Rhan 3 – Asesu anghenion unigolion

29. Drwy'r Bil ar ei hyd, cynlluniwyd y darpariaethau i roi llais a rheolaeth i'r unigolyn o ran mynediad, asesu a bod yn gymwys i dderbyn gwasanaethau.

#### *Hawl yr unigolyn i gael asesiad*

30. Mae'r Bil yn darparu hawl ar gyfer asesiad (gan gynnwys asesiad o'r canlyniadau y mae'r unigolyn yn dymuno eu gweld) ar gyfer oedolion a phlant (a'u teuluoedd) os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol fod angen gofal a chymorth ar yr unigolyn (cymorth yn achos gofalwr). Bydd y pwyslais yn wahanol ym mhob achos, fodd bynnag. Er enghraifft, yn achos plentyn bydd y pwyslais ar ei ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol; gallu ei rieni i ofalu; ac amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar ei lesiant. Yn achos oedolion, bydd y pwyslais ar y canlyniad y mae'r oedolyn yn awyddus i'w weld yn ei fywyd bob dydd.

31. Wrth wneud asesiad, mae'n rhaid i awdurdod lleol gynnwys y person sydd angen gofal a chymorth ac unrhyw ofalwr sydd gan y person hwnnw. (Yn achos gofalwr, mae'n rhaid cynnwys y gofalwr a'r person y mae'r gofalwr yn darparu gofal ar ei gyfer.) Mae hefyd yn rhaid i'r awdurdod lleol ystyried os oes modd, ac os felly i ba raddau y mae modd, diwallu unrhyw ganlyniadau a nodir fel rhan o'r broses asesu drwy ddarparu gwasanaethau ataliol neu wybodaeth, cyngor a help; yn ogystal â gofal a chymorth neu yn lle hynny.

32. Mae'r Bil hefyd yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i gynnal 'asesiad o ofalwr'. Bydd y Bil yn berthnasol i ofalwyr ifanc a rhiant ofalwyr.

33. Mae hyn yn disodli'r gyfraith gyfredol, ac yn cael gwared ar y gofyniad bod yn rhaid i'r gofalwr fod yn darparu "swm sylweddol o ofal yn rheolaidd". Golyga hyn y bydd mwy o ofalwyr yn gallu cael gfael ar asesiad, ac y bydd y ddyletswydd yn debyg i'r un ar gyfer y bobl y maent yn eu cynorthwyo. Bydd hyn hefyd yn disodli'r gyfraith gyfredol sy'n berthnasol i ofalwyr ifanc a rhiant ofalwyr.

34. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer gwrthod asesiad, ond mae hefyd yn nodi'r amgylchiadau ar gyfer anwybyddu gwrthodiad. Er enghraifft, ni fyddai'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd os oes perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod. Mae hefyd yn darparu ar gyfer cyfuno gwahanol asesiadau (er mwyn gallu integreiddio'r asesiadau sydd eu hangen ar draws amryw o statudau/ rhaglenni eraill yn well, ee iechyd meddwl, anghenion addysgol arbennig) ac mae'n creu pwerau i

Weinidogion Cymru lunio rheoliadau er mwyn darparu mwy o fanylion am asesiadau.

#### Rhan 4 – Diwallu anghenion

##### *Cymhwyster*

35. Os bydd awdurdod lleol yn dod i'r casgliad fod angen gofal a chymorth ar unigolyn, ar ôl asesu ei anghenion, rhaid iddo gynnal asesiad wedyn er mwyn penderfynu a yw'r angen yn un 'cymwys' ac felly, a oes dyletswydd i ddiwallu'r angen hwnnw. Caiff fframwaith cymhwyster cenedlaethol ei ddatblygu drwy reoliadau er mwyn egluro beth yw 'angen cymwys'.
36. Diogelir dyletswyddau a hawliau presennol y rheini y bernir eu bod mewn perygl neu fod angen eu hamddiffyn, neu blant y mae angen gofalu amdanynt.
37. Wrth benderfynu a yw person yn gymwys, mae hefyd yn rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a fyddai'r person yn elwa ar unrhyw wasanaethau ataliol; gwybodaeth, cyngor neu help; neu unrhyw beth arall a allai fod ar gael yn y gymuned. Mae hyn yn gysylltiedig â'r ystyriaethau y mae'n rhaid eu gwneud yn ystod y broses asesu, ac mae'n gyfle i unigolion sydd angen gofal a/neu gymorth gael rhyw fath o gymorth, waeth a yw eu hanghenion yn rhai 'cymwys'.

##### *Dyletswyddau i ddiwallu anghenion – oedolion*

38. Fel yr argymhellodd Comisiwn y Gyfraith, bydd yna un ddyletswydd i ddiwallu "anghenion cymwys", ond y ddyletswydd uwchlaw popeth fydd cwrdd â'r anghenion hynny y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn angenrheidiol eu diwallu er mwyn amddiffyn oedolyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.
39. Os bydd y person yn derbyn math o ofal a chymorth sydd ar gael yn rhad ac am ddim yna nid oes yna fwy o ofynion, ac mae hawl gan yr oedolyn i gael ei anghenion wedi'u diwallu yn y ffordd hon.
40. Fodd bynnag, os bydd yr oedolyn yn derbyn un neu ragor o fathau o ofal a chymorth y mae'r awdurdod yn codi tâl amdano, yna rhaid bodloni un o dri amod yn ogystal. Nodir y rhain yn y Bil.

##### *Dyletswyddau i ddiwallu anghenion – plant*

41. Bydd y Bil yn gosod rhwymedigaeth debyg ar awdurdodau lleol i gwrdd ag anghenion cymwys plant. Fel ag yn achos oedolion, bydd yna ddyletswydd uwchlaw popeth i gwrdd ag anghenion plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu o ddioddef unrhyw niwed arall. Fodd bynnag, nid yw'r ddyletswydd hon yn berthnasol i blant sy'n derbyn gofal.

(Mae'r dyletswyddau cyfredol i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal i'w gweld yn Rhan 6 o'r Bil.)

*Dyletswyddau i ddiwallu anghenion - gofalwyr*

42. Diben y Bil yw symleiddio'r gyfraith yn ymwneud â gofalwyr a'i chynnwys mewn un lle (ac yn ddwyieithog). Mae'n darparu bod gofalwyr yn cael eu trin yn yr un modd â'r personau hynny y mae angen gofal a chymorth arnynt, hynny yw maent wedi'u cynnwys yn llawn yn y system gwasanaethau cymdeithasol.
43. Pan fydd yr asesiad gofalwr wedi'i gwblhau, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu pa gymorth sydd ei angen, ac a yw'r anghenion hynny'n 'gymwys' i dderbyn cymorth. Rhaid i'r awdurdod lleol ddefnyddio fframwaith cymhwyster, sydd i'w nodi mewn rheoliadau. Bydd y rheoliadau hyn yn darparu fframwaith newydd ar gyfer penderfynu ar anghenion cymwys gofalwyr, ochr yn ochr â'r weithdrefn ar gyfer y bobl y maent yn gofalu amdanynt.
44. Mae'r Bil yn gwahaniaethu rhwng gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr sy'n blant, mewn cydnabyddiaeth o'r materion penodol yn achos plant sy'n ofalwyr.

*Pwerau i ddiwallu anghenion*

45. Darperir pwerau disgrisiwn hefyd fel y gall awdurdodau lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr unigolyn, beth bynnag fo'r penderfyniad ynghylch a yw'n gymwys. Bydd y pwerau hyn hefyd yn galluogi awdurdodau lleol i ymateb i angen brys, neu gymryd camau i amddiffyn unigolyn heb fod angen cwblhau asesiad yn gyntaf na phenderfynu a yw'n gymwys.
46. Mae'r Rhan hon hefyd yn egluro'r terfynau ar bwerau a dyletswyddau awdurdod lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn ar sail yr asesiad ohono, lle mai corff arall, fel y GIG, sy'n gyfrifol amdano, neu mai'n unol ag ymrwymadau'r awdurdod lleol o dan Ddeddf Tai 1996 y dylid ymateb iddo.

*Taliadau uniongyrchol*

47. Mae'r Bil yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer caniatáu i awdurdodau lleol wneud taliadau i unigolion (gan gynnwys gofalwyr), neu fynnu eu bod yn cyfrannu tuag at gost diwallu anghenion gofal a chymorth (neu gymorth yn achos gofalwyr). Mae'r Rhan hon yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau pellach yn ymwneud ag amryw o faterion eraill, gan gynnwys y dull o bennu'r symiau a'r amodau y gall awdurdodau lleol eu rhoi ynghlwm wrth unrhyw daliadau neu y mae'n rhaid iddynt eu rhoi ynghlwm wrthynt. Rhoddir rhagor o fanylion yn y Nodiadau Esboniadol.

*Yr hawl i gael cynllun gofal a chymorth ac adolygu cynlluniau*

48. Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu *cynlluniau gofal a chymorth i bobl* (plant ac oedolion) sydd ag 'anghenion cymwys' neu sy'n perthyn i un o'r categorïau 'pasbort' ee plant sy'n derbyn gofal, a'u hadolygu'n rheolaidd.
49. Bydd dyletswyddau ar awdurdodau lleol hefyd i ddarparu *cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr* sydd ag anghenion 'cymwys', a'u hadolygu'n rheolaidd. Pwrpas hyn yw sicrhau bod cynlluniau ar gyfer gofalwyr yn gyson a thrin gofalwyr yn yr un ffordd â phobl sydd angen gofal a chymorth.
50. Bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol hefyd i gynnal asesiadau pellach, a diwygio'r cynlluniau hynny os cafwyd newid yn amgylchiadau'r person.
51. Bydd rheoliadau yn nodi trefniadau manwl y cynlluniau, gan gynnwys sut i'w paratoi, beth y dylent eu cynnwys, a'r dull o'u hadolygu. Gallai hynny gynnwys darpariaeth ynghylch cymesuredd cynlluniau.
52. Bydd y Bil hefyd yn rhoi pwerau i'r awdurdod lleol i gydgyssylltu'r gwaith o baratoi ac adolygu'r cynlluniau pan fo corff arall yn paratoi cynllun perthnasol ar yr un pryd.

*Hygludedd cynlluniau gofal a chymorth penodedig*

53. Os oes dyletswydd ar yr awdurdod i ddarparu gofal a chymorth bydd modd cludo cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer pobl (ond nid ar gyfer gofalwyr) ar draws ffiniau awdurdodau lleol Cymru. Bydd dyletswydd ar yr 'awdurdod anfon' i roi gwybod i'r 'awdurdod derbyn' pan fydd unigolyn wedi rhoi gwybod iddo'i fod yn symud i'r ardal arall. Yna rhaid i'r awdurdod derbyn wneud trefniadau dros dro i barhau i roi gofal a chymorth nes bod yr awdurdod (newydd) hwnnw'n cynnal adolygiad/ailasesiad o anghenion gofal a chymorth yr unigolyn.
54. Ni fydd y trefniadau hygludedd hyn yn berthnasol i gynlluniau gofal a chymorth pobl y darperir eu cynlluniau yn unol â phŵer disgresiwn yr awdurdod lleol. Mewn achosion o'r fath, ni fydd dyletswydd ar yr awdurdod newydd i wneud trefniadau dros dro. Pennu'r wybodaeth graidd sydd i'w chynnwys mewn cynllun gofal a chymorth (mewn rheoliadau) yw'r bwriad.

*Darparu'r llety sy'n cael ei ffafrio gan bobl*

55. Bydd darpariaethau yn y Bil yn galluogi creu rheoliadau a fydd yn amlinellu darpariaethau tebyg i'r rhai a gynhwysir yn y gyfraith ar hyn o bryd, ar wahân i'r ffaith y caiff yr hawl ei ymestyn i gynnwys llety a ddarperir er mwyn cwrdd ag anghenion cymwys oedolyn, plentyn neu ofalwr.

### *Gwarchod eiddo*

56. Bydd darpariaethau yn y Bil yn cadw effaith adran 48 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, ond yn ymestyn pwerau'r awdurdod lleol i blant dros 16 oed, a allai hefyd fod ag eiddo cludadwy y gallai fod angen ei amddiffyn pan fônt yn yr ysbyty neu pan fo awdurdod lleol yn darparu llety iddynt.

### Rhan 5 – Codi ffioedd ac asesiadau ariannol

57. Ceir darpariaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ffi am ddarparu neu am drefnu gwasanaethau, os yw hynny'n briodol. Ni fydd yn ofynnol mwyach i awdurdodau lleol godi ffi am lety preswyl fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan adran 22 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

58. Ceir pwerau yn y Bil sy'n darparu ar gyfer rheoliadau i greu fframwaith ar gyfer taliadau, gan gynnwys materion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a yw rhywun yn gallu talu, a system ar gyfer adolygu penderfyniadau'r awdurdod lleol ynglŷn â hyn.

59. Mae'r Rhan hon hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau ariannol mewn rhai amgylchiadau. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu nodi'r trefniadau manwl ar gyfer hyn mewn rheoliadau.

60. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar wahân ar gyfer codi ffi am wasanaethau ataliol a darparu help. Bydd rheoliadau yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau hynny lle caiff awdurdodau lleol godi ffi am ddarpariaeth o'r fath, neu lle na chaniateir iddynt wneud hynny, yn ogystal â'r amgylchiadau hynny lle bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried gallu person i dalu wrth benderfynu ar swm y ffi, ac i ba raddau y bydd gofyn iddynt wneud hynny.

61. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chytundebau ar daliadau gohiredig sy'n cyfateb i raddau helaeth i'r darpariaethau a wneir ar hyn o bryd gan adran 55 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001. Mae'n ymestyn hyn, fodd bynnag, i gynnwys achosion lle darperir gwasanaethau i ofalwyr ac i blant 16 neu 17 oed.

62. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth arall mewn perthynas ag adennill ffioedd a llog, gan gynnwys lle bo person wedi trosglwyddo asedau er mwyn osgoi ffioedd. Golyga hyn bod y ddarpariaeth yn cyfateb i'r pwerau cyfredol o dan adrannau 21 i 24 o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983. Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer adennill mewn achosion o gamliwio neu fethu â datgelu, sy'n atgynhyrchu effaith adran 45 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

### Rhan 6 – Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya

#### *Plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal*

63. Mae rhwymedigaethau a dyletswyddau awdurdodau lleol (a'r Byrddau Iechyd Lleol) a gynhwysir ar hyn o bryd yn Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 wedi'u cynnwys yn y Rhan hon. Mae'r darpariaethau wedi'u diweddarau a'u hegluro ond nid ydynt yn newid hanfod y rhwymedigaethau a'r dyletswyddau mewn perthynas â'r grwpiau hyn o blant a phobl ifanc. Mae darpariaethau'r Rhan hon yn ymdrin â dyletswyddau a rhwymedigaethau awdurdodau lleol (a Byrddau Iechyd Lleol) mewn perthynas â phlant sy'n "derbyn gofal" a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys plant sy'n cael eu lletya gan awdurdod lleol yn wirfoddol a hefyd y rheini sy'n destun gorchymyn gofal ffurfiol. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth ynghylch y dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran plant yr hysbysir eu bod yn cael eu gosod yn eu hardaloedd, mewn ysbyty neu leoliad perthnasol arall am gyfnod o dri mis neu fwy. Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y categorïau penodol hyn o blant a phobl ifanc.

64. Mae'r darpariaethau hefyd yn disgrifio dyletswyddau a swyddogaethau ychwanegol yr awdurdod lleol tuag at y plant hyn o ran eu lleoli, eu lletya (gan gynnwys sicrhau bod digon o lety yn eu hardal) eu haddysg, eu hiechyd, cyswllt â'r teulu, ymweliadau annibynnol, cynhaliaeth a rheoliadau ynghylch cymeradwyo gofalwyr maeth ac ati. Mae'r Bil yn symleiddio (ond nid yw'n newid effaith) y darpariaethau cymhleth yn Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989, sy'n disgrifio'r gwahanol gategorïau o bobl ifanc sy'n "gadael gofal" ac yn ceisio egluro rhwymedigaethau a dyletswyddau'r awdurdodau lleol mewn perthynas â phob categori o berson ifanc sy'n gymwys i'w ddisgrifio fel un sy'n "gadael gofal", sy'n aml yn wahanol i'w gilydd.

65. Ni fydd y Bil yn sefyll ar wahân i statudau eraill, fodd bynnag, a bydd dyletswyddau'r awdurdodau lleol tuag at blant o dan Ddeddf Plant 1989 a Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn dal mewn grym.

## Rhan 7 – Diogelu

66. Mae'r Rhan hon yn ymdrin â'r darpariaethau o ran diogelu, sef:

- datblygu fframweithiau cyfreithiol rhesymegol ar gyfer diogelu oedolion a phlant fel ei gilydd
- sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- sefydlu Byrddau Diogelu ar gyfer plant ac ar gyfer oedolion

### *Fframwaith cyfreithiol ar gyfer oedolion sydd mewn perygl*

67. "Diogelu oedolion" yw'r term sy'n disgrifio swyddogaeth diogelu oedolion rhag camdriniaeth neu esgeulustod. Dyma flaenoriaeth bwysig sy'n cael ei rhannu rhwng amryw o wasanaethau cyhoeddus, a chyfrifoldeb allweddol ar awdurdodau lleol.

68. Mae diogelu yn ymwneud â'r angen i amddiffyn rhai pobl a all fod yn agored i niwed oherwydd eu hamgylchiadau. Oedolion sydd angen gofal a

chymorth a all fod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yw'r rhain, oherwydd y ffordd y mae rhywun arall yn gweithredu (neu ddim yn gweithredu). Yn yr achosion hyn, mae'n hollbwysig fod gwasanaethau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i nodi pobl sydd mewn perygl, ac i sefydlu ymyriadau i helpu i atal camdriniaeth neu esgeulustod, a diogelu pobl.

69. Er bod diogelu oedolion rhag camdriniaeth ac esgeulustod wedi bod yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol ers blynyddoedd lawer, ni fu erioed fframwaith cyfreithiol ar gyfer diogelu oedolion. Mae hyn wedi arwain at ddarlun aneglur o swyddogaethau a chyfrifoldebau unigolion a sefydliadau sy'n gweithio ym maes diogelu oedolion. Mae angen deddfwriaeth newydd i ddarparu fframwaith eglur ar gyfer sefydliadau a nodi eu cyfrifoldebau o ran diogelu oedolion.
70. Golyga'r darpariaethau yn y rhan hon o'r Bil y bydd rhaid i awdurdodau lleol wneud ymholiadau, neu ofyn i eraill wneud ymholiadau, os oes ganddynt amheuron rhesymol fod oedolyn yn eu hardal sydd angen gofal a chymorth mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Diben yr ymholiad hwn yw sefydlu pa gamau y mae angen eu cymryd yn yr achos hwn, os o gwbl.
71. Mae'r Bil hefyd yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig o awdurdod lleol wneud cais i'r llys am "orchymyn amddiffyn a chefnogi oedolion". Bydd gorchymyn o'r fath yn rhoi pŵer mynediad i ymarferwyr fel y gallant siarad yn breifat ag oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl, a chadarnhau a yw'r person hwnnw'n rhydd i wneud penderfyniadau.
72. Mae'r rhan hon o'r Bil hefyd yn cynnwys dyletswyddau ar y partneriaid perthnasol i hysbysu'r awdurdod lleol os ydynt yn amau y gallai rhywun fod yn oedolyn mewn perygl. Rhagwelir y byddai'r ddyletswydd hon yn debygol o arwain at adrodd ar fwy o achosion ac y byddai'n aml yn sbarduno'r ddyletswydd i ymchwilio.
73. Mae'r darpariaethau yn Rhan 9 o'r Bil hefyd yn gosod dyletswydd ar y partneriaid perthnasol (gan gynnwys y gwasanaeth iechyd) i gydweithredu a darparu gwybodaeth pan fydd awdurdod lleol yn gofyn am hynny, wrth iddo arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae hynny'n cynnwys ei swyddogaethau i gynnal ymchwiliad yn unol â'r Rhan hon.
74. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer diddymu'r pŵer symud gorfodol o dan adran 47 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

#### *Dyletswyddau i Adrodd*

75. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi dyletswyddau ar bartneriaid perthnasol i hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol os oes ganddynt reswm teilwng dros gredu bod oedolyn neu blentyn mewn perygl. Yn yr un modd, os oes rheswm teilwng gan awdurdod lleol dros gredu bod person sy'n byw yn ei ardal ar unrhyw adeg mewn perygl; ond yn byw neu'n bwriadu



byw mewn ardal awdurdod lleol arall; mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i hysbysu'r awdurdod lleol arall.

#### *Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol*

76. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau (gan gynnwys pwerau i wneud rheoliadau) i sefydlu Bwrdd newydd a fydd yn llywio'r agenda hon ar lefel genedlaethol, i gynghori Gweinidogion ynghylch pa mor ddigonol a pha mor effeithiol yw'r trefniadau diogelu, a chynghori ar y camau i'w cymryd i helpu i gryfhau polisi a gwella arferion.

#### *Byrddau Diogelu ac Amddiffyn*

77. Mae'r darpariaethau yn cynnwys creu Byrddau Diogelu Plant newydd a sefydlu Byrddau Diogelu Oedolion newydd. Caiff ardaloedd y Byrddau a phartneriaid arweiniol y Byrddau eu pennu mewn rheoliadau. Y bwriad yw y bydd y Byrddau yn hybu cydweithio rhwng partneriaid perthnasol (fel prif swyddog yr heddlu, cyrff y GIG a'r awdurdodau lleol), ac y bydd modd pennu partneriaid ychwanegol iddynt. Yn achos Byrddau Diogelu Plant, diogelu plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio mewn ffordd arall yw eu nod, a'u hatal rhag bod mewn perygl o niwed o'r fath. O ran y Byrddau Diogelu Oedolion, eu nod yw diogelu oedolion sydd angen gofal a chymorth yn yr ardal, ac sy'n cael eu hesgeuluso neu mewn perygl o gael eu hesgeuluso, ac atal oedolion sydd angen gofal a chymorth rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod. Mae modd ymestyn swyddogaethau'r Bwrdd Diogelu. Er mwyn bod yn hyblyg yn y dyfodol, ceir pŵer i lunio gorchymyn i uno byrddau oedolion a byrddau plant. Bydd yna berthynas rhwng y Byrddau Diogelu a'r Bwrdd Cenedlaethol newydd.

#### Rhan 8 – Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol

78. Mae'r Rhan hon yn ymdrin â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol; cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol; a phwerau Gweinidogion Cymru i gyhoeddi Codau. Mae hefyd yn cynnwys cyfres drefnus a symlach o bwerau ymyrryd.

#### *Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol*

79. Bydd y Bil yn diddymu Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (Deddf 1970) (sy'n pennu rhestr o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol at ddibenion y Ddeddf honno) ac yn gosod yn ei lle Atodlen newydd o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol at ddibenion y Bil.

#### *Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol*

80. Bydd y Bil yn diddymu adran 6 o Ddeddf 1970 ac yn gosod adran newydd o'r Bil yn ei lle. Ailddatgan y gyfraith gyfredol y mae hon gan fwyaf, ond bydd gofyniad newydd ar Weinidogion Cymru i bennu'r cymwyseddau y

mae'n rhaid i berson allu eu harddangos cyn y gall awdurdod lleol ei benodi'n gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.

81. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn gyfrifol am arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, gan gynnwys y swyddogaethau newydd o dan y Bil.

#### *Codau*

82. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai'r Llywodraeth gyhoeddi cod ymarfer er mwyn rhoi canllawiau i awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol ynghylch arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith hefyd y dylai fod yn ofynnol ymgynghori â'r cyrff perthnasol a phersonau eraill cyn i unrhyw god o'r fath gael ei baratoi neu'i adolygu, ac y dylid gwneud y cod o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol yn y Cynulliad.

83. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau a fydd yn gweithredu'r argymhellion hynny.

84. Achubwyd ar y cyfle yn ogystal i egluro statws y canllawiau yn y cod ac i wneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau hynny lle caiff awdurdod lleol wroddi wrth ofynion mewn cod. Mae'r Bil hefyd yn nodi'r amgylchiadau hynny lle caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i awdurdodau lleol i'w gwneud yn ofynnol cydymffurfio â gofyniad yn y cod.

#### *Ymyriadau gan y llywodraeth ganolog*

85. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd yn y ffordd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol am rai rhesymau, a nodir yn y Bil, a chyhoeddi cyfarwyddiadau os yw hynny'n briodol. Ailddatgan y gyfraith fel y mae y mae'r pwerau hyn, yn bennaf, ond gan wella'r drafftio fel bod y gyfraith yn haws i'w deall, ad-drefnu rhywfaint ar y darpariaethau, a phennu'r gofynion proses deg ar gyfer arfer y pwerau.

### Rhan 9 – Cydweithrediad a phartneriaeth

#### *Cydweithrediad*

86. Yn ôl darpariaethau'r Bil rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhwng swyddogion awdurdod lleol; a/neu â chyrff partner er mwyn gwella llesiant oedolion sydd angen gofal a chymorth a gofaluwr sydd angen cymorth, ac er mwyn gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir i bobl. Yn achos plant, caiff hyn ei gyflawni drwy ddiwygio'r dyletswyddau cydweithredu presennol o dan adran 25 o Ddeddf Plant 2004.

87. Rhestrir y partneriaid y mae'n rhaid iddynt gydweithredu â'r awdurdod lleol ar wyneb y Bil.

88. Mae'r Rhan hon hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid awdurdodau lleol gydweithredu gyda'r awdurdod lleol pan fo'n gofyn am gymorth mewn achosion penodol neu'n chwilio am wybodaeth. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â dyletswydd gryfach i gydweithredu ("enhanced duty to cooperate"). Bydd y dyletswyddau hyn yn disodli'r dyletswyddau cyfredol o dan adran 27 o Ddeddf Plant 1989 ac yn ymestyn y dyletswyddau hyn i'r holl swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys y swyddogaeth o gynnal ymchwiliad mewn achosion lle'r amheuir bod oedolyn yn cael ei gam-drin.

#### *Hyrwyddo integreiddio*

89. Mae'r Rhan hon hefyd yn cynnwys gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo'r gwaith o integreiddio gofal a chymorth â'r ddarpariaeth iechyd a'r ddarpariaeth sy'n ymwneud ag iechyd gyda'r nod o wella llesiant, atal a gwella ansawdd.

#### *Trefniadau partneriaeth*

90. Ceir darpariaeth ar gyfer pennu trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol yn unig; a rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, a hynny mewn rheoliadau. Mae'r fframwaith yn ddigon hyblyg i alluogi Gweinidogion Cymru i bennu ffyrdd integredig newydd o weithio mewn meysydd penodol, neu ar draws gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys gwneud darpariaeth mewn rheoliadau ar gyfer sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd, ynghyd â'u swyddogaethau a'u gweithrediad. Bydd hyn yn disodli'r ddarpariaeth a wneir ar hyn o bryd yn rhan 3 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

#### *Mabwysiadu*

91. Mae'r Rhan hon hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar y cyd mewn perthynas â'u swyddogaethau i gynnal a gweithredu gwasanaethau mabwysiadu. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno eu hamcanion polisi mewn perthynas â gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol.

### Rhan 10 – Cwynion a sylwadau

#### *Cwynion a sylwadau am wasanaethau cymdeithasol*

92. Darperir fframwaith newydd ar gyfer dyletswyddau awdurdodau lleol, o ran y ffordd y maent yn ystyried sylwadau a chwynion gan bobl am swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n diogelu'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol a geir ar hyn o bryd yn Rhan 2 ac ym Mhennod 9 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003, ar rheini sydd yn rhan III o Ddeddf Plant 1989 ar gyfer

plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal. Ailddatgan y gyfraith sydd ohoni y mae'r darpariaethau ynghylch gwasanaethau cymdeithasol, i bob pwrpas. Mae'r fframwaith yn y Bil yn cadw'r hyblygrwydd presennol i nodi sut y dylid delio â chwynion mewn rheoliadau, ond mae'n cyflwyno mwy o gydraddoldeb rhwng darpariaethau am gwynion penodol ynghylch plant a chwynion eraill am wasanaethau cymdeithasol. Er enghraifft, mae'r Bil yn ailadrodd dyletswydd yr awdurdod lleol i roi cymorth i bobl sy'n gwneud sylwadau am gwynion penodol yn ymwneud â phlant/pobl ifanc. Mae hefyd yn cyflwyno pŵer newydd i greu rheoliadau sy'n nodi'r cymorth y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei ddarparu i rywun sy'n cwyno'n fwy cyffredinol am wasanaethau cymdeithasol. Mae'r pwerau eang hyn yn sicrhau bod y Bil yn gallu ymateb i bolisiau'r dyfodol; er enghraifft, pe byddai Gweinidogion Cymru eisiau rhoi cymorth i fwy o bobl sydd angen gofal a chymorth (gan gynnwys y rheini sydd am wneud sylwadau).

#### *Cwynion am ofal cymdeithasol a gofal lliniarol preifat*

93. Mae'r Rhan hon hefyd yn disgrifio categorïau ychwanegol o gwynion y gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eu hystyried ac yn ymestyn dyletswyddau eiriolaeth Gweinidogion Cymru o dan adran 187 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.
94. Ar hyn o bryd mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") yn gweithredu yn rhinwedd y pwerau a gyflwynir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ("Deddf 2005"). Mae gan yr Ombwdsmon bwerau i ystyried cwynion am awdurdodau lleol a chyrrff y GIG ac felly, gall ystyried cwynion am gartrefi gofal, asiantaethau gofal cartref a gwasanaethau gofal lliniarol a gomisiynir gan gyrff o'r fath. Nid oes pŵer gan yr Ombwdsmon i ystyried cwynion am gartrefi gofal, asiantaethau gofal cartref a gwasanaethau gofal lliniarol os ydynt yn rhai a gomisiynwyd yn breifat, ar hyn o bryd. Er mwyn cael gwared â'r annhegwch hwn, mae'r Bil yn gosod Rhannau 2A a 2B newydd yn Neddf 2005 (drwy Atodlen 3 i'r Bil). Bydd y Rhannau newydd i Ddeddf 2005 yn caniatáu i'r Ombwdsmon ystyried cwynion am gartrefi gofal preifat, gwasanaethau gofal cartref preifat a gwasanaethau gofal lliniarol preifat. Mae'r Rhannau newydd yn dilyn yr un patrwm â'r hyn a geir ar hyn o bryd yn Neddf 2005.
95. Mae Adran 187 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i drefnu i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol (i'r graddau y credant fod hynny'n angenrheidiol er mwyn cwrdd â phob gofyniad rhesymol). Gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i unigolion sy'n cwyno neu'n bwriadu cwyno am gyrff iechyd arbennig yw gwasanaethau eiriolaeth annibynnol. Mae'r Bil yn ceisio diwygio adran 187 er mwyn ymestyn dyletswydd Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth ar ffurf eiriolaeth i'r rheini sydd am gwyno i'r Ombwdsmon am wasanaethau gofal lliniarol annibynnol. Mae hyn yn cydfynd â phŵer newydd yr Ombwdsmon i ystyried cwynion am wasanaethau gofal lliniarol annibynnol.

## Rhan 11 – Amrywiol a chyffredinol

96. Mae'r Rhan hon yn ymdrin â darpariaethau amrywiol a chyffredinol gan gynnwys ymchwil, preswylfa arferol, dehongliadau cyffredinol, gorchmynion, rheoliadau a phwerau i wneud trefniadau canlyniadol.

97. Yn ogystal, mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi dyletswyddau dros dro ar awdurdodau lleol i sicrhau parhad gofal a/neu gymorth i berson yn eu hardal yn achos methiant gan ddarparwr.

- Atodlen 1 – Cyfraniadau tuag at gynhaliaeth plant sy'n derbyn gofal.
- Atodlen 2 – Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
- Atodlen 3 – Ymchwilio i gwynion am ofal cymdeithasol a gofal lliniarol a drefnwyd yn breifat neu a ariannwyd yn breifat.

### Y broblem y mae'r Bil yn ceisio ymateb iddi – Y rheswm dros ddiwygio'r system gyfredol

*'Mae ein cymdeithas yn newid... ac wrth i gymdeithas newid rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid hefyd. Ni fydd hi'n syndod clywed bod ein disgwyliadau ni oll o ran ein gwasanaethau cyhoeddus heddiw yn hollol wahanol i ddisgwyliadau pobl ddeng mlynedd yn ôl. Rhaid eu hail-greu o'r newydd a chanolbwyntio ar ein hanghenion ni heddiw.'*<sup>2</sup>

98. Fel mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu yn ei nodi, mae gwasanaethau gofal cymdeithasol wrth wraidd cymdeithas yng Nghymru ac yn rhan ganolog o fywyd cyhoeddus. Bob blwyddyn, maent yn cynorthwyo 150,000<sup>3</sup> o bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl i gyflawni eu potensial ac yn helpu i'w diogelu. Mae ganddynt hefyd swyddogaeth unigryw fel rhiant corfforaethol i fwy na 5,725<sup>4</sup> o blant sydd dan eu gofal, ac mae ychydig dros 4,430<sup>5</sup> o'r rheini'n derbyn gofal maeth. Caiff amryw o'r gwasanaethau eu cyflwyno ar y cyd â gwasanaethau tai, iechyd ac addysg, a hynny law yn llaw â'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Yn ystod 2011-12 cyfeiriwyd 46,000<sup>6</sup> achos yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a chynhaliwyd 86,000<sup>7</sup> asesiad o anghenion oedolion. Bob blwyddyn, darperir gwasanaethau i ryw 84,200<sup>8</sup> o oedolion sydd ag anabledau corfforol a synhwyradd, i 9,300<sup>9</sup> o bobl sydd ag anabledd dysgu ac i ryw 83,000<sup>10</sup> o bobl hŷn.

---

<sup>2</sup> Ibid.

<sup>3</sup> Ibid.

<sup>4</sup>

[http://statswales1.cymru.gov.uk/ReportFolders/ReportFolders.aspx?CS\\_referer=&CS\\_ChosenLang=cy](http://statswales1.cymru.gov.uk/ReportFolders/ReportFolders.aspx?CS_referer=&CS_ChosenLang=cy) StatsCymru, 2012

<sup>5</sup> Ibid.

<sup>6</sup> Ibid.

<sup>7</sup> Ibid.

<sup>8</sup> Ibid.

<sup>9</sup> Ibid.

<sup>10</sup> Ibid.

99. £1.4 biliwn<sup>11</sup> oedd y gwariant net ar wasanaethau cymdeithasol yn 2011-12, a darparwyd gwasanaethau gan fwy na 70,000<sup>12</sup> o bobl. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cyflogi rhyw 24,700<sup>13</sup> o bobl. Nid yw hyn yn cynnwys staff a gyflogir gan y trydydd sector a'r sector annibynnol, sydd hefyd yn gwneud cryn waith i gyflwyno gwasanaethau i blant, i deuluoedd, i oedolion ac i'w gofalwyr. Ceir rhyw 1,800<sup>14</sup> o leoliadau gofal rheoledig ac yn ystod 2011-12, darparwyd dros 12 miliwn awr o ofal<sup>15</sup> i bobl hŷn. Er mai mudiadau'r trydydd sector a'r sector annibynnol sy'n darparu'r rhan fwyaf o ofal cymdeithasol yng Nghymru caiff ei ariannu, ar y cyfan, ag arian cyhoeddus a'i nod yw diwallu anghenion y cyhoedd.

100. Drwy'r tri Setliad Llywodraeth Leol diwethaf, mae cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfwerth ag 1% yn uwch na chynnydd cyllideb gyffredinol Llywodraeth Leol Cymru wedi'i gynnwys yn y Grant Cymorth Refeniw. Fodd bynnag, ceir pwysau ar hyn o bryd, gan gynnwys heriau demograffig sy'n effeithio ar y galw am wasanaethau cymdeithasol. Golyga hyn fod angen gweddnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yn y dyfodol.

101. Mae pobl yn byw'n hwy, o fewn strwythurau teuluol cymhleth weithiau, ac mae ymddygiad a disgwiliadau yn newid. Mae pobl yn disgwyl gallu rheoli'r penderfyniadau a wneir amdanynt a chael llais yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol eisoes yn teimlo canlyniadau mynd i'r afael ag anghenion gofal cymdeithasol poblogaeth sy'n heneiddio, gan gynnwys y cynnydd yn nifer y bobl sydd ag anabledau hirdymor a chymhleth. Dwysáu y bydd yr effaith hon yn y dyfodol wrth i nifer y bobl sydd angen cymorth yn ein cymdeithas gynyddu. Er enghraifft:

- a. mae rhagamcaniadau yn dangos y bydd dwywaith yn fwy o bobl dros 85 oed erbyn 2030 nag yr oedd yn 2011-12, ac y bydd pedair gwaith yn fwy o bobl ganmlwydd oed<sup>16</sup>;
- b. yn ôl y rhagamcaniadau bydd nifer yr oedolion sydd angen cymorth am fod ganddynt anabledau dysgu yn cynyddu rhwng 3.2% a 7.9% y flwyddyn<sup>17</sup>;
- c. gwelwyd cynnydd o 24% yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y pum mlynedd hyd at 2011-12<sup>18</sup>;
- d. mae rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau, trais domestig a phroblemau iechyd meddwl yn gyfrifol am ryw 55% o'r achosion

<sup>11</sup> Setliad Llywodraeth Leol (Llywodraeth Cymru, 2011)

<sup>12</sup> Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2011)

<sup>13</sup> SDR 181/2012 National Statistics for Social Services Staff Numbers (Welsh Government, 2012)

<sup>14</sup> Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2011)

<sup>15</sup> Ibid.

<sup>16</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2012

<sup>17</sup> [http://statswales1.wales.gov.uk/ReportFolders/ReportFolders.aspx?CS\\_referer=&CS\\_ChosenLang=en](http://statswales1.wales.gov.uk/ReportFolders/ReportFolders.aspx?CS_referer=&CS_ChosenLang=en) StatsCymru, 2012

<sup>18</sup> Ibid.

sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol plant bob blwyddyn, o ran plant mewn angen<sup>19</sup>.

102. Mae disgwyliadau yn newid yn sylweddol hefyd ym mhob rhan o gymdeithas wrth i bobl ddisgwyl gallu rheoli eu bywydau yn well. Bydd pobl yn disgwyl i wasanaethau fod yn hyblyg ac yn uchel eu safon; mae hyn fel y gallant gynyddu eu llesiant i'r eithaf. Bydd angen canolbwyntio'n fwy ar gefnogi gofal yr unigolyn er mwyn bodloni'r disgwyliadau hyn.
103. Er mai gwella safonau ymarfer yw bwriad yr argymhellion niferus<sup>20</sup> a'r llu o reoliadau, polisïau ac offer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, maent wedi creu system anghyfartal, sy'n ystumio arferion, ac yn llesteirio barn broffesiynol gweithwyr cymdeithasol ac eraill, a'u gallu i ymateb. Maent hefyd yn creu rhywfaint o aneffeithiolrwydd.
104. Dywed sylwebwyr hefyd nad yw'r system sydd gennym wedi gwneud digon i hybu annibyniaeth pobl a rhoi'r grym iddynt reoli eu bywydau eu hunain.
105. Mae'n anorfod y bydd rhai o'r newidiadau i'r system credydau treth a budd-daliadau lles sydd wedi'u cynllunio drwy'r DU yn effeithio ar aelwydydd Cymru, gan fod 66% o'i thrigolion yn derbyn rhywfaint o fudd-daliadau, o'i gymharu â 61% yn Lloegr<sup>21</sup>. Golyga hyn y bydd y diwygiadau i'r system les yn y dyfodol a'r wasgfa ar wario cyhoeddus yn effeithio'n fawr ar y sefyllfa ariannol yn ystod y degawd nesaf.
106. Cred Llywodraeth Cymru na ellir cyflawni'r newidiadau hyn heb weddnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu.

#### Amcanion polisi'r Bil

107. Prif amcanion polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil yw:
  - a. gwella canlyniadau llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth;
  - b. diwygio'r gyfraith ym maes gwasanaethau cymdeithasol.
108. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni'r amcanion hyn drwy:
  - a. symleiddio'r gymysgfa o ddeddfwriaeth sy'n rheoli gofal cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd;
  - b. rhoi llais cryfach i bobl, a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau a dderbyniant;

<sup>19</sup> <http://statswales1.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=37397>  
(StatsCymru, 2012)

<sup>20</sup> Munro Review of Child Protection (Yr Adran Addysg, 2011)

<sup>21</sup> Welfare Benefits and Working Age People (LE Wales, ar gyfer Llywodraeth Cymru, 2011)

- c. sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth y mae arnynt ei angen i fyw bywydau bodlon;
- d. darparu cyfeiriad cenedlaethol cryfach ac atebolrwydd lleol eglur o ran darparu.

#### Ar bwy y mae'r Bil yn effeithio?

109. Bydd y Bil yn creu dyletswyddau ac yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol (a Byrddau Iechyd Lleol, mewn rhai achosion) yn y meysydd canlynol:

- a. gwella llesiant pobl a deall nodweddion ac anghenion y boblogaeth leol yn well, gan gynnwys gofaluwr a fyddai ar eu hennill o gael amrywiaeth o wasanaethau ataliol;
- b. darparu gwasanaethau ataliol a gwasanaethau ymyrryd yn fuan sydd ar gael yn rhwydd yn y gymuned;
- c. sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth, ar gyngor ac ar gymorth yn rhwydd, ynglŷn â'r math o gymorth a gwasanaethau sydd ar gael yn eu cymuned;
- d. helpu pobl i ddeall sut y mae'r system gofal a chymorth yn gweithio.

110. Bydd y Bil yn darparu'r canlynol i'r unigolyn:

- a. yr hawl i asesiad cymesur o'i anghenion. Bydd dyletswydd yr awdurdod lleol i asesu yn cael ei sbarduno pan fydd yn ymddangos y gall fod angen gofal a chymorth ar yr unigolyn, neu gymorth yn achos gofalwr;
- b. yr hawl i wasanaeth os yw ei angen yn un sy'n bodloni'r amodau fel angen cymwys a nodir mewn rheoliadau;
- c. i'r bobl hynny y bernir eu bod yn gymwys, cynllun gofal a chymorth/cynllun cymorth. Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r cynllun hwn yn rheolaidd.

111. Bydd awdurdodau lleol yn dal i fod â phwerau disgrisiwn eang i ddarparu gwasanaethau i bobl, fel sydd ganddynt yn awr, pa un a aseswyd bod ganddynt anghenion cymwys ai peidio.

#### Cynllun gweithredu a darparu

112. Mae elfennau craidd y fframwaith deddfwriaethol newydd i'w gweld ar wyneb y Bil. Serch hynny, mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio sawl eitem o is-ddeddfwriaeth. Cred Llywodraeth Cymru fod y pwerau hyn i lunio rheoliadau yn hanfodol o ran newid manylion o bryd i'w gilydd i addasu i newid mewn amgylchiadau a chynnig hyblygrwydd priodol o ran polisi.

113. Ceir crynodeb o'r pwerau i lunio is-ddeddfwriaeth yn adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol hwn. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ynghylch manylion y prif reoliadau cyn eu cyflwyno.



114. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi Codau a Chanllawiau i helpu i weithredu'r Bil. O ran y Codau, mae'r Bil yn mynnu bod angen ymgynghori ynghylch Cod drafft, a rhoi unrhyw ddrafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
115. Yn ôl y Bil rhaid i awdurdodau lleol, a chyrrff cyhoeddus eraill a'u partneriaid perthnasol mewn rhai amgylchiadau, dalu sylw i'r Canllawiau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cyhoeddi wrth arfer eu swyddogaethau.
116. Caiff rhaglen hyfforddi genedlaethol, a ariennir drwy Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol gwerth £8.2m gan Lywodraeth Cymru, ei llunio i sicrhau bod staff gan ar draws y sector gofal cymdeithasol y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau. Caiff y rhaglen hon ei datblygu gyda chyfraniad rhanddeiliaid allweddol a bydd yn ymestyn y tu hwnt i wasanaethau cymdeithasol, gan gwmpasu iechyd, y trydydd sector a gweithluoedd eraill lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r grŵp llywio sy'n goruchwyllo materion gweithlu fel rhan o'r rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn gyfrifol am gomisiynu gwaith yn y maes hwn, a bydd y rhaglen hyffordd a ddaw o ganlyniad yn cael ei sefydlu cyn cychwyn y darpariaethau craidd.

#### Trefniadau a chyllid trosiannol

117. Mae'r Bil yn rhan o raglen ehangach i drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Cynlluniwyd y rhaglen *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* er mwyn gallu sicrhau'r newidiadau angenrheidiol, ac mae'r Bil yn darparu ar gyfer rhai o'r newidiadau hynny. Y rhaglen ehangach hon yw'r sbardun i lawer o'r seilwaith sydd ei angen er mwyn cefnogi gweithredu'r Bil.
118. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr agenda drawsnewid hon ac wedi ailflaenoriaethu rhaglenni ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i alinio adnoddau ar gyfer gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i sicrhau bod cynlluniau gweithredu lleol yn cael eu datblygu'n effeithiol. Yn 2013/14, roedd hyn yn cynnwys dosbarthu £1.5m yn uniongyrchol i awdurdodau lleol er mwyn meithrin capasiti yn lleol. Roedd hyn ar ben y cyllid sydd eisoes yn cael ei roi i'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) er mwyn helpu llywodraeth leol i weithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a £622,000 i helpu i ddatblygu'r agenda diogelu. Rydym yn bwriadu parhau i ddarparu'r cymorth trosiannol hwn ac yn ymestyn y grant cyllid trosiannol o £1.5 miliwn hyd at 2014-15. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi trawsnewid yn fwy cyffredinol drwy brosiectau 'Buddsoddi i Arbed' sy'n cynnwys cryn elfen o'r gwasanaethau cymdeithasol, ac yn cyfrannu at drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol ar eu hyd.

#### Y risg o beidio â llunio'r ddeddfwriaeth

119. Roedd *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* yn egluro bod angen trawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn gwneud yn

siŵr eu bod yn gallu ymateb i heriau'r dydd. Gellir cyflawni llawer o'r hyn y mae'r ddogfen hon yn ceisio'i wneud heb addasu deddfwriaeth, ond mae angen diwygio'r ddeddfwriaeth mewn sawl maes gweithredu allweddol. Os na chaiff y Bil ei lunio, bydd hynny'n cael effaith andwyol ar y gwasanaethau y mae unigolion yn eu derbyn ac ni fydd yn cyflawni'r weledigaeth o wella canlyniadau llesiant i bobl Cymru.

120. Ni fydd y ddeddfwriaeth sydd ohoni'n gallu cefnogi'r newid gwasanaeth sydd ei angen a bydd sefydliadau darparu yn gaeth i fframwaith deddfwriaethol sydd wedi dyddio.

121. Os na fyddwn yn manteisio ar y cyfle i ddiwygio a rhesymoli gofal cymdeithasol i oedolion, mae perygl na fyddwn yn manteisio ar adolygiad cleifion a methodolegol Comisiwn y Gyfraith yn y maes hwn.

### Amserlen

122. Bydd y Bil a'r rheoliadau, y Codau a'r Canllawiau sy'n deillio ohono'n darparu'r seilwaith ar gyfer trawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol. Mae hwn yn Fil radical, sy'n ceisio diwygio deddfwriaeth sy'n dyddio'n ôl cyn belled â 1948. Er hynny, bydd yn sicr o bara i'r dyfodol gan fod y darpariaethau yn cael eu diogelu.

123. Bydd angen cynllunio sut i weithredu'r Bil yn ofalus a'i gyflwyno gam wrth gam er mwyn sicrhau ein bod yn trosglwyddo'n esmwyth i'r trefniadau newydd. Bydd modd cychwyn rhai darpariaethau yn gyflym, ond bydd angen cysylltu ac ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid ar gyfer eraill, er mwyn sicrhau bod manylion y system newydd sydd i'w nodi mewn rheoliadau yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir.

124. Bydd yr is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil yn cael ei datblygu fel rhaglen waith ar gyfer cyflawni cydlynus. Wedi i'r Bil gael ei basio, bydd gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei sbarduno i ddatblygu a mireinio manylion ein bwriad polisi ar gyfer rheoliadau. Yna bydd y gwaith yn dechrau i ddrafftio'r is-ddeddfwriaeth yn dilyn Cydsyniad Brenhinol y Bil. Bydd hyn yn cynnwys datblygu asesiad llawn o'r effaith reoleiddiol a memoranda esboniadol ar gyfer y rheoliadau eu hunain. Bydd y gwaith hwn yn arwain at ymgynghoriad ffurfiol ar y prif ddarnau o is-ddeddfwriaeth yn yr hydref 2014, gyda chyfle am graffu priodol gan bwyllgorau'r Cynulliad. Wedi hyn, caiff diwygiadau eu paratoi a'u gosod i'r Cynulliad graffu arnynt yn 2015. Bydd y Codau Ymarfer a fydd yn cwblhau fframwaith cyfreithiol gwasanaethau cymdeithasol Cymru yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'u rheoliadau cysylltiedig. Yna bydd digon o amser yn 2015 i gynnal hyfforddiant cyn gweithredu'r mwyafrif o'r offerynnau statudol erbyn 1 Ebrill 2016.

125. Caiff Codau eu datblygu a bydd angen iddynt fod yn eu lle ar gyfer agweddau craidd y system cyn ei rhoi ar waith.

## 4. Ymgynghori

126. Yn ei Ddatganiad Deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2011, ymrwymodd y Prif Weinidog i ymgynghori'n briodol ac i gysylltu'n ystyrion â'n partneriaid wrth ddatblygu deddfwriaeth. Yn unol â'r datganiad hwn, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Bil am 12 wythnos, o 12 Mawrth i 1 Mehefin 2012. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi'r prif egwyddorion o ran y meysydd sydd i'w newid ac yn ceisio barn ar gynnwys arfaethedig y Bil. Derbyniwyd 275 ymateb ysgrifenedig. Roedd cynigion drafft y Bil (a oedd yn ffurfio sylfaen y ddogfen ymgynghori) yn seiliedig ar drafodaethau â rhanddeiliaid allweddol, yn ogystal â dadleuon yn y Cynulliad ac mewn manau eraill, yn dilyn cyhoeddi *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru*. Roedd tystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion, a'n hadolygiad ni ein hunain o ddiogelu, hefyd yn darparu tystiolaeth bellach i'w defnyddio wrth ddatblygu'r cynigion hyn.
127. Cyflwynwyd y cynigion drafft i'r rhanddeiliaid mewn tri digwyddiad ymgynghori ledled Cymru. Mynychodd oddeutu 400 o bobl â diddordeb y rhain, o'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Cynhaliodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ddigwyddiad ymgynghori arbennig hefyd, ar ran Llywodraeth Cymru. Ceisio barn gweithwyr asiantaethau gwirfoddol oedd prif fwriad y digwyddiad hwn. Cynhaliodd Plant yng Nghymru hefyd ddigwyddiad tebyg ar gyfer rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y sector plant yng Nghymru.
128. Cyhoeddwyd copi o'r ddogfen ymgynghori (a gyhoeddwyd hefyd ar ffurf hawdd i'w darllen ac ar ffurf addas ar gyfer plant) a'r Crynodeb o'r Ymatebion iddi drwy gyfrwng Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 17 Hydref 2012. Fe'i dosbarthwyd hefyd i rhanddeiliaid ac i'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad.
129. Gellir dod o hyd i'r Adroddiad a rhestr o'r ymatebwyr yn:  
<http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/bill/?skip=1&lang=cy>

## 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

130. Mae'r Bil yn cynnwys amrywiaeth o ddarpariaethau ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Mae'r tabl canlynol yn dangos, mewn perthynas â phob darpariaeth:

- yr unigolyn neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo
- ym mha ffordd y mae arfer y pŵer
- pa mor briodol yw'r pŵer dirprwyedig
- y weithdrefn gymhwysol (cadarnhaol, negyddol, neu ddim gweithdrefn), os oes un.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
3(6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Nodir y diffiniad o "anabl" ar wyneb y Bil. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ymhellach pa gategorïau o bobl y ceir neu na cheir eu cynnwys o dan y diffiniad o 'anabl' at ddibenion y Ddeddf hon. Mae'r pŵer yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei fod yn darparu hyblygrwydd, os digwydd i'r diffiniad o "anabl" gael ei ystyried yn rhy gyfyng neu'n rhy eang.	Cadarnhaol	Mae pwnc y rheoliadau hyn yn derm allweddol a fydd yn dylanwadu ar effaith yr holl ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth ar grŵp craidd. Fel y cyfryw, bernir bod hyn yn fater priodol i'r weithdrefn gadarnhaol.
6	Gweinidogion Cymru	Cod	Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cod i helpu i gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y datganiad. Oherwydd y bydd cynnwys y cod yn ddibynnol ar y canlyniadau yn y datganiad, ni fyddai'n bosibl gwneud darpariaeth ar wyneb y Bil. Mae'n addas felly pennu cyfarwyddyd a gofynion mewn cod.	Bydd gweithdrefn statudol yn dilyn Codau eraill, fel y nodir yn adran 136 y Bil.	Bernir ei bod yn briodol y dylid gosod y darpariaethau yn y cod y mae'n rhaid i'r cyrff yr effeithir arnynt weithredu'n unol ag ef gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r weithdrefn wedi'i gosod ar wyneb y Bil.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
11(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pennir prif ddyletswyddau'r awdurdodau lleol a'r BILlau ar wyneb y Bil. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi gofynion pellach ar gyfer cynnal asesiadau o'r anghenion am ofal a chymorth a gwasanaethau ataliol mewn ardal. Caiff rheoliadau, er enghraifft, ddarparu'r gyfer amseru ac adolygu asesiadau. Mae'r math hwn o ddarpariaeth yn ddas ar gyfer rheoliadau.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
13(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Nodir y diffiniadau o "menter gymdeithasol" a "corff trydydd sector" ar wyneb y Bil. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ymhellach pa gategorïau o gyrff a gweithgareddau y ceir neu na cheir eu cynnwys fel mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol neu gyrff trydydd sector. Mae'r pŵer yn addas ar gyfer rheoliadau gan y ei fod yn galluogi darparu eglurder os digwydd i amheuaeth godi ynghylch ystyron y termau hyn.	Cadarnhaol	Mae pwnc y rheoliadau hyn yn ddiffiniad craidd a fydd yn pennu sut gellir dehongli neu gymhwyso darpariaethau eraill yn y ddeddfwriaeth. Fel y cyfryw, bernir bod hyn yn fater priodol i'r weithdrefn gadarnhaol.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
15(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Y brif ddyletswydd ar awdurdod lleol yw sefydlu a chynnal cofrestrau o bobl sydd â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw neu bobl anabl eraill. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ymhellach pa categorïau o bobl gaiff neu na chaiff eu trin fel rhai â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw neu sy'n anabl mewn ffordd arall. Mae hyn yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei fod yn darparu hyblygrwydd os digwydd yr ystyrir bod angen pennu categorïau penodol o bobl y dylid eu cynnwys mewn cofrestr.	Cadarnhaol	Mae pwnc y rheoliadau hyn yn ddiffiniad a fydd yn dylanwadu ar effaith darpariaethau eraill yn y ddeddfwriaeth ar grŵp craidd. Fel y cyfryw, bernir bod hyn yn fater priodol i'r weithdrefn gadarnhaol.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
24	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae prif ddyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â chynnal asesiadau anghenion wedi eu pennu ar wyneb y Bil. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau pellach ynglŷn â chynnal asesiadau anghenion. Mae'r pŵer yn addas ar gyfer rheoliadau, gan y bydd angen diwygio'r manylyn hwn dros amser ac yn rheolaidd wrth ymateb i dystiolaeth.	Negyddol	Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.



Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
26(3), (4) a (5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynglŷn ag arfer y dyletswyddau hyn; a phennu'r lefelau o angen y bydd anghenion person, os cyrhaeddant neu os ânt uwchlaw'r lefelau hynny, yn bodloni'r meini prawf cymhwyster, neu ddarparu ar gyfer achosion neu amgylchiadau pan ystyrir y bydd anghenion person yn bodloni'r meini prawf cymhwyster. Mae'r pŵer yn addas ar gyfer rheoliadau gan y bydd hynny'n galluogi Gweinidogion Cymru i gywreinio'r manylion wrth ymateb i dystiolaeth yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Mae'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol, mewn perthynas â phenderfynu pwy sy'n gymwys ac ystyried beth ddylid ei wneud i ddiwallu anghenion, wedi eu pennu ar wyneb y Bil, ond bydd y rheoliadau yn effeithio ar y ffordd y bydd awdurdod lleol yn penderfynu ynghylch a yw person yn gymwys i gael diwallu ei anghenion. Mae hyn yn cynnwys ystyriaethau o bwys arbennig, gan mai'r pwrpas a bennir yn y Ddeddf, a chaiff y prif sylwedd ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth. Felly mae'r weithdrefn gadarnhaol yn addas.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
30(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r prif amodau ar gyfer ysgogi'r ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn wedi eu nodi ar wyneb y Bil. Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod amodau ychwanegol er mwyn rhoi sylw i anghenion ac ystyriaethau yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Pwnc y rheoliadau hyn yw manylu amodau pellach a allai ymestyn cwrdd y ddyletswydd ar awdurdod lleol i ddarparu gofal a chymorth o dan y ddeddfwriaeth hon. Fel y cyfryw, bernir bod hyn yn fater priodol i'r weithdrefn gadarnhaol.
33(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r prif amodau ar gyfer ysgogi'r ddyletswydd i ddiwallu anghenion cymorth oedolyn wedi eu nodi ar wyneb y Bil. Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau, gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod amodau pellach, yn ychwanegol at y rhai a bennir ar hyn o bryd yn y Bil, er mwyn rhoi sylw i anghenion ac ystyriaethau yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Pwnc y rheoliadau hyn yw manylu amodau pellach a allai ymestyn cwrdd y ddyletswydd ar awdurdod lleol i ddarparu gofal a chymorth o dan y ddeddfwriaeth hon. Fel y cyfryw, bernir bod hyn yn fater priodol i'r weithdrefn gadarnhaol.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
34(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Nodir ar wyneb y Bil y prif amodau ar gyfer ysgogi'r ddyletswydd i ddiwallu anghenion cymorth plentyn sy'n ofalwr. Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau, gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod amodau pellach, yn ychwanegol at y rhai a bennir ar hyn o bryd yn y Bil, er mwyn rhoi sylw i anghenion ac ystyriaethau yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Pwnc y rheoliadau hyn yw manylu amodau pellach a allai ymestyn cwmpas y ddyletswydd ar awdurdod lleol i ddarparu gofal a chymorth o dan y ddeddfwriaeth hon. Fel y cyfryw, bernir bod hyn yn fater priodol i'r weithdrefn gadarnhaol.
38(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r prif waharddiad sy'n atal awdurdodau lleol rhag darparu gwasanaethau gofal iechyd wedi ei bennu ar wyneb y Bil. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid cwmpas y gwaharddiad hwnnw. Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau; s bydd tystiolaeth o unrhyw amheuaeth yn y dyfodol, ynghylch a oes pŵer ai peidio gan awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, gall y rheoliadau hyn egluro'r mater.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
38(8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r prif ddyletswyddau ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd wedi eu pennu yn y Deddfau GIG. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau ar gyfer datrys anghydfodau gyda chyrrff GIG, a gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn asesu'r anghenion am ofal iechyd. Mae'r pŵer yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y gofynion hyn yn atodol i'r prif ddyletswyddau.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
40(1)(d)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r amgylchiadau pan allai fod yn briodol gwneud taliadau wedi eu pennu ar wyneb y Bil. Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu amgylchiadau ychwanegol pan allai fod yn briodol gwneud taliadau i ddiwallu anghenion am ofal a chymorth.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

<b>Adran</b>	<b>Rhoddir y pŵer i</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm am y weithdrefn</b>
40(2)(c)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r amgylchiadau pan allai fod yn briodol gwneud taliadau wedi eu pennu ar wyneb y Bil. Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu amgylchiadau ychwanegol pan allai fod yn briodol i awdurdod lleol wneud taliadau i gyflawni ei ddyletswydd o ddarparu gwasanaethau ataliol.	Negyddol	Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
41(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer yn yr adran hon ac yn adrannau 42 a 43 yn gysylltiedig â'r pŵer yn adran 44. Mae gweithredu'r adran yn dibynnu ar wneud rheoliadau. Mae'r adran yn efelychu'r dull a ddilynwyd yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001. Drwy ganiatáu i reoliadau benderfynu a yw awdurdodau lleol dan rwymedigaeth i gynnig taliadau uniongyrchol, ynteu'n rhydd wneud hynny os dewisant, mae'n darparu gwell hyblygrwydd i ddatblygu polisi yn y dyfodol. Y pwrpas yw creu fframwaith eglur mewn deddfwriaeth sylfaenol, ond caniatáu hyblygrwydd yn y modd y'i haddesir o bryd i'w gilydd. Mae hon yn ffordd briodol o sicrhau nad â'r deddfwriaeth yn anghyfoes ac na fydd gofyn ei diwygio'n aml drwy gyfrwng biliau dilynol.	Negyddol	Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
42(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Gweler adran 41 uchod.	Negyddol	Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
43(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Gweler adran 41 uchod.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
44	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn caniatáu gwneud rheoliadau ynghylch ystod eang o faterion a allai godi, ynghlŷn â thaliadau uniongyrchol. Gall manylion y modd yr arferir y pwerau hyn newid o bryd i'w gilydd, i ganiatáu addasu'r polisi i gyfateb ag amgylchiadau cyfnewidiol.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
45(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn caniatáu gwneud rheoliadau i ragnodi'r materion y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt mewn cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth. Bydd y fframwaith a sefydlir gan adran 46, sy'n caniatáu pennu'r manylion mewn rheoliadau, yn darparu gwell hyblygrwydd i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer y gwahanol ddsbarthiadau o bersonau a gwmpesir gan y Bil.	Negyddol	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu gwneud darpariaeth fanwl ar gyfer y gwahanol ddsbarthiadau o bersonau, y bydd angen cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar eu cyfer. Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffur	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
47(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r adran hon yn cynnwys polisi newydd sy'n darparu ar gyfer hygludedd asesiadau gofal a chymorth, ac y mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn angenrheidiol, i alluogi datblygu eithriadau i'r gosodiad cyffredinol ar sail profiad yr awdurdod lleol o weithredu'r dyletswyddau newydd. Drwy'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, gobeithir osgoi'r angen i wneud diwygiadau cynnar yn y ddeddfwriaeth sylfaenol.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
48	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu ym mha achosion, ac o dan ba amodau, y mae'n rhaid i awdurdod lleol ddarparu, neu drefnu i ddarparu, llety a ffefrir, pan ddarperir llety i ddiwallu anghenion o dan adrannau 28 i 31 neu 33 i 36.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.



Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
52	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer, ac mewn cysylltiad ag, arfer pŵer awdurdod lleol i osod ffi. Bydd hyn yn caniatáu pennu mewn ffordd eglur fanylion helaeth, nad ydynt yn addas i'w cynnwys ar wyneb y Bil, a darparu'n wahanol ar gyfer gwahanol gategoriâu o berson a gwmpesir yn y Bil. Mae pwerau cyffelyb wedi eu cynnwys ar hyn o bryd ym</p> <p>Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 mewn perthynas â ffioedd dibreswyl ar gyfer oedolion.</p>	Negyddol	Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffur	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
53	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu o dan ba amgylchiadau na fydd pŵer awdurdod lleol i godi ffi am wasanaethau yn gymwys. Drwy ddefnyddio pŵer i wneud rheoliadau, gellir gweithredu'n hyblyg ac ymateb yn gyflym i amgylchiadau cyfnewidiol. Mae pwerau cyffelyb wedi eu cynnwys ar hyn o bryd ym Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 mewn perthynas â ffioedd dibreswyl ar gyfer oedolion.	Negyddol	Bydd rheoliadau wneir o dan y pŵer hwn yn galluogi ymateb yn hyblyg i newidiadau a all ddigwydd o bryd i'w gilydd, mewn anghenion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
55	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r adran hon yn caniatáu gwneud rheoliadau gan Weinidogion Cymru, ar gyfer ac mewn cysylltiad â chynnal asesiadau ariannol at ddibenion y darpariaethau o fewn y Ddeddf hon.	Negyddol	Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
56	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y ddarpariaeth hon yn eu galluogi i bennu o dan ba amgylchiadau na fydd y ddyletswydd o dan adran 54 yn gymwys. Mae pŵer o'r fath yn ofynnol er mwyn sicrhau y gellir ymateb yn brydlon a hyblyg pe bai angen gwneud newidiadau ar ôl rhoi'r Bil ar waith, o ystyried y model pobl yn Rhan 4 o'r Bil.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
57	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch dyfarniadau ar gallu person i dalu ffioedd am wasanaethau gofal a chymorth, neu, yn achos gofalwr, am wasanaethau cymorth. O ystyried y gwahanol ddsbarthiadau o berson a gwmpesir o fewn y darpariaethau hyn a'r lliaws o wahanol amgylchiadau y mae'n rhaid darparu ar eu gyfer, ni fyddai'n briodol cynnwys yr holl fanylion yn y Bil.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
58	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r amgylchiadau pan na fydd y ddyletswydd i roi effaith i ddyfarniad o dan adran 57, sy'n gosod ffi o dan adran 50, yn gymwys; ac o ba ddyddiad y dylai dyfarniad o'r fath gael effaith. Mae pŵer o'r fath yn ofynnol er mwyn sicrhau y gellir ymateb yn brydlon a hyblyg pe bai angen gwneud newidiadau ar ôl rhoi'r Bil ar waith, o ystyried y model pobl yn Rhan 4 o'r Bil. Mae pwerau cyffelyb wedi eu cynnwys ar hyn o bryd ym Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 mewn perthynas â ffioedd dibreswyl ar gyfer oedolion.	Negyddol	Manylion cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
59	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi manylion pellach ar gyfer, ac mewn cysylltiad â'r, penderfyniadau codi ffioedd a wneir o dan adrannau 50 a 57. Mae pwerau cyffelyb wedi eu cynnwys ar hyn o bryd ym Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 mewn perthynas â ffioedd dibreswyl ar gyfer oedolion.	Negyddol	Manylion cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
60	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r achosion, yr amgylchiadau a'r amodau mewn cysylltiad â chytundeb taliadau gohiriedig rhwng awdurdod lleol a pherson.	Negyddol	Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
61	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ganiatáu codi ffioedd am wasanaethau ataliol, fel y darperir o dan adran 12; ac am gymorth, fel y darperir o dan adran 14. Fodd bynnag, ni cheir gosod ffi o dan y rheoliadau hyn os oes ffi eisoes wedi ei gosod o dan adran 50. Y ffordd briodol o ymdrin â darpariaeth o'r fath yw trwy rheoliadau, a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn hyblyg a phrydlon i amgylchiadau sy'n codi o fabwysiadu'r model pobl yn Rhan 4 o'r Bil.	Negyddol	Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
62(8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu manylion pellach mewn perthynas ag adennill ffioedd a llog sy'n ddyledus gan berson i awdurdod lleol.	Negyddol	Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
63(10)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r gyfradd llog y caiff awdurdod lleol ei gosod mewn perthynas ag arwystl ar fuddiant person mewn tir o dan is-adran (9) o'r adran hon. Y ffordd briodol o ymdrin â darpariaeth o'r fath yw trwy reoliadau, a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn hyblyg a phrydlon i amgylchiadau sy'n codi o fabwysiadu'r model pobl yn Rhan 4 o'r Bil.	Negyddol	Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol manwl, a allai newid o bryd i'w gilydd.
64(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu o dan ba amgylchiadau na fydd atebolrwydd trosglwyddai i dalu i awdurdod lleol o dan is-adran (2) yn gymwys. Y ffordd briodol o ymdrin â darpariaeth o'r fath yw trwy reoliadau, a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn hyblyg a phrydlon i amgylchiadau sy'n codi o fabwysiadu'r model pobl yn Rhan 4 o'r Bil.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
69(5)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddyd, os tybiant fod angen hynny er mwyn diogelu aelodau'r cyhoedd rhag niwed difrifol, sy'n rhoi cyfarwyddiadau i awdurdod lleol mewn perthynas ag arfer pwerau'r awdurdod yn achos plentyn y mae'r awdurdod yn gofalu amdano.	Dim gweithdrefn	Bydd y pwerau cyfarwyddo hyn yn gymwys mewn amgylchiadau penodedig a phan fydd angen gweithredu ar frys. Nid oes gweithdrefn wedi ei phennu yn y Bil ar gyfer dyroddi cyfarwyddyd o'r fath. Mae hyn yn gydnaws â'r ddarpariaeth gyfredol yn Neddf Plant 1989.
74(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r modd y paratoir ac y cynhelir cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, o dan is-adrannau (1) a (2), yr hyn y dylid ei gynnwys yn y cynlluniau a sut y dylid eu hadolygu a'u diwygio. Mae adran 75 yn darparu enghreifftiau pellach o'r materion y caniateir eu cynnwys yn y cynlluniau a'r modd y ceir eu paratoi drwy reoliadau o dan y pŵer yn adran 74.	Negyddol	Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn. Mae'r weithdrefn negyddol yn efelychu'r weithdrefn a bennir ar hyn o bryd yn Neddf Plant 1989.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
78	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau pellach ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol. Mae adrannau 79 i 85 yn darparu manylion pellach am y mathau o reoliadau y ceir eu gwneud o dan adran 78.	Negyddol	Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol manwl, a allai newid o bryd i'w gilydd. Mae angen iddynt wneud darpariaeth fanwl ynghylch ystod o blant a phobl ifanc mewn amrywiol amgylchiadau. Mae'r weithdrefn negyddol yn efelychu'r weithdrefn a bennir ar hyn o bryd yn Neddf Plant 1989.
84(7)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddyd yn pennu sut mae'n rhaid i sefydliadau ymgymryd â'u swyddogaethau ynghylch y rheoliadau a nodir yn adran 78 uchod.	Dim gweithdrefn statudol	Bydd y pwerau cyfarwyddyd hyn yn berthnasol i awdurdodau unigol a gellir eu gwneud mewn amgylchiadau penodol a fydd yn gofyn i Weinidogion Cymru ymateb ar frys lle bydd angen.
88(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, mewn rheoliadau, y manylion ynghylch y modd y dylid cyflawni dyletswydd yr awdurdod lleol o sicrhau ymweliadau ar gyfer, a chyswllt gyda phlant sy'n derbyn gofal, fel y pennir yn is-adran (3)(a).	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn. Mae'r weithdrefn negyddol yn efelychu'r weithdrefn a bennir ar hyn o bryd yn Neddf Plant 1989.



Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffur	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
89(9)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau yr amgylchiadau pan fo person i'w ystyried yn annibynnol ar yr awdurdod sy'n penodi, at dibenion ymwelwyr annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol o dan yr adran hon.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn. Mae'r weithdrefn negyddol yn efelychu'r weithdrefn a bennir ar hyn o bryd yn Neddf Plant 1989.
92	Yr Arglwydd Ganghellor, gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer yn addas ar gyfer rheoliadau, gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi'r Arglwydd Ganghellor i bennu swyddogaethau pellach i swyddogion achosion teuluol Cymru mewn perthynas â phlant yr atgyfeiriwyd eu hachosion o dan adran 91(3).	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn. cynhwysir y weithdrefn negyddol ar hyn o bryd i'r ddarpariaeth gyfatebol a wneir yn Neddf Plant 1989.
93	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud yn ofynnol bod achos pobl plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn cael ei adolygu; ac yn galluogi gwneud darpariaethau gwahanol, pan fo'n briodol, ar gyfer y gwahanol gategorïau o blant a phobl ifanc y bydd y ddarpariaeth hon yn gymwys iddynt.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn. Mae'r weithdrefn negyddol yn efelychu'r weithdrefn a bennir ar hyn o bryd yn Neddf Plant 1989.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
95(6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd modd i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau sy'n pennu categorïau ychwanegol o bobl ifanc y bydd awdurdod lleol dan dyletswydd iddynt ; bydd y rheoliadau'n manylu ar sut y penderfynir ar yr awdurdod cyfrifol ar gyfer y categori hwnnw, yn ogystal â phennu pwy gaiff, neu na chaiff, eu trin fel rhai sy'n dod o fewn categori o bobl ifanc y cyfeirir ato yn is-adran (1) o'r adran hon.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn. Mae'r weithdrefn negyddol yn efelychu'r weithdrefn a bennir ar hyn o bryd yn Neddf Plant 1989.
97(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi swyddogaethau pellach ar gyfer cynghorwyr personol pobl ifanc, yn ychwanegol at y rhai a bennwyd eisoes.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn. Mae'r weithdrefn negyddol yn efelychu'r weithdrefn a bennir ar hyn o bryd yn Neddf Plant 1989.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
98(7)(c), (8) a (9)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r modd y cynhelir asesiad llwybr neu y paratoir cynllun llwybr a gwneud darpariaeth fanwl a gwahanol sy'n cymryd i ystyriaeth y gwahanol ddisbarthiadau o bobl ifanc y bydd angen asesiad neu gynllun o'r fath ar eu cyfer.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn. Mae'r weithdrefn negyddol yn efelychu'r weithdrefn a bennir ar hyn o bryd yn Neddf Plant 1989.
99(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi'r diffiniad o 'llety addas' ac addaswydd landlordiaid neu ddarparwyr llety eraill mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo llesiant pobl ifanc yng nghategori 2. Bydd yn caniatáu mabwysiadu dull amserol a hyblyg pan fo tystiolaeth yn dangos bod angen gwneud hynny.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn. Mae'r weithdrefn negyddol yn efelychu'r weithdrefn a bennir ar hyn o bryd yn Neddf Plant 1989.
106(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi "swm perthnasol" a gwneud darpariaeth i'w dalu yn ôl yr amgylchiadau lle gellir atafael y swm.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffur	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
106(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiffinio “addysg uwch”, “addysg bellach”, “amser llawn” a “gwyliau”.	Negyddol	Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
107(3) a (6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymhwyso'r darpariaethau codi ffioedd (a gynhwysir yn adrannau 54-60 a 62-64) i'r cymorth a ddarperir i bobl ifanc yng nghategoriau 2-5 (adrannau 99-106), a datgymhwyso gosod ffioedd ar unigolion sy'n cael budd-daliadau penodol.	Negyddol	Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn. Mae'r weithdrefn negyddol yn efelychu'r weithdrefn a bennir ar hyn o bryd yn Neddf Plant 1989.
109(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, at ddibenion adran 109, y cyfnodau hwyaf y ceir cadw plentyn mewn llety diogel.	Cadarnhaol	O ystyried ymrwymiad Gweinidogion Cymru i CCUHP mewn perthynas â Hawliau'r Plentyn, ac er bod y ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Plant 1989 yn pennu'r weithdrefn negyddol, tybir y dylai'r rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

<b>Adran</b>	<b>Rhoddir y pŵer i</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm am y weithdrefn</b>
109(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi disgrifiad o blentyn y caniateir, neu na chaniateir, ei roi mewn llety diogel o dan adran 109; ac i gynorthwyo gyda phenderfynu amgylchiadau o'r fath.	Cadarnhaol	O ystyried ymrwymiad Gweinidogion Cymru i CCUHP mewn perthynas â Hawliau'r Plentyn, ac er bod y ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Plant 1989 yn pennu'r weithdrefn negyddol, tybir y dylai'r rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.
112(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r trefniadau a swyddogaethau ychwanegol ar gyfer cynrychiolydd awdurdod lleol sy'n ymweld â phlentyn a letyir gan awdurdod iechyd neu awdurdod addysg, neu mewn cartref gofal neu ysbyty annibynnol, at ddibenion y ddyletswydd o dan is-adran (2).	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
117(9)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r darpariaethau ynglŷn â cheisiadau am orchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion wedi eu pennu ar wyneb y Bil. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod cyfyngiadau ar y personau y caniateir iddynt fod yn 'swyddog awdurdodedig' at ddibenion gwneud cais i ynad heddwch am orchmyn amddiffyn a chynorthwyo oedolion. Mae hyn yn addas ar gyfer rheoliadau, oherwydd hwyrach y bydd angen addasu'r cyfyngiadau hyn (megis cymwysterau a phrofiad) yng ngoleuni tystiolaeth.	Cadarnhaol	Pwnc y rheoliadau hyn yw nodi person a all ymgymryd â thasgau o dan yr adran hon fel mynd i gartref person ac asesu a yw'r person hwnnw mewn perygl o gael ei gam-drin. Fel y cyfryw, bernir bod pwysigrwydd cyfyngiadau ar pwy caiff ei gyfrif yn gymwys yn fater sy'n briodol i'r weithdrefn gadarnhaol.
123	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi manylion pellach ynglŷn ag aelodaeth, cyfansoddiad a gweinyddiad y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
124	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae hyn yn addas ar gyfer rheoliadau, gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, mewn perthynas â'r Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion: ardaloedd y Byrddau Diogelu; y partneriaid blaen ar gyfer y Byrddau Diogelu, a rhagnodi bod unrhyw berson neu gorff arall nas rhestrir yn yr adran yn bartner Bwrdd Diogelu. gall yr ardaloedd Bwrdd diogelu newid o bryd i'w gilydd yn unol ag ôl troed y sector cyhoeddus. Bydd rheoliadau yn darparu hyblygrwydd i newid y rhai sy'n bartneriaid blaen a phwy gaiff fod yn bartneriaid eraill i'r Byrddau Diogelu yng ngoleuni newidiadau eraill yn y ddeddfwriaeth, neu gymryd i ystyriaeth gyrrff neu bersonau newydd sydd â diddordeb mewn diogelu, ac a fyddai'n bartneriaid addas.</p>	Negyddol	<p>Manylun cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.</p>

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
125(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae hyn yn addas ar gyfer rheoliadau, gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi swyddogaethau pellach ar gyfer Bwrdd Diogelu, os byddai hynny'n cynorthwyo amcanion y Bwrdd Diogelu. Caiff y rheoliadau ragnodi'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan Fyrddau Diogelu, a chânt bennu sut a pha bryd y bydd rhaid rhoi cyfle i blant ac oedolion perthnasol gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu. Bydd y rheoliadau hyn yn darparu hyblygrwydd digonol i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym, os daw'n amlwg y byddai estyn swyddogaethau'r Bwrdd Diogelu yn gwella'r modd y diogelir oedolion a phlant.</p>	Cadarnhaol	<p>Gallai'r gweithdrefnau pellach neu'r gweithdrefnau penodedig a nodir drwy reoliadau roi mwy o faich neu ofynion newydd ar awdurdodau lleol neu bartneriaid Bwrdd Diogelu eraill. Fel y cyfryw, bernir bod hwn yn fater sy'n briodol i'r weithdrefn gadarnhaol.</p>



Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
126(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn addas ar gyfer rheoliadau, gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi manylion pellach ynglŷn â'r modd y paratwir cynllunio ac adroddiadau blynyddol gan y Byrddau Diogelu, yn ychwanegol at y rhai a bennir eisoes mewn manau eraill yn yr adran hon. Mae'r dyddiadau allweddol ar gyfer gwneud cynllun a chyhoeddi adroddiad wedi eu pennu ar wyneb y Bil, ac y mae rheoliadau yn addas ar gyfer manylion mwy technegol, megis ffurf a chynnwys y cynlluniau ac adroddiadau.	Negyddol	Manylion cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
128(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi bod taliadau i'w gwneud gan bartner Bwrdd Diogelu tuag at gost gweithredu'r Bwrdd y cynrychiolir y partner hwnnw arno; ac i ddarparu ar gyfer penderfynu swm y taliadau hynny. Bydd y rheoliadau hyn yn darparu hyblygrwydd i ymateb yn gyflym yn dyfodol, i unrhyw dystiolaeth bod angen newid y modd y cyllidir y Byrddau.	Negyddol	Manylion cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffur	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
129(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi swyddogaethau partneriaid Bwrdd Diogelu mewn perthynas â gweithrediad y Byrddau Diogelu y'u cynrychiolir arnynt. Bydd y rheoliadau hyn yn darparu hyblygrwydd digonol i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym os daw'n amlwg y gellir gwella diogelwch oedolion a phlant drwy swyddogaethau'r partneriaid Bwrdd Diogelu (sy'n ymwneud â'r Bwrdd Diogelu).	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
130	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae hyn yn addas ar gyfer gorchymyn gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu bod y Byrddau Diogelu plant ac oedolion, ym mhob ardal Bwrdd Diogelu unigol i uno, gan ffurfio Bwrdd sengl ym mhob ardal unigol. Bydd y pŵer hwn yn darparu hyblygrwydd i gyfuno Byrddau pan fydd y dystiolaeth yn dynodi y byddai hynny'n addas a phriodol.	Uwchgadarnhaol	Gallai gorchymyn o dan yr adran hon effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau'r rhan hon o'r Ddeddf. Mae ystyriaethau o bwysigrwydd arbennig yn gysylltiedig ag arfer y pŵer hwn. Byddai gorchymyn o dan y ddarpariaeth yn achosi newidiadau strwythurol yn y Byrddau Diogelu, drwy gyfuno swyddogaethau'r Byrddau Diogelu Oedolion a'r Byrddau Diogelu Plant.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
133(2)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae'r pŵer hwn i wneud gorchymyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu, diwygio a thynnu ymaith eitemau yn y tabl o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol sydd yn Atodlen 2 i'r Ddeddf hon.	Cadarnhaol	Byddai gorchymyn o dan yr adran hon yn effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Atodlen 2 i'r Ddeddf hon. Byddai gorchymyn o'r fath yn penderfynu pa rai o swyddogaethau awdurdod lleol sy'n swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. O ganlyniad, mae ystyriaethau o bwysigrwydd arbennig yn gysylltiedig ag arfer y pŵer hwn.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
134(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r cymwyseddau y dylid eu harddangos gan unrhyw Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol awdurdod lleol, at ddibenion is-adran (2). Ceir rhagnodi'r rhain naill ai mewn rheoliadau o dan y pŵer hwn.</p> <p>Fel arall caiff Gweinidogion Cymru ddewis cyflawni'r un nod drwy god o dan adran 135.</p>	<p>Negyddol</p> <p>Gweithdrefn statudol a osodir yn adran 136 o'r Bil.</p>	<p>Manyl yn cymharol fach yn y cynllun ddeddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.</p> <p>Ystyrir ei bod yn addas y dylid gosod y darpariaethau sydd yn y cod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhoddir y weithdrefn ar wyneb y Bil.</p>



Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
139	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddiadau pan ac os yw'n briodol, i wneud yn ofynnol bod awdurdod lleol unigol yn cydymffurfio â chodau ymarfer.	Dim gweithdrefn statudol	Bydd y pwerau cyfarwyddo hyn yn gymwys i awdurdodau unigol, a chânt eu gwneud mewn amgylchiadau penodol, pan fydd yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn ymateb yn gyflym.
143	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Bydd y pŵer hwn i ymyrryd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddiadau, mewn achosion pan fydd pŵer ganddynt i ymyrryd, i wneud yn ofynnol bod awdurdod unigol yn sicrhau gwasanaethau cynghori.	Dim gweithdrefn statudol (rhaid gosod copi o fewn 21 diwrnod i gyhoeddi ac adroddiad o fewn 90 diwrnod ar y camau sydd wedi'u cymryd gan awdurdod lleol i gydymffurfio)	Cymhwysir y pwerau cyfarwyddo hyn i awdurdodau unigol, a chânt eu gwneud mewn amgylchiadau penodol, a allai newid o bryd i'w gilydd. Ni phennir gweithdrefn statudol ar gyfer gweithredu felly, er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru adweithio ar frys pan fo'n ofynnol ymyrryd mewn awdurdod lleol sy'n methu

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
144	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddiadau, mewn achosion pan fo ganddynt bŵer i ymyrryd, sy'n gwneud yn ofynnol cyflawni swyddogaethau gan bersonau eraill, ar ran awdurdod lleol.	Dim gweithdrefn statudol (rhaid gosod copi o fewn 21 diwrnod i gyhoeddi ac adroddiad o fewn 90 diwrnod ar y camau sydd wedi'u cymryd gan awdurdod lleol i gydymffurfio)	Cymhwysir y pwerau cyfarwyddo hyn i awdurdodau unigol, a chânt eu gwneud mewn amgylchiadau penodol, a allai newid o bryd i'w gilydd.  Ni phennir gweithdrefn statudol ar gyfer gweithredu felly, er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru adweithio ar frys pan fo'n ofynnol ymyrryd mewn awdurdod lleol sy'n methu.
145	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddiadau, mewn achosion pan fo ganddynt bŵer i ymyrryd, sy'n gwneud yn ofynnol cyflawni swyddogaethau gan Weinidogion Cymru neu gan enwebai ar ran awdurdod lleol.	Dim gweithdrefn statudol (rhaid gosod copi o fewn 21 diwrnod i gyhoeddi ac adroddiad o fewn 90 diwrnod ar y camau sydd wedi'u cymryd gan awdurdod lleol i gydymffurfio)	Cymhwysir y pwerau cyfarwyddo hyn i awdurdodau unigol, a chânt eu gwneud mewn amgylchiadau penodol, a allai newid o bryd i'w gilydd.  Ni phennir gweithdrefn statudol ar gyfer gweithredu felly, er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru adweithio ar frys pan fo'n ofynnol ymyrryd mewn awdurdod lleol sy'n methu.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
146	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddiadau, mewn achosion pan fo ganddynt bŵer i ymyrryd, sy'n gwneud yn ofynnol cyflawni swyddogaethau gan Weinidogion Cymru neu gan enwebai ar ran awdurdod lleol.	Dim gweithdrefn statudol	Cymhwysir y pwerau cyfarwyddo hyn i awdurdodau unigol, a chânt eu gwneud mewn amgylchiadau penodol, a allai newid o bryd i'w gilydd.  Ni phennir gweithdrefn statudol ar gyfer gweithredu felly, er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru adweithio ar frys pan fo'n ofynnol ymyrryd mewn awdurdod lleol sy'n methu.
147	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddiadau cyffredinol, mewn achosion pan fo ganddynt y pŵer i ymyrryd, i awdurdod lleol neu unrhyw un o'i swyddogion.	Dim gweithdrefn statudol (rhaid gosod copi o fewn 21 diwrnod i gyhoeddi ac adroddiad o fewn 90 diwrnod ar y camau sydd wedi'u cymryd gan awdurdod lleol i gydymffurfio)	Cymhwysir y pwerau cyfarwyddo hyn i awdurdodau unigol, a chânt eu gwneud mewn amgylchiadau penodol, a allai newid o bryd i'w gilydd.  Ni phennir gweithdrefn statudol ar gyfer gweithredu felly, er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru adweithio ar frys pan fo'n ofynnol ymyrryd mewn awdurdod lleol sy'n methu.



Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
152(4)(g)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'r "partneriaid perthnasol" y gosodir dyletswyddau arnynt gan yr adran hon wedi eu pennu ar wyneb y Bil.</p> <p>Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi 'partneriaid perthnasol' y mae'n rhaid iddynt gydweithredu â'r awdurdod leol i wneud trefniadau o dan yr adran hon. Mae hyn yn darparu hyblygrwydd i ychwanegu mwy o gyrff fel partneriaid os bernir bod angen gwneud hyn.</p>	Negyddol	Mae ychwanegu corff arall fel partner awdurdod lleol at ddiben cydweithredu yn y maes hwn yn gam cymharol fach ac nid yw'n ddadleuol.
153(4)(c)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'r "partneriaid perthnasol" y gosodir dyletswyddau arnynt gan yr adran hon wedi eu pennu ar wyneb adran 25 o ddeddf Plant 2004. Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi 'partneriaid perthnasol' y mae'n rhaid iddynt gydweithredu â'r awdurdod leol i wneud trefniadau o dan adran 25. Mae hyn yn darparu hyblygrwydd i ychwanegu mwy o gyrff fel partneriaid os bernir bod angen gwneud hyn.</p>	Negyddol	Mae ychwanegu corff arall fel partner awdurdod lleol at ddiben cydweithredu yn y maes hwn yn gam cymharol fach ac nid yw'n ddadleuol.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffur	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
156	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu trefniadau partneriaeth penodol rhwng awdurdodau lleol a'i gilydd a rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae'r pŵer yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei fod yn darparu hyblygrwydd i gyflwyno modelau newydd o drefniadau partneriaeth wrth ymateb i dystiolaeth yn y dyfodol.	Cadarnhaol	Bydd y rheoliadau hyn yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol a BILlau yn ymuno mewn trefniadau partneriaeth penodedig. Bydd ystyriaethau o bwysigrwydd arbennig yn codi, gan mai yn y rheoliadau y pennir prif sylwedd y cynllun deddfwriaethol.
157(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi manylion pellach ynglŷn â chyllido trefniadau partneriaeth Mae gwneud y rheoliadau hyn yn ddibynnol ar reoliadau eraill sy'n gwneud yn ofynnol sefydlu trefniadau partneriaeth penodedig. Mae'n addas, felly, gwneud y ddarpariaeth hon mewn rheoliadau, gan na fyddai'n bosibl ei gwneud ar wyneb y Bil.	Cadarnhaol	Gall y rheoliadau hyn benderfynu'r cyfraniadau y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol a'r BILlau eu gwneud ar gyfer cyllido'r trefniadau partneriaeth. Mae gan hyn oblygiadau polisi sylweddol ac felly mae'n addas ar gyfer y weithdrefn gadarnhaol.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffur	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
158	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi amgylchiadau pan ddylid sefydlu a gweithredu Bwrdd Partneriaeth, pan fo trefniadau eisoes wedi eu gwneud ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Mae gwneud y rheoliadau hyn yn ddibynnol ar rheoliadau eraill sy'n gwneud yn ofynnol sefydlu trefniadau partneriaeth penodedig. Mae'n addas, felly, gwneud y ddarpariaeth hon mewn rheoliadau, gan na fyddai'n bosibl ei gwneud ar wyneb y Bil.	Cadarnhaol	Gall y rheoliadau hyn wneud yn ofynnol sefydlu bwrdd partneriaeth a darparu ar gyfer gweithredu'r bwrdd. Gallai hyn ysgogi goblygiadau polisi sylweddol ac felly mae'n addas ar gyfer y weithdrefn gadarnhaol.
160	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Gellir arfer y pŵer hwn yn hyblyg, gan ganiatáu i Weinidogion Cymru gyflunio'r cyd-drefniadau yn y ffordd sy'n ymateb orau i'r amgylchiadau o bryd i'w gilydd. Mae'n debygol y bydd angen addasu'r polisi ar sut i fanteisio orau ar y cyd-drefniadau.	Gofyniad i ymgynghori â'r awdurdodau lleol yr effeithir arnynt	Y personau yr effeithir arnynt drymaf drwy wneud cyfarwyddiadau fydd yr awdurdodau lleol. Mae gofyniad i ymgynghori â'r awdurdodau lleol yn briodol.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
161	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r amgylchiadau pan ganiateir mynegi cwyn ynghylch gwasanaethau cymdeithasol; a phwy ddylai ystyried cwynion ar fath, neu at bwy y dylid eu hatgyfeirio. Mae adran 162 yn darparu enghreifftiau pellach o'r darpariaethau y ceir eu gwneud mewn rheoliadau o dan yr adran hon (161). Mae hyn yn addas ar gyfer rheoliadau, er mwyn i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym ac effeithiol i unrhyw dystiolaeth o blaid newid y dull o ymdrin â chwynion.	Negyddol	Mae'r pwerau hyn yn ailddatgan pwerau yn adrannau 114 a 115 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 sy'n ddarostyngedig i Benderfyniad Negyddol. Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.

<b>Adran</b>	<b>Rhoddir y pŵer i</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm am y weithdrefn</b>
163	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r amgylchiadau pan ganiateir darparu help (ar ffurf cynrychiolaeth neu fel arall) i bob sy'n gwneud (neu'n bwriadu gwneud) cwyn o dan adran 161; Mae'r pŵer yn addas ar gyfer rheoliadau gan y bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym a hyblyg yn y dyfodol, os canfyddir tystiolaeth bod angen cymorth ar rai grwpiau ar gyfer gwneud cwynion.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
164(7) ac (8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu at y gofynion ar gyfer y weithdrefn awdurdod lleol sydd i'w sefydlu o dan adran 155. Mae'n addas ar gyfer rheoliadau gan y bydd yn ymdrin â manylion gweithdrefnol	Negyddol	Ailddatganiad yw hwn o ddarpariaeth yn Rhan III o Ddeddf Plant 1989 sy'n ddarostyngedig i Benderfyniad Negyddol. Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol manwl.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffur	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
165(2) a (3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gofynion ychwanegol ynghylch monitro camau a gymerir i gydymffurfio â gofynion ac mewn perthynas â therfynau amser. Mae'r pŵer yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei fod yn darparu hyblygrwydd i newid materion gweithdrefnol manwl, y gall fod angen eu newid o bryd i'w gilydd.	Negyddol	Ailddatganiad yw hwn o adran 26(4) i (8) yn Rhan III o Ddeddf Plant 1989 sy'n ddarostyngedig i Benderfyniad Negyddol. Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol manwl.
166(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gofynion ychwanegol ynghylch y weithdrefn y mae'n rhaid ei sefydlu a'r terfynau amser sy'n gymwys i'r weithdrefn.	Negyddol	Ailddatganiad yw hwn o adran 24Dyn Rhan III o Ddeddf Plant 1989 sy'n ddarostyngedig i Benderfyniad Negyddol. Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol manwl, a allai newid o bryd i'w gilydd.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
167	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer ystyried sylwadau (gan gynnwys cwynion) ymhellach. Mae'r pŵer yn addas ar gyfer rheoliadau er mwyn i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym ac effeithiol i unrhyw dystiolaeth o blaid newid yn y modd y dylid ymdrin â chwynion.	Negyddol	Ailddatganiad yw hwn o adran 26ZB yn Rhan III o Ddeddf Plant 1989 sy'n ddarostyngedig i Benderfyniad Negyddol. Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol manwl.
168(4), (5) a (6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu manylion pellach ynghylch trefniadau awdurdodau lleol i ddarparu help i blant a phobl ifanc penodedig ar gyfer gwneud cwynion. Mae'r pŵer yn addas ar gyfer rheoliadau gan y bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym a hyblyg i unrhyw dystiolaeth o blaid newid yn y modd y dylid ymdrin â chymorth ar gyfer gwneud cwynion a sylwadau.	Negyddol	Ailddatganiad yw hwn o adran 26A yn Rhan III o Ddeddf Plant 1989 sy'n ddarostyngedig i Benderfyniad Negyddol. Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol manwl.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
174(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau ynghylch y personau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu cynnwys mewn cysylltiad â bodloni anghenion o dan adran 172(2). Mae hwn yn fater priodol i'r rheoliadau oherwydd gallai'r personau newid gydag amser.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
174(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau ynghylch y personau y mae'n rhaid ymgynghori â nhw mewn cysylltiad â bodloni anghenion a rhoi diffiniad o 'fethiant busnes' at ddibenion yr adran hon ac adran 172.	Negyddol	Manyl yn cymharol fach yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol fydd pwnc y rheoliadau hyn.
177(1), (3) a (6)(e)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n pennu a oes gan berson, ai peidio, anghenion gofal a chymorth na ellir eu diwallu ac eithrio drwy ddarparu math penodol o lety; a phennu categorïau ychwanegol o gyfnodau mewn llety preswyl y mae'n rhaid eu diystyru wrth benderfynu statws preswylfa arferol plentyn.	Negyddol	Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol manwl, a allai newid o bryd i'w gilydd.



Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
178(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynglŷn â phenderfynu preswylfa arferol.	Negyddol	Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol manwl, a allai newid o bryd i'w gilydd.
181	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn gwneud darpariaethau canlyniadol, trosiannol ac eraill. Nid oes modd pennu'r holl ddarpariaethau hyn ar wyneb y Bil, gan ei bod yn bosibl y gellir gwneud darpariaeth ym Mil Gofal a Chymorth y DU – mae hynny'n dibynnu ar amseroedd cychwyn y ddau Fil.	Negyddol (ac eithrio wrth ychwanegu, amnewid neu hepgor unrhyw ddeddfiad – cadarnhaol )	Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol pan fo rheoliadau yn effeithio ar ddeddfwriaeth sylfaenol.  Mae gweithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau eraill sy'n gwneud darpariaeth dechnegol yn unig.
182(2)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae hyn yn addas ar gyfer gorchymyn, gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cychwyn y Bil.	Dim gweithdrefn statudol.	Bydd y gorchymynion hyn yn gyfyngedig i gychwyn, ac yn dechnegol eu natur.
Atodlen 1 (5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu at drefniadau sy'n gwneud cyfraniadau'n ofynnol tuag at gynhaliaeth plentyn sy'n derbyn gofal, mewn perthynas ag ystyriaethau a gweithdrefnau.	Negyddol	Bydd y rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol manwl, a allai newid o bryd i'w gilydd.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
Atodlen 3, Rhan 1 (yn mewnosod Rhannau 2A a 2B yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Yn addas ar ffurf gorchymyn gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio Atodlen 3A i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 dros amser i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau, ystyried cyrff newydd neu newid swyddogaethau cyrff.	Cadarnhaol	Mae'n bosibl bydd y mater(ion) y rhoddir sylw iddynt o dan y pŵer hwn naill ai'n ychwanegu at faich gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drwy gynyddu nifer y cwynion a ddaw o fewn ei faes gorchwyl, neu'n cyfyngu ar ei bwerau drwy dynnu ymaith ei allu i ystyried cwynion penodol. O ganlyniad, ystyrir mai'r weithdrefn gadarnhaol sy'n briodol. Mae hyn yn efelychu'r dull a ddilynir yn adran 28 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Adran	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer a ddirprwyir	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
Atodlen 3, Rhan 1 (yn mewnosod Rhannau 2A a 2B yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae'r ddarpariaeth hon yn addas ar ffurf gorchymyn gan ei bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio adran 34U(7) Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 i ychwanegu neu dynnu ymaith eitemau o'r rhestr o ombwdsmyr, i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau, megis creu swyddi newydd neu newid swyddogaethau.	Cadarnhaol	Bydd y mater(ion) y rhoddir sylw iddynt o dan y pŵer hwn yn cynnwys ystyriaethau o bwysigrwydd arbennig. Mae'n bosibl y gosodir gofynion i gydweithredu ar yr Ombwdsmon a chyrrff eraill. O ganlyniad, ystyrir mai'r weithdrefn gadarnhaol sy'n briodol. Mae hyn yn efelychu'r dull a ddilynir yn adran 25 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

131. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei gwblhau yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi) ar gyfer y Bil arfaethedig ac mae wedi'i gynnwys yn Rhan 2 y Memorandwm Esboniadol hwn.

## RHAN 2 – ASESAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 7. Dewisiadau

132. Mae'r Bil yn creu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Gyda'i gilydd, bydd Rhannau'r Bil yn sicrhau system newydd ar gyfer cael gafael ar ofal a chymorth. Wrth gynnal yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi ystyried y Bil yn ei gyfanrwydd ac rydym wedi ceisio pwysu a mesur yr effaith o ran y prif elfennau newid yn y system sy'n sail i amcanion polisi'r Bil yn hytrach na'r Rhannau unigol.
133. Ystyriwyd dau ddewis mewn perthynas â'r prif newidiadau i'r system sy'n sail i amcanion polisi'r Bil:
- a. **Dewis 1: Gwneud dim – cynnal y status quo**
  - b. **Dewis 2: Darparu un statud unedig i bobl (plant, oedolion a'u gofalwyr) sy'n golygu bod modd trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i wella llesiant pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, a'r rheini sy'n gofalu amdanynt.**
134. Caiff pob Dewis ei bwysu a'i fesur o ran i ba raddau y byddai'n cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Mae Pennod 8 y Memorandwm Esboniadol hwn yn cynnwys costau a manteision pob dewis.

#### **Dewis 1: Gwneud dim**

135. Byddai'r Dewis hwn yn cadw'r gyfraith sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd mewn perthynas â gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd nid oes un statud gofal cymdeithasol unedig y mae modd i awdurdodau lleol a defnyddwyr gofal gyfeirio ato er mwyn gweld pa wasanaethau mae modd eu darparu neu y dylid eu darparu. Mae cymhlethdod y fframwaith cyfreithiol presennol yn hysbys iawn: mae tystiolaeth yn awgrymu bod y cymhlethdod presennol yn llesteirio cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol i'r cyhoedd, sy'n ystumio blaenoriaethau ymarfer a gweithredu bwriadau polisi'r Llywodraeth<sup>22 23</sup>.
136. Mae'r dystiolaeth ym Mhennod 3 y Memorandwm Esboniadol hwn ynghylch y gofynion ar y gwasanaethau nawr a'r gofynion a ddisgwylir yn y dyfodol mewn cyd-destun o gyllid cyhoeddus cyfyngedig yn golygu y bydd cyflenwi gwasanaethau yn unol â'r arfer presennol yn dod yn fwyfwy anfforddiadwy.

---

<sup>22</sup> *Review of Adult Social Care Law in England and Wales (Comisiwn y Gyfraith, Mai 2011)*  
<http://lawcommission.justice.gov.uk/publications/1460.htm>

<sup>23</sup> *Munro Review of Child Protection (Yr Adran Addysg, 2011)*  
<http://www.education.gov.uk/munroreview/>

**Dewis 2: Darparu un statud unedig i bobl (plant, oedolion a'u gofalwyr) sy'n golygu bod modd trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i wella llesiant pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, a'r rheini sy'n gofalu amdanynt.**

137. Mae Llywodraeth Cymru yn ffafrio Dewis 2. Bydd yn golygu bod modd cyflwyno Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a fydd yn ymdrin â'r canlynol:

- a. Diwygio ac integreiddio cyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith;
- b. Darparu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan;
- c. Rhagnodi ar gyfer darparu gwybodaeth hygyrch o ansawdd uchel i unigolion, i ofalwyr ac i deuluoedd;
- d. Creu system sy'n fwy cyson yn genedlaethol ar gyfer asesiadau a chymhwysedd i ddefnyddwyr ac i ofalwyr; a
- e. Sicrhau mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol a rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol a rhwng awdurdodau lleol i sicrhau bod gofal yn cael ei gomisiynu a'i gyflenwi'n effeithiol.

## 8. Costau a Manteision

138. Bydd y Bil, a'r rheoliadau, y gorchmynion a'r Codau Ymarfer dilynol a wneir o dan y Bil yn rhoi'r bensaernïaeth i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol. Felly caiff y costau a'r manteision i gyflawni newid mawr o'r fath eu priodoli'n gywir dros amser. Y bwriad yw gweithredu'r Bil fesul cam dros dair i bum mlynedd gan ddechrau yn 2015/16. Bydd y trefniadau manwl ar gyfer y system yn y dyfodol, yn enwedig gweithredu proses graidd awdurdodau lleol ar gyfer asesiadau, rheoli gofal, cymhwysedd a'r system adolygu ar gyfer gofal a chymorth i bobl a chymorth i ofalwyr, yn cael eu cynnwys mewn rheoliadau a fydd yn mynd drwy asesiad o'r effaith manylach o'r costau a'r manteision. Wrth ragweld yr effaith nawr felly, mae angen cydnabod bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch rhai o'r costau a'r manteision a roddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

### Costau

(A) *DIWYGIO AC INTEGREIDDIO CYFRAITH GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU*

#### **Dewis 1: Gwneud dim – cynnal y status quo**

139. Ni thybir bod dim costau ychwanegol o dan y dewis hwn. Fodd bynnag byddai costau cyfredol y system bresennol yn parhau i fodoli, ynghyd â'r costau diangen sy'n gysylltiedig â chyflwr aneffeithlon y gyfraith bresennol yn y maes hwn.

#### **Dewis 2: Diwygio ac integreiddio cyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru**

140. Costau ychwanegol y dewis hwn yw'r costau sy'n gysylltiedig â diwygio ac integreiddio cyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y rhain yn cynnwys costau:

- a. *hyfforddi staff gwaith cymdeithasol i fabwysiadu'r gyfraith newydd;*
- b. *costau dosbarthu gwybodaeth am y newidiadau; a'r*
- c. *costau i Lywodraeth Cymru a fydd yn deillio o weithredu'r newidiadau.*

a. *hyfforddi staff gwaith cymdeithasol i fabwysiadu'r gyfraith newydd;*

141. Os gwneir y Bil, bydd costau ychwanegol i awdurdodau lleol Cymru oherwydd bydd angen ailhyfforddi eu gweithlu gwasanaethau cymdeithasol ar ofynion y gyfraith newydd. Cost drosiannol (h.y. untro) yw hon. Mae rhywfaint o wybodaeth ar gael am nifer y staff y byddai'n rhaid eu hailhyfforddi ar y cam hwn. Fodd bynnag byddai'r costau hyfforddi'n dibynnu ar i ba raddau y gellid ymgorffori gofynion hyfforddi ychwanegol yn nhrefniadau hyfforddi presennol awdurdodau lleol. Er mwyn darparu canllaw i'r goblygiadau posibl o ran costau, mabwysiadwyd y tybiaethau a

ddefnyddiwyd yn Asesiad o'r Effaith Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn rhoi amcangyfrif enghreifftiol<sup>24</sup>.

142. Mae Comisiwn y Gyfraith yn tybio y byddai hyfforddiant allanol yn costio £45 y dydd fesul gweithiwr cymdeithasol. Mewn gwirionedd, bydd rhywfaint o hyfforddiant yn cael ei wneud yn fewnol gan awdurdodau lleol (a allai fod yn rhatach); fodd bynnag, wrth ystyried y diffyg eglurder ynghylch trefniadau hyfforddi, mae'n ddoeth tybio y bydd yr holl hyfforddiant angenrheidiol ar y gyfraith newydd yn cael ei ddarparu gan hyfforddwr allanol. Bydd lefel yr hyfforddiant angenrheidiol hefyd yn amrywio yn ôl cyfrifoldebau'r aelod o staff gwaith cymdeithasol sy'n cael ei hyfforddi. Er enghraifft, efallai y bydd ar weithiwr cymdeithasol angen hyfforddiant manylach yn benodol ar y gyfraith newydd nag aelod o staff awdurdod lleol sy'n cyflawni swyddogaeth weinyddol neu gefnogol wrth ddarparu gwasanaethau.
143. Yn ôl y data sydd ar gael am ofal cymdeithasol awdurdodau lleol, at ei gilydd mae 4,429 o staff sy'n '*Rheolwyr Tîm a gweithwyr cymdeithasol*' a '*Hyfforddeion/cynorthwyywyr gwaith cymdeithasol*'<sup>25</sup>. Ymddengys ei bod yn rhesymol tybio y byddai angen rhywfaint o hyfforddiant ar y gyfraith newydd ar y nifer hyn o staff o leiaf. Wrth ychwanegu staff gofal cymdeithasol awdurdodau lleol a restrir yn '*Rheolwyr a chymorth canol*' at y ffigur hwn hefyd, mae cyfanswm nifer y staff y gallai fod angen hyfforddiant arnynt yn codi i oddeutu 9,000. Tybir bod y naill ffigur a'r llall yn rhoi ystod gall sy'n sail ar gyfer cynnal asesiad priodol o'r goblygiadau o ran costau hyfforddiant y ddeddfwriaeth arfaethedig.
144. Mae Comisiwn y Gyfraith yn tybio y byddai angen chwe diwrnod o hyfforddiant ar y mwyaf; wedi'u gwasgaru dros ddwy flynedd (wedi'u rhannu yn bedwar diwrnod yn y flwyddyn gyntaf a deuddydd yn y flwyddyn ganlynol). Bydd lefel yr hyfforddiant yn amrywio yn ôl cyfrifoldebau'r staff, fodd bynnag, unwaith eto mae'n ddoeth mabwysiadu dull ceidwadol a thybio y byddai ar yr holl staff angen chwe diwrnod o hyfforddiant am £45 y dydd fesul gweithiwr.
145. Drwy ddefnyddio'r niferoedd staff a nodir uchod er mwyn darparu ystod, amcangyfrifir y bydd gweithredu'r Bil yn golygu **cost hyfforddiant trosiannol rhwng £1.2 a £2.4 miliwn i awdurdodau lleol. Tybir mai'r amcangyfrif gorau yw ffigur yn y canol sef £1.8 miliwn.** Bydd y gost hon yn codi yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl cyflwyno'r Bil. O'r adeg

---

<sup>24</sup> *Review of Adult Social Care Law in England and Wales (Comisiwn y Gyfraith, Mai 2011)*  
<http://lawcommission.justice.gov.uk/publications/1460.htm>

<sup>25</sup> *Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol Niferoedd Staff, 31 Mawrth 2012,*  
<http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/health2012/1210241/?skip=1&lang=cy>. Nid yw'r ffigurau yn y diweddariad ystadegol hwn a amlinellir yn nhabl 3 yn cynnwys staff yng Nghaerdydd. Y ffigur ar gyfer staff yng Nghaerdydd yn nodyn (a) ar gyfer y tabl hwnnw yw 1,423, ond mae hyn yn cynnwys staff sy'n gweithio ym mhob ardal. Wrth ystyried Rheolwyr Tîm a hyfforddeion/cynorthwyywyr gwaith cymdeithasol yn unig, yr amcangyfrif yw 229 o aelodau ychwanegol o staff.



honno ymlaen, byddai gofynion hyfforddiant parhaus arferol yn cyflawni unrhyw angen a fyddai'n parhau<sup>26</sup>.

146. Yn ogystal â'r costau hyfforddiant trosiannol uchod, bydd cost cyfle hefyd o ran yr amser y bydd yn rhaid i staff gwaith cymdeithasol awdurdodau lleol ei dreulio oddi wrth eu desgiau wrth gael yr hyfforddiant sydd ei angen ar y Bil. Mae hyn yn golygu cost adnoddau gwirioneddol i awdurdodau lleol. Unwaith eto, tybir y bydd angen chwe diwrnod o hyfforddiant ar rhwng 4,429 a 9,000 o staff (am saith awr o hyfforddiant y dydd). Caiff cost cyfle yr amser a dreulir mewn hyfforddiant ei gyfrifo drwy ddefnyddio cost cyflog cyfartalog o £38 yr awr<sup>27</sup> – sef yr amcangyfrif o gyflog awr gweithiwr cymdeithasol. Mae defnyddio'r ffigur hwn yn debyg o roi goramcangyfrif gan na fydd yr holl staff y bydd angen eu hyfforddi yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig (ac felly efallai eu bod ar gyflogau is). Mae cost cyfle chwe diwrnod o hyfforddiant (am saith awr y dydd) ar gost cyflog o £38 yr awr yn rhoi **cost cyfle untro o £7.1 i £14.4 miliwn. Tybir mai'r amcangyfrif gorau yw ffigur yn y canol sef £10.7 miliwn.**

147. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn rhoi llawer o gyllid grant i awdurdodau lleol i gefnogi datblygu'r gweithlu ar draws y sector gofal cymdeithasol. Mae'r grant yn grant arian cyfatebol gyda gwariant wedi'i gynllunio ar Raglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2012-13 sy'n rhoi cyfanswm o £12,015,714. Mae'r elfen grant, sy'n darparu 70% o gost y rhaglen, yn £8,411,000. Bwriedir i'r grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ategu adnoddau hyfforddi'r cyflogwyr. Caiff y cyllid ei ddarparu i gydnabod y gofynion hyfforddiant ychwanegol sylweddol sydd ar y gweithlu gofal cymdeithasol ac mae eisoes wedi'i anelu at uwchsgilio, ennill cymwysterau newydd ac adeiladu ar gymwysterau sydd eisoes yn bodoli.

148. Mae tystiolaeth o fonitro grantiau'n awgrymu ar gyfartaledd bod staff gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol yn cael oddeutu pum niwrnod o hyfforddiant y flwyddyn sydd wedi cael eu cefnogi gan grant.

149. Gan ddechrau yn 2013-14, bydd y cyllid grant hwn yn cael ei ailgyfeirio i sicrhau bod y staff perthnasol yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol i baratoi ar gyfer y Ddeddf a'i gweithredu ac er mwyn talu am gostau dosbarthu gwybodaeth am y newidiadau.

*b. costau dosbarthu gwybodaeth am y newidiadau; ac*

*c. costau i Lywodraeth Cymru a fydd yn deillio o weithredu'r newidiadau.*

150. Costau trosiannol yw'r costau uchod (b. ac c.) a Llywodraeth Cymru fydd yn talu amdanynt. Hyd yn hyn, mae £1.5 miliwn wedi cael ei roi i

<sup>26</sup> Mae Comisiwn y Gyfraith hefyd yn awgrymu y bydd yn cymryd llai o amser i ddysgu strwythur cyfreithiol symlach yn y dyfodol, a allai arwain at arbedion effeithlonrwydd wrth hyfforddi gweithwyr cymdeithasol yn y tymor hir.

<sup>27</sup> Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol, Costau Uned Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 2011

awdurdodau lleol a'u partneriaid feithrin capasiti yn lleol a dechrau paratoi ar gyfer gweithredu yn 2013-14. Mae'r cyllid hwn yn cyd-fynd â bwriad Llywodraeth Cymru i ailgyfeirio cyllid grant cyfredol i dalu'r costau hyn. Bydd gwaith y rhaglen weithredu a gwaith partneriaeth gyda phartneriaid darparu yn nodi costau pellach mewn perthynas â gweithredu a lledaenu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd.

*(B) DARPARU GWASANAETHAU ATAL AC YMYRRYD YN FUAN*

**Dewis 1: Gwneud dim – cynnal y status quo**

151. Nid oes dim costau ychwanegol o dan y dewis hwn. Fodd bynnag bydd costau'r system bresennol yn dal i fodoli. Mae'n hysbys bod y system bresennol yn ymyrryd pan fydd argyfwng yn codi yn hytrach na mewn ffordd ataliol. Yn gyffredinol, nid yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Ar hyn o bryd mae rhai enghreifftiau o arfer da o ran darparu gwasanaethau ataliol gan awdurdodau lleol yng Nghymru, fodd bynnag mae gweithredu hyn yn ddarniog, a disgwylir y bydd y rhwystrau presennol i wella'r ffocws ar atal yn parhau os na fydd llywodraeth yn camu i mewn.

**Dewis 2: Rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu (neu drefnu ar gyfer) amrywiaeth a lefel o wasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan ar gyfer eu hardal**

152. Bydd y dewis hwn yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu neu drefnu gwasanaethau a chyfleusterau sy'n addas yn eu barn nhw i ohirio dyfodiad anghenion sy'n fwy cymhleth am ofal a chymorth, neu i leihau dwysâd anghenion o'r fath yn eu hardal leol. Mae sefydlu dyletswydd o'r fath yn cyd-fynd ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer y maes hwn o'r gyfraith ac mae'n adlewyrchu'r disgwyliadau presennol yng nghyswllt deddfwriaeth plant. Nid ydym yn disgwyl y bydd y ddyletswydd hon yn arwain at unrhyw gostau newydd i awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, efallai y bydd yn golygu goblygiadau i'r GIG. Bwriedir i'r ddyletswydd godeiddio ymarfer sydd wedi ennill ei blwyf a chanllawiau statudol sy'n bodoli mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn hytrach nag ymestyn cwmpas cyfrifoldebau awdurdodau lleol yn y maes hwn yn sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i lunio asesiad effaith llawn o'r newidiadau a gynigir gan unrhyw reoliadau o'r fath cyn eu rhoi ar waith, yn ogystal â dadansoddiad llawn o'r opsiynau sydd ar gael yn y maes hwn.

*(C) RHAGNODI AR GYFER DARPARU GWYBODAETH HYG YRCH O ANSAWDD UCHEL I UNIGOLION, I OFALWYR AC I DEULUOEDD*

**Dewis 1: Gwneud dim – cynnal y status quo**

153. dan y dewis hwn bydd costau'n dal i godi ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth yng ngoleuni pwysau demograffig cynyddol; fodd bynnag tybir o dan y dewis hwn y bydd darparu gwybodaeth am gymhwysedd a

mynediad yn dal yn ddarniog, fel y gwelwyd drwy dystiolaeth yn ddiweddar gan *Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*<sup>28</sup>.

**Dewis 2: Rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth hygyrch o ansawdd uchel i unigolion, i ofalwyr ac i deuluoedd**

154. Roedd Comisiwn y Gyfraith, gyda chefnogaeth y *Comisiwn ar Ariannu Gofal a Chymorth*<sup>29</sup>, wedi argymhell y dylai deddfwriaeth gynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar wasanaethau yn eu hardal i ddisodli dyletswydd sydd yn adran 1 *Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970*<sup>30</sup>.

155. Bydd y ddyletswydd yn mynnu ei bod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau darparu gwasanaeth sy'n rhoi:

- a. gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â gofal a chymorth; a
- b. cymorth o ran cael gafael ar ofal a chymorth.

156. Fan leiaf, bydd y cyngor uchod yn golygu ei bod yn rhaid cyhoeddi gwybodaeth a chyngor ar faterion sy'n ymwneud â:

- a. y system y darperir ar ei chyfer gan Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a sut y mae'r system yn gweithredu yn ardal yr awdurdod lleol;
- b. y mathau o ofal a chymorth, a'r darparwyr sydd ar gael yn ardal yr awdurdod lleol;
- c. sut y mae cael gafael ar y gofal a'r cymorth sydd ar gael; a
- d. sut y mae codi pryderon am lesiant rhywun sy'n ymddangos bod angen gofal a chymorth arno.

157. Nid ydym yn disgwyl y bydd moderneiddio dyletswydd debyg sydd eisoes yn bodoli yn arwain at unrhyw gostau sylweddol ynddo'i hun. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod ansawdd yr wybodaeth sy'n cael ei darparu gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn amrywio. Mae'n bosibl hefyd y bydd gwybodaeth well yn arwain at fwy o alw am ofal, a fydd yn cynyddu costau. Nid ydym yn gwybod beth fyddai graddfa unrhyw gynnydd o'r fath mewn galw, ac ar y cam hwn nid oes modd amcangyfrif y costau sydd ynghlwm wrth hyn, hyd nes y llunnir cynigion manylach fydd yn amlinellu'r camau gofynnol. Felly, bydd angen monitro hyn yn ofalus. Fodd bynnag mae agweddau eraill ar y Bil fel y darpariaethau sy'n ymwneud â meini prawf cymhwysedd cenedlaethol yn rhoi lifrau i reoli unrhyw gynnydd yn y galw mewn cwmpasau cyllido yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i lunio asesiad effaith llawn o'r newidiadau a gynigir gan unrhyw

<sup>28</sup> *Adolygiad Cenedlaethol o Fynediad a Chymhwyster yn y Gofal Cymdeithasol i Oedolion: Adroddiad Trosolwg (AGGCC, 2010)*  
<http://wales.gov.uk/cssiws/subsite/newcssiw/publications/ourfindings/allwales/2010/4481596/?skjp=1&lang=cy>

<sup>29</sup> <http://www.dilnotcommission.dh.gov.uk/>

<sup>30</sup> <http://legislation.gov.uk/ukpga/1970/44/contents>

reoliadau o'r fath cyn eu rhoi ar waith, yn ogystal â dadansoddiad llawn o'r opsiynau sydd ar gael yn y maes hwn.

**(D) CREU SYSTEM SY'N FWY CYSON YN GENEDLAETHOL AR GYFER ASESIADAU A CHYMHWYSEDD I DDEFNYDDWYR AC I OFALWYR**

**Dewis 1: Gwneud dim – cynnal y status quo**

158. Nid oes dim costau ychwanegol o dan y Dewis hwn. Er gwaethaf y cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn y maes hwn yn ddiweddar, ceir amrywiadau amlwg o hyd o ran yr hyn y gall defnyddwyr gwasanaeth ei ddisgwyl mewn rhannau gwahanol o'r wlad fel y gwelwyd mewn tystiolaeth gan y *Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru*<sup>31</sup> ac *Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*<sup>32</sup>.

**Dewis 2: Creu system sy'n fwy cyson yn genedlaethol ar gyfer asesiadau, cymhwysedd i ddefnyddwyr ac i ofalwyr**

159. Bwriedir i'r newidiadau i broses graidd awdurdodau lleol ar gyfer asesiadau a chymhwysedd gael eu gwneud drwy reoliadau ar ôl cyflwyno'r Bil. Ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod beth fydd costau unrhyw newidiadau o'r fath oherwydd bydd angen treialu newidiadau mewn bandiau cymhwysedd a phrosesau asesu gydag awdurdodau lleol er mwyn casglu rhagor o dystiolaeth ar yr effeithiau posibl yn y lle cyntaf. Byddai nifer o ddewisiadau ar gael ar gyfer gweithredu newidiadau posibl yn y maes hwn mewn cwmpasau cyllido yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynhyrchu asesiad llawn o effaith dewisiadau o'r fath cyn cyflwyno unrhyw newidiadau drwy reoliadau penodol.

**(E) SICRHAU MWY O GYDWEITHREDU YMYSG AWDURDODAU LLEOL A RHWNG AWDURDODAU LLEOL A BYRDDAU IECHYD LLEOL I SICRHAU BOD GOFAL YN CAEL EI GOMISIYNU A'I GYFLENWI'N EFFEITHLON**

**Dewis 1: Gwneud dim – cynnal y status quo**

160. Nid oes dim costau ychwanegol o dan y dewis hwn. Bydd pwysau demograffig yn dal i waethygu'r problemau presennol sy'n cael eu creu drwy weithio mewn seilos. Heb fframwaith sy'n fwy cydgyssylltiedig a chydlynol i integreiddio, bydd diffygion presennol yn cael eu chwyddo wrth i ragor o bobl ddod i gysylltiad ag ystod eang o wasanaethau iechyd a gofal. Mae hyn yn awgrymu, oni bai y bydd newid, y bydd rhagor o ddefnyddwyr gofal yn cael trafferth dod o hyd i'w ffordd drwy system gymhleth; bydd rhagor o bobl yn cael canlyniadau iechyd a gofal

<sup>31</sup> *Gweithredu'r Weledigaeth: Adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, (Tachwedd 2010)* <http://www.icssw.org/vision/?skip=1&lang=cy>

<sup>32</sup> *Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2010-2011 (AGGCC, 2011)* <http://wales.gov.uk/cssiwsbnewcssiw/publications/annualreports/1011ar/?skip=1&lang=cy>

cymdeithasol gwael diangen; a bydd y boblogaeth ehangach yn dioddef oherwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd aneffeithlon.

**Dewis 2: Cyflwyno Bil i sicrhau cydweithredu a chydweithio effeithiol rhwng awdurdodau cyhoeddus gyda golwg ar wella llesiant plant, oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth a gofalwyr sydd ag anghenion cymorth**

161. Rydym yn disgwyl y bydd nifer o ganllawiau sy'n bodoli (yn ogystal â'r darpariaethau yn y Bil) yn helpu i erydu'r rhwystrau sefydliadol, diwylliannol ac ariannol sy'n atal integreiddio gofal yng Nghymru. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl amcangyfrif y costau sydd ynghlwm wrth ragor o gydweithredu rhwng awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru cyn sefydlu rheoliadau manylach yn amlinellu'r camau y mae'n rhaid eu cymryd. Mae'r dystiolaeth o brofiad yn y maes hwn yn dangos bod costau trosiannol posibl y mae modd ymdrin â nhw drwy gynlluniau fel y rhaglen Buddsoddi i Arbed. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynhyrchu asesiad llawn o effaith y newidiadau sy'n cael eu cynnig gan unrhyw reoliadau o'r fath cyn eu gweithredu yn ogystal â dadansoddiad llawn o'r dewisiadau sydd ar gael yn y maes hwn.

**Manteision**

*(A) DIWYGIO AC INTEGREIDDIO CYFRAITH GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU*

**Dewis 1: Gwneud dim – cynnal y status quo**

162. Ni chaiff dim manteision ychwanegol eu gwireddu o dan y dewis hwn. Ni fyddai'n rhaid talu costau diwygio'r gyfraith. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae aneffeithlonrwydd yn cael ei greu oherwydd bod y ddeddfwriaeth bresennol yn gymhleth ac yn dameidiog.

**Dewis 2: Diwygio ac integreiddio cyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru**

163. Dyma'r dewis sy'n cael ei ffafrio. Ceir nifer o fanteision ac arbedion parhaus (h.y. cylchol) sydd ynghlwm wrth foderneiddio; symleiddio; a chyfnerthu'r gyfraith mewn perthynas â gofal cymdeithasol yng Nghymru. Disgwylir i'r rhain gynnwys:

- a. gostyngiad yn y baich gweinyddol ar Weithwyr Cymdeithasol (gan y byddant yn treulio llai o amser yn dehongli materion cyfreithiol);
- b. gostyngiad yn nifer y cwynion i awdurdodau lleol (a chostau cysylltiedig ymdrin â chwynion o'r fath); a
- c. gostyngiad yn lefel yr ymglyfreitha y bydd awdurdodau lleol yn ei wynebu.

164. Mae'r uchod yn feysydd a nodwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith *Review of Adult Social Care Law*<sup>33</sup>. Trafodir hyd a lled posibl y manteision hyn isod.

(a) *Gostyngiad yn y baich gweinyddol ar weithwyr cymdeithasol*

165. Er y cydnabyddir ei fod yn ddull eithaf amrwd; roedd Comisiwn y Gyfraith yn tybio y bydd gweithwyr cymdeithasol yn arbed rhwng 20 a 45 munud yr wythnos ar gyfartaledd ar ôl diwygio cyfraith gofal cymdeithasol i oedolion. Fel procsi felly, tybir bod yr arbediad hwn yn bodoli ar gyfer y newidiadau a wneir fel rhan o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yng Nghymru – sy'n derbyn y rhan fwyaf o argymhellion Comisiwn y Gyfraith (ond sydd hefyd yn edrych ar agweddau ar y gyfraith mewn perthynas â phlant). Mae oddeutu 20 i 45 munud yr wythnos o amser gweithwyr cymdeithasol fwy neu lai yn golygu 0.68% i 1.54% o amser gweithwyr cymdeithasol y flwyddyn.

166. Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru mae oddeutu 4,429 o staff cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi mewn gwasanaethau gwaith cymdeithasol yng Nghymru<sup>34</sup>. Nid ydym yn gwybod faint a gyflogir fel gweithwyr cymdeithasol. Ar ben hynny, nid ydym yn gwybod faint sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i oedolion (y mae arbedion Comisiwn y Gyfraith yn berthnasol iddo). Heb wybodaeth well, rydym yn tybio bod y 4,429 o staff cyfwerth ag amser llawn yn weithwyr cymdeithasol – mae'n ddigon posibl bod hyn yn oramcangyfrif. Rydym hefyd yn tybio bod 3,300 yn gweithio mewn gofal cymdeithasol i oedolion<sup>35</sup>. Amcangyfrifir bod cost unigol (gan gynnwys argostau) cyfogi gweithiwr cymdeithasol yn £52,363 y flwyddyn<sup>36</sup>. Byddai defnyddio tybiaethau Comisiwn y Gyfraith o ran arbedion amser felly'n awgrymu y byddai gostyngiad yn y baich gweinyddol i 3,300 o weithwyr cymdeithasol cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru yn sgil cyfraith symlach yn gallu **rhyddhau manteision gwerth hyd at £1.2 i £2.7 miliwn y flwyddyn. Mae ein hamcangyfrif gorau yn tybio ffigur yn y canol sef oddeutu £2 miliwn y flwyddyn.** Yn anochel mae rhywfaint o ansicrwydd o ran yr arbedion amser gwirioneddol a gyflawnir yma, fodd bynnag, pennir bod y ffigurau a nodwyd uchod (a defnyddio tybiaethau Comisiwn y Gyfraith) yn rhoi amcangyfrif rhesymol at ddibenion enghreifftiol.

<sup>33</sup> *Review of Adult Social Care Law in England and Wales (Comisiwn y Gyfraith, Mai 2011)*  
<http://lawcommission.justice.gov.uk/publications/1460.htm>

<sup>34</sup> Mae'r ffigur hwn yn cynnwys rheolwyr timau gwaith cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol a hyfforddeion/cynorthwyrwyr gwaith cymdeithasol. Nid yw'n cynnwys staff gwaith cymdeithasol mewn ysbytai/clinigau na sefydliadau preswyl neu ofal dydd. Gweler Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol Niferoedd Staff, 31 Mawrth 2012, <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/health2012/1210241/?jsessionid=EE60F89B602AE29CE8A62267458FBFE4?skip=1&lang=cy>

<sup>35</sup> Caiff y ffigur hwn ei gyfrifo drwy ddefnyddio amcangyfrifon Canol 2010 Cymru sy'n dangos bod 79% o boblogaeth Cymru yn oedolion – mae 79% o 4,200 yn rhoi oddeutu 3,300 – felly caiff y ffigur hwn ei ddefnyddio fel canllaw gan nad oes gwybodaeth well ar gael.

<sup>36</sup> *Dyma gost gyfartalog gweithwyr cymdeithasol yn 2010/11 ac argostau uniongyrchol – Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol, Costau Uned Iechyd a Gofal Cymdeithasol.*

*(b) Gostyngiad yn nifer y cwynion i awdurdodau lleol*

167. Mae'n rhesymol tybio y bydd strwythur cyfreithiol sy'n fwy modern yn lleihau nifer y cwynion ac felly'r costau a gaiff awdurdodau lleol wrth ymchwilio i gwynion o'r fath. Ni ddisgwylir y bydd gostyngiad mewn cwynion yn digwydd yn uniongyrchol o ganlyniad i wahaniaeth sylweddol yn y penderfyniadau a wneir am ddarpariaeth gwasanaeth o dan gyfraith newydd, ond yn hytrach, oherwydd bydd llai o gamgymeriadau yn y lle cyntaf. Maes o law dylai hyn arwain at lai o gwynion. Yn y lle cyntaf gall y rheini sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru gwyno wrth eu hawdurdod lleol neu, os nad ydynt yn fodlon, i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Prin iawn yw'r wybodaeth sydd ar gael ynghylch y nifer a'r costau sydd ynghlwm wrth ymdrin â chwynion am wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd. Ni chaiff gwybodaeth am gwynion ei chasglu fel mater o drefn ar lefel genedlaethol ond o'r wybodaeth leol sydd ar gael rydym yn gwybod bod awdurdodau lleol yn ymdrin â dros 2,000 o gwynion Cam 1 am wasanaethau cymdeithasol bob blwyddyn.

168. Mae Comisiwn y Gyfraith yn tybio ei bod yn ymarferol disgwyl y byddai statud sy'n fwy modern yn gallu arwain at ostyngiad o 10% yn nifer y cwynion a ddaw i law. Mae Adran Iechyd Llywodraeth y DU yn cytuno â barn ac amcangyfrif Comisiwn y Gyfraith y byddai'r arbedion i awdurdodau lleol yn Lloegr ac Ombwdsmon Llywodraeth Leol Lloegr a gyflawnir drwy ostyngiad o 10% mewn cwynion yn arwain at arbed oddeutu £1.4 miliwn y flwyddyn<sup>37</sup>. Er bod hyn efallai'n gorsymleiddio, ond gan nad oes gwybodaeth well ar gael, byddai defnyddio poblogaeth Cymru a Lloegr i gynhyrchu ffigur ar gyfer y gost fesul hawliad fesul aelod o'r boblogaeth yn awgrymu petai modd cyflawni **arbedion o'r fath drwy ostyngiad mewn hawliadau** yng Nghymru, y byddent **oddeutu £80,000 y flwyddyn**.

*(c) gostyngiad yn lefel yr ymgyfreitha y bydd awdurdodau lleol yn ei wynebu*

169. Mae Comisiwn y Gyfraith yn credu y gallai symleiddio'r gyfraith arwain ar leihau lefel yr ymgyfreitha y bydd awdurdodau lleol yn ei wynebu. Mae'n dilyn y bydd llai o gamgymeriadau'n cael eu gwneud oherwydd camddechongli pan fydd y gyfraith yn llai cymhleth. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r farn hon. Cyfyngedig yw'r wybodaeth sydd ar gael am y manteision a'r effeithiau posibl yma. Mae Comisiwn y Gyfraith yn awgrymu y gellid arbed 15% o'r amser a dreulir gan gyfreithwyr awdurdodau lleol drwy gyflwyno cyfraith symlach. Amcangyfrif gorau Comisiwn y Gyfraith ar gyfer nifer y cyfreithwyr sydd mewn awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yw 192 o bobl. Drwy ddefnyddio cymhareb poblogaeth (o 5.8%) awgrymir bod oddeutu 11 o gyfreithwyr yn gweithio mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn ymddangos yn isel wrth ystyried bod 22 awdurdod lleol. Fodd bynnag, defnyddir y ffigur i

<sup>37</sup> *Impact Assessment, Annex A, Reform of Adult Social Care Legislation*  
<http://www.dh.gov.uk/health/2012/07/careandsupportwhitepaper/> (Yr Adran Iechyd, 2012)

ddarparu amcangyfrif ceidwadol. Tybir bod cyflog canolrif cyfreithiwr (ac argostau) yn £46,400 y flwyddyn. Felly byddai rhyddhau 15% o amser 11 cyfreithiwr yn arwain at **fantais bosibl gwerth oddeutu £80,000 y flwyddyn**. Ar ben hynny, byddai arbedion ychwanegol yn cael eu gwneud wrth ystyried costau uniongyrchol ymglyfreitha, gan gynnwys ffioedd Cwnselwyr, costau llys ac alldaliadau eraill.

**(B) DARPARU GWASANAETHAU ATAL AC YMYRRYD YN FUAN**

**Dewis 1: Gwneud dim – cynnal y status quo**

170. Ni ddisgwylir dim manteision ychwanegol o dan y dewis hwn. Ar hyn o bryd mae rhai enghreifftiau o arfer da o ran gwasanaethau ataliol, ond mae gweithredu hyn yn ddarniog, a disgwylir y bydd y rhwystrau presennol i wella'r ffocws ar atal yn parhau yn y dyfodol os na fydd Llywodraeth yn camu i mewn.

**Dewis 2: Rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu neu drefnu i ddarparu amrywiaeth a lefel o wasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan ar gyfer eu hardal**

171. Disgwylir y bydd y dewis hwn yn arwain at fanteision yn y tymor hwy gyda rhai costau trosiannol i ddechrau. Nid oes modd mesur yr arbedion ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dod i'r fei o bapurau adolygu systematig sy'n awgrymu bod ymyriadau ataliol yn gallu gwella canlyniadau iechyd a gofal<sup>38, 39, 40</sup>.

172. Yn ogystal, mae Prosiectau Partneriaeth Pobl Hŷn (POPPS) yr Adran Iechyd, sydd â'r nod o ddod â darparwyr iechyd a sector gwirfoddol ynghyd i ddatblygu gwasanaethau sy'n amrywio o ymyriadau lefel isel fel clybiau cinio i fentrau mwy ffurfiol fel gwasanaethau ymateb brys, wedi dechrau dangos tystiolaeth o ganlyniadau gwell fel llai o bobl yn aros dros nos mewn ysbytai a llai o bobl yn cael eu lleoli mewn cartrefi gofal<sup>41</sup>. Mae gwelliannau o'r fath yn debygol o wneud arbedion cysylltiedig, fel yn achos menter Southwark lle gwelwyd gostyngiad yn nifer y lleoliadau mewn cartrefi gofal. Mae hyn yn cyfateb ag arbedion o oddeutu £720,000 ar gyfer pecynnau cartrefi gofal yn gyffredinol.<sup>42</sup>

<sup>38</sup> Gillespie, L., Robertson, M., Gillespie, W., Lamb, S., Gates, S., Cumming, R. a Rowe, B., *Interventions for Preventing Falls in Older People Living in the Community*, Cochrane Review, 2010

<sup>39</sup> Turner, S., Arthur, G., Lyons, R., Weightman, A., Mann, M., Jones, S., John, A. a Lannon, S., *Modification of the Home Environment for the Reduction of Injuries*, Cochrane Review, 2011.

<sup>40</sup> McClure, R., Turner, C., Peel, N., Spinks, A., Eakin, E. a Hughes, K., *Population-based Interventions for the Prevention of Fall-related Injuries in Older People*, Cochrane Review, 2008.

<sup>41</sup> *Transitional and longer-term implications of the Social Services and Well-being (Wales) Bill 2013 (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chonffederasiwn y GIG, Medi 2013)*

<sup>42</sup> *ibid*



173. Mae enghraifft arall o sut gellir cael manteision o wasanaethau ataliol i'w gweld yng ngwaith Gofal a Thrwsio Cymru, y corff cenedlaethol ar gyfer y mudiad gofal a thrwsio yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn cynnig gwasanaethau sy'n amrywio o fân addasiadau i welliannau i'r cartref a chyngor lles gyda'r nod o hyrwyddo annibyniaeth ac ail-alluogi. Mae hyn felly'n atal neu'n lleihau'r angen am dderbyniadau mewn ysbytai neu ofal cymdeithasol estynedig. Er nad yw hyn yn cael ei awgrymu fel cymharydd uniongyrchol, mae gwaith dadansoddi'n awgrymu, am bob £1 sy'n cael ei buddsoddi yn elfen Addasiadau Ymateb Brys eu gwaith, bod y GIG yn arbed £7.50 drwy gyfuniad o osgoi derbyn claf i'r ysbyty, neu drwy allu rhyddhau claf yn gynt.<sup>43</sup>

174. Mae tystiolaeth ar gael hefyd bod darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i gynnal eu hiechyd a llesiant yn gallu atal neu ohirio'r angen am ymyriadau drutach<sup>44</sup>. Fodd bynnag, gan fod y dystiolaeth ar effeithiau'n dal i ddod i'r amlwg mewn meysydd, a bod rhai bylchau'n dal i fodoli mewn ymchwil, bydd angen i awdurdodau lleol fabwysiadu dull gweithredu hyblyg, a chyfeirio at y dystiolaeth ddiweddaraf wrth benderfynu pa wasanaethau ac ymyriadau fydd yn rhoi'r canlyniadau gorau yn eu hardaloedd perthnasol.

(C) *RHAGNODI AR GYFER DARPARU GWYBODAETH HYG YRCH O ANSAWDD UCHEL I UNIGOLION, I OFALWYR AC I DEULUOEDD*

**Dewis 1: Gwneud dim – cynnal y status quo**

175. Ni ddisgwylir dim manteision ychwanegol o dan y dewis hwn. Efallai y bydd rhywfaint o gynnydd mewn darparu cyngor a gwybodaeth yng ngoleuni pwysau demograffig cynyddol; fodd bynnag tybir y bydd y ddarpariaeth bresennol o wybodaeth am gymhwysedd a mynediad yn dal yn ddarniog (fel y gwelwyd drwy dystiolaeth yn ddiweddar gan *Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*<sup>45</sup> mewn adroddiadau blynyddol dros y blynyddoedd diwethaf).

**Dewis 2: Rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth hygyrch o ansawdd uchel i unigolion, i ofalwyr ac i deuluoedd**

176. Tybir y bydd gwella'r wybodaeth a'r cyngor i'r cyhoedd yn arwain at fanteision parhaus ychwanegol i'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ni fu modd mesur yr arbedion hyn. Fodd

---

<sup>43</sup> *ibid*

<sup>44</sup> *National Evaluation of Partnerships for Older People Projects: Adroddiad Terfynol (Yr Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol, 2010) Gwasanaethau Cymdeithasol*  
[http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH\\_111240](http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_111240)

<sup>45</sup> *Adolygiad Cenedlaethol o Fynediad a Chymhwyster yn y Gofal Cymdeithasol i Oedolion: Adroddiad Trosolwg (AGGCC, 2010)*

bynag, ceir tystiolaeth i awgrymu bod manteision. Er enghraifft, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu:

- a. mae ei gwneud yn haws cael gafael ar wybodaeth yn gallu lleihau pryder<sup>46</sup>;
- b. mae gwybodaeth yn rhag-amod i ddewis<sup>47</sup> (canfu Windle et al fod ar 10% o ymatebwyr eisiau i rywun wneud penderfyniadau ar eu rhan, ac roedd ar dros 50% eisiau gwybodaeth a chyingor. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rheini nad ydynt yn rhyngweithio â'u hawdurdod lleol, ac felly efallai byddant yn gwneud heb ofal yn gyfan gwbl); ac
- c. mae Baxter et al yn awgrymu bod darparu gwybodaeth sy'n hygyrch i bawb yn gallu gwella dewis mewn modd anghymesur i'r rheini yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol is<sup>48</sup>.

(D) *CREU SYSTEM SY'N FWY CYSON YN GENEDLAETHOL AR GYFER ASESIADAU, CYMHWYSEDD I DDEFNYDDWYR AC I OFALWYR*

**Dewis 1: Gwneud dim – cynnal y status quo**

177. Nid oes dim manteision ychwanegol o dan y dewis hwn. Bydd amrywiadau'n parhau o ran yr hyn y gall defnyddwyr gwasanaeth ei ddisgwyl mewn rhannau gwahanol o'r wlad, fel y gwelwyd mewn tystiolaeth gan y *Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru*<sup>49</sup> ac *Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*<sup>50</sup>. Ar ben hynny, ceir tystiolaeth i awgrymu bod ar unigolion ofn colli eu pecyn o wasanaethau gofal wrth symud i ardal ddaearyddol arall<sup>51</sup>. Mae hyn yn cyfyngu ar eu rhyddid i symud ac mae'n bosibl iddo ychwanegu at bryder y rheini sydd eisoes yn cael eu hystyried yn agored i niwed.

**Dewis 2: Creu system sy'n fwy cyson yn genedlaethol ar gyfer asesiadau, cymhwysedd i ddefnyddwyr ac i ofalwyr**

178. Disgwylir y bydd y dewis hwn yn arwain at fanteision. Er ei bod yn anodd rhoi gwerth ariannol cywir ar fanteision asesiadau sy'n fwy sensitif ac effeithiol, mae'n bosibl i'r diwygiadau a wneir i'r system drwy reoliadau yn y dyfodol arwain at ganlyniadau gwell i unigolion a mwy o eglurder i

<sup>46</sup> Windle, K., Netten, A., Caiels, J., Masrani, R., Welch, E. a Forder, J., *Measuring the Outcomes of Information and Advice Services: Adroddiad Terfynol*, 2010.

<sup>47</sup> *Choice and Competition in Public Services: A Guide for Policy Makers*, (OFT, 2010)

<sup>48</sup> Baxter, K., Glendinning, C. a Clarke, S., *Making Informed Choices in Social Care: the Importance of Accessible Information, Health and Social Care in the Community*, 16 (2), 2008.

<sup>49</sup> *Gweithredu'r Weledigaeth, Adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru*, Tachwedd 2010, <http://www.icssw.org/vision/?skip=1&lang=cy>

<sup>50</sup> *Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2010-2011* (AGGCC, 2011) <http://wales.gov.uk/cssiwswebsite/newcssiw/publications/annualreports/1011ar/?skip=1&lang=c>

<sup>51</sup> *Cutting the Cake Fairly: Review of Eligibility for Social Care* (Y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol, 2008)

weithwyr proffesiynol mewn awdurdodau lleol sy'n cynnal asesiadau. Bydd effeithiau'r holl Ddewisiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn y maes hwn yn cael eu gwneud cyn cyflwyno unrhyw reoliadau.

179. Mae'r dewis hwn hefyd yn ceisio ei gwneud yn haws cludo cynlluniau gofal a chymorth, a fydd hefyd yn rhan o unrhyw reoliadau yn y dyfodol a fydd yn cael eu llunio yn y maes hwn. O dan y system bresennol, ceir perygl y gallai unigolyn neu deulu golli gofal a chymorth hollbwysig am gyfnod os byddant yn symud rhwng ardaloedd awdurdod lleol; nes iddynt gael eu hailasesu gan yr awdurdod lleol sy'n eu derbyn. Mae'n dilyn felly y byddai ei gwneud yn haws cludo asesiadau'n arwain at enillion llesiant sylweddol drwy alluogi unigolion i symud yn nes at deuluoedd a ffrindiau neu i lety sy'n fwy addas, a fyddai'n golygu manteision o ran canlyniadau gwell a gostyngiadau posibl mewn costau i'r wladwriaeth. Byddai hefyd yn helpu defnyddwyr a gofalwyr i symud er mwyn derbyn neu aros mewn cyflogaeth, a fyddai'n golygu manteision i'r economi ehangach drwy fwy o gynhyrchiant ac o bosibl gostyngiad mewn faint o fudd-daliadau lles sy'n cael eu hawlio.

(E) *SICRHAU MWY O GYDWEITHREDU YMYSG AWDURDODAU LLEOL A RHWNG AWDURDODAU LLEOL A BYRDDAU IECHYD LLEOL I SICRHAU BOD GOFAL YN CAEL EI GOMISIYNU A'I GYFLENWI'N EFFEITHLON*

**Dewis 1: Gwneud dim – cynnal y status quo**

180. Nid oes dim manteision ychwanegol o dan y dewis hwn. Mae'n bosibl y gall pwysau demograffig greu cymhellion i leihau gweithio mewn seilios rhwng awdurdodau cyhoeddus. Fodd bynnag, heb fframwaith cydgysylltiedig a chydlynol ar gyfer integreiddio, tybir y bydd diffygion presennol y system yn parhau.

**Dewis 2: Cyflwyno Bil i sicrhau cydweithredu a chydweithio effeithiol rhwng awdurdodau cyhoeddus gyda golwg ar wella llesiant plant, oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth a gofalwyr sydd ag anghenion cymorth**

181. Disgwylir y bydd y dewis hwn yn arwain at fanteision ychwanegol drwy gydweithio agosach rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a fydd yn hwyluso defnyddio mwy o wasanaethau integredig cost-effeithiol yn y dyfodol. Mewn adroddiad yn 2012 ar oblygiadau trosiannol a hirdymor y Bil, gwnaeth y Sefydliad Gofal Cyhoeddus gymhariaeth gyda'r Rhaglen Cyllidebau Cymunedol Lle Cyfan, lle mae dadansoddiad o ardaloedd peilot wedi arwain at amcangyfrifon o fanteision net 5 mlynedd posibl o rhwng £9.4 ac £20.6 biliwn.<sup>52</sup>

---

<sup>52</sup> *Whole Place Community Budgets: A review of the potential of aggregation (2013) Local Government Association, op cit, Transitional and longer-term implications of the Social Services and Well-being (Wales) Bill 2013 (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chonffederasiwn y GIG, Medi 2012).*

182. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at Wasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd Llywodraeth Cymru (lle mae'n nodi bod tystiolaeth yn dod i'r amlwg ynghylch yr effaith ar broblemau cymhleth fel camddefnyddio sylweddau), yn ogystal â rhaglen Eiddilwch Gwent a'r rhaglen gwasanaeth gofal canolraddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr fel enghreifftiau o welliant posibl y gellir eu sicrhau drwy'r math hwn o newid gwasanaeth.<sup>53</sup>
183. Os yw cydweithredu a phartneriaeth yn cynnwys cyrff eraill fel mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol neu gyrff trydydd sector eraill (gan fod dyletswydd drwy'r Bil i Awdurdodau Lleol hyrwyddo cyrff o'r fath) disgwylir y bydd eu defnydd hefyd yn arwain at arbedion budd drwy ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon. Mae astudiaethau cychwynnol yn awgrymu mai rhwng £2.52 a £5.67 yw'r budd cymdeithasol o bob £1 a fuddsoddir mewn mentrau cymdeithasol.
184. Bydd y potensial i'r ddeddfwriaeth hon wireddu manteision tebyg i'r enghreifftiau uchod yn ddibynnol ar y ffordd y caiff y Bil ei weithredu – yn arbennig ynghylch deddfu dyletswyddau llesiant. Oherwydd hyn, nid oes ystyriaeth fwy manwl o'r manteision hyn wedi bod cyn datblygu'r rheoliadau.
185. Mae'r dystiolaeth o brofiad yn y maes hwn yn dangos bod costau trosiannol posibl hefyd. Os hynny, mae modd ymdrin â nhw drwy fentrau fel cyllid Buddsoddi i Arbed, sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau yn y maes hwn.

### **Tablau Crynhoi**

186. Mae'r tablau sy'n dilyn yn rhoi crynodeb o'r costau a'r manteision ychwanegol posibl a drafodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

---

<sup>53</sup> *ibid*

## Crynodeb o'r Costau Ychwanegol Posibl

			<b>COSTAU YCHWANEGOL</b>		<b>Costau'n disgyn i</b>
			<b>Trosiannol (untro)</b>	<b>Cylchol</b>	
<b>Maes Bil</b>	<b>Dewis</b>	<b>Math o Gost</b>			
(a)	Dewis 1: Gwneud dim	AMH	0	0	AMH
	Dewis 2: Cynnig Bil	Hyfforddiant	£1,800,000	0	Awdurdodau Lleol
		Cost Cyfle Staff	£10,500,000	0	Awdurdodau Lleol
		Dosbarthu gwybodaeth	Heb eu mesur	Heb eu mesur	Llywodraeth Cymru
		Cyflwyno newidiadau	Heb eu mesur	Heb eu mesur	Llywodraeth Cymru
(b)	Dewis 1: Gwneud dim	AMH	0	0	AMH
	Dewis 2: Cynnig Bil	Darparu gwasanaethau	0	0	Awdurdodau Lleol
(c)	Dewis 1: Gwneud dim	AMH	0	0	AMH
	Dewis 2: Cynnig Bil	Darparu gwybodaeth	0	0	Awdurdodau Lleol
(d)	Dewis 1: Gwneud dim	AMH	0	0	AMH
	Dewis 2: Cynnig Bil	Asesiad a chymhwysedd	Asesu adeg Rheoliadau	Asesu adeg Rheoliadau	Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru
(e)	Dewis 1: Gwneud dim	AMH	0	0	AMH
	Dewis 2: Cynnig Bil	Mwy o gydweithredu	Asesu adeg Rheoliadau	Asesu adeg Rheoliadau	Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a Chyrff Cyhoeddus eraill

### Allwedd:

- (a) Diwygio ac integreiddio cyfraith gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith;
- (b) Darparu gwasanaethau atal ac ymyrryd yn fuan;
- (c) Rhagnodi ar gyfer darparu gwybodaeth hygrych o ansawdd uchel i unigolion, i ofalwyr ac i deuluoedd;
- (d) Creu system sy'n fwy cyson yn genedlaethol ar gyfer asesiadau a chymhwysedd i ddefnyddwyr ac i ofalwyr;
- (e) Sicrhau mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i sicrhau bod gofal yn cael ei gomisiynu a'i gyflenwi'n effeithiol.

## Crynodeb o'r Manteision Ychwanegol

			<b>MANTEISION YCHWANEGOL</b>		<b>Manteision yn cronni i</b>
			<b>Trosiannol (untro)</b>	<b>Cylchol</b>	
<b>Maes Bil</b>	<b>Dewis</b>	<b>Math o Fantais</b>			
(a)	Dewis 1: Gwneud dim	AMH	0	0	AMH
	Dewis 2: Cynnig Bil	Llai o feichiau gweinyddol	0	£2,000,000	Awdurdodau Lleol
		Llai o gwynion	0	£80,000	Awdurdodau Lleol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a Defnyddwyr Gwasanaeth.
		Llai o ymgyfreitha	0	£80,000	Awdurdodau Lleol, Defnyddwyr Gwasanaeth a Llysoedd.
(b)	Dewis 1: Gwneud dim	AMH	0	0	AMH
	Dewis 2: Cynnig Bil	Darparu gwasanaethau	Asesu adeg Rheoliadau	Asesu adeg Rheoliadau	Awdurdodau Lleol, Defnyddwyr Gwasanaeth a'r Cyhoedd yn Ehangach.
(c)	Dewis 1: Gwneud dim	AMH	0	0	AMH
	Dewis 2: Cynnig Bil	Darparu gwybodaeth	0	Heb ei mesur	Awdurdodau Lleol, Defnyddwyr Gwasanaeth a'r Cyhoedd yn Ehangach.
(d)	Dewis 1: Gwneud dim	AMH	0	0	Awdurdodau Lleol
	Dewis 2: Cynnig Bil	Asesiad a chymhwysedd	Asesu adeg Rheoliadau	Asesu adeg Rheoliadau	Awdurdodau Lleol, Defnyddwyr Gwasanaeth a'r Cyhoedd yn Ehangach.
(e)	Dewis 1: Gwneud dim	AMH	0	0	Awdurdodau Lleol
	Dewis 2: Cynnig Bil	Mwy o gydweithredu	Asesu adeg Rheoliadau	Asesu adeg Rheoliadau	Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, Defnyddwyr Gwasanaeth a'r Cyhoedd yn Ehangach

187. Mae'r tabl isod yn cymharu'r costau a'r manteision ychwanegol posibl sy'n gysylltiedig â Dewis 1 a Dewis 2. Mae'r costau a'r manteision wedi cael eu proffilio dros 10 mlynedd (i greu effaith 10 mlynedd) ac wedi cael eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd disgownt o 3.5% i gyflwyno'r yn eu gwerthoedd presennol<sup>54</sup>.

### Tabl Crynodeb (Costau a Manteision ar ffurf Ariannol)

Dewis	Gwerth presennol Costau Ychwanegol Posibl (£m)	Gwerth Presennol Manteision Ychwanegol (£m)	Gwerth Presennol Net (£m)
1: Gwneud dim	£ 0	£ 0	£ 0
2: Deddfu	£ 12.4	£ 14.3	£ 1.9

188. I esbonio'r ffigurau uchod - disgwylir y bydd yna gostau hyfforddi yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl cyflwyno'r Bil (a chymryd y bydd pedwar diwrnod o ofynion hyfforddi ym mlwyddyn 1 a deuddydd o ofynion hyfforddi ym mlwyddyn 2). Mae hynny'n cyfateb i gyfanswm costau hyfforddi o £12.3 miliwn dros ddwy flynedd (mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau'r hyfforddiant a chostau cyfle o ran amser y staff fel y trafodwyd uchod, h.y. ££1.8m = £10.7m = £12.5m). Pan gaiff y gost hon ei disgowntio yn ôl cyfradd ddisgownt o 3.5%, ei gwerth presennol yw oddeutu £12.4 miliwn (fel y dangosir yn y Tabl Crynodeb uchod). Ni ragwelir y bydd costau hyfforddi ychwanegol o flwyddyn 3 ymlaen yn y gwerthusiad 10 mlynedd. Fodd bynnag, bydd costau ychwanegol yn y dyfodol wrth i wahanol Rannau o'r Bil gael eu gweithredu, ond nid os modd dweud eto faint fydd y costau hynny gan fod angen mwy o eglurder ynghylch cynnwys rheoliadau'r dyfodol cyn y gellir gwneud gwaith costio manylach.

189. Yn y gwerthusiad 10 mlynedd, tybiwyd y bydd y manteision yn cronni o flwyddyn 3 ymlaen, o gofio mai o'r adeg hon ymlaen (yn sgil hyfforddi staff ym mlynnyddoedd 1 a 2) y disgwylir i fanteision y Bil gael eu gwireddu. Fel y trafodwyd uchod, mae'r manteision sy'n deillio o arbed amser, llai o gwynion a llai o ymgyfreitha yn creu cyfanswm o tua £2.2 miliwn y flwyddyn (£2,000,000 + £80,000 + £80,000 = tua £2.2 miliwn). Fel y nodwyd eisoes, disgwylir i'r manteision hyn gronni yn gylchol o flwyddyn 3 ymlaen, hyd at 10fed flwyddyn y cyfnod gwerthuso a chan gynnwys y flwyddyn honno (sef wyth mlynedd i gyd). Felly, gwerth ariannol y manteision hynny sy'n cael eu mesur ar hyn o bryd gyda'i gilydd yw tua £17.6 miliwn (£2.2m x 8 = £17.6m). O'u disgowntio, gwerth presennol y manteision hyn yw tua £14.3 miliwn (fel y gwelir yn y Tabl Crynodeb uchod). Dylid nodi hefyd y disgwylir manteision ychwanegol yn sgil gwireddu arbedion hirdymor drwy gynnydd yn y ddarpariaeth o

<sup>54</sup> Mae'r cysyniad o werthoedd presennol yn ystyried nad yw swm penodol o arian mor werthfawr i ni ar ryw adeg yn y dyfodol ag y byddai heddiw (darllenwch Lyfr Gwyrdd Trysorlys EM i gael manylion). Mae'n rhaid felly disgowntio costau a manteision yn y dyfodol er mwyn gallu eu cymharu â chostau a manteision heddiw. Gwerth Presennol Net polisi yw Gwerth Presennol Manteision ar ôl tynnu'r Costau Gwerth Presennol, ac felly mae'n dangos gwerth ariannol cyffredinol dewis polisi.

wasanaethau ataliol ac ymyrryd cynnar, a mwy o gydweithredu ymysg awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

190. Ar sail y gymhariaeth hon, mae Gwerth Presennol Net (NPV) cyflwyno Bil Gwasanaethau Cymdeithasol oddeutu £1.9 miliwn. Mae hyn yn awgrymu y bydd manteision ychwanegol gweithredu'r Bil yn fwy na'r costau ychwanegol dros yr hirdymor. Fodd bynnag, dylid nodi mai cymhariaeth syml yw hon ar sail bwriad y ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd effaith ariannol lawn y darpariaethau yn y Bil yn cael eu pennu drwy reoliadau. Bydd angen Asesiadau Effaith Rheoleiddio unigol yn sgil datblygu'r rhain. Felly bydd gwaith costio pellach yn cael ei wneud drwy'r rhaglen weithredu sy'n gyfrifol am ddatblygu is-ddeddfwriaeth. Mae amlinelliad o'r amserlen ar gyfer hyn ym Mharagraff 118 Pennod 3 yn y ddogfen hon. Mae'n anochel y bydd effaith rheoliadau o'r fath yn dylanwadu ar y canlyniad Gwerth Presennol Net cyffredinol a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.



## 9. Adolygu ar ôl Gweithredu

191. Bydd yn rhaid cael prosiect gweithredu sylweddol er mwyn sicrhau bod Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, rheolwyr a staff eraill mewn awdurdodau lleol, rheolwyr a staff y GIG, staff gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol, cyfreithwyr, yr Heddlu, y Trydydd Sector a darparwyr yn y sector annibynnol ac eraill yn gyfarwydd â'r fframwaith cyfreithiol newydd a'i oblygiadau gweithredol. Bydd cynllun gweithredu manylach yn cael ei baratoi yr un pryd ag y bydd y Bil ar ei daith drwy broses graffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wrth i'r rheoliadau gael eu datblygu. Bwriedir i'r Bil a'r rheoliadau dilynol gael eu hategu gan Godau Ymarfer. Ar y cam hwn mae'n rhy gynnar i fanylu ynghylch y trefniadau adolygu ôl-weithredu, gan fod angen i fanylion y cynigion, a'r amserlenni gweithredu, gael eu datblygu.

## Rhan 3 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

192. Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sydd wedi'i wneud, hyd at ddiwedd Cyfnod 2, o ran y nodweddion gwarchoddedig, hawliau dynol, yr iaith Gymraeg, Datblygu Cynaliadwy a'r CCUHP ers i'r Bil gael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2013.

### 10. Y nodweddion gwarchoddedig

193. O dan y ddyletswydd cydraddoldeb (a nodir yn *adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010*<sup>55</sup>), mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi 'sylw dyledus' i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon yn ogystal â'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt yn eu rhannu. At ddibenion adran 149, y nodweddion gwarchoddedig yw: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gredo; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol. Felly, mae *Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011*<sup>56</sup> yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a llawer o awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru roi trefniadau yn eu lle ar gyfer asesu effeithiau ein polisïau, ein harferion a'n penderfyniadau strategol ar gydraddoldeb.

194. Mae *Cynllun Cydraddoldeb Strategol*<sup>57</sup> Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2012 wedi datblygu mwy ar y gofyniad i sicrhau "bod gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth yn deg, yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion pobl, a bod cymunedau'n gynhwysol." Bwriad y Bil yw sefydlu dull o ymdrin â'r gwasanaethau cymdeithasol sydd â'r ffactorau hyn yn ganolog iddo.

195. Mae'r Bil yn bwriadu gwella ansawdd darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol ym mhob un o'r elfennau cydraddoldeb a ddisgrifir fel arall fel nodweddion gwarchoddedig: oed, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* yn ychwanegu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

196. Yn y *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* ceir pedwar Amcan sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Bil. Wrth ymyl pob un ceir tystiolaeth ynghylch sut y mae'r Bil yn cyfrannu at gyflawni'r Amcanion hyn:

<sup>55</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/149>

<sup>56</sup> <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1064/contents/made>

<sup>57</sup> <http://wales.gov.uk/topics/equality/equalityactatwork/?skip=1&lang=cy>

Amcan 1: Atgyfnerthu gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth er mwyn helpu unigolion â nodweddion gwarchoddedig i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau hyddysg.

Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth a chynghor i bawb y mae'n ymddangos bod angen gwasanaethau gofal a chymorth arnynt, a bod cymorth yn cael ei ddarparu i bobl wrth gael gafael ar ofal a chymorth. Mae'r rhain yn ddyletswyddau newydd. Mae'r Bil hefyd yn darparu pŵer gwneud rheoliadau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi i oedolion yr hawl i gael gwasanaeth eiriolaeth yng nghyswllt cwynion am y gwasanaethau cymdeithasol, sef hawl y mae plant eisoes yn meddu arno.

Amcan 3: Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Ar 31 Mawrth 2013, roedd yn hysbys bod 52% o'r rhai 19 oed oedd yn gadael gofal mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant<sup>58</sup>. Bydd y Bil yn darparu ar gyfer plant a phobl ifanc mewn amrywiol ffyrdd, er enghraifft, drwy ddarparu llety i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, a drwy sicrhau bod anghenion a dymuniadau'r plant hynny yn cael eu hystyried yn briodol wrth wneud dewisiadau ynghylch llety.

Amcan 5: Mynd i'r afael â rhwystrau a chefnogi pobl anabl er mwyn iddynt allu byw'n annibynnol a gwneud dewisiadau a rheoli eu bywydau bob dydd.

Un o naw egwyddor *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu*<sup>59</sup>, yw galluogi defnyddwyr a gofalmwyr i gael llais cryf a rheolaeth wirioneddol dros y gwasanaethau a gânt. Mae gosod dyletswydd asesu newydd ar awdurdodau lleol sy'n mynnu eu bod yn canfod pa ganlyniadau y mae pobl am eu sicrhau yn eu bywydau bob dydd yn un enghraifft o'r ffordd y mae'r Bil yn darparu ar gyfer byw'n annibynnol, ac yn sicrhau llais a rheolaeth i bobl. Cefnogir hyn gan Lywodraeth Cymru yn ei *Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol*<sup>60</sup> a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013.

Mae Adran 4 o'r Bil yn rhoi dyletswyddau trosfwaol ar unigolion sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil. Mae Adran 4(1) yn cynnwys dyletswydd drosfwaol i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalmwyr sydd angen cymorth. Mae'r diffiniad o 'llesiant' yn adran 2 yn cynnwys, mewn perthynas ag oedolyn, reolaeth dros fywyd bob dydd. Mae Adran 4(a) yn gweithredu'r egwyddor y dylid hyrwyddo annibyniaeth oedolyn lle bo modd.

---

<sup>58</sup> <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/adoptions-outcomes-placements-children-looked-after/?skip=1&lang=cy>

<sup>59</sup>

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?skip=1&lang=cy>

<sup>60</sup> <http://wales.gov.uk/topics/equality/rightequality/disability/framework-for-action/?skip=1&lang=cy>

Amcan 6: Sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd prosesau darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn enwedig gwasanaethau iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol, fel eu bod yn ymateb i anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig.

Un o naw egwyddor *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu* yw galluogi defnyddwyr a gofalwyr i gael llais cryf a rheolaeth wirioneddol dros y gwasanaethau a gânt. Mae'r Bil yn rhoi anghenion defnyddwyr gwasanaethau wrth galon y gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol, yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol, i gyd-asesu'r anghenion am wasanaethau gofal a chymorth yn eu hardaloedd ac i sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar gael yn diwallu'r anghenion a nodwyd yn briodol. Ceir dyletswydd newydd hefyd i ganfod ble nad yw anghenion yn cael eu diwallu er mwyn gallu darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Fel enghraifft arall, mae'r Bil yn darparu ar gyfer gweithio mewn ffordd integredig ar draws y gwasanaethau statudol er mwyn ei gwneud yn haws cael gafael ar wasanaethau. Mae dyletswydd newydd yn cael ei gosod ar awdurdodau lleol i sicrhau bod llesiant pobl yn brif ystyriaeth wrth ddatblygu darpariaeth ar y cyd.

197. Yn gyffredinol, dyma rai enghreifftiau o'r modd y mae cydraddoldeb yn cael ei hybu yn y Bil:

- Oed – bydd dod â'r swmp o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr at ei gilydd mewn un Bil yn symleiddio cryn dipyn ar gymhwysedd a mynediad ar gyfer yr holl bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt. Dylai symleiddio prosesau ar gyfer gweithio mewn ffordd integredig hefyd arwain at brofiadau â mwy o urddas yn perthyn iddynt ym maes gofal cymdeithasol. Yn hollbwysig, mae *Deddf Cydraddoldeb 2010* yn darparu ar gyfer gwahardd gwahaniaethu ar sail oed mewn gofal cymdeithasol. Daeth y gwaharddiad hwn i rym ar 1 Hydref 2012, ac mae'r Bil hwn yn mynd ati'n benodol i newid y maes gofal cymdeithasol drwy gael gwared ar y rhwystrau artiffisial sy'n gysylltiedig ag oed a darparu ar gyfer 'pobl' yn lle hynny.
- Anabledd – mae nifer o bobl anabl yn cael gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Ar 31 Mawrth 2012, roedd 84,235 o bobl ag anabledd corfforol neu nam ar eu synhwyrau; 9,308 o bobl ag Anableddau Dysgu a 13,844 o bobl â phroblemau iechyd meddwl yn cael gwasanaethau o ryw fath yng Nghymru<sup>61</sup>. Bydd eu profiad nhw o'r system yn gwella o ganlyniad i'r ffyrdd symlach o ddarparu gwasanaethau, a'r ffordd symlach o gael mynediad atynt, y bydd y Bil yn darparu ar eu cyfer. Eto, dylai symleiddio darpariaethau a phrosesau ar gyfer gweithio mewn ffordd integredig hefyd arwain at brofiadau â mwy o urddas yn perthyn iddynt ym maes gofal

<sup>61</sup> <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/social-service-statistics/?skip=1&lang=cy>

cymdeithasol. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu neu i drefnu i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd a fydd yn lleihau effaith anabledau ar bobl anabl.

- Rhyw – mae gosod gofalwyr di-dâl – sydd, yn ôl gwaith ymchwil, yn aml yn wragedd priod hŷn – ar yr un sylfaen gyfreithiol â defnyddwyr gwasanaethau, yn gam mentrus. Am y tro cyntaf yn y gyfraith mae'n cydnabod yn llawn bod gan y grŵp hwn o bobl anghenion penodol i'w diwallu. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion cymorth gofalwyr ac mae'n cadw at y dyletswyddau cyfredol sydd ar awdurdodau lleol i sicrhau eu bod, wrth gyflawni asesiadau ar gyfer cymorth, yn ystyried yn deg a yw gofalwr yn gweithio neu'n dymuno gweithio ac a yw gofalwr yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, hyfforddiant neu hamdden. Mae *Cyfrifiad 2011*<sup>62</sup> yn dangos cynydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n darparu gofal yn ddi-dâl ac mae canran y preswylwyr yng Nghymru sy'n darparu gofal yn dal i fod yn uwch nag unrhyw ardal arall yn Lloegr.
- Hil – Bydd y Rheoliadau yn darparu ar gyfer manylion y broses asesu. Er mwyn sicrhau bod y Bil yn cyflawni ei amcanion canolog, sef creu maes gofal cymdeithasol mwy hygyrch a theg, gall y Rheoliadau nodi bod ystyriaethau y gall yr awdurdod lleol eu cloriannu wrth gyflawni asesiad. Gallai ystyriaethau o'r fath gynnwys ystyried hil unigolyn.
- Crefydd – Bydd y Rheoliadau yn darparu ar gyfer manylion y broses asesu. Er mwyn sicrhau bod y Bil yn cyflawni ei amcanion canolog, sef creu maes gofal cymdeithasol mwy hygyrch a theg, gall y Rheoliadau nodi bod ystyriaethau y gall yr awdurdod lleol eu cloriannu wrth gyflawni asesiad. Gallai ystyriaethau o'r fath gynnwys ystyried crefydd unigolyn.
- Hil a Chrefydd – yng nghyswllt y dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol ynghylch plant sy'n derbyn gofal, ceir dyletswydd benodol i sicrhau bod hil plentyn, ei grefydd, ei ddiwylliant a'i anghenion ieithyddol yn cael eu hystyried yn briodol wrth wneud unrhyw fath o benderfyniad.
- Cyfeiriadedd Rhywiol – Bydd y Rheoliadau yn darparu ar gyfer manylion y broses asesu. Er mwyn sicrhau bod y Bil yn cyflawni ei amcanion canolog, sef creu maes gofal cymdeithasol mwy hygyrch a theg, gall y Rheoliadau nodi bod ystyriaethau y gall yr awdurdod lleol eu hystyried wrth gyflawni asesiad. Gallai ystyriaethau o'r fath gynnwys ystyried cyfeiriadedd rhywiol unigolyn.

198. Mae'r Bil yn darparu dyletswydd statudol drosfwaol, sef bod yn rhaid i unrhyw unigolyn sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil ystyried

---

<sup>62</sup> <http://www.carersuk.org.professionals/resources/briefings/item/2889-2011-census-figures-england-and-wales>

nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn hwnnw. Mae'r ddyletswydd newydd hon yn gweithredu'r egwyddor bod gan bob unigolyn anghenion gwahanol a fynegir mewn nifer o ffyrdd gwahanol a bod rhaid rhoi ystyriaeth briodol i'r anghenion hyn wrth arfer swyddogaethau o dan y Bil.

199. Mewn ymateb i'n dyletswydd gyfreithiol i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig, mae hefyd yn werth nodi i'r ymgynghoriad ar brif egwyddorion y Bil ennyn ystod o ymatebion gan gyrff sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r canlynol yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebwyr:

- Daeth 43 o ymatebion i law gan gyrff a oedd yn cynrychioli pobl hŷn a phlant a phobl ifanc (y nodwedd oed);
- Daeth 36 o ymatebion i law gan gyrff a oedd yn cynrychioli pobl anabl;
- Cafwyd un ymateb gan fudiad menywod (y nodwedd rhyw);
- Cafwyd dau ymateb gan fudiadau a oedd yn cynrychioli pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (y nodwedd hil); a
- Daeth dau ymateb i law gan fudiadau Cydraddoldeb.

200. O fewn yr ystyriaeth hon o'r effeithiau ar gydraddoldeb, mae'n glir fod gan y Bil botensial i gyflwyno gofal cymdeithasol gwell i bobl Cymru ac i gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb i grwpiau gwarchoddedig. Rhagwelir y bydd yn hwyluso datblygiad perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt yn eu rhannu, er enghraifft drwy helpu pobl i fyw'n annibynnol o fewn eu cymunedau lleol.

201. Drwy gydol ei weithredu ac wedi hynny, bydd y Bil yn dal i gael ei werthuso, a bydd hyn yn digwydd hefyd drwy fonitro ein hasesiadau o'r effeithiau hyn ar gydraddoldeb.

## 11. Hawliau Dynol

202. Nid oes unrhyw elfennau yn y Bil hwn sy'n mynd yn groes i unrhyw ran o *Ddeddf Hawliau Dynol 1998*<sup>63</sup>. Mae'r Ddeddf yn darparu ei bod yn anghyfreithlon i awdurdod cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r hawliau yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Erthyglau 5 ac 8 y Confensiwn, sy'n ymwneud â'r Hawl i Ryddid a Diogelwch a'r Hawl i Barch at Fywyd Preifat a Theuluol, yw'r rhai mwyaf perthnasol yng nghyswllt y Bil hwn. Gyda golwg ar Erthygl 5, nid ydym yn cynnig unrhyw bŵer i symud na chadw felly nid ydym o'r farn y bydd unrhyw wrthdaro â'r Erthygl hon. Gyda golwg ar Erthygl 8, sef sicrhau bod y modd y defnyddir y pŵer mynediad wedi'i gyfiawnhau ac yn gymesur, ac felly'n gydnaws a'r Erthygl, mae'r Bil yn darparu y bydd yn ofynnol i Wasanaethau Cymdeithasol wneud cais i'r llys am yr hawl i arfer y pŵer, a hynny ar ffurf Gorchymyn Gwarchod a Chefnogi Oedolion.

---

<sup>63</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpa/1998/42/contents>

## 12. Yr Iaith Gymraeg

203. Mae *Cynllun Iaith Gymraeg*<sup>64</sup> Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad ar effaith y Bil ar y Gymraeg. Mae'r asesiad yn dangos nad yw'n debygol y bydd unrhyw effaith negyddol ar yr iaith, a gan fod y Bil wedi'i gynllunio i greu system decach a mwy cyfiawn ar gyfer pawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth, ceir cyfleoedd i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau. Mae *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*<sup>65</sup> yn defnyddio cryn dipyn o'r cynnwys a geir yn *Neddf yr Iaith Gymraeg 1993*<sup>66</sup>, a'r ddeddfwriaeth hon sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol cyffredinol ar gyfer y Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus: mae'n rhaid i bob unigolyn a chorff sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ystyried hawliau pobl i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, a bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn y dyfodol.
204. Wrth baratoi'r Bil hwn, rhoddwyd ystyriaeth i ddogfen Llywodraeth Cymru *Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol*<sup>67</sup>, ac o ganlyniad iddo gwnaed ymrwymiad Gweinidogol i sicrhau bod y Gymraeg (ac ieithoedd eraill) yn cael ei chynnwys yn y Rheoliadau a'r Canllawiau sy'n sail i'r Bil hwn, er enghraifft, yng nghyswllt y trefniadau asesu a chomisiynu newydd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.
205. O ran paratoi cynlluniau lleol ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal a Chymorth a Llesiant, mae'r Bil yn cynnwys egwyddor statudol bwysig, sef bod yn rhaid i unrhyw unigolyn sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, gan gynnwys iaith.
206. Mae *Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol* yn datgan bod iaith yn angen, ac wrth bennu'r manylion am yr hyn sy'n ofynnol mewn asesiad, bydd y gofynion mewn perthynas â nodi angen iaith yn cael eu pennu mewn Rheoliadau. Roedd hwn eisoes yn fwrriad Gweinidogol, fel y nodir ym mharagraff 205 uchod.
207. Erys sefyllfa'r Llywodraeth o ran yr iaith Gymraeg yn unol â'r hyn a fynegir yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau y cyfeirir atynt ym mharagraff 204 and 205 uchod; sef y caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal, ac mae'r gwelliannau a amlinellir ym mharagraffau 206 yn adlewyrchu hyn.

<sup>64</sup> <http://wales.gov.uk/topics/welshlanguage/policy/wls/?skip=1&lang=cy>

<sup>65</sup> <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted>

<sup>66</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/contents>

<sup>67</sup> <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

### 13. Datblygu Cynaliadwy

208. Datblygu cynaliadwy yw egwyddor drefniadol ganolog Llywodraeth Cymru: “mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i’n cenhedlaeth ni a chenedlaethau’r dyfodol mewn ffyrdd sy’n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal”. Mae’r Bil yn gwneud llawer iawn i hybu’r egwyddor hon.
209. Teitl y Bil hwn yw Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Digwyddodd y newid o ganlyniad i’r hyn a ddywedwyd wrthym gan y rheini a ymatebodd i’r ymgynghoriad, sef bod prif egwyddorion y Bil yn ymwneud â llawer mwy na’r gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae’r egwyddor o hybu llesiant pobl – yn blant, oedolion a gofalwyr – yn ganolog i’r Bil. Mae hyn yn sicrhau y canolbwyntir ar anghenion yr unigolyn. Mae’r Bil yn dangos y newid pwyslais o wasanaethau i anghenion unigolion, ac i fabwysiadu agwedd sy’n seiliedig ar hawliau. Mae canolbwyntio ar les yn rhan gryfach o lawer o’r model gwasanaeth ar gyfer atal ac ymyrryd yn fuan y mae’r Bil yn anelu at ei sefydlu. Mae’n allweddol i’r ymrwymiad yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*, sy’n rhoi pwyslais ar sicrhau bod gan bobl lais cryf a rheolaeth go iawn.
210. Mae’r diffiniad o ‘llesiant’ yn adran 2 yn adeiladu ar y pwerau eang sy’n cael eu rhoi i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol er mwyn hybu’r gwaith o wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd; mae hyn yn berthnasol i boblogaeth Cymru hefyd. Bydd y diffiniad yn sicrhau bod ein dull gweithredu sy’n seiliedig ar hawliau, ynghyd â swyddogaeth bwysig teuluoedd yng nghyswllt llesiant unigolion, wedi’i wreiddio yn y trefniadau arfaethedig ar gyfer gofal a chymorth.
211. Mae ‘llesiant’ yng nghyswllt unigolion yn golygu llesiant sy’n gysylltiedig ag unrhyw un o’r canlynol:
- a) iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol
  - b) amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
  - c) cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
  - d) perthnasoedd personol, teuluol a domestig
  - e) eu cyfraniad at gymdeithas
  - f) diogelu hawliau a hawlogaethau
  - g) llesiant economaidd a chymdeithasol a
  - h) addasrwydd llety preswyl
212. Yng nghyswllt plant, mae “llesiant” yn cynnwys:
- (a) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol
  - (b) ystyr “lles” (“*welfare*”) at ddibenion Deddf Plant 1989
213. Yng nghyswllt oedolion, mae ‘llesiant’ yn cynnwys:



- (a) rheolaeth ar fywyd bob dydd
- (b) cymryd rhan mewn gwaith

## 14. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

214. Mae *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011*<sup>68</sup> yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth briodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth lunio pob polisi a deddfwriaeth. Mae'r Bil yn bwrw ymlaen â dull gweithredu nodedig Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol plant – dull gweithredu seiliedig ar hawliau sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol. Mae'r asesiad o'r effaith y bydd y Bil yn ei chael ar blant a phobl ifanc yn cadarnhau'r dull gweithredu seiliedig ar hawliau sy'n cael ei ddefnyddio. Mae'n dangos bod nifer o'r Erthyglau yn berthnasol, ac mae'r rheini sydd wedi'u hamlygu'n cael sylw yn y Bil:

Erthygl 1 Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

Erthygl 2 Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluedd, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

Mae'r hawliau a roddir i blant yn y Bil yn berthnasol i bob plentyn, ni waeth beth fo'i nodweddion. Mae'r ddyletswydd drosfwaol yn adran 4(3) yn berthnasol yn y cyswllt hwn.

Erthygl 3 Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 4 Dylai Llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

Mae'r holl adrannau sy'n creu hawliau ar gyfer plant o fewn y Bil yn rhoi grym i'r rhwymedigaeth hon.

Erthygl 5 Dylai Llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol. Nid yw helpu plant i ddeall eu hawliau yn golygu eu gwthio i wneud dewisiadau sydd â chanlyniadau y maent yn rhy ifanc i ddelio â nhw.

Mae adran 4(5) (rhan 10 pennod 1) yn cyd-fynd â'r Erthygl hon. Mae 'llesiant' yn gysyniad allweddol drwy'r Bil hwn ar ei hyd. Mae'r diffiniad o 'llesiant' yn adran 2 yn cynnwys sicrhau hawliau a hawlogaethau yn unswydd i gydnabod yr agwedd hon.

---

<sup>68</sup> <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents>

- Erthygl 6 Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai Llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.
- Mae'r ffaith fod y Bil yn creu fframwaith cynhwysfawr o ddyletswyddau cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill tuag at blant yn eu hardal, ynghyd â hawlogaethau penodol ar gyfer plant unigol neu eu gofalwyr yn dilyn asesiad, yn cefnogi ac yn cyd-fynd â'r hawl hon.
- Erthygl 12 Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.
- Mae'r Bil (Rhan 10, Pennod 1) yn ailddeddfu'r hawlogaethau a roddir i blant i gyflwyno sylwadau am y ffordd y mae awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Bil a'u hawl i gymorth wrth wneud y sylwadau hynny.
- Erthygl 18 Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i'r plentyn bob amser. Dylai Llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.
- Mae'r Bil yn agored ynghylch y math o ofal a chymorth y gall fod ei angen ar blant a'u gofalwyr er mwyn sicrhau bod lle i gydnabod yn llawn y gwahanol swyddogaethau y bydd rhieni yn eu cyflawni wrth fagu eu plant.
- Erthygl 19 Dylai Llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl.
- Mae dyletswyddau cyffredinol yr awdurdod lleol o dan adran 12(2)(d), (e) ac (f) (gwasanaethau ataliol) a'r dyletswyddau a phwerau o dan adrannau 18, 30 a 31 yn rhoi grym i hyn. Mae'r gydnabyddiaeth o'r amrywiaeth eang o amgylchiadau a all ysgogi'r hawl i asesiad, a bod hawl plant i dderbyn gwasanaethau ar sail angen yn osgoi'r meini prawf cymhwysedd os ydynt mewn perygl, i gyd yn rhoi grym i hyn.
- Mae'r holl ddarpariaeth yn Rhan 6 sy'n sicrhau trefniadau diogelu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r ddarpariaeth ynghylch Byrddau Diogelu yn Rhan 7 yn berthnasol i barchu'r hawl hon.
- Erthygl 20 Mae'n rhaid i blant nad oes modd iddynt dderbyn gofal gan eu teulu eu hunain gael y gofal priodol gan bobl sy'n parchu eu crefydd, diwylliant a'u hiaith.

Mae'r ddarpariaeth gyfan yn Rhan 6, sy'n sicrhau trefniadau diogelu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a'r ddarpariaeth yn Rhan 7 ynghylch Byrddau Diogelu, yn berthnasol er mwyn cadw at yr hawl hwn.

- Erthygl 21 Pan fydd plant yn cael eu mabwysiadu, y peth pwysicaf yw gwneud yr hyn sydd orau ar eu cyfer nhw. Dylai'r un rheolau fod yn gymwys p'un a yw'r plant wedi cael eu mabwysiadu yn y wlad lle cawsant eu geni neu os ydynt wedi cael eu symud i fyw mewn gwlad arall.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer trefniadau i greu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn adran 160.

- Erthygl 23 Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

Caiff anghenion plant anabl eu cydnabod yn sgil hawl gofalwyr neu blant anabl i gael eu hasesu yn eu hawl eu hunain ac yn sgil y ffaith fod taliadau uniongyrchol ar gael yn hytrach na gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n gofalu am blant anabl ac ar gyfer plant anabl 16 a 17 oed.

- Erthygl 29 Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalent pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

Caiff dimensiwn addysgol gofal cymdeithasol ei gydnabod mewn sawl man - yn y diffiniad o lesiant, yn y ddyletswydd benodol ar awdurdodau lleol i hybu cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal ac yn y ddarpariaeth sy'n ymestyn hawliau plant sy'n gadael gofal os ydynt yn mynd ar drywydd cyfleoedd addysgol.

- Erthygl 30 Mae gan blant lleiafrifol neu frodorol yr hawl i arfer ac i ddysgu am eu diwylliant, eu hiaith a'u crefydd eu hunain. Mae'r hawl i rywun arfer ei ddiwylliant, ei iaith a'i grefydd ei hun yn berthnasol i bawb; yma, mae'r Confensiwn yn tynnu sylw at yr hawl hon mewn achosion lle nad yw'r arferion yn cael eu rhannu gan y rhan fwyaf o bobl yn y wlad.

- Erthygl 34 Dylai Llywodraethau gadw plant rhag camdriniaeth rywiol.

Gweler Erthygl 19.

- Erthygl 39 Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-barch.

Mae'r Bil yn cyflwyno fframwaith cynhwysfawr i asesu anghenion ac i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu i'r rheini sydd â'r anghenion mwyaf taer. Yn ôl darpariaethau'r Bil,

gellir ymateb yn briodol, yn ôl blaenoriaeth, i anghenion plant sydd wedi'u cam-drin a'u hesgeuluso.

215. *Nodyn:* lle ceir cyfeiriadau at rieni, rydym yn ystyried y gellir ymestyn y diffiniad i gynnwys y rhiant corfforaethol, yr awdurdod lleol.
216. Roedd y CCUHP a chydymffurfiaeth y Bil â'r CCUHP yn fater a godwyd yn ystod taith y Bil ac roedd yn destun gohebiaeth rhwng y Gweinidog â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Chymdeithasol a'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Cyhoeddwyd yr ohebiaeth, sy'n cynnwys dadansoddiad drafft o roi'r sylw Dyledus i'r hawliau yn CCUHP, ar wefan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol<sup>69</sup>.
217. Yn gryno, roedd y materion a godwyd yn ymwneud â statws plant anabl yn y Bil, y darpariaethau ar gyfer uno Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion, yr egwyddor "pwys mwya" yn adran 1 o Ddeddf Plant 1989, a rhieni'n gwrthod asesiad eu plentyn. Mae'r ohebiaeth yn cadarnhau cydymffurfiaeth y Bil â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ac yn ychwanegol at hynny, â'r CCUHP mewn perthynas â'r holl bwyntiau hyn.
218. Mynegwyd barn bod Bil Plant ar wahân yn cynnig ffordd gliriach ymlaen. Nid yw Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn lleihau hawliau plant mewn unrhyw ffordd, ac yn wir mae'n darparu fframwaith cryfach a chliriach sy'n sensitif i'r ystyriaethau gwahanol sydd gan blant ac oedolion. Byddai cynnal deddfwriaeth gofal cymdeithasol ar wahân ar gyfer plant ac oedolion yn parhau i weithredu'r rhaniadau sydd eisoes yn bodoli. Mae'r Bil yn galluogi plant a phobl ifanc i gael eu trosglwyddo'n well drwy'r gwasanaethau ac mae'n galluogi gweithwyr cymdeithasol a staff gofal cymdeithasol eraill i edrych ar y teulu cyfan mewn modd holistaidd. Ni ellir ynysu plant o'u teuluoedd a'r cymunedau y maent yn rhan ohonynt, ac mae'r Bil, drwy'r 'Model Pobl', yn darparu'r fframwaith ar gyfer hyn.

---

69

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s17997/Letter%20from%20the%20Deputy%20Minister%20dated%208%20May%202013.pdf>

# ATODIAD 1 – NODIADAU ESBONIADOL

## Cyflwyniad

219. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Ionawr 2013.
220. Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil ac er mwyn helpu i lywio dadl arno. Nid ydynt yn rhan o'r Bil nac wedi eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
221. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Pan fo'n ymddangos nad oes angen esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.

## RHAN 1 – CYFLWYNIAD

### Adran 1 – Trosolwg ar y Ddeddf hon

222. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r Ddeddf.

### Adran 2 – Ystyr “llesiant”

223. Diffinnir “llesiant” mewn perthynas â rhestr o ganlyniadau ar gyfer unigolion. Y rhain yw'r meysydd allweddol lle y gall gwasanaethau cymdeithasol wneud gwahaniaeth i bobl ac i'w bywydau. Mae is-adran (2) yn rhestru'r canlyniadau sy'n berthnasol i bob person, yn blant ac oedolion; mae is-adran (3) yn rhestru'r canlyniadau sy'n arbennig o berthnasol i blant; ac mae is-adran (4) yn rhestru'r canlyniadau sy'n arbennig o berthnasol i oedolion.

### Adran 3 – Ystyr “oedolyn”, “plentyn”, “gofalwr” ac “anabl”

224. Mae is-adran (4) yn diffinio gofalwr fel person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu i blentyn anabl (diffinnir anabledd yn is-adran (5) drwy gyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Y rhagdybiaeth gyffredinol yw na ddylai gofalwyr proffesiynol sy'n derbyn tâl gael eu cynnwys o fewn cwrpas y diffiniad (gweler is-adran (7)). Fodd bynnag, caniateir disgresiwn eang i awdurdodau lleol i drin person fel gofalwr os ydynt o'r farn, yng nghyd-destun y berthynas o ofalu, y byddai'n briodol trin y person hwnnw fel gofalwr (gweler is-adran (8)). Byddai hyn, er enghraifft, yn galluogi awdurdod lleol i drin person fel gofalwr mewn achosion pan fo'r berthynas o ofalu yn un anfasnachol yn bennaf.

## **RHAN 2 – SWYDDOGAETHAU CYFFREDINOL**

### **Adran 4 – Dyletswyddau hollgyffredinol**

225. Mae'r adran hon yn gosod dyletswyddau hollgyffredinol ar bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil mewn perthynas â llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.
226. Bydd y dyletswyddau hollgyffredinol hyn yn gymwys i bob person a chorff sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil hwn, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac asiantaethau statudol eraill.
227. Mae is-adrannau (1) a (2) yn darparu ar gyfer dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo llesiant pobl (oedolion a phlant) y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Yn is-adrannau (3) i (5) nodir yr egwyddorion sy'n gymwys pan fo person yn arfer swyddogaethau o dan y Bil. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys parchu urddas unigolyn a rhoi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn – gan gynnwys ei iaith. Mae is-adran (3) yn gymwys pan fo person yn arfer swyddogaeth mewn perthynas ag oedolyn neu â phlentyn ac yn nodi'r egwyddor bod rhaid iddo ganfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn a rhoi sylw iddynt. Mae is-adrannau (4) a (5) yn nodi'r egwyddorion sy'n gymwys pan fo person yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag oedolyn ac mewn perthynas â phlentyn, yn eu trefn.

### **Adran 5 – Dyletswydd i ddyroddi datganiad ynghylch y canlyniadau sydd i'w sicrhau**

228. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi o fewn 3 blynedd ar ôl i'r Bil hwn gael y Cydsyniad Brenhinol ddatganiad sy'n ymwneud â llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Rhaid i'r datganiad bennu'r canlyniadau sydd i'w sicrhau o ran llesiant y bobl hynny mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth neu'r cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol neu'r gofal a'r cymorth neu'r cymorth a ddarperir gan eraill, a hefyd y mesurau y mae graddau sicrhau'r canlyniadau i'w hasesu drwy gyfeirio atynt. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r datganiad yn gyson a chânt ddiwygio'r datganiad os ydynt yn ystyried bod hynny'n briodol. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy cyn dyroddi neu ddiwygio'r datganiad a rhaid iddynt osod y datganiad a ddyroddwyd neu a ddiwygiwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyhoeddi.

### **Adran 6 – Pŵer i ddyroddi cod ar gyfer helpu i sicrhau'r canlyniadau**

229. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi ac o bryd i'w gilydd ddiwygio cod i helpu i sicrhau'r canlyniadau penodedig. Caiff y cod roi canllawiau, gosod gofynion a chynnwys, er

enghraifft, safonau ansawdd, mesurau perfformiad a thargedau perfformiad i'w cyflawni; y camau i'w cymryd i'w cyflawni a phennu gwahaniaethau mewn cysylltiad â phob un ar gyfer gwahanol categorïau o ofal a chymorth a chymorth. Hefyd, rhaid cyhoeddi'r cod ynghyd â fersiynau nad ydynt bellach mewn grym.

#### **Adran 7 – Awdurdodau lleol a'r cod**

230. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol weithredu'n unol ag unrhyw ofynion a osodir yn y cod a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys ynddo. Pan fo mesurau perfformiad neu dargedau perfformiad wedi eu pennu yn y cod, sy'n gymwys i berfformiad awdurdodau lleol, maent i'w trin fel pe baent wedi eu pennu o dan adran 8(1) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

#### **Adran 8 – Gwneud y cod, ei gymeradwyo a'i ddirymu**

231. Mae'r adran hon yn darparu bod y pwerau o dan adran 136 yn gymwys mewn perthynas â'r cod a ddisgrifir yn adran 6, fel y byddai o dan y pŵer yn adran 135.

#### **Adran 9 – Pŵer i helpu awdurdodau lleol i gydymffurfio â gofynion y cod**

232. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn ystyried y bydd yn helpu awdurdod lleol i gydymffurfio â gofynion y cod, gan gynnwys ymrwmo i drefniadau gydag unrhyw berson; cydweithredu â'r person, neu hwyluso neu gyd-gysylltu gweithgareddau'r person; arfer unrhyw swyddogaethau ar ran y person hwnnw a darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i unrhyw berson. Wrth wneud unrhyw un o'r pethau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod lleol y maent yn bwriadu ei gynorthwyo ac unrhyw randdeiliaid perthnasol.

#### **Adran 10 – Cyhoeddi gwybodaeth ac adroddiadau**

233. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi gwybodaeth ynghylch y ddarpariaeth o ofal a chymorth fel y'u disgrifir yn adran 5(3) ac adrodd ar y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol ac eraill tuag at sicrhau'r canlyniadau a bennir o dan adran 5 a'r safonau ansawdd a'r targedau a bennir yn y cod o dan adran 6.

#### **Adran 11 – Asesu anghenion am ofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol**

234. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) gydweithio i asesu graddau'r anghenion am ofal a chymorth (gan gynnwys anghenion gofalwyr) yn ardal yr awdurdod lleol ac i ba raddau nad yw'r anghenion am ofal a chymorth yn cael eu diwallu. Rhaid iddynt hefyd asesu ystod y gwasanaethau y mae ei hangen i ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth a ganfuwyd, a'r ystod o

wasanaethau y mae ei hangen i atal, gohirio neu leihau'r anghenion am ofal a chymorth, neu gyflawni rywfodd arall y dibenion a ddisgrifir yn adran 6 (y cyfeirir atynt fel "gwasanaethau ataliol").

235. Mae'r asesiad anghenion lleol hwn yn ychwanegol at unrhyw asesiad arall o anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth leol a all fod yn ofynnol gan reoliadau o dan adran 40 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 40 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) drwy ei gwneud yn ofynnol i'r asesiad anghenion lleol hwn gael ei gymryd i ystyriaeth wrth lunio'r gyd-strategaeth iechyd a llesiant neu wrth adolygu'r gyd-strategaeth honno.
236. Mae is-adran (4) yn diwygio adran 26 o Ddeddf Plant 2004 i sicrhau'r un effaith mewn perthynas â chynlluniau plant a phobl ifanc.

### **Adran 12 – Gwasanaethau ataliol**

237. Mae hyn yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel "gwasanaethau ataliol") a fydd yn atal, yn gohirio neu'n lleihau'r anghenion am ofal a chymorth, yn hyrwyddo magwraeth plant mewn teuluoedd, yn lleihau effaith anabledau ar bobl anabl, yn cyfrannu at atal cam-drin ac esgeuluso, yn lleihau'r angen am achosion llys, yn annog plant i beidio ag ymddwyn mewn ffordd droseddol, yn lleihau'r angen i leoli plant mewn llety diogel ac yn galluogi pobl i fyw eu bywydau mor annibynnol â phosibl.
238. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried hefyd bwysigrwydd cyflawni'r dibenion hyn wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau eraill. Golyga hyn mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yn gyffredinol, ac nid yr adran gwasanaethau cymdeithasol yn unig, yw ystyried y math o wasanaethau ataliol y gellid eu darparu.
239. Yn yr un modd, rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) ystyried pwysigrwydd y dibenion hyn wrth arfer eu swyddogaethau hwythau. Er nad yw hyn yn gosod unrhyw swyddogaethau newydd ar y BILlau, mae'n golygu bod rhaid iddynt ystyried a oes yna bethau y gallant eu darparu neu eu trefnu o dan eu swyddogaethau presennol a fyddai'n cyflawni'r dibenion hyn.

### **Adran 13 – Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector**

240. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo mentrau cymdeithasol, sefydliadau neu drefniadau cydweithredol, camau i gynnwys defnyddwyr y gwasanaethau yn y broses o ddylunio a rhedeg gwasanaethau ac argaeledd gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol gan sefydliadau trydydd sector (p'un a ydynt yn fentrau cymdeithasol neu'n sefydliadau cydweithredol ai peidio).



## **Adran 14 – Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy**

241. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau y darperir gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Diben y gwasanaeth yw darparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynglŷn â gofal a chymorth, gan gynnwys cymorth i ofalwyr, a'u cynorthwyo i gael gafael arnynt. Mae gwybodaeth a chyngor ar gael i bawb, p'un a oes arnynt anghenion am ofal a chymorth ai peidio.
242. Rhaid i'r gwasanaeth gynnwys gwybodaeth – gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wybodaeth ariannol – a chyngor am y system gofal a chymorth y darperir ar ei chyfer o dan y Bil hwn, y math o ofal a chymorth sydd ar gael yn ardal yr awdurdod lleol, sut y ceir gafael arnynt, a sut i fynegi pryderon ynghylch pobl os yw'n ymddangos bod arnynt angen gofal a chymorth, neu gymorth.
243. Mae BILlau ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) o dan ddyletswydd i hwyluso'r gwasanaeth drwy ddarparu gwybodaeth i'r awdurdod lleol am y gofal a'r cymorth a ddarperir ganddynt.
244. Caiff dau neu fwy o awdurdodau lleol sicrhau ar y cyd fod gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn cael ei ddarparu.

## **Adran 15 – Cofrestrau o bobl â nam ar eu golwg, pobl â nam ar eu clyw a phobl anabl eraill**

245. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol lunio a chynnal cofrestr o bobl sy'n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod ac sydd â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw a/neu'r ddau. Hefyd, rhaid iddynt lunio a chynnal cofrestr o blant sydd yn eu hardal hwy ac sydd naill ai'n anabl neu sydd â nam corfforol neu feddyliol a all arwain at anghenion am wasanaethau gofal cymdeithasol. Diben y cofrestrau yw adnabod y bobl y gall fod arnynt angen gofal a chymorth. Mae'r awdurdodau lleol i gael pwerau hefyd i lunio a chynnal cofrestrau o bersonau sy'n anabl a phobl nad ydynt yn anabl ond bod ganddynt nam corfforol neu feddyliol neu fod arnynt anghenion o fath arall y mae'r awdurdod lleol yn ystyried y gallant arwain at angen am ofal a chymorth.

## **RHAN 3 – ASESU ANGHENION UNIGOLION**

### **Adran 16 – Dyletswydd i asesu anghenion oedolyn am ofal a chymorth**

246. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu a oes ar oedolyn anghenion am ofal a chymorth; ac os oes, beth yw'r anghenion hynny. Ysgogir y ddyletswydd pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod ar oedolyn anghenion gofal a chymorth. Mae'r ddyletswydd yn gymwys mewn perthynas ag oedolion sy'n preswyllo fel arfer yn yr ardal yn ogystal ag oedolion eraill sydd yn yr ardal, ni waeth beth fo lefel yr angen am ofal a chymorth a lefel adnoddau ariannol yr oedolyn. Rhaid i'r asesiad ganolbwyntio ar y canlyniadau y mae'r oedolyn yn dymuno eu

sicrhau yn ei fywyd beunyddiol ac i ba raddau y gallai'r ddarpariaeth o ofal a chymorth, gwasanaethau ataliol, neu'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy, gyfrannu at y canlyniadau hynny. Mae'n ofynnol i'r asesiad ei hunan fod yn un cymesur a chynnwys yr oedolyn, a phan fo'n ddichonadwy, ofalwr yr oedolyn. Bydd rheoliadau o dan adran 24 yn darparu manylion pellach am asesiad cymesur.

### **Adran 17 – Oedolyn yn gwrthod asesiad o anghenion**

247. Mae'r adran hon yn darparu na fydd dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal asesiad yn gymwys os bydd oedolyn yn gwrthod asesiad.
248. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod gan oedolion reolaeth ar b'un a gynhelir asesiad ai peidio. Gallant ddewis gwneud eu trefniadau eu hunain i ddiwallu eu hanghenion am ofal a chymorth, heb gynnwys yr awdurdod lleol yn hynny.
249. Fodd bynnag, mewn rhai achosion bydd yr awdurdod lleol yn parhau o dan rwymedigaeth i gynnal asesiad, er gwaethaf gwrthodiad. Yr achos cyntaf o'r fath yw pan nad oes galluedd gan yr oedolyn, a byddai cynnal asesiad er lles pennaf yr unigolyn. Yr ail achos yw pan fo oedolyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.
250. Mae hawlogaeth gan oedolyn sy'n gwrthod asesiad i newid ei feddwl, ac os gwna hynny, bydd yr awdurdod lleol o dan rwymedigaeth i gynnal asesiad. Yn ogystal, os bydd anghenion neu amgylchiadau'r oedolyn yn newid, bydd rhaid i'r awdurdod lleol gynnig cynnal asesiad eto; ond ni fydd rhwymedigaeth ar yr awdurdod i wneud hynny os bydd yr oedolyn yn gwrthod (ac eithrio pan fo un o'r eithriadau yn gymwys).

### **Adran 18 – Dyletswydd i asesu anghenion plentyn am ofal a chymorth**

251. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth debyg i adran 16 mewn perthynas ag asesu anghenion plentyn. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu a oes gan blentyn anghenion am ofal a chymorth, ac os oes, beth yw'r anghenion hynny. Ysgogir y ddyletswydd pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol y gall fod ar blentyn anghenion am ofal a chymorth.
252. Mae'r ddyletswydd yn gymwys mewn perthynas â phlant sy'n preswyllo fel arfer yn yr ardal yn ogystal â phlant eraill sydd yn yr ardal, ni waeth beth fo lefel angen y plentyn am ofal a chymorth a lefel adnoddau ariannol y plentyn, neu unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
253. Mae ystyriaethau penodol yn gymwys ynglŷn ag asesu plant. Rhaid i'r asesiad ystyried anghenion datblygiadol y plentyn ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar lesiant.

254. Gwneir darpariaeth wahanol hefyd ar gyfer y modd y mae'r asesiad yn ceisio canfod y canlyniadau ar gyfer plant. Yn ychwanegol at ganolbwyntio ar y canlyniadau y mae'r plentyn yn dymuno eu cyflawni yn ei fywyd beunyddiol, rhaid i'r asesiad geisio canfod hefyd y canlyniadau y mae'r rhai sydd â gofal rhiant dros y plentyn (ac unrhyw bersonau eraill a bennir mewn rheoliadau) yn dymuno eu cyflawni. Rhaid asesu i ba raddau y gallai'r ddarpariaeth o ofal a chymorth, gwasanaethau ataliol, neu'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy, gyfrannu at y canlyniadau hynny.
255. Mae'n ofynnol i'r asesiad ei hunan fod yn un cymesur. Bydd rheoliadau o dan adran 24 yn darparu manylion pellach am asesiad cymesur.
256. Nid yw'r adran hon yn gymwys i blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. [Darperir ar wahân ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru yn Rhan 6.]

### **Adran 19 – Plentyn yn gwrthod asesiad o'i anghenion**

257. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth debyg i adran 17, i'r perwyl nad oes rhwymedigaeth ar awdurdod lleol i gynnal asesiad os yw plentyn 16 neu 17 oed yn gwrthod. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan blant hŷn yr un rheolaeth ag oedolion ynglŷn â chynnwys yr awdurdod lleol ai peidio mewn darparu neu drefnu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth.
258. Yn achos plant o dan 16 oed, nid yw'r gyfraith yn rhagdybio bod galluedd gan blentyn o'r fath. Mae is-adran (3) yn darparu, pan fo plentyn sydd o dan 16 oed yn gwrthod rhyddhau awdurdod lleol o'i ddyletswydd i gynnal asesiad, bod rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod y plentyn yn gallu gwneud penderfyniad deallus.
259. Mae rhagofalon yn bodoli, sy'n peri y gellir trechu gwrthodiad gan blentyn mewn rhai amgylchiadau ac y bydd y ddyletswydd i gynnal yr asesiad yn parhau'n gymwys.
260. Yn achos plant 16 neu 17 oed, caiff awdurdod lleol drechu gwrthodiad y plentyn mewn dau achos. Yr achos cyntaf yw pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni nad oes galluedd gan y plentyn ac y byddai cynnal asesiad er lles pennaf iddo. Yr ail achos yw pan fo'r plentyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn modd arall.
261. Yn achos plant sydd o dan 16 oed, gellir trechu gwrthodiad gan blentyn a ystyrir yn alluog i wneud penderfyniad deallus os yw'r awdurdod lleol yn amau bod y plentyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn modd arall.

262. Ailymrwymir i'r ddyletswydd hefyd, os yw'r plentyn yn ddiweddarach yn gofyn am asesiad neu os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod anghenion neu amgylchiadau'r plentyn wedi newid.

### **Adran 20 – Rhiant yn gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer plentyn**

263. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sydd o dan 16 oed yn gwrthod asesiad ar gyfer y plentyn hwnnw, na fydd y ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i asesu yn gymwys.

264. Mae rhagofalon yn bodoli, sy'n peri y gellir trechu gwrthodiad rhiant y plentyn mewn rhai amgylchiadau ac y bydd y ddyletswydd i gynnal yr asesiad yn parhau'n gymwys.

265. Gellir trechu gwrthodiad rhiant mewn tri achos. Yr achos cyntaf yw pan fo awdurdod lleol yn amau bod y plentyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn modd arall. Yr ail achos yw pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni nad oes gan y rhiant alluedd i benderfynu gwrthod asesiad. Y trydydd achos yw pan fo'r awdurdod lleol wedi ei fodloni y gall y plentyn wneud penderfyniad deallus a'i fod yn anghytuno â barn y rhiant.

266. Ailymrwymir i'r ddyletswydd hefyd os yw'r rhiant yn ddiweddarach yn gofyn am asesiad neu os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod anghenion neu amgylchiadau'r plentyn neu rieni'r plentyn wedi newid.

### **Adran 21 – Dyletswydd i asesu anghenion gofalwr am gymorth**

267. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnal asesiad o anghenion gofalwr am gymorth. Diffinnir "gofalwr" yn adran 3 fel person sy'n darparu, neu sy'n bwriadu darparu, gofal i oedolyn neu blentyn anabl.

268. Ysgogir y ddyletswydd os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol y gall fod gan ofalwr anghenion am gymorth. Mae'r ddyletswydd i asesu yn gymwys beth bynnag fo barn yr awdurdod am lefel anghenion cymorth y gofalwr, neu adnoddau ariannol y gofalwr neu adnoddau ariannol y person y mae arno angen gofal.

269. Rhaid i'r asesiad gynnwys asesu i ba raddau y mae'r gofalwr yn gallu ac yn fodlon darparu'r gofal a pharhau i ddarparu'r gofal, y canlyniadau y mae'r gofalwr yn dymuno eu sicrhau ar ei gyfer ef ei hunan, ac os yw'r gofalwr yn blentyn, y canlyniadau y mae rhiant y plentyn (ac unrhyw bersonau eraill a bennir mewn rheoliadau) yn dymuno eu sicrhau iddo, ac i ba raddau y gallai cymorth, gwasanaethau ataliol, neu'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor neu gynhorthwy helpu i sicrhau'r canlyniadau a nodwyd. Rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys y gofalwr, a phan fo'n ddichonadwy, y person y mae'r gofalwr yn darparu neu'n bwriadu darparu gofal iddo yn yr asesiad.

270. Rhaid i'r asesiad hefyd ystyried a yw'r gofalwr yn dymuno gweithio a chymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden, ac os yw'r gofalwr yn blentyn, ei anghenion datblygiadol ac i ba raddau y mae'n briodol i'r plentyn ddarparu'r gofal. Dylai hyn arwain yr awdurdod lleol i ystyried a yw gofalwr sy'n blentyn mewn gwirionedd yn blentyn a chanddo anghenion gofal a chymorth yn ei hawl ei hun a phwy, felly, a ddylai gael ei asesu o dan adran 18.

### **Adran 22 – Gofalwr yn gwrthod asesiad o anghenion**

271. Mae'r adran hon yn darparu nad yw'r ddyletswydd i asesu yn gymwys pan fo gofalwr sy'n oedolyn, neu ofalwr sy'n 16 neu 17 oed, yn gwrthod asesiad. Ailymrwymir i'r ddyletswydd i asesu os yw'r gofalwr yn ddiweddarach yn gofyn am asesiad neu os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod amgylchiadau'r gofalwr wedi newid a hynny'n golygu y byddai asesiad pellach o fudd i'r gofalwr.

### **Adran 23 – Cyfuno asesiadau o anghenion ac asesiadau eraill**

272. Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdod lleol gyfuno asesiad o ddefnyddiwr â'r asesiad o'r gofalwr os yw'r awdurdod o'r farn y byddai'n fuddiol gwneud hynny ac os yw'r gofalwr a'r person y gofelir amdano yn cytuno.

273. Mae'r adran hon hefyd yn darparu y caiff awdurdod lleol gynnal asesiad o anghenion o dan y Bil ar yr un pryd ag y bydd yr awdurdod yn cynnal asesiad o dan Ddeddfau eraill neu ar yr un pryd ag y bydd corff arall yn cynnal asesiad o dan Ddeddfau eraill.

274. Mewn achosion o'r fath, caiff yr awdurdod lleol gynnal yr asesiad ar ran neu ar y cyd â'r corff arall neu ar y cyd â pherson arall sy'n cynnal yr asesiad arall.

275. Bydd hyn yn osgoi'r dyblygu asesiadau a fyddai'n digwydd pe bai asesiadau o dan wahanol ddeddfwriaeth yn cael eu cynnal ar wahân, a bydd yn gwella'r profiad i ddefnyddwyr ac i ofalwyr.

### **Adran 24 – Rheoliadau ynghylch asesu**

276. Mae'r adran hon yn galluogi gwneud rheoliadau ynglŷn â chynnal asesiadau o dan y Bil ac yn disgrifio'r math o ofynion y gellid eu gosod. Gallai hynny gynnwys gofynion i gynnwys pobl eraill, yn ychwanegol at y rhai a bennir yn adrannau 16, 18 ac 21.

277. Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i asesiadau gael eu cynnal mewn ffordd benodol, gan gynnwys cynnal asesiadau cymesur mewn amgylchiadau penodol. Gallai'r rheoliadau bennu pwy gaiff gynnal asesiad, ac o dan ba amgylchiadau y gallai personau neu gyffwrdd eraill ymgymryd â'r rhain ar ran yr awdurdod lleol. Gallent hefyd nodi o fewn pa

derfynau amser y bydd rhaid cwblhau asesiadau ac, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i ganlyniadau asesiad gael eu cofnodi mewn ffordd benodol er mwyn sicrhau cysondeb. Materion eraill y gellid darparu ar eu cyfer yw: ystyriaethau eraill y mae awdurdod lleol i roi sylw iddynt wrth gynnal asesiad; pŵer i ddarparu gwybodaeth at ddiben asesu; trefniadau adolygu.

### **Adran 25 – Rhan 3: dehongli**

278. Mae'r adran hon yn cynorthwyo dealltwriaeth o dermau allweddol a ddefnyddir yn Rhan 3, sef 'gwasanaethau ataliol' a 'gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy'.

### **RHAN 4 – DIWALLU ANGHENION**

#### **Adran 26 – Dyfarnu cymhwystra ac ystyried beth i'w wneud i ddiwallu anghenion**

279. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol, os daw asesiad i'r casgliad bod anghenion gofal a chymorth neu anghenion cymorth i'w bodloni, ddyfarnu a yw'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwystra, neu a yw'r anghenion a ganfuwyd yn galw am arfer unrhyw ddyletswydd neu bŵer o dan y Bil neu o dan Rannau 4 a 5 o Ddeddf Plant 1989.

280. Os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwystra, rhaid i'r awdurdod lleol ddyfarnu a ddylid diwallu'r anghenion beth bynnag, os canfyddir bod angen amddiffyn y person rhag cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio mewn modd arall.

281. Mae'r adran hefyd yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol ystyried beth y gellid ei wneud i ddiwallu'r anghenion a ganfyddir, a ddylai godi ffi am wneud hynny a lefel y ffi honno.

282. Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a fyddai darparu gwasanaethau ataliol, neu wybodaeth, cyngor a chynhorthwy, neu unrhyw beth arall a all fod ar gael yn y gymuned, o fudd i'r person. Mae hyn yn gymwys p'un a oes ar y person anghenion cymwys ai peidio.

283. Bydd rheoliadau yn darparu ar gyfer manylion y meini prawf cymhwystra o ran disgrifio'r anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra.

284. Bydd fframwaith cymhwystra cenedlaethol yn cael ei ddatblygu, i ddarparu eglurder drwy reoliadau ynghylch yr hyn a olygir wrth "angen cymwys". Bydd hyn yn cymryd lle'r meini prawf cymhwystra lleol a gymhwysir ar hyn o bryd gan yr awdurdodau lleol yn unol â'r canllawiau yn "Creu System Deg ac Unedig i Asesu a Rheoli Gofal" a "Trefniadau Asesu, Cynllunio ac Adolygu Integredig ar gyfer Pobl Hŷn".

## **Adran 27 – Sut i ddiwallu anghenion**

285. Unwaith y bydd awdurdod lleol wedi dyfarnu ei fod yn mynd i ddiwallu anghenion person ac yn ystyried beth y gellid ei wneud i ddiwallu'r anghenion hynny, gall geisio diwallu'r anghenion mewn nifer o ffyrdd. Yn wahanol i'r fframwaith cyfreithiol presennol, nid yw'r Bil yn pennu pa ddarpariaeth y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol ei darparu, neu y cânt ei darparu. Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd ac yn annog arloesi.
286. Mae'r adran hon yn nodi enghreifftiau o'r hyn y gellir ei ddarparu i ddiwallu anghenion person ac enghreifftiau o'r ffyrdd y gellir mynd ati i ddiwallu'r anghenion – mae'r enghreifftiau yn cynnwys cymhorthion ac addasiadau a thaliadau. Caiff awdurdodau lleol hefyd benderfynu naill ai ddarparu gwasanaethau eu hunain neu drefnu i'r gwasanaethau gael eu darparu gan rywun arall. Gellid diwallu anghenion person hefyd drwy ddarparu'r gwasanaethau i berson arall, er enghraifft darparu cymorth i deulu plentyn er mwyn diwallu anghenion y plentyn am ofal a chymorth.
287. Mae rhai cyfyngiadau ar yr hyn y gall awdurdod lleol ei wneud i ddiwallu anghenion person. Nodir y rhain yn adrannau 38 i 40.

## **Adran 28 – Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn**

288. Mae'r adran hon yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i awdurdod lleol fod o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn yn ei ardal. Cymhwyso'r meini prawf cymhwysra fydd y brif ffordd o ddyfarnu a oes rhaid i awdurdod lleol ddiwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth.
289. Fodd bynnag, mae is-adran (3) yn darparu rhagofalon i sicrhau bod awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn amddiffyn yr oedolyn rhag cael, neu rhag risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, hyd yn oed pan nad yw anghenion yr oedolyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysra.
290. Mae'r ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn wedi ei datgymhwyso i'r graddau y mae'r anghenion hynny yn cael eu diwallu gan ofalwr.
291. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion pobl sydd â hawlogaeth i gael gwasanaethau yn ddi-dâl, neu y mae eu moddion yn peri nad oes rhaid iddynt dalu'r ffi lawn.
292. Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion "hunan gyllidwyr": sef oedolion yr asesir bod eu moddion uwchlaw'r terfyn ariannol ac felly eu bod yn atebol i dalu'r ffi lawn. Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i ddau eithriad pwysig. Yr eithriad cyntaf yw pan fo'r oedolyn yn gallu fforddio talu ond er hynny yn gofyn i'r awdurdod ddiwallu ei anghenion. Yr

ail eithriad yw pan nad oes gan yr oedolyn alluedd i drefnu'r ddarpariaeth o ofal a chymorth ei hunan.

293. Os yw'r naill neu'r llall o'r eithriadau hyn yn gymwys, bydd yr awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion y person ac i adennill y ffi lawn am ddarparu neu drefnu gwasanaethau. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn gallu gosod ffi "broceriaeth" (gweler Rhan 5).
294. Hyd yn oed os bodlonir yr amodau hyn, ni fydd awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion person oni fydd yr amod preswyllo yn is-adran (2) wedi ei fodloni. Mae is-adran (2) yn darparu y bydd awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion oedolyn os yw'r oedolyn yn "preswyllo fel arfer" yn ardal yr awdurdod. Mae'r term hwn yn gyfystyr ag "ordinarily resident" yn Neddf Cymorth Gwladol 1948 ac y mae rhywfaint o sefydlogrwydd yn ofynnol ar ei gyfer.
295. Rhaid i awdurdod lleol hefyd ddiwallu anghenion oedolion sydd o fewn ardal yr awdurdod ac nad oes ganddynt breswylfa sefydlog. Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion oedolion sy'n preswyllo dros dro yn ardal yr awdurdod ond sy'n preswyllo fel arfer mewn man arall.

### **Adran 29 – Pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn**

296. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn heb yn gyntaf gwblhau asesiad o anghenion na chynnal asesiad ariannol. Mae'r pŵer hwn ar gael os ystyrir bod ei angen er mwyn diwallu anghenion fel mater brys.
297. Mae'r pŵer ar gael hefyd mewn achosion pan fo asesiad wedi ei gynnal ond nid yw'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysra. Yn yr amgylchiadau hynny, caiff yr awdurdod lleol, er gwaethaf hynny, benderfynu diwallu'r anghenion er nad yw o dan ddyletswydd i wneud hynny. Os yw'r awdurdod lleol yn diwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn sydd, fel rheol, yn byw yn ardal awdurdod arall, rhaid iddo hysbysu'r awdurdod hwnnw ei fod yn gwneud hynny.

### **Adran 30 – Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn**

298. Mae'r adran hon yn pennu'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i awdurdod lleol fod o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn o fewn ei awdurdod.
299. Cymhwyso'r meini prawf cymhwysra fydd y prif ddull a ddefnyddir i benderfynu a fydd rhaid i anghenion gofal a chymorth plentyn gael eu diwallu gan yr awdurdod lleol o dan yr adran hon.
300. Fodd bynnag, mae is-adran (3) yn darparu rhagofalon i sicrhau bod awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn amddiffyn y plentyn rhag cael, neu rhag risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu



ei niweidio mewn modd arall, hyd yn oed os nad yw ei anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysra.

301. Mae'r ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddiwallu anghenion plentyn wedi ei datgymhwyso i'r graddau y mae'r anghenion hynny yn cael eu diwallu gan deulu'r plentyn neu gan ofalwr.
302. Mae'r ddyletswydd yn ddyledus i unrhyw blentyn sydd o fewn ardal yr awdurdod lleol, hyd yn oed os yw'n preswyllo fel arfer yn rhywle arall. Mae'r ddyletswydd hefyd yn ddyledus i blant sydd y tu allan i ardal yr awdurdod lleol ond yn preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod.
303. Nid yw'r adran hon yn gymwys os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru. Darperir ar wahân ar gyfer y plant hynny yn Rhan 6. Nid yw'n gymwys ychwaith i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr neu'r Alban neu gan Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.
304. Mae'n bosibl y bydd awdurdod lleol o dan ddyletswydd hefyd i ddarparu llety i blant o dan adran 67 neu adran 68 o'r Bil hwn, neu o dan ddyletswyddau eraill i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn o dan Rannau 4 neu 5 o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 31 – Pŵer i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn**

305. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn heb yn gyntaf gwblhau asesiad o anghenion na chynnal asesiad ariannol. Mae'r pŵer hwn ar gael os ystyrir bod ei angen er mwyn diwallu anghenion fel mater brys.
306. Mae'r pŵer hwn ar gael hefyd mewn achosion pan fo asesiad wedi ei gynnal ond nad yw'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysra. Yn yr amgylchiadau hynny, caiff yr awdurdod lleol benderfynu diwallu'r anghenion beth bynnag, er nad yw o dan ddyletswydd i wneud hynny.
307. Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu arfer y pŵer hwn i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn sydd fel arfer yn preswyllo mewn ardal arall, yna rhaid iddo hysbysu'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal honno ei fod yn gwneud hynny.
308. Nid yw'r adran hon yn gymwys os yw'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru. Darperir ar wahân ar gyfer y plant hynny yn Rhan 6. Nid yw'n gymwys ychwaith i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr neu'r Alban neu gan Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.

### **Adran 32 – Dyletswydd i gadw cyswllt â'r teulu**

309. Mae'r adran hon yn ailddatgan y ddarpariaeth yn mharagraff 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

310. Mae'n gosod dyletswyddau ychwanegol ar awdurdod lleol mewn perthynas â phlant yn ei ardal yr ystyria fod arnynt angen gofal a chymorth a'r rheini'n blant sy'n byw ar wahân i'w teuluoedd, ond nad ydynt yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.
311. P'un a yw'r awdurdod lleol wedi dyfarnu bod gan blentyn o'r fath anghenion cymwys y mae'n rhaid eu diwallu ai peidio, rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau i alluogi'r plentyn i fyw gyda'i deulu, neu i hyrwyddo cyswllt rhwng y plentyn a'i deulu, os yw o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er mwyn hyrwyddo llesiant y plentyn.

### **Adran 33 – Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofalwr sy'n oedolyn am gymorth**

312. Mae'r adran hon yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i awdurdod lleol fod o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion cymorth oedolyn, sy'n ofalwr i oedolyn neu blentyn anabl yn ardal yr awdurdod lleol.
313. Cymhwyso'r meini prawf cymhwystra yw'r prif ddull a ddefnyddir i ddyfarnu a fydd rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion y gofalwr sy'n oedolyn am gymorth o dan yr adran hon.
314. Mae cysylltiad rhwng y ddyletswydd i ddiwallu anghenion ac adnoddau ariannol y gofalwr a'r person y gofelir amdano. I'r graddau y mae diwallu anghenion cymorth y gofalwr yn golygu darparu cymorth i'r gofalwr, mae'r adran yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion gofalwr sydd â hawlogaeth i gael gwasanaethau yn ddi-dâl neu y mae ei foddion yn peri nad oes rhaid iddo dalu'r ffi lawn.
315. Pan fo'r oedolyn y mae arno angen gofal yn cytuno y gellir diwallu anghenion cymorth y gofalwr drwy ddarparu gofal a chymorth i'r oedolyn, rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion yr oedolyn os oes hawlogaeth ganddo i gael gwasanaethau yn ddi-dâl neu os yw ei foddion yn peri nad oes rhaid iddo dalu'r ffi lawn.
316. Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cymorth i ofalwyr sy'n gallu fforddio talu'r ffi lawn oni fydd y gofalwr, er gwaethaf hynny, yn gofyn i'r awdurdod ddiwallu ei anghenion. Yn yr un modd, nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu gofal a chymorth i oedolyn sy'n gallu fforddio talu'r ffi lawn oni fydd yr oedolyn, er gwaethaf hynny, yn gofyn i'r awdurdod wneud darpariaeth o'r fath.
317. Bydd y cwestiwn o ran pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion cymorth gofalwr yn dibynnu ar breswylfa'r person y gofelir amdano. Yr awdurdod lleol cyfrifol yw'r un a fyddai'n gyfrifol am ddiwallu anghenion y person y gofelir amdano pe bai'n gymwys yn ei hawl ei hun, naill ai fel oedolyn (gweler adran 28) neu fel plentyn (gweler adran 30).

### **Adran 34 – Dyletswydd i ddiwallu anghenion cymorth gofalwr sy'n blentyn**

318. Mae'r adran hon yn pennu'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i awdurdod lleol fod o dan ddyletswydd i ddiwallu anghenion cymorth plentyn sy'n ofalwr i oedolyn neu'n ofalwr i blentyn anabl yn ardal yr awdurdod lleol.
319. ymhwyso'r meini prawf cymhwystra yw'r prif ddull a ddefnyddir i ddyfarnu a fydd rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion y gofalwr sy'n blentyn am gymorth o dan yr adran hon. Yn achos plentyn sy'n ofalwr ac yn gofalu am oedolyn, mae cysylltiad rhwng y ddyletswydd i ddiwallu anghenion plentyn sy'n ofalwr ac adnoddau ariannol yr oedolyn y gofelir amdano.
320. Pan fo'r oedolyn y mae arno angen gofal yn cytuno y gellir diwallu anghenion cymorth y gofalwr sy'n blentyn drwy ddarparu gofal a chymorth i'r oedolyn, rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion yr oedolyn os oes hawlogaeth gan yr oedolyn i gael gwasanaethau yn ddi-dâl neu os yw moddion yr oedolyn yn peri nad oes rhaid iddo dalu'r ffi lawn.
321. Nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu gofal a chymorth i oedolyn sy'n gallu fforddio talu'r ffi lawn oni fydd yr oedolyn, er gwaethaf hynny, yn gofyn i'r awdurdod wneud darpariaeth o'r fath.
322. Bydd y cwestiwn o ran pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion cymorth gofalwr sy'n blentyn yn dibynnu ar breswylfa'r person y gofelir amdano. Yr awdurdod lleol cyfrifol yw'r un a fyddai'n gyfrifol am ddiwallu anghenion y person y gofelir amdano pe bai'r person hwnnw yn gymwys yn ei hawl ei hun, naill ai fel oedolyn (gweler adran 28) neu fel plentyn (gweler adran 30).

### **Adran 35 – Darpariaeth atodol ynghylch y dyletswyddau i ddiwallu anghenion gofalwr**

323. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaethau atodol mewn perthynas â'r dyletswyddau yn adrannau 33 a 34.
324. Os yw'n ddichonadwy gwneud hynny, caiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion gofalwr am gymorth drwy ddarparu gwasanaethau i'r person y gofelir amdano, hyd yn oed os na fyddai'r person y gofelir amdano yn gymwys i gael gwasanaethu yn ei hawl ei hun (o dan adrannau 28 neu 30).
325. Os nad yw'n ddichonadwy i'r awdurdod lleol ddarparu gofal a chymorth i'r person y gofelir amdano, rhaid i'r awdurdod lleol, i'r graddau y mae'n ddichonadwy, ganfod rhyw ffordd arall o ddiwallu rhai neu bob un o anghenion y gofalwr am gymorth.

### **Adran 36 – Pŵer i ddiwallu anghenion gofalwr am gymorth**

326. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i awdurdod lleol ddiwallu anghenion cymorth gofalwr heb yn gyntaf gwblhau asesiad o anghenion na chynnal asesiad ariannol. Mae'r pŵer hwn ar gael os ystyrir bod angen diwallu anghenion fel mater brys.
327. Mae'r pŵer hwn ar gael hefyd mewn achosion pan fo asesiad wedi ei gynnal ond nad yw'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwysra. Yn yr amgylchiadau hynny, caiff yr awdurdod lleol, er gwaethaf hynny, benderfynu diwallu'r anghenion, er nad yw o dan ddyletswydd i wneud hynny.

### **Adran 37 – Eithriad ar gyfer personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo**

328. Mae'r adran hon yn darparu na chaiff awdurdod lleol ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn y mae adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn gymwys iddo, a'r unig reswm y mae ei anghenion am ofal a chymorth wedi codi yw bod yr oedolyn yn ddiymgeledd neu oherwydd effeithiau, disgwylidig neu wirioneddol, bod yn ddiymgeledd.

### **Adran 38 – Eithriad ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd**

329. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer pwerau awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau iechyd, gan gynnwys cyfyngiadau ar y pwerau hynny.
330. Y man cychwyn (is-adran (1)) yw na chaniateir i awdurdod lleol ddiwallu anghenion am ofal a chymorth drwy ddarparu gwasanaethau gofal iechyd y mae'n ofynnol eu darparu o dan ddeddfiad iechyd (a ddiffinnir yn is-adran (10)). Mae'r gwaharddiad hwn yn gymwys hefyd mewn perthynas â phwerau awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ataliol o dan adran 12.
331. Fodd bynnag, nid yw'r gwaharddiad yn gymwys ynglŷn â darparu gwasanaethau gofal iechyd sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o wasanaethau eraill y mae pwerau gan yr awdurdod lleol i'w darparu neu'n ategol at y ddarpariaeth honno.
332. Er mwyn datrys unrhyw amheuaeth o ran p'un a oes pwerau ai peidio gan awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, gan gynnwys unrhyw gwestiwn o ran a yw'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal iechyd yn gysylltiedig â hynny neu'n ategol at hynny ai peidio, mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n egluro hyn.

333. Hyd yn oed pan fo gan awdurdod lleol bŵer i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, fe'i gwaherddir o hyd rhag darparu na threfnu'r ddarpariaeth o ofal nyrsio gan nyrs gofrestredig. Diffinnir "gofal nyrsio" yn is-adran (10).
334. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn eglur nad yw'r gwaharddiad ar awdurdod lleol rhag darparu gofal nyrsio yn atal yr awdurdod rhag trefnu i ddarparu llety mewn cartref nyrsio, ar yr amod bod y corff iechyd perthnasol, fel y'i pennir mewn rheoliadau, wedi cydsynio i hynny. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr elfen o ofal nyrsio yn cael ei chyllido gan y GIG yn unol â threfniadau ar gyfer gofal nyrsio sy'n cael ei gyllido gan y GIG. Mae is-adran (8) yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud sy'n ei gwneud yn ofynnol sefydlu trefniadau i ymdrin ag anghydfodau rhwng awdurdodau lleol a chyrrff GIG.
335. Ceir ei gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdodau lleol gymryd rhan yn y broses ar gyfer asesu anghenion gofal iechyd person a phenderfynu sut i ddiwallu'r anghenion hynny. Gellid gwneud rheoliadau o dan yr is-adran hon i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyfranogi yn y gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu cymhwysra am Ofal Iechyd Parhaus.

### **Adran 39 – Eithriad ar gyfer darparu tai etc**

336. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer cyfyngiadau eraill ar bwerau awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth.
337. Yn benodol, gwaherddir hwy rhag gwneud unrhyw beth y byddai'n ofynnol i awdurdod lleol ei wneud o dan Ddeddf Tai 1996. Mae hyn yn golygu na fyddai gan awdurdod lleol unrhyw bŵer i ddiwallu anghenion drwy ddarparu llety yn unol â'r Bil hwn os yw'n ofynnol i'r awdurdod (neu'n ofynnol i awdurdod lleol arall) ddarparu llety o dan ei ddyletswyddau digartrefedd.
338. Mae pŵer hefyd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fyddai'n gosod cyfyngiadau pellach ar bwerau awdurdodau lleol o dan y Bil, drwy eu gwahardd rhag gwneud unrhyw beth y gallai awdurdod lleol ei wneud o dan unrhyw Ddeddf arall a bennir yn y rheoliadau.

### **Adran 40 – Cyfyngiadau ar ddarparu taliadau**

339. Mae adran 27 (sut i ddiwallu anghenion) yn darparu bod gwneud taliadau yn un o'r ffyrdd y caiff awdurdod lleol eu defnyddio i ddiwallu anghenion unigolyn am ofal a chymorth. Yn yr adran hon gosodir cyfyngiadau ar yr amgylchiadau pan ganiateir gwneud taliadau. Ceir gwneud taliadau o dan y cynllun ar gyfer taliadau uniongyrchol fel y'i nodir yn adrannau 41 i 44. Ceir eu gwneud pan fo anghenion person, ym marn yr awdurdod lleol, yn anghenion brys ac na fyddai'n rhesymol ymarferol diwallu'r anghenion mewn unrhyw ffordd arall. Mae is-baragraff (1)(c) yn caniatáu i awdurdod lleol wneud taliadau wrth gontractio ar gyfer darparu gwasanaethau. Ceir pennu, mewn rheoliadau, amgylchiadau eraill pan ganiateir gwneud taliadau. Mae is-adran (2) yn gosod terfynau ar allu

awdurdod lleol i ddefnyddio taliadau i gyflawni ei ddyletswyddau o ddarparu gwasanaethau ataliol o dan adran 12.

#### **Adran 41 – Taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion oedolyn**

340. O dan yr adran hon mae pŵer gan Weinidogion Cymru naill ai i'w gwneud yn ofynnol, neu i ganiatáu, i awdurdod lleol wneud taliadau (taliadau uniongyrchol) tuag at y costau sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth, er mwyn galluogi'r oedolyn i wneud ei drefniadau ei hunan ar gyfer prynu'r gofal sy'n ofynnol. Mae is-adrannau (3) a (4) yn pennu'r rhag-amodau ar gyfer gwneud taliadau o'r fath, yn gyntaf (is-adran (3)) pan fo galluedd gan yr oedolyn o dan sylw, ac yn is-adran (4) pan nad oes galluedd gan yr oedolyn sydd mewn angen. Rhaid i berson sydd â galluedd gydsynio i gael taliadau yn hytrach na gwasanaethau. Pan na fo gan berson alluedd, ceir rhoi'r cydsyniad ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol mewn nifer of ffyrdd. Os oes person a awdurdodwyd o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ("Deddf 2005") (drwy atwrneiaeth arhosol sydd wedi ei geirio'n briodol neu drwy ei benodi yn ddirprwy gan y Llys Gwarchod) yna gall y person hwnnw gydsynio i fod yn dderbynnnydd y taliadau ei hunan neu gall gydsynio i'r taliadau gael eu gwneud i berson arall sydd hefyd yn cydsynio i ymgymryd â'r rôl honno. Os nad oes neb wedi ei awdurdodi o dan Ddeddf 2005, gall person sy'n fodlon bod yn dderbynnnydd y taliadau roi cydsyniad os yw'r amodau eraill wedi eu bodloni. Yn achos oedolyn sydd â galluedd (is-adran (3)) neu sydd heb alluedd (is-adran (4)) ceir gwneud taliadau os yw'n bosibl na fyddai derbynnnydd y taliad yn gallu rheoli'r taliad ei hunan ond y byddai ganddo'r gallu i wneud hynny gyda chymorth sydd ar gael iddo. Yn y ddau achos mae angen i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion yr oedolyn. Yn ychwanegol, pan na fo gan yr oedolyn alluedd, rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni y bydd derbynnnydd y taliad yn gweithredu er lles pennaf yr oedolyn.

#### **Adran 42 – Taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion plentyn**

341. Mae pŵer gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau, naill ai i'w gwneud yn ofynnol, neu i ganiatáu, i awdurdod lleol wneud taliadau (taliadau uniongyrchol) tuag at gostau diwallu anghenion plentyn am ofal a chymorth. Mae'r adran yn ailadrodd darpariaethau blaenorol yn adran 17A o Ddeddf Plant 1989 lle na cheir gwneud taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion plentyn ac eithrio mewn rhai amgylchiadau. Ceir gwneud taliadau i berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn anabl sydd ag anghenion gofal a chymorth, person anabl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sydd ag anghenion am ofal a chymorth, neu blentyn anabl 16 neu 17 oed sydd ag anghenion am ofal a chymorth. Ceir gwneud taliadau uniongyrchol os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod gan y person sydd i gael y taliadau y galluedd i gydsynio; yn ychwanegol, rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion y plentyn, y bydd llesiant y plentyn yn cael ei ddiogelu a'i

hyrwyddo drwy wneud y taliadau a bod gan y person sydd i gael y taliadau y gallu i'w rheoli, ar ei ben ei hunan neu gyda chymorth.

#### **Adran 43 – Taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion gofalwr**

342. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sydd naill ai'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i awdurdod lleol wneud taliadau (taliadau uniongyrchol) tuag at gostau diwallu anghenion gofalwr am gymorth. Yn achos gofalwr, rhaid gwneud y taliadau uniongyrchol i'r gofalwr ei hunan a rhaid i'r gofalwr fod â galluedd i gydsynio. Rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi ei fodloni bod gwneud y taliadau yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion y gofalwr a bod gan y gofalwr y gallu i reoli'r taliadau, naill ai ar ei ben ei hunan neu gyda chymorth.

#### **Adran 44 – Taliadau uniongyrchol: darpariaeth bellach**

343. Yn yr adran hon, estynnir a chywreir y pŵer yn y tair adran flaenorol i wneud rheoliadau, drwy ganiatáu gwneud darpariaeth ynghylch ystod eang o faterion perthynol. Mae hyn yn cynnwys y modd y pennir swm y taliad ac a ddylai taliadau fod naill ai'n net neu'n gros o unrhyw gyfraniad y mae'r buddiolwr yn atebol i'w wneud o dan y darpariaethau codi ffioedd yn Rhan 5. Mae is-adrannau (3) a (4) yn darparu y ceir arfer y pwerau i wneud rheoliadau mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol.

344. Mae is-adran (5) yn darparu bod rhaid i reoliadau o dan adrannau 41 i 43 ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau penodedig i sicrhau bod 'personau perthnasol' (fel y'u diffinnir yn is-adran (6)) yn cael eu galluogi i wneud dewisiadau deallus ynghylch y defnydd o daliadau uniongyrchol.

345. Mae is-adran (7) yn pennu na fydd taliadau uniongyrchol yn ddarostyngedig i ofniad i ad-dalu neu wneud cyfraniad tuag at y costau o dan yr amgylchiadau a bennir yn is-adran (8). Yr amgylchiadau yw (1) pan fo person â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn anabl 16 neu 17 oed y mae arno anghenion am ofal a chymorth (2) pan fo person anabl â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn 16 neu 17 oed y mae arno anghenion am ofal a chymorth neu (3) pan fo person yn cael budd-dal lles o fath penodedig. Yn yr achosion hynny rhaid peidio â gwneud y taliadau yn ddarostyngedig i unrhyw ofniad i ad-dalu neu wneud cyfraniad tuag at y costau o sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu darparu i ddiwallu'r anghenion y mae'r taliad uniongyrchol yn cael ei wneud mewn cysylltiad â hwy. Hefyd, rhaid gwneud y taliadau yn ôl cyfradd sy'n gyfwerth â chost diwallu'r anghenion perthnasol mewn cysylltiad â'r personau o fewn paragraffau (1) a (2). Mae is-adrannau (10) ac (11) yn darparu bod yr awdurdod lleol ei hunan yn un o'r personau y caniateir i dderbynnydd taliadau uniongyrchol brynu gwasanaethau ganddynt, ac mewn achos o'r fath, bydd hawl gan yr awdurdod lleol i godi'r tâl, er ei fod, fel arall, o dan ddyletswydd i ddiwallu'r anghenion o dan sylw.

#### **Adran 45 – Cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau cymorth**

346. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol lunio a chynnal cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth ar gyfer y person cymwys, a bod rhaid adolygu cynlluniau o'r fath yn gyson. Rhaid i reoliadau wneud darpariaeth ynglŷn â'r modd y caiff y cynllun ei lunio, yr hyn y mae'n rhaid iddo ei gynnwys a threfniadau ar gyfer ei adolygu a'i ddiwygio; a cheir cysylltu'r broses â llunio cynlluniau gan gyrrff eraill ar gyfer y person cymwys a chynnwys copïau o'r cynlluniau hynny. Yn ychwanegol, pan fo'r awdurdod lleol o'r farn bod amgylchiadau'r person cymwys wedi newid, rhaid i'r awdurdod lleol gynnal asesiad newydd a diwygio'r cynllun.

#### **Adran 46 – Rheoliadau ynghylch cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau cymorth**

347. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau, o dan adran 45(4), sy'n pennu bod cynlluniau i gael eu llunio mewn ffurf benodol; yn cynnwys pethau penodol; yn cynnwys trefniadau ar gyfer ymgynghori â gwahanol bobl wrth lunio ac wrth adolygu'r cynllun; yn pennu pwy sydd i baratoi ac adolygu'r cynlluniau; yn pennu i bwy y rhoddir copïau ysgrifenedig o'r cynllun, gan gynnwys i bwy y ceir rhoi'r cynllun heb gydsyniad y person cymwys; ac o dan ba amgylchiadau y bydd rhaid adolygu'r cynlluniau.

#### **Adran 47 – Hygludedd gofal a chymorth**

348. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol (yr "awdurdod anfon") hysbysu awdurdod lleol arall (yng Nghymru) ynghylch bwriad person y mae arno anghenion gofal a chymorth cymwys i symud i ardal yr awdurdod hwnnw a darparu copi i'r awdurdod hwnnw o gynllun gofal a chymorth y person. Os oes gofalwr gan y person hwnnw, dylid darparu copi hefyd o gynllun cymorth y gofalwr, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall a ystyrir yn berthnasol gan yr "awdurdod derbyn". Yn ychwanegol, pan fo'r "awdurdod derbyn" wedi ei fodloni bod y person yn symud i'w ardal rhaid iddo hysbysu'r "awdurdod anfon" o hynny, darparu gwybodaeth briodol i'r person cymwys ac i'w ofalwr os oes ganddo un ac asesu, gyda sylw penodol, anghenion y person am ofal a chymorth sy'n deillio o'r symud.

349. Ar y diwrnod y mae person y mae arno anghenion gofal a chymorth cymwys yn symud i'r ardal, rhaid i'r "awdurdod derbyn", os nad yw wedi adolygu cynllun neu gynlluniau'r "awdurdod anfon" neu wedi cynnal asesiadau newydd, ddiwallu'r anghenion am ofal a chymorth a ganfuwyd ac a bennwyd yng nghynllun y person cymwys a luniwyd gan yr "awdurdod anfon", a rhaid iddo wneud hynny hyd nes y bydd wedi cwblhau ei adolygiad a'i asesiadau ei hun ac unrhyw gamau eraill y mae angen eu cymryd. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch y camau sydd i'w cymryd, y materion y mae'n rhaid i'r "awdurdod derbyn" roi sylw iddynt ac achosion pan na fo'r dyletswyddau yn yr adran hon yn gymwys.



#### **Adran 48 – Achosion pan fo person yn mynegi ei fod yn ffafrio llety penodol**

350. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu neu drefnu i ddarparu'r llety sy'n cael ei ffafrio; ac os yw'r llety sy'n cael ei ffafrio yn arwain at gostau sy'n ychwanegol at y costau a fyddai'n gysylltiedig â darparu llety a fyddai fel arall yn addas, yna rhaid i'r costau ychwanegol hynny gael eu talu gan y person o dan sylw.

#### **Adran 49 – Gwarchod eiddo personau y gofelir amdanynt i ffwrdd o'u cartrefi**

351. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer gwarchod eiddo person cymwys pan fo'r person hwnnw i ffwrdd o'r llety a ddarparwyd iddo, neu wedi ei dderbyn i ysbyty. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys mynd i mewn i fangre'r person a delio â'r eiddo mewn ffordd sy'n atal neu'n lliniaru unrhyw golled neu ddifrod, ond ni cheir arfer y pŵer heb gael cydsyniad a dangos prawf adnabod ac awdurdodiad. Cyflawnir trosedd os rhwystrir y pŵer hwn rhag cael ei arfer, ac os tynnir costau wrth warchod yr eiddo, mae'r costau yn adenilladwy gan y person o dan sylw.

### **RHAN 5 – CODI FFIOEDD AC ASESIAU ARIANNOL**

#### **Adran 50 – Pŵer i osod ffioedd**

352. Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdod lleol osod ffi am ddarparu neu drefnu i ddarparu gofal a chymorth neu gymorth, ac na chaiff ffi o'r fath fod yn ffi am ddim mwy na'r costau a dynnir gan yr awdurdod lleol wrth ddiwallu'r anghenion y mae'r ffi yn cael ei chodi amdanynt. Mae is-adran (3) yn cynnwys eithriad i'r cynigiad hwn, sy'n caniatáu i awdurdod lleol dalu swm ychwanegol yn yr amgylchiadau a nodir yn yr is-adran. Mae pŵer yr awdurdod lleol i osod ffi yn ddarostyngedig i'r rheoliadau y cyfeirir atynt yn adrannau 52 a 53, a'r dyletswyddau yn adrannau 54, 57 ac 58.

#### **Adran 51 – Personau y caniateir i ffioedd gael eu gosod arnynt**

353. Mae'r adran hon yn darparu'r manylion ynglŷn â'r person y ceir gosod y ffioedd arno am ddarparu gofal a chymorth (neu, pan fo'n berthnasol, cymorth): ar blentyn o dan 16 oed, gosodir y ffi ar y person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; pan fo'r person ifanc yn 16 neu 17 oed, caniateir i'r ffi gael ei gosod ar y person ifanc hwnnw neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto a phan fo'r ffi yn ymwneud ag unrhyw berson arall, gosodir y ffi ar y person hwnnw. Mewn perthynas â chymorth ar gyfer gofalwr, ceir gosod ffi ar ofalwr sy'n oedolyn a phan fo'r person y gofelir amdano yn oedolyn, ar y person y gofelir amdano. Pan osodir ffi am ddarparu cymorth i ofalwr ifanc sydd o dan 16 oed, y person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn fydd yn atebol am y ffi. Pan osodir ffi am ddarparu cymorth i ofalwr ifanc sy'n 16 neu 17 oed, y gofalwr ifanc hwnnw neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr fydd yn atebol am y

ffi. Mae eithriad i'r cynigiad hwn wedi ei gynnwys yn is-adran (5) sy'n darparu ar gyfer y sefyllfa pan fo cymorth yn cael ei ddarparu i ofalwr drwy ddarparu gofal a chymorth i'r person y mae'r gofalwr yn darparu gofal iddo.

#### **Adran 52 – Rheoliadau ynghylch arfer pŵer i osod ffi**

354. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer rheoliadau y ceir eu gwneud mewn perthynas ag arfer y pŵer i osod ffi. Gallent gynnwys yr uchafsymiau sydd i'w codi, yr amgylchiadau pan ganiateir gosod ffi a'r defnydd o unrhyw fformiwla i ddyfarnu'r ffi.

#### **Adran 53 – Rheoliadau yn datgymhwyso pŵer i osod ffi**

355. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer rheoliadau y ceir eu gwneud i ddatgymhwyso pŵer yr awdurdod lleol i osod ffi, a chaiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol, yn hytrach, i'r awdurdod lleol ddarparu'r gofal a chymorth neu'r cymorth yn rhad ac am ddim.

#### **Adran 54 – Dyletswydd i gynnal asesiad ariannol**

356. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo awdurdod lleol wedi dod i'r casgliad y bydd yn diwallu anghenion am ofal a chymorth neu am gymorth, fod rhaid iddo gynnal asesiad ariannol o adnoddau person.

#### **Adran 55 – Rheoliadau am asesiadau ariannol**

357. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid gwneud rheoliadau a fydd yn darparu ar gyfer cyfrifo incwm a chyfalaf person cymwys, i ba raddau y mae'r naill neu'r llall i'w ystyried neu i'w ddiystyru wrth gyfrifo'r ffioedd sydd i'w gosod, o dan ba amgylchiadau yr ystyrir bod gan berson adnoddau ariannol uwchlaw trothwy penodedig a'r amgylchiadau pan fydd rhaid, neu pan ganiateir, cynnal asesiad ariannol newydd.

#### **Adran 56 – Rheoliadau'n datgymhwyso'r ddyletswydd i gynnal asesiad ariannol**

358. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y datgymhwysir y ddyletswydd i gynnal asesiad ariannol.

#### **Adran 57 – Dyfarniad ynghylch gallu person i dalu ffi**

359. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol, yng ngoleuni'r asesiad ariannol, ddyfarnu a yw'n rhesymol ymarferol i'r person cymwys dalu ei ffi safonol am y gwasanaeth (sy'n cynrychioli'r gost i'r awdurdod lleol o ddarparu'r gwasanaeth i ddiwallu angen person), ac os nad ydyw, pa swm y mae'n rhesymol ymarferol i'r person ei dalu (os o gwbl). Rhaid i rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynglŷn â dyfarnu ynghylch y gallu i dalu.

### **Adran 58 – Dyletswydd i roi effaith i ddyfarniad ynghylch gallu i dalu ffi**

360. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol roi effaith i'r dyfarniad y darperir ar ei gyfer yn adran 57, er enghraifft, ynglŷn â pha bryd y bydd y dyfarniad yn cymryd effaith ac a ddisodlir y dyfarniad ai peidio gan ddyfarniad diwygiedig.

### **Adran 59 – Adolygu penderfyniadau i osod ffioedd**

361. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau mewn perthynas ag adolygu penderfyniad a wneir am y ffioedd a osodir (o dan adran 50) neu ddyfarniad a wneir yn unol ag adran 57, ac y cânt gynnwys darpariaethau ynglŷn â'r weithdrefn sydd i'w dilyn, pwy gaiff wneud cais am yr adolygiad ac o fewn pa gyfnod o amser y ceir gwneud y cais.

### **Adran 60 – Cytundebau ar daliadau gohiriedig**

362. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau mewn perthynas ag ymrwymo i gytundeb ar daliadau gohiriedig gyda pherson y mae ei anghenion yn cael eu diwallu neu'n mynd i gael eu diwallu gan awdurdod lleol (o dan adrannau 28 i 36) ac y gosodir ffi ar y person mewn cysylltiad â hynny. Caiff y rheoliadau bennu, er enghraifft, a ellir codi llog ai peidio ac ynghylch hyd y cytundeb.

### **Adran 61 – Codi ffi am wasanaethau ataliol a chynhorthwy**

363. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer gosod ffi gan yr awdurdod lleol am ddarparu gwasanaethau ataliol a chynhorthwy. Mae is-adran (2) yn darparu na chaiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i berson dalu ffi o dan yr adran hon os yw ffi eisoes wedi ei gosod yn unol ag adran 50 ac yn atal y ffi rhag cwmpasu unrhyw beth ac eithrio'r gost o ddarparu'r gwasanaethau neu'r cynhorthwy y mae'r ffi yn ymwneud â hwy.

### **Adran 62 – Adennill costau, llog etc**

364. Mae'r adran hon yn darparu i'r awdurdod lleol adennill ffioedd, llog ac unrhyw gostau a dynnir wrth adennill ffioedd a llog o'r fath, oni fydd yr awdurdod wedi ymrwymo i gytundeb ar daliadau gohiriedig. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach, er enghraifft, ynglŷn â dyddiadau ad-dalu a chodi llog.

### **Adran 63 – Creu arwystl dros fuddiant mewn tir**

365. Mae'r adran hon yn darparu i'r awdurdod lleol greu arwystl ar dir y mae gan berson sy'n methu â thalu swm y gall awdurdod lleol ei adennill o dan Ran 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) fuddiant cyfreithiol neu lesiannol ynddo er mwyn sicrhau bod y swm sy'n ddyledus ganddo yn cael ei dalu.

#### **Adran 64 – Trosglwyddo asedau i osgoi ffioedd**

366. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer adennill ffioedd pan fo unigolyn wedi trosglwyddo asedau i berson arall er mwyn osgoi talu ffioedd. I raddau helaeth wedyn, y person y trosglwyddwyd yr asedau iddo fydd yn atebol am wneud y taliad i'r awdurdod lleol.

#### **RHAN 6 – PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA**

##### **Adran 65 – Plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol**

367. Mae'r adran hon yn darparu dehongliad o'r termau allweddol a ddefnyddir yn y Rhan hon. Y termau hyn yw diffiniad o "plentyn sy'n derbyn gofal" ac ystyr "llety" a "person ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol".

##### **Adran 66 – Dyletswydd gyffredinol awdurdod lleol i sicrhau digon o lety i blant sy'n derbyn gofal**

368. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i ddarparu llety i'r plant sy'n derbyn gofal ganddo o fewn ardal yr awdurdod lleol a hwnnw'n llety sy'n diwallu anghenion y plentyn. Mae'r ddyletswydd hon yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad amgen y caniateir ei wneud gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau y caniateir eu gwneud yn rhinwedd adran 81 (sy'n ymdrin â gwneud rheoliadau ynghylch lleoli plant sy'n derbyn gofal y tu allan i ardal yr awdurdod lleol). Rhaid sicrhau bod ystod o fathau o lety ar gael, a rhaid i'r ystod honno gynnwys rhieni maeth neu gartrefi plant. Mae hyn yn ailddatgan darpariaethau adran 22G o Ddeddf Plant 1989.

##### **Adran 67 – Llety i blant sydd heb rieni, neu blant sydd ar goll neu syddwedi eu gadael etc**

369. Mae'r adran hon yn ailddatgan y ddyletswydd sydd wedi ei chynnwys ar hyn o bryd yn adran 20 o Ddeddf Plant 1989.

370. Mae'n darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu llety i unrhyw blentyn: y mae'n ymddangos bod arno angen llety oherwydd nad oes person â chyfrifoldeb rhiant i ofalu amdano, sydd ar goll neu wedi ei adael, neu y mae'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto wedi ei atal, am ba bynnag reswm, rhag darparu llety neu ofal i'r plentyn. Mae'n darparu ymhellach, os yw awdurdod lleol arall yn darparu llety mewn ardal wahanol i'r ardal y mae'r plentyn fel arfer yn byw ynddi, yna rhaid i'r awdurdod hwnnw hysbysu'r awdurdod arall o fewn tri mis neu o fewn unrhyw gyfnod hwy a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

371. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ddarparu llety i blentyn sydd wedi cyrraedd 16 oed pe byddai methu â gwneud hynny yn andwyo llesiant y plentyn yn ddifrifol.

372. Ni chaiff awdurdod lleol ddarparu llety os yw unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn o dan 16 oed yn gwrthwynebu ac yn fodlon ac yn gallu darparu llety, neu drefnu bod llety yn cael ei ddarparu, a chaiff y person hwnnw symud y plentyn ar unrhyw adeg o'r llety a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Mae eithriadau yn gymwys yn yr achos olaf os oes gorchymyn preswyllo mewn grym, neu pan fo gan y plentyn warcheidwad arbennig neu os yw'r plentyn yn ddarostyngedig i Orchymyn gan yr Uchel Lys. Os yw'r plentyn yn ddarostyngedig i fwy nag un o'r rhain yna rhaid i bob un o'r partïon sy'n gysylltiedig gytuno.

#### **Adran 68 – Llety i blant sy'n cael eu hamddiffyn gan yr heddlu, neu sydd o dan gadwad neu ar remánd, etc**

373. Mae'r adran hon yn ailddatgan y ddyletswydd sydd wedi ei chynnwys ar hyn o bryd yn adran 21 o Ddeddf Plant 1989. Mae'n darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu llety i blant: a symudwyd o'u cartrefi neu a gedwir oddi yno o dan Ran 5 o Ddeddf Plant 1989; yn ddarostyngedig i'w hamddiffyn gan yr heddlu o dan adran 46(3)(f) o Ddeddf Plant 1989; o dan adran 38(6) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984; ar remánd yn rhinwedd paragraff 4 o Atodlen 1 neu baragraff 6 o Atodlen 8 i Ddeddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000; ar remánd yn rhinwedd paragraff 21 o Atodlen 2 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008; ar remánd yn rhinwedd paragraff 10 o'r Atodlen i Ddeddf Troseddau Stryd 1959 neu'n ddarostyngedig i Orchymyn Adsefydlu Ieuencid sy'n gosod gofyniad preswyllo neu faethu.

374. Os tynnir costau mewn perthynas â symud plentyn o dan Ran 5 o Ddeddf Plant 1989, ei gadw o dan adran 38 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 neu pan na ddarperir llety i'r plentyn gan yr awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol na'r Ymddiriedolaeth GIG (neu gan gyrff cyfatebol yn Lloegr), gellir adennill y costau hyn oddi ar yr awdurdod lleol lle y mae'r plentyn fel arfer yn byw.

#### **Adran 69 – Prif ddyletswydd awdurdod lleol mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal**

375. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am unrhyw blentyn ddiogelu a hyrwyddo llesiant y plentyn a gwneud, ar gyfer y plentyn, beth bynnag o fewn rheswm y byddai unrhyw riant rhesymol yn ei wneud (mae adran 4(3) yn cadarnhau, mewn perthynas â phlentyn, fod llesiant yn cynnwys lles fel y dehonglir ac y defnyddir y gair "welfare" at ddibenion Ddeddf Plant 1989). Rhaid iddo hefyd hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol y plentyn, asesu o bryd i'w gilydd a oes gan y plentyn anghenion gofal a chymorth cymwys a threfnu ar gyfer diwallu'r anghenion hynny, rhoi sylw i farn, dymuniadau a theimladau unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu unrhyw un arall yr ystyria'r awdurdod yn berthnasol ac ystyried anghenion y plentyn o ran crefydd, hil, diwylliant ac iaith. Mae'n darparu ymhellach, os oes perygl o niwed i aelodau'r cyhoedd gan blentyn y mae'r awdurdod yn gofalu amdano, y

caiff yr awdurdod ddiystyru'r dyletswyddau y darperir ar eu cyfer yn yr adran hon. Mae'r adran hon yn ailddatgan llawer o'r darpariaethau sydd wedi eu gwneud ar hyn o bryd o fewn adran 22 o dan Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 70 – Darparu llety i blant mewn gofal**

376. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn eglur fod rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu llety i blentyn sydd yng ngofal yr awdurdod. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 22A o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 71 – Cynnal plant sy'n derbyn gofal**

377. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol gynnal mewn ffyrdd eraill unrhyw blentyn sydd yng ngofal yr awdurdod. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 22B o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 72 – Y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya a'u cynnal**

378. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer ffyrdd y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol letya a chynnal plentyn yn unol â llesiant plentyn: gyda pherthynas neu gyfaill, rhiant maeth, mewn cartref plant neu unrhyw le arall y bernir ei fod yn addas gan yr awdurdod lleol. Rhaid i'r trefniadau hyn alluogi (pan fo'n briodol) y plentyn i fyw yn agos at ei gartref, parhau gyda'i addysg neu ei hyfforddiant, galluogi brawd neu chwaer y plentyn i fyw gyda'r plentyn os yw'r brawd neu'r chwaer hefyd yng ngofal yr awdurdod, ac os yw'r plentyn yn anabl, ei letya mewn lleoliad addas. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 22C o Ddeddf Plant 1989 ac yn cynnwys darpariaeth newydd sydd (mewn amgylchiadau priodol) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol leoli plentyn sydd i'w fabwysiadu gyda'i ddarpar fabwysiadu ar yr amod y bodlonir y gofynion penodedig (gan sicrhau drwy hynny "sefydlogrwydd cynnar" i'r plentyn).

### **Adran 73 – Adolygu achos plentyn cyn gwneud trefniadau amgen o ran llety**

379. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau i adolygu achos plentyn cyn gwneud trefniadau amgen i'w letya, oni fydd angen symud y plentyn fel mater brys. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 22D o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 74 – Cynlluniau gofal a chymorth**

380. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i unrhyw gynllun gofal a chymorth ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol gael ei adolygu a'i gynnal. Os nad oes gan y plentyn gynllun gofal a chymorth, rhaid i'r awdurdod drefnu ar gyfer llunio cynllun o'r fath. Rhaid i reoliadau ddarparu ymhellach ar gyfer yr hyn sy'n gynnwysedig yn y cynlluniau ac ar gyfer eu hadolygu a'u diwygio ac, os oes cynlluniau eraill sy'n cael eu llunio ar gyfer y plentyn gan gyrff eraill, ar gyfer cynnwys y cynlluniau hynny yn y cynllun gofal a chymorth. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd gynnal

asesiad newydd ac adolygu'r cynllun os yw o'r farn bod amgylchiadau'r plentyn wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun presennol.

#### **Adran 75 – Rheoliadau ynghylch cynlluniau gofal a chymorth**

381. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau sy'n pennu ffurf a chynnwys y cynlluniau, y gofyniad i ymgynghori â phobl a ddylai gyfrannu at lunio, adolygu a diwygio cynllun, pwy ddylai lunio'r cynllun, pwy ddylai gael copïau ysgrifenedig o'r cynllun a'r amgylchiadau ar gyfer adolygu'r cynllun.

#### **Adran 76 – Cyfraniadau tuag at gynhaliath plant sy'n derbyn gofal**

382. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Bil hwn sy'n gwneud darpariaeth sy'n nodi pryd y caiff awdurdodau lleol ofyn am gyfraniadau tuag at gynhaliath plant sy'n derbyn gofal. Mae'r Atodlen yn ailddatgan y ddarpariaeth o fewn Rhan 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

#### **Adran 77 – Cartrefi plant sy'n cael eu darparu, eu cyfarparu a'u cynnal gan Weinidogion Cymru**

383. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru benderfynu ar ba delerau y caiff awdurdod lleol leoli plentyn sy'n derbyn gofal ganddo mewn cartref plant, pan fo'r cartref plant hwnnw yn cael ei ddarparu, ei gyfarparu a'i gynnal gan Weinidogion Cymru o dan adran 82(5) o Ddeddf Plant 1989. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 22E o Ddeddf Plant 1989.

#### **Adran 78 – Rheoliadau ynghylch plant sy'n derbyn gofal**

384. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

#### **Adran 79 – Rheoliadau ynglŷn ag amodau lle y caniateir i blentyn sydd mewn gofal fyw gyda rhiant, etc**

385. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau, o dan adran 78, sy'n gosod gofynion ar awdurdodau lleol i'r perwyl bod plant sy'n derbyn gofal ganddo i fyw gyda rhiant neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant. Bydd y rheoliadau hyn yn cyfeirio at wneud penderfyniadau, goruchwyllo neu archwilio plentyn yn feddygol, yr amgylchiadau pan ganiateir symud y plentyn o'r lle y mae'n byw ynddo, a chadw cofnodion. Mae'r adran hon yn ailddatgan paragraff 12A o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 80 – Rheoliadau o ran lleoliadau o'r math a grybwyllir yn adran 72(6)(d)**

386. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau, o dan adran 78, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r lleoliadau a ddisgrifir yn adran 72, o ran hysbysu ynghylch trefniadau a wneir i leoli plentyn; y cyfleoedd a roddir i'r plentyn i gyflwyno sylwadau; cadw cofnodion a goruchwyllo gan yr awdurdod lleol unrhyw drefniadau a wneir. Mae'r adran hon yn ailddatgan paragraff 12B o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 81 – Rheoliadau ynghylch lleoliadau y tu allan i ardal**

387. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau, o dan adran 78, sy'n gosod gofynion sydd i'w bodloni gan awdurdodau lleol, cyn lleoli plant y tu allan i ardal yr awdurdod ac sy'n sicrhau llesiant y plentyn wrth wneud hynny. Mae'r adran hon yn ailddatgan paragraff 12C o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 82 – Rheoliadau ynghylch osgoi amharu ar addysg**

388. Mae'r adran hon yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 78, osod gofynion ar awdurdodau lleol mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad ynglŷn â lleoli plentyn os yw'r plentyn yng Nghyfnod Allweddol Pedwar o'i addysg, fel y darperir ar ei gyfer o dan Ran 7 o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r adran hon yn ailddatgan paragraff 12D o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 83 – Rheoliadau ynghylch lleoli plant gyda rhieni maeth awdurdod lleol a darpar fabwysiadwyr**

389. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau o dan adran 78 mewn perthynas â lleoli plant mewn gofal maeth a chyda darpar fabwysiadwyr. Byddai'r rheoliadau yn sicrhau bod llesiant y plentyn yn cael ei ystyried; bod y trefniadau priodol yn cael eu gwneud mewn perthynas ag iechyd ac addysg y plentyn; cadw cofnodion; cyn belled ag y bo modd, bod y plentyn yn cael ei leoli gyda theulu sydd â'r un daliadau crefyddol â'r plentyn; a bod y llety y lleolir y plentyn ynddo yn ddarostyngedig i'w arolygu er mwyn sicrhau llesiant y plentyn. Mae'r adran hon yn ailddatgan paragraff 12E o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 84 – Rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdod lleol**

390. Mae'r adran hon yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 78 mewn perthynas â chymeradwyo rhieni maeth gan yr awdurdod lleol wneud darpariaeth: i'r perwyl na cheir lleoli plentyn gyda rhieni maeth hyd nes bo'r awdurdod lleol wedi cymeradwyo penodiad y rhieni maeth; ar gyfer sefydlu gweithdrefn annibynnol i adolygu'r broses o gymeradwyo rhieni maeth, gan gynnwys sefydlu panel a gynullir gan Weinidogion Cymru; ynglŷn â'r dyletswyddau a'r pwerau a roddir i banel o'r fath; penodi



aelodau o'r panel a'r modd y telir cydnabyddiaeth iddynt; a'r trefniadau ar gyfer monitro adolygiadau. Caiff y rheoliadau ddarparu hefyd y caiff Gweinidogion Cymru gcontractio gyda sefydliad arall i ddarparu'r swyddogaeth adolygu annibynnol. Mae'r adran hon yn ailddatgan paragraff 12F o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 85 – Rheoliadau ynghylch trefniadau asiantaeth**

391. Mae'r adran hon yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 78 mewn perthynas â'r amgylchiadau pan gaiff awdurdodau lleol wneud trefniadau gyda sefydliadau eraill i gyflawni, ar ran yr awdurdodau lleol, ddyletswyddau o dan y rheoliadau. Mae'r adran hon yn ailddatgan paragraff 12G o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 86 – Hyrwyddo a chynnal cyswllt rhwng plentyn a theulu**

392. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol hyrwyddo cyswllt rhwng plentyn y mae'n gofalu amdano ac unrhyw un sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, yn ogystal ag unrhyw berthynas neu gyfaill arall cyhyd â bod hynny yn gyson â llesiant y plentyn ac yn rhesymol ymarferol. Pan fo plentyn yn symud i lety arall, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn hysbysu pwy bynnag sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn a sicrhau bod y person sydd â chyfrifoldeb rhiant yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am unrhyw newidiadau i'w gyfeiriad. Mae'r adran yn darparu hefyd, pan fo "awdurdod derbyn" yn cymryd cyfrifoldeb am ddarparu llety i blentyn oddi ar "awdurdod sy'n trosglwyddo", bod yr "awdurdod derbyn" yn rhoi gwybod i bwy bynnag sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Mae'n darparu ymhellach nad yw'n ofynnol i awdurdod lleol roi gwybod i bwy bynnag sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn pe byddai gwneud hynny yn peryglu llesiant y plentyn. Mae is-adran (5) yn pennu bod rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sy'n derbyn gofal yn cyflawni trosedd os nad yw'n hysbysu'r awdurdod lleol o'i gyfeiriad. Mae'r adran hon yn ailddatgan paragraff 15 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 87 – Ymweliadau'r teulu â'r plant neu ymweliadau â'r teulu ganblant: treuliau**

393. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer talu treuliau teithio a chynhaliadau i bwy bynnag sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol pan fo'r person hwnnw yn ymweld â'r plentyn. Caiff yr awdurdod wneud taliadau hefyd i blentyn sy'n derbyn gofal ganddo os yw'r amgylchiadau yn teilyngu hynny, er enghraifft, pe byddai talu am y teithio ei hunan yn achosi caledi ariannol i'r plentyn. Mae'r adran hon yn ailddatgan paragraff 16 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

## **Adran 88 – Dylestwydd awdurdod lleol i sicrhau ymweliadau a chyswllt â phlant sy'n derbyn gofal a phlant eraill**

394. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ymweliadau a chyswllt rhwng cynrychiolydd yr awdurdod a phlentyn sy'n derbyn gofal ganddo, a arferai dderbyn gofal ganddo neu gategorïau eraill o blant a bennir mewn rheoliadau. Rhaid i'r cynrychiolydd hwnnw drefnu i ddarparu cyngor, cymorth a chynhorthwy, a chaiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynglŷn ag amlder yr ymweliadau, yr amgylchiadau pan ganiateir i ymweliadau ddigwydd a swyddogaethau cynrychiolwyr. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd sicrhau bod gan y cynrychiolydd a ddewisir ganddo y sgiliau a'r profiad priodol i gyflawni'r swyddogaethau. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 23ZA o Ddeddf Plant 1989 ond mae hefyd yn mynd gam ymhellach drwy ddarparu pŵer pellach i bennu mewn rheoliadau gategorïau ychwanegol o blant y byddai'r ddylestwydd y darperir ar ei gyfer yn yr adran hon yn gymwys iddynt.

## **Adran 89 – Ymwelwyr annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**

395. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol benodi person annibynnol i fod yn ymwelydd ar gyfer y plentyn os yw'r plentyn yn dod o fewn categori a bennwyd mewn rheoliadau neu pe byddai gwneud hynny'n fuddiol i'r plentyn. Rhaid i'r person a benodir fod yn ymgyfeillio â'r plentyn a'i gynghori a chaiff y person a benodir hawlio treuliau gan yr awdurdod. Daw penodiad y person i ben unwaith y bydd y plentyn yn peidio â derbyn gofal gan yr awdurdod neu os bydd y person yn ymddiswyddo ond ni chaniateir gwneud y penodiad yn y lle cyntaf na'i barhau ar ôl iddo gychwyn os yw'r plentyn yn gwrthwynebu hynny. Os yw'r plentyn yn gallu gwrthwynebu cael ymwelydd yn gyffredinol nid oes raid i'r awdurdod lleol benodi neb. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 23ZB o Ddeddf Plant 1989.

## **Adran 90 – Penodi swyddog adolygu annibynnol**

396. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol, er budd unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal ganddo, benodi swyddog adolygu annibynnol ar gyfer achos pob plentyn. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 25A o Ddeddf Plant 1989.

## **Adran 91 - Swyddogaethau'r swyddog adolygu annibynnol**

397. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer swyddogaethau'r swyddogion adolygu annibynnol: rhaid iddynt fonitro gwaith yr awdurdod lleol mewn perthynas â'r plentyn; cymryd rhan mewn unrhyw adolygiad ar achos y plentyn; sicrhau bod dymuniadau a theimladau'r plentyn yn cael eu clywed a chyflawni unrhyw swyddogaeth arall sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Caiff y swyddog adolygu annibynnol hefyd atgyfeirio achos plentyn i un o swyddogion achosion teuluol Cymru ac os nad yw'r swyddog adolygu annibynnol yn un o gyflogion yr awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol

wneud pob ymdrech i gydweithredu â'r swyddog hwnnw. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 25B o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 92 – Achosion a atgyfeirir**

398. Mae'r adran hon yn darparu y caiff yr Arglwydd Ganghellor wneud rheoliadau i estyn swyddogaethau swyddogion achosion teuluol Cymru, ond dim ond gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru y caiff wneud hynny. Mae'r adran hon yn ailddatgan adran 25C o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 93 – Adolygu achosion ac ymchwilio i sylwadau**

399. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol bod achos pob plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei adolygu. Byddai'r amgylchiadau ar gyfer adolygu yn cynnwys amlder yr adolygiadau; rhoi ystyriaeth i safbwyntiau gwahanol bobl gan gynnwys y plentyn ei hunan a phwy bynnag sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto; hysbysu gwahanol bobl ynghylch unrhyw gamau a gaiff eu cymryd o dan y Bil hwn neu Ddeddf Plant 1989; hysbysu gwahanol bobl ynghylch canlyniadau'r adolygiad; gweithredu penderfyniadau a wnaed o ganlyniad i'r adolygiad a monitro unrhyw drefniadau a wnaed. Mae'n ofynnol hefyd i'r awdurdod adolygu a diwygio'r cynllun sy'n ofynnol o dan adran 31A o Ddeddf Plant 1989 a gwneud cynllun newydd os oes angen ac ystyried a ddylid gwneud cais i ddiddymu'r gorchymyn gofal. Os yw awdurdod yn darpau llety i'r plentyn, mae gofyniad pellach arno i lunio cynllun os nad oes un yn bodoli; adolygu a diwygio'r cynllun hwnnw a gwneud cynllun newydd os oes angen ac ystyried a yw'r llety yn bodloni gofynion y Rhan hon. Mae'r adran hon yn ailddatgan rhan o'r ddarpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn adran 26 o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 94 – Ymgyfeillio â phlant sy'n derbyn gofal, eu cynghori a'u cynorthwyo**

400. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol barhau i ymgyfeillio â phlentyn y mae wedi peidio â gofalu amdano ac i'w gynghori a'i gynorthwyo, gyda'r bwriad o gynnal llesiant y plentyn hwnnw. Mae'r adran hon yn ailddatgan y ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud o fewn paragraff 19A o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 95 – Pobl ifanc sydd â'r hawlogaeth i gael cymorth o dan adrannau 96 i 105**

401. Mae'r adran hon yn pennu'r categorïau gwahanol a ddefnyddir i ddiffinio at ddibenion y Bil hwn bobl ifanc sydd wedi eu dynodi'n "pobl sy'n gadael gofal".

402. Mae person ifanc categori 1 yn blentyn neu'n berson ifanc sy'n 16 neu'n 17 oed, sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ac sydd wedi bod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol (yng Nghymru neu yn Lloegr) am gyfnod sydd wedi ei bennu mewn rheoliadau ac a ddechreuodd ar ôl iddo

gyrraedd oedran sydd wedi ei bennu mewn rheoliadau ac a ddaeth i ben ar ôl i'r plentyn gyrraedd 16 oed. Mae'r diffiniad hwn yn ailddatgan y diffiniad o "eligible child" (fel y'i diffinnir o fewn paragraff 19B(2) o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989).

403. Mae person ifanc categori 2 yn blentyn neu'n berson ifanc nad yw'n derbyn gofal mwyach gan awdurdod lleol (yng Nghymru nac yn Lloegr) ond a arferai fod yn blentyn categori 1 ac sy'n 16 neu'n 17 oed. Mae'r diffiniad o berson ifanc categori 2 yn atgynhyrchu'r diffiniad o "relevant child" fel y'i diffinnir yn adran 23A o Ddeddf Plant 1989.

404. Mae person ifanc categori 3 yn person ifanc sy'n 18 oed neu drosodd, a arferai fod yn berson categori 2 ac a fyddai'n parhau i fod felly pe bai o dan 18 oed; neu a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol pan gyrhaeddodd 18 oed, ac a oedd yn union cyn i'r gofal a ddarparwyd ddod i ben, yn berson ifanc categori 1. Mae'r diffiniad o berson ifanc categori 2 yn ailddatgan y diffiniad o "former relevant child" fel y'i diffinnir yn adran 23C o Ddeddf Plant 1989.

405. Mae person ifanc categori 4 yn berson ifanc categori 3 y mae'r dyletswyddau o dan adrannau 96, 97, 98(3) a (10) a 100 wedi peidio â bod yn gymwys iddo, sydd hefyd wedi hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn dilyn, neu ei fod yn dymuno dilyn, rhaglen addysg neu hyfforddiant (sy'n dechrau cyn iddo gyrraedd 25 oed). Mae'r diffiniad o berson ifanc categori 4 yn cwmpasu'r bobl ifanc hynny y gwneir darpariaeth ar eu cyfer o fewn adran 23CA o Ddeddf Plant 1989 (personau sy'n gymwys i gael cynhorthwy pellach i ddilyn addysg neu hyfforddiant). Bydd pobl ifanc o'r fath yn gallu cael cyngor a chynhorthwy yn rhinwedd "ailgysylltu" ag awdurdod lleol at ddibenion ceisio dilyn addysg neu hyfforddiant.

406. Mae person ifanc categori 5 yn berson ifanc sy'n 16 oed ond nad yw eto yn 21 oed, y mae gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig mewn grym mewn cysylltiad ag ef neu, os yw'r person yn 18 oed, yr oedd y gorchymyn mewn grym pan gyrhaeddodd 18 oed. Nid yw'r Ddeddf Plant yn cynnwys diffiniad sy'n debyg i blentyn "eligible" neu "relevant" ar gyfer y personau hynny sy'n cael eu hystyried yn bersonau sy'n gymwys i gael cyngor a chynhorthwy o dan adran 24A o Ddeddf Plant 1989 (ar y sail ei fod yn berson sy'n gymwys i gael cyngor a chynhorthwy yn rhinwedd adran 24(1A)).

407. Mae person ifanc categori 6 yn berson ifanc - nad yw eto wedi cyrraedd 21 oed; sy'n preswyllo yng Nghymru; ac a oedd yn derbyn gofal neu wedi ei letya neu ei faethu pan oedd rhwng 16 a 18 oed ond nad yw'n derbyn gofal nac yn cael ei letya na'i faethu ar hyn o bryd. Nid yw'r categori hwn yn cynnwys unrhyw un y mae modd ei gwmpasu gan y diffiniad o berson ifanc categori 5. Unwaith eto, nid yw Deddf Plant 1989 ar hyn o bryd yn cynnwys diffiniad manwl gywir o'r categori hwn o berson ifanc y mae'r personau ynddo yn cael eu hystyried yn rhai sy'n gymwys i gael cyngor a chynhorthwy o dan adran 24A yn rhinwedd adran 24(1B) o Ddeddf Plant 1989.

408. Mae is-adran (3) yn darparu diffiniad o “yn derbyn gofal, wedi ei letya neu ei faethu” at ddibenion person ifanc categori 6.
409. Mae is-adran (5) yn cynnwys darpariaeth bellach sy’n pennu pa awdurdod lleol yw’r “awdurdod lleol cyfrifol” a’r “awdurdod lleol sy’n gyfrifol” at ddibenion yr adran hon ac yn darparu pŵer i awdurdod lleol o’r fath wneud penderfyniadau am hawlogaeth i gael cynhorthwy o dan adrannau 96 i 105.
410. Caniateir i reoliadau o dan adran 95(6) gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru i bennu categorïau ychwanegol o berson ifanc sydd â hawlogaeth i gael cymorth o dan Ran 6 neu i wneud newidiadau i gategoriâu sy’n bodoli eisoes, gan gynnwys pwy y gellid eu hepgor, ac i ddarparu ar gyfer pa awdurdod lleol fyddai’r “awdurdod lleol sy’n gyfrifol” am unrhyw berson ifanc ychwanegol a bennir felly.

### **Adran 96 – Cadw mewn cysylltiad**

411. Mae’r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i gadw mewn cysylltiad â phersonau sydd o fewn y diffiniad o berson ifanc categori 2 neu gategori 3, p’un a yw’r person o fewn ardal yr awdurdod lleol hwnnw o hyd ai peidio, ac os collir y cysylltiad â’r person ifanc, rhaid iddo wneud popeth posibl i ailsefydlu’r cyswllt.
412. Os yw person yn berson ifanc categori 6 (a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol) a bod yr awdurdod lleol wedi colli cysylltiad ag ef, rhaid i’r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i ailsefydlu’r cyswllt ag ef. Mae’r adran hon yn ailddatgan darpariaeth sydd wedi ei gwneud gan adrannau 23B a 23C o Ddeddf Plant 1989 (mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 2 a 3) ac adran 24 mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 6.

### **Adran 97 – Cynghorwyr personol**

413. Mae’r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol drefnu bod person ifanc sy’n dod o fewn y diffiniad o berson ifanc categori 1, 2, 3 neu 4, ac unrhyw bersonau ifanc a bennir mewn rheoliadau, yn cael cynghorydd personol. Rhaid i gynghorwyr personol ddarparu cyngor ymarferol a chymorth; cymryd rhan mewn adolygiadau o gynlluniau llwybr; cysylltu â’r awdurdod lleol mewn perthynas â gweithredu’r cynllun llwybr; cydgysylltu’r ddarpariaeth o wasanaethau a chymryd camau rhesymol i sicrhau y defnyddir y gwasanaethau; sicrhau bod eu gwybodaeth am lesiant y person ifanc yn gyfoes a chadw cofnodion o bob cyswllt â’r person ifanc. Mae’r adran hon yn ailddatgan y ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud ym mharagraff 19C o Atodlen 2 (mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 1), adrannau 23B (mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 2); 23C (mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 3) a 23CA (mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 4).

414. Caiff rheoliadau bennu swyddogaethau pellach i gynghorydd personol.

### **Adran 98 – Cynlluniau llwybr ac asesiadau llwybr**

415. Mae'r adran hon yn darparu, mewn perthynas â pherson ifanc categori 1, bod rhaid i'r awdurdod lleol gynnal asesiad er mwyn dyfarnu pa gyngor, cynhorthwy a chymorth y mae eu hangen ar y person ifanc, tra bo'n derbyn gofal ac wedyn ar ôl iddo beidio â derbyn gofal. Mae'r ddarpariaeth yn ailddatgan y ddyletswydd sydd wedi ei chynnwys ym mharagraff 19B(4) o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

416. Os yw person sy'n berson ifanc categori 2 neu 3 nad oes cynllun llwybr eisoes wedi ei lunio ar ei gyfer neu'n berson ifanc categori 4, rhaid i'r awdurdod lleol gynnal asesiad i ddyfarnu pa gyngor a chymorth arall y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu darparu i'r person ifanc. Mae'r ddarpariaeth hon yn ailddatgan y rhwymedigaethau sydd wedi eu cynnwys yn adrannau 23B, 23C a 23CA o Ddeddf Plant 1989 mewn cysylltiad â phersonau ifanc categori 2, 3 a 4 yn eu trefn.

417. Mae is-adran (7) yn cynnwys diffiniad o gynllun llwybr. Mae'r is-adran hon yn ailddatgan darpariaeth sydd wedi ei gwneud yn adran 23E, paragraff 19B(4) o Atodlen 2 ac adrannau 23C(3)(b) a 23CA(3)(a) o Ddeddf Plant 1989.

418. Caiff rheoliadau bennu gofynion pellach ynglŷn ag asesiadau, megis â phwy y dylid ymgynghori, pwy sydd i gynnal asesiad o'r fath a pha bryd; cadw cofnodion; y broses ar gyfer adolygu ac unrhyw ystyriaethau eraill. Ceir cynnal yr asesiad neu'r adolygiad hwn ar yr un adeg ag unrhyw asesiad neu adolygiad arall.

### **Adran 99 – Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 2**

419. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 2 ddiogelu a hyrwyddo ei lesiant (i'r graddau y bo'n ofynnol) a darparu cymorth i'r person ifanc drwy ei gynnal (gan gynnwys drwy ddarparu arian), drwy ddarparu llety addas iddo ac unrhyw gymorth arall a bennir mewn rheoliadau. Caiff rheoliadau hefyd ddiffinio "llety addas" yn benodol mewn perthynas â landlordiaid. Mae'r adran hon yn ailddatgan y ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud o fewn adran 23B o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 100 – Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 3**

420. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cymorth i berson ifanc categori 3 (i'r graddau y bo'n ofynnol i lesiant y person ifanc) drwy gyfrannu at dreuliau a dynnir sy'n galluogi'r person ifanc i fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn cael ei gyflogi neu'n chwilio am waith cyflogedig; mewn achosion pan fo, neu pan fydd person ifanc yn derbyn addysg neu hyfforddiant, rhaid i'r awdurdod lleol (i'r

graddau y bo'n ofynnol i lesiant ac anghenion addysg neu hyfforddiant y person ifanc) gyfrannu at y treuliau, neu gwneud grant i alluogi'r person ifanc i astudio neu hyfforddi, a gwneud unrhyw beth arall yr ystyria'r awdurdod yn briodol. Gall y cymorth a ddarperir fod ar ffurf da neu mewn arian parod. Os yw'r person ifanc yn dilyn cwrs addysg uwch yna rhaid i'r awdurdod lleol dalu'r swm perthnasol i'r person ifanc yn unol â'i gynllun llwybr. Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu llety i bobl ifanc categori 3 sydd mewn addysg bellach neu uwch gan gynnwys unrhyw gyfnod pan nad yw llety yn ystod y tymor ar gael. Os na ddarperir llety yna rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu digon o arian i'r person ifanc i sicrhau'r llety sydd ei angen. Mae'r is-adran hon yn ailddatgan darpariaeth sydd wedi ei gwneud ar hyn o bryd yn adrannau 23C a 23CA o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 101 – Dyletswyddau yn dod i ben mewn perthynas â phobl ifanc categori 3**

421. Mae'r adran hon yn darparu bod dyletswyddau awdurdod cyfrifol tuag at berson ifanc categori 3 i ddod i ben pan fydd y person ifanc yn cyrraedd 21 oed, ac eithrio o dan amgylchiadau penodol a nodir yn is-adran 101(2) sy'n ymwneud yn bennaf ag addysg neu hyfforddiant a fydd yn estyn y tu hwnt i ddyddiad pen-blwydd y person ifanc yn 21 oed. Rhaid i'r awdurdod lleol ddiystyru unrhyw amhariad ar raglen addysg y person ifanc os yw wedi ei fodloni y bydd y person ifanc yn ailgydio yn y rhaglen cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

### **Adran 102 – Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 4**

422. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol roi cymorth i berson ifanc categori 4 (i'r graddau y bo'n ofynnol i anghenion addysg neu hyfforddiant y person ifanc) drwy gyfrannu at dreuliau a dynnir sy'n galluogi'r person ifanc i fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn derbyn addysg neu hyfforddiant; gwneud grant i alluogi'r person ifanc i astudio neu hyfforddi. Gall y cymorth a ddarperir fod ar ffurf da neu mewn arian parod. Os yw'r person ifanc yn dilyn addysg uwch yna rhaid i'r awdurdod lleol dalu'r swm perthnasol iddo yn unol â'r cynllun llwybr. Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu llety i berson ifanc categori 4 pan fydd mewn addysg bellach neu uwch a phan na fydd ganddo unrhyw le arall i aros yn ystod y gwyliau. Os nad yw llety'n cael ei ddarparu rhaid i awdurdod lleol ddarparu digon o arian i'r person ifanc i sicrhau'r llety sydd ei angen. Mae'r adran hon yn ailddatgan darpariaeth sydd wedi ei gwneud ar hyn o bryd yn adrannau 23C a 23CA o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 103 – Dyletswyddau yn dod i ben mewn perthynas â phobl ifanc categori 4**

423. Mae'r adran hon yn darparu bod dyletswyddau awdurdodau cyfrifol tuag at berson ifanc categori 4 i ddod i ben pan fydd y person ifanc yn peidio â dilyn rhaglen addysg neu hyfforddiant a bennir yn ei gynllun llwybr. Rhaid i'r awdurdod lleol ddiystyru unrhyw amhariad ar raglen

addysg y person ifanc os yw wedi ei fodloni y bydd y person ifanc yn ailgydio yn y rhaglen cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

#### **Adran 104 – Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 5 a phobl ifanc a fu gynt yn bobl ifanc categori 5**

424. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a yw amodau penodedig yn cael eu bodloni gan bersonau ifanc sy'n dod o fewn y diffiniad o berson ifanc categori 5 a pherson ifanc a fu gynt yn berson ifanc categori 5. Yr amodau (a bennir yn is-adran (2)) yw bod angen cymorth ar y person ifanc ac nad oes gan bwy bynnag yr oedd yn derbyn gofal ganddo y cyfleusterau angenrheidiol i'w gynghori nac i ymgyfeillio ag ef. Os yw'r amodau hyn yn gymwys, yna rhaid i'r awdurdod lleol gynghori'r person ifanc neu ymgyfeillio ag ef a chaiff ddarparu cymorth.

425. Caiff y cymorth a ddarperir fod ar ffurf cyfrannu at dreuliau a dynnir gan y person ifanc er mwyn ei alluogi i fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn cael ei gyflogi neu'n chwilio am waith cyflogedig; pan fo, neu pan fydd person ifanc yn derbyn addysg neu hyfforddiant; gwneud grant i alluogi'r person ifanc i astudio neu i hyfforddi; drwy ddarparu llety mewn amgylchiadau eraill; ar ffurf da neu mewn arian parod. Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu llety i bobl ifanc categori 5 pan fyddant mewn addysg bellach neu uwch a phan na fydd ganddo unrhyw le arall i aros yn ystod y gwyliau. Os nad yw llety'n cael ei ddarparu rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu digon o arian i'r person ifanc i sicrhau'r llety sydd ei angen. Caiff yr awdurdod lleol ddiystyru unrhyw amhariad ar raglen addysg y person ifanc os yw wedi ei fodloni y bydd y person ifanc yn ailgydio yn y rhaglen cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae'r adran hon yn ailddatgan darpariaeth sydd wedi ei gwneud ar hyn o bryd yn adrannau 24A a 24B o Ddeddf Plant 1989.

#### **Adran 105 – Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 6 a phobl ifanc a fu gynt yn bobl ifanc categori 6**

426. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a yw amodau penodedig yn cael eu bodloni gan bersonau ifanc. Yr amodau (a bennir yn is-adran 105(2)) yw bod angen cymorth ar y person ifanc, ar gyfer y rhai sy'n dod o fewn y diffiniad o berson ifanc categori 6 yn rhinwedd adran 95(3)(b) i (e), ac nad oes gan bwy bynnag yr oedd yn derbyn gofal ganddo y cyfleusterau angenrheidiol i'w gynghori nac i ymgyfeillio ag ef. Os yw'r amodau hyn yn gymwys, yna rhaid i'r awdurdod lleol gynghori'r person ifanc neu ymgyfeillio ag ef a chaiff ddarparu cymorth.

427. Caiff y cymorth a ddarperir fod ar ffurf cyfrannu at dreuliau a dynnir gan y person ifanc er mwyn ei alluogi i fyw yn agos i'r man lle y mae, neu y bydd, yn cael ei gyflogi neu'n chwilio am waith cyflogedig; pan fo neu pan fydd person ifanc yn derbyn addysg neu hyfforddiant; gwneud grant i alluogi'r person ifanc i astudio neu i hyfforddi; drwy ddarparu llety mewn



amgylchiadau eraill; neu mewn arian parod. Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu llety i bobl ifanc categori 6 pan fyddant mewn addysg bellach neu uwch a phan na fydd ganddynt unrhyw le arall i aros yn ystod y gwyliau. Os nad yw llety'n cael ei ddarparu yna rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu digon o arian i'r person ifanc i sicrhau'r llety sydd ei angen. Caiff yr awdurdod lleol ddiystyru unrhyw amhariad ar raglen addysg y person ifanc os yw wedi ei fodloni y bydd y person ifanc yn ailgydio yn y rhaglen cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae'r adran hon yn ailddatgan darpariaeth sydd wedi ei gwneud ar hyn o bryd yn adrannau 24A a 24B o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 106 – Darpariaeth atodol ynghylch cymorth ar gyfer pobl ifanc mewn addysg bellach neu uwch**

428. Pan fo person ifanc categori 3 neu 4 mewn addysg uwch, rhaid i'r awdurdod lleol dalu'r swm perthnasol iddo yn unol â'r cynllun llwybr o dan adrannau 100(3) neu 102(2). Caiff rheoliadau bennu'r "swm perthnasol" a gwneud darpariaeth o ran ei dalu ynghyd â threfniadau ar gyfer adennill yr arian. Caiff rheoliadau ddiffinio "addysg uwch", "addysg bellach", "llawnamser" a "gwyliau".

### **Adran 107 – Codi ffi am ddarpariaeth o dan adrannau 99 i 105**

429. Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdodau lleol godi ffi am gymorth ac eithrio cyngor o dan adrannau 99 i 105. Nid yw unigolion yn atebol am dalu ffioedd o'r fath pan fyddant yn cael y bydd-daliadau a bennir mewn rheoliadau.

### **Adran 108 - Gwybodaeth**

430. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo gan awdurdod lleol ddyletswyddau i bobl ifanc sy'n dod o fewn categorïau 2, 3, 5 neu 6 yn rhinwedd adrannau 96, 104 neu 105 a phan fo person ifanc o'r fath yn bwriadu symud i ardal awdurdod lleol arall, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r awdurdod lleol newydd o fwriad y person ifanc. Pan fo'r person ifanc yn peidio â chael ei letya mwyach p'un ai mewn cartref trydydd sector neu gartref sector preifat, gan unrhyw fwrdd iechyd lleol, ymddiriedolaeth GIG, awdurdod iechyd arbennig neu awdurdod lleol sy'n arfer ei swyddogaethau addysg, rhaid i'r sefydliadau hyn hysbysu'r awdurdod lleol y lleolir y sefydliad hwnnw ynddo fod y person ifanc yn bwriadu symud. Mae rhai mân eithriadau yn gymwys. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud yn adran 24C o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 109 – Defnyddio llety i gyfyngu ar ryddid**

431. Mae'r adran hon yn gymwys i blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (yng Nghymru neu yn Lloegr) ac ni chaniateir ei leoli, ac os yw wedi ei leoli, ni chaniateir iddo gael ei gadw, mewn llety yng Nghymru a ddarperir at y diben o gyfyngu ar ryddid. Ni chaiff plentyn gael ei gadw

mewn llety diogel onid oes gan y plentyn hanes o ddianc ac onid yw'n debygol o ddioddef niwed o bwys gan gynnwys anaf neu, yn hytrach, os yw'r plentyn yn debygol o anafu ei hun neu eraill os cedwir ef mewn llety o unrhyw fath arall.

432. Mae is-adran (2) yn darparu y ceir gwneud rheoliadau sy'n pennu'r cyfnod hwyaf y ceir cadw plentyn mewn llety diogel ac y caiff llys awdurdodi cadw plentyn mewn llety diogel yng Nghymru. Mae'r adran hefyd yn darparu ar gyfer ystod o ddyfarniadau, pwerau ac awdurdodiadau eraill y caniateir eu gwneud mewn perthynas â defnyddio llety diogel.

433. Mae is-adran (7) yn darparu y caiff rheoliadau ddarparu nad yw'r adran hon yn gymwys i blentyn o unrhyw ddisgrifiad y ceir ei bennu yn y rheoliadau hyn a chânt bennu disgrifiad nad yw'n cynnwys plentyn sy'n derbyn gofal.

434. Mae is-adran (10) yn darparu bod yr adran hon yn ddarostyngedig i adran 67(5). Mae adran 67(5) yn darparu bod pwy bynnag sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn cadw'r hawl i symud y plentyn o lety a ddarperir gan neu ar ran awdurdod lleol, BILL, Ymddiriedolaeth GIG, awdurdod lleol wrth arfer swyddogaethau addysg, cartref gofal neu ysbyty annibynnol. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud yn adran 25 o Ddeddf Plant 1989.

#### **Adran 110 – Asesu plant y mae llety'n cael ei ddarparu iddynt gan awdurdodau iechyd ac awdurdodau addysg**

435. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo plentyn yn cael ei letya yng Nghymru gan BILL, Ymddiriedolaeth GIG neu gan awdurdod lleol wrth arfer swyddogaethau addysg (yr "awdurdod lletya") am gyfnod di-dor o 3 mis neu os yw'n bwriadu gwneud hynny, fod rhaid iddo hysbysu "swyddog priodol" yr awdurdod lleol cyfrifol, hynny yw, awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr lle'r oedd y plentyn yn preswyllo fel arfer. Os nad oes gan y plentyn breswylfa sefydlog, rhaid hysbysu yn lle hynny yr awdurdod yng Nghymru neu yn Lloegr y mae'r llety wedi ei leoli ynddo. Mae dyletswydd debyg yn codi pan fo'r awdurdod lletya yn peidio â lletya'r plentyn mwyach. Bydd ar "swyddog priodol" i awdurdod lleol a hysbysir felly ddyletswydd wedyn i asesu'r plentyn fel yr amlinellir yn adran 18. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud yn adran 85 o Ddeddf Plant 1989.

#### **Adran 111 – Asesu plant sy'n cael eu lletya mewn cartrefi gofal neu ysbytai annibynnol**

436. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo plentyn i'w letya yng Nghymru mewn cartref gofal neu ysbyty annibynnol neu fod bwriad i ddarparu llety o'r fath am gyfnod o 3 mis o leiaf, yna rhaid i'r person sy'n rhedeg y sefydliad hysbysu "swyddog priodol" yr awdurdod lleol y lleolir y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol ynddo, i'r perwyl ei fod yn lletya'r plentyn a hefyd pan fo'n rhoi'r gorau i letya'r plentyn. Bydd dyletswydd wedyn ar y

“swyddog priodol” i asesu'r plentyn fel yr amlinellir yn adran 18. Caiff “person awdurdodedig” gael mynediad i gartref gofal neu ysbyty annibynnol er mwyn pennu a ydynt yn cydymffurfio â'r adran hon ai peidio ac mae'r cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol yn euog o drosedd os yw'n peidio â chydymffurfio â'r adran hon, o ran hysbysu'r awdurdod lleol ynghylch lletya'r plentyn ac o ran rhwystro'r person awdurdodedig wrth iddo arfer ei bŵer mynediad. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud yn adran 86 o Ddeddf Plant 1989.

#### **Adran 112 – Ymwelwyr â phlant yr hysbysir yr awdurdod lleol amdanynt o dan adran 110 neu adran 111**

437. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r “swyddog priodol”, yn unol â rheoliadau a wneir o dan yr adran hon, drefnu i'r plentyn gael ymweliadau gan “cynrychiolydd” yr awdurdod er mwyn iddo allu darparu cyngor a chynhorthwy i blant o'r fath. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag amllder yr ymweliadau a'r amgylchiadau pan geir gwneud ymweliadau yn ogystal ag unrhyw swyddogaethau pellach. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd sicrhau bod gan y “cynrychiolydd” y sgiliau angenrheidiol i wneud y gwaith. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud yn adran 86A o Ddeddf Plant 1989.

#### **Adran 113 – Gwasanaethau i blant yr hysbysir awdurdod lleol amdanynt o dan adran 110 neu 111**

438. Mae'r adran hon yn sicrhau bod dyletswydd ar yr “awdurdod lleol cyfrifol” at ddiben adrannau 110 a 111 i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n preswyllo fel arfer yn ei ardal ond sy'n preswyllo mewn llety y tu allan i'r ardal honno.

439. Rhaid i'r gwasanaethau gael eu darparu gyda'r bwriad o hyrwyddo cyswllt rhwng y plentyn a'i deulu.

440. Mae unrhyw ddyletswydd o'r fath yn ychwanegol at unrhyw ddyletswydd a all fod wedi ei gosod ar yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y lletyir y plentyn ynddi o dan adran 32 (dyletswydd i gadw cyswllt â'r teulu).

#### **Adran 114 - Trefniadau i helpu plant i fyw y tu allan i Loegr a Chymru**

441. Mae'r adran hon yn darparu na chaiff awdurdod lleol drefnu i unrhyw blentyn yn ei ofal fyw y tu allan i Loegr neu Gymru heb gymeradwyaeth y llys. Mae'r adran yn darparu ymhellach na chaniateir i'r llys roi ei gymeradwyaeth: os na fyddai symud er lles pennaf y plentyn; os nad oes trefniadau addas i dderbyn y plentyn a threfniadau addas ar gyfer ei lesiant wedi eu gwneud dramor; os nad yw'r plentyn wedi cydsynio neu os nad yw pob un sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn wedi cydsynio. Os yw'r llys o'r farn nad oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus, caiff anwybyddu'r gofyniad i sicrhau cydsyniad y plentyn ac os na ellir dod o hyd i neb sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu os nad yw person o'r fath yn alluog i gydsynio neu os yw'n

gwrthod cydsynio yn afresymol, caiff y llys anwybyddu'r gofyniad i sicrhau cydsyniad bryd hynny yn ogystal. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys manylion am y gallu i apelio yn erbyn penderfyniad gan y llys o dan yr adran hon ac mae'n datgymhwyso'r adran i amgylchiadau lle y mae awdurdod lleol yn lleoli plentyn i gael ei fabwysiadu gyda'i ddarpar fabwysiadwyr. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud ym mharagraff 19 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 115 – Marwolaeth plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol**

442. Mae'r adran hon yn darparu, yn achos marwolaeth plentyn sy'n derbyn gofal, fod rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu Gweinidogion Cymru a'r holl bersonau hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Pe byddai talu am angladd y plentyn, ac unrhyw gostau teithio cynhaliaeth neu gostau eraill sy'n gysylltiedig â hynny, yn achosi caledi ariannol i berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, rhaid i'r awdurdod lleol hefyd wneud taliadau i'r person hwnnw i'w alluogi i dalu am angladd y plentyn ac unrhyw gostau cysylltiedig. Caiff yr awdurdod lleol, fodd bynnag, drefnu ar gyfer yr angladd neu'r amlosgiad os yw pwy bynnag sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn caniatáu hynny a rhaid iddo hefyd drefnu ar gyfer angladd neu amlosgiad sy'n gydnaws â chrefydd y plentyn. Os oedd y plentyn o dan 16 oed pan fu farw, caiff yr awdurdod lleol adennill unrhyw gostau a dynnir ganddo oddi ar y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Mae'r adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud ym mharagraff 20 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

## **RHAN 7 – DIOGELU**

### **Adran 116 – Oedolion sy'n wynebu risg**

443. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gynnal ymchwiliad os yw'r awdurdod yn amau bod person yn "oedolyn sy'n wynebu risg".

444. Mae "oedolyn sy'n wynebu risg" wedi ei ddiffinio yn is-adran (1); mae "camdriniaeth" a "cam-drin" wedi eu diffinio yn adran 180(1) (dehongli).

445. Rhaid i'r awdurdod lleol wneud pa ymholiadau bynnag y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol i'w helpu i benderfynu a ddylid gweithredu. Gallai'r gweithredu gynnwys darparu gofal a chymorth o dan y Bil hwn neu gymryd camau i amddiffyn yr oedolyn o dan ddeddfwriaeth arall, megis Deddf Iechyd Meddwl 1983 neu Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Bydd yr egwyddor yn adran 4 yn gymwys i'r ffordd y bydd yr awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon. Golyga hynny fod rhaid i'r awdurdod roi sylw i farn, dymuniadau a theimladau'r oedolyn cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

446. Bydd disgwyl i'r awdurdodau lleol sicrhau bod cynllun gweithredu yn cael ei lunio yn dilyn ymchwiliad o dan yr adran hon. Mae is-adran (3) yn galluogi gwneud darpariaeth mewn rheoliadau o dan adran 46 (cynlluniau gofal a chymorth) ar gyfer cofnodi cynllun gweithredu o'r fath fel rhan o'r cynllun gofal a chymorth.

### **Adran 117 – Gorchymynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion**

447. Mae'r adran hon yn galluogi gwneud ceisiadau i'r llys am orchymynion amddiffyn a chynorthwyo oedolyn. Mae is-adran (2) yn darparu mai diben y gorchymyn yw galluogi'r "swyddog awdurdodedig" i siarad yn breifat gydag oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg, canfod a yw'r oedolyn yn rhydd i wneud penderfyniadau ei hunan, asesu a yw person yn oedolyn sy'n wynebu risg a phenderfynu a ddylid gweithredu yn ei gylch ai peidio.

448. Caiff "swyddog awdurdodedig" wneud cais i'r llys am orchymyn o'r fath. Mae "swyddog awdurdodedig" yn unigolyn a nodwyd gan yr awdurdod lleol i gyflawni'r tasgau yn yr adran hon. Caiff rheoliadau osod cyfyngiadau ar bwy y caniateir eu hawdurdodi o dan yr adran hon, er enghraifft drwy bennu gofyniad am gymwysterau neu brofiad penodol.

449. Pan fo'r gorchymyn mewn grym, mae gan swyddog awdurdodedig, cwnstabl, os ystyrir bod ei angen, ac unrhyw berson arall a bennir yn y gorchymyn bŵer i fynd i mewn i fangre lle y mae'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn byw a hynny at y dibenion a nodir yn is-adran (2). Mae is-adran (7) yn darparu y caiff cwnstabl ddefnyddio grym rhesymol os yw hynny'n angenrheidiol i gael mynediad i'r fangre lle y mae'r oedolyn sy'n wynebu risg yn byw neu i sicrhau y gall y swyddog awdurdodedig siarad yn breifat gyda'r oedolyn.

450. Mae is-adran (3) yn nodi ar ba sail y ceir caniatáu gorchymyn. Caiff y llys wneud gorchymyn os yw wedi ei fodloni bod gan y "swyddog awdurdodedig" achos rhesymol dros amau bod yr oedolyn yn wynebu risg; ei bod yn angenrheidiol i'r "swyddog awdurdodedig" fynd i mewn i'r man lle y mae'r oedolyn yn preswyllo er mwyn canfod a yw'r oedolyn yn wynebu risg; y bydd gwneud y gorchymyn yn cyflawni dibenion y gorchymyn ac na fydd arfer y pŵer mynediad, y caniateir ar ei gyfer gan y gorchymyn, yn cynyddu'r risg a brofir gan yr oedolyn. Mae is-adran (4) yn pennu'r amodau y mae'n rhaid eu nodi yn y gorchymyn. Rhaid i'r gorchymyn nodi'r cyfeiriad lle y mae'r oedolyn sy'n wynebu risg yn byw; am ba hyd y bydd y gorchymyn mewn grym, a darparu bod cwnstabl i fod gyda'r swyddog awdurdodedig.

451. Caiff amodau eraill hefyd fod yn gymwysl, gan gynnwys cyfyngiadau ar yr adegau y caniateir i'r pŵer mynediad gael ei arfer; pwyl arall a gaiff fod gyda'r "swyddog awdurdodedig"; a'i gwneud yn ofynnol i hysbysiad am y gorchymyn gael ei roi.

### **Adran 118 - Dyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n wynebu risg**

452. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i "bartner perthnasol" (fel y'i diffinnir yn adran 152) hysbysu awdurdod lleol os yw'n amau bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdod lleol hysbysu awdurdod lleol arall os yw oedolyn y mae'n amau ei fod yn wynebu risg yn byw yn ardal yr awdurdod arall hwnnw neu'n symud iddi.

### **Adran 119 - Diddymu pŵer awdurdod lleol i symud personau y mae arnynt angen gofal a sylw**

453. Mae'r adran hon yn diddymu adran 47 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 sy'n rhoi i awdurdodau lleol y pŵer i symud person y mae angen gofal arno o'i gartref. Nid yw hyn bellach yn gymwys yng Nghymru.

### **Adran 120 – Dyletswydd i hysbysu am blant sy'n wynebu risg**

454. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i "partner perthnasol" (tîm troseddwy'r ifanc neu bartner fel y'i diffinnir yn adran 152) hysbysu awdurdod lleol os yw'n amau bod plentyn yn blentyn sy'n wynebu risg. Mae plentyn sy'n wynebu risg yn un sy'n cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed a bod arno anghenion am ofal a chymorth. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol hysbysu awdurdod lleol arall os yw plentyn y mae'n amau ei fod yn wynebu risg yn byw yn ardal yr awdurdod lleol arall hwnnw neu'n symud i'r ardal honno. Ailddatganiad yw hyn o'r ddyletswydd ym mharagraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 121 – Canllawiau ynghylch oedolion sy'n wynebu risg a phlant sy'n wynebu risg**

455. Mae'r adran hon yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol sy'n llywodraethu'r trefniadau sydd wedi eu cynnwys yn adrannau 116, 117, 118 a 120 o'r Bil.

### **Adran 122 – Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**

456. Mae'r adran hon (is-adran (1)) yn darparu ar gyfer sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Yn y Bil, cyfeirir at y Bwrdd hwn fel y Bwrdd Cenedlaethol. Mae is-adran (2) yn gosod dyletswydd gyffredinol ar y Bwrdd Cenedlaethol i ddarparu cymorth a chyngor i Fyrddau Diogelu (a sefydlir o dan adran 124) er mwyn sicrhau eu heffeithiolrwydd, adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu ar gyfer plant ac oedolion yng Nghymru a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynglŷn â sut i wella trefniadau diogelu. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru yn ogystal ag unrhyw adroddiadau eraill a fo'n ofynnol gan Weinidogion Cymru. Caiff y Bwrdd Cenedlaethol wneud unrhyw adroddiadau eraill fel y gwêl yn briodol.

## **Adran 123 – Rheoliadau am y Bwrdd Cenedlaethol**

457. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r Bwrdd Cenedlaethol. Caiff y rheoliadau hynny gynnwys darpariaeth ynghylch cyfansoddiad ac aelodaeth y Bwrdd Cenedlaethol (gan gynnwys telerau penodi ac ymddiswyddo); tâl a lwfansau aelodau; trafodion y Bwrdd Cenedlaethol; y bobl y dylid ymgynghori â hwy mewn perthynas â threfniadau diogelu yng Nghymru a ffurf, cynnwys, amseriad a chyhoeddi adroddiadau. Mae is-adran (3) yn darparu na chaiff y rheoliadau ddarparu y caiff Gweinidog y Goron fod yn aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol.

## **Adran 124 – Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion**

458. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i reoliadau bennu ym mha ardaloedd yng Nghymru y bydd Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion ("ardaloedd Bwrdd Diogelu"). Bydd y Byrddau hyn (y cyfeirir atynt ar y cyd fel "Byrddau Diogelu") yn drefniadau cydweithredol rhwng gwahanol bartneriaid sydd â buddiant mewn diogelu plant ac oedolion. Mae is-adran (2) yn darparu bod pob un o'r canlynol yn bartner i Fwrdd: awdurdod lleol, prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu, Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG a gwasanaethau prawf sy'n gweithredu mewn ardal Bwrdd Diogelu sy'n ofynnol gan drefniadau o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyd 2007. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r partneriaid hyn, bennu mewn rheoliadau pwy fydd y partner arweiniol ar gyfer Bwrdd Diogelu Oedolion a hefyd ar gyfer Bwrdd Diogelu Plant. Yn is-adrannau (4) a (5) pennir bod rhaid, wedyn, i'r partner arweiniol ar gyfer pob Bwrdd Diogelu sefydlu'r Bwrdd a chynnwys y partneriaid a enwir uchod ynghyd ag unrhyw aelod arall a bennir mewn rheoliadau o dan is-adran (6)(b) (y mae'n rhaid iddynt fod yn bersonau neu'n gyrff sy'n arfer swyddogaethau statudol mewn perthynas â phlant neu oedolion yng Nghymru – gweler is-adran (7) ond gan eithrio unrhyw Weinidog y Goron – gweler is-adran (8)). Mae is-adrannau (9) a (10) yn darparu bod modd i Fwrdd Diogelu gynnwys cynrychiolwyr personau neu gyrff eraill yr ystyria'r Bwrdd y dylent gael eu cynrychioli. Rhaid i'r cynrychiolwyr hynny fod yn ymwneud â gweithgareddau neu fod â swyddogaethau cyfreithiol mewn perthynas â phlant neu oedolion yn yr ardal Bwrdd Diogelu o dan sylw.

## **Adran 125 – Swyddogaethau a gweithdrefnau Byrddau Diogelu**

459. Mae is-adran (1) yn pennu amcanion y Byrddau Diogelu Plant. Yr amcanion yw amddiffyn plant sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed ac atal plant yn ardal y Bwrdd Diogelu rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed. Diffinnir "niwed" mewn perthynas â phlentyn yn adran 180 fel camdriniaeth neu nam ar iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu nam ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol. Mae is-

adran (2) yn pennu'r amcanion ar gyfer Byrddau Diogelu Oedolion. Mae dwy ran i'r amcanion hyn. Yn gyntaf, amcenir i amddiffyn oedolion yn ardal y Bwrdd Diogelu Oedolion sydd ag anghenion am ofal a chymorth ac sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Yn ail, amcenir i atal oedolion sydd ag anghenion am ofal a chymorth rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae is-adran (3) yn darparu bod Bwrdd Diogelu o dan ddyletswydd i gyflawni ei amcanion drwy gydgyssylltu a sicrhau effeithiolrwydd y cyfraniadau a wneir gan bob un o'r partneriaid. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i reoliadau wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â swyddogaethau'r Byrddau Diogelu gan gynnwys ffyrdd o roi cyfle i blant neu oedolion i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd. Caiff Bwrdd Diogelu gydweithredu â Bwrdd Diogelu arall (is-adran (5)), caiff Bwrdd Diogelu weithredu ar y cyd ag un neu ragor o Fyrddau Diogelu eraill a chaiff Bwrdd Diogelu Plant a Bwrdd Diogelu Oedolion ffurfio cyd-fwrdd (gweler is-adrannau (6) a (7)).

### **Adran 126 – Byrddau Diogelu - cynlluniau ac adroddiadau blynyddol**

460. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r Byrddau Diogelu, cyn dechrau blwyddyn ariannol newydd (sy'n dod i ben ar 31 Mawrth bob blwyddyn), gyhoeddi cynllun blynyddol sy'n nodi eu rhaglen gwaith am y flwyddyn sy'n dod. Cyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn, rhaid i Fwrdd Diogelu gyhoeddi adroddiad ar y modd yr arferwyd ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, a rhaid i'r adroddiad gynnwys asesiad ynghylch i ba raddau y cyflawnwyd y cynigion a nodwyd yng nghynllun blynyddol y Bwrdd. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch ffurf a chynnwys cynlluniau ac adroddiadau o dan yr adran hon.

### **Adran 127 – Cyflenwi gwybodaeth ar gais Byrddau Diogelu**

461. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Bwrdd Diogelu ofyn i berson neu gorff ddarparu gwybodaeth iddo, neu i berson neu gorff a bennir ganddo. Rhaid cyflwyno'r cais am wybodaeth i "berson neu gorff cymhwysol", a hynny at y diben o gynorthwyo'r Bwrdd Diogelu i arfer ei swyddogaethau. Diffinnir "person neu gorff cymhwysol" yn is-adran (6), fel person neu gorff yr ystyria'r Bwrdd Diogelu fod ei swyddogaethau, neu ei weithgareddau, yn peri bod y person neu'r corff yn debygol o feddu ar wybodaeth sy'n berthnasol i arfer un o swyddogaethau'r Bwrdd. Mae'r math o wybodaeth y cyfeirir ati yn yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r person neu'r gorff cymhwysol, neu swyddogaethau neu weithgareddau'r person neu'r corff cymhwysol ac y mae'n cwmpasu gwybodaeth a gyflenwyd i'r person neu'r corff cymhwysol neu'n deillio o wybodaeth a gyflenwyd iddo. Mae'r person neu'r corff cymhwysol o dan ddyletswydd i gydymffurfio â chais am wybodaeth a wneir gan Fwrdd Diogelu o dan yr adran hon.



### **Adran 128 – Cyllido Byrddau Diogelu**

462. Mae'r adran hon yn darparu y caiff partner Bwrdd Diogelu wneud taliadau tuag at wariant a dynnir gan y Bwrdd Diogelu. Caiff ddarparu hefyd staff, nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill.

### **Adran 129 – Byrddau Diogelu - darpariaethau atodol**

463. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i Fwrdd Diogelu gydweithredu â'r Bwrdd Cenedlaethol a darparu gwybodaeth iddo, os gofynnir am hynny gan y Bwrdd Cenedlaethol. Mae is-adran (2) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau partneriaid Bwrdd Diogelu mewn perthynas â'r Byrddau Diogelu y maent wedi eu cynrychioli arnynt. Mae partner Bwrdd Diogelu o dan ddyletswydd i roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru (is-adran (3)) ac mae is-adran (4) yn darparu bod pob partner hefyd o dan ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Bwrdd Diogelu y mae wedi ei gynrychioli arno yn gweithredu'n effeithlon.

### **Adran 130 – Byrddau Diogelu Cyfun**

464. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r Rhan hon o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol bod Bwrdd Diogelu Plant a Bwrdd Diogelu Oedolion yn uno i greu un Bwrdd. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phartneriad Bwrdd Diogelu y mae'r cynigion yn ymwneud â hwy a phersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn gwneud gorchymyn (gweler adran 131).

### **Adran 131 – Gweithdrefn ar gyfer gorchmynion o dan adran 130**

465. Mae'r adran hon yn pennu'r camau gweithredu y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cymryd cyn gwneud gorchymyn o dan adran 130. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phartneriaid Bwrdd Diogelu y mae'r cynigion yn ymwneud â hwy a phersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn gwneud gorchymyn. Ni chaniateir gwneud gorchymyn o'r fath oni fydd drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo (gweler adran 179(6)(b)).

### **Adran 132 – Dehongli Rhan 7**

466. Mae'r adran hon yn darparu diffiniadau o'r termau allweddol at ddiben y Rhan hon.

## **RHAN 8 – SWYDDOGAETHAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

### **Adran 133 – Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol**

467. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol fel y'u nodir yn y rhestr o ddeddfwriaeth yn Atodlen 2 ac ar gyfer ychwanegu, dileu neu ddiwygio eitemau.

### **Adran 134 – Cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol**

468. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac, os yw'n briodol, i ddau neu ragor o awdurdodau lleol benodi Cyfarwyddwr ar gyfer y ddau neu'r cwbl o'r awdurdodau hynny. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau darpariaeth ddigonol o staff i gynorthwyo'r Cyfarwyddwr i gyflawni ei swyddogaethau, a rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r cymwyseddau y mae'n rhaid i ddarpar Gyfarwyddwr meddu arnynt er mwyn ei benodi i'r swydd, naill ai mewn cod neu mewn rheoliadau. Ar hyn o bryd, mae'r cymwyseddau y mae'n rhaid i Gyfarwyddwr feddu arnynt wedi eu cynnwys mewn canllawiau a ddyroddwyd o dan adran 7A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

### **Adran 135 – Y pŵer i ddyroddi codau**

469. Mae'r adran hon yn darparu i Weinidogion Cymru ddyroddi a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Bil, sy'n cynnwys canllawiau ynglŷn â nodau ac amcanion, ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu yn unol â hwy. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi'r cod, a rhoi ar gael (p'un ai ar eu gwefan neu fel arall) unrhyw fersiynau o'r cod sydd wedi eu dirymu a'u disodli.

### **Adran 136 – Gwneud, cymeradwyo a dirymu codau**

470. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ynghylch drafft o'r cod neu'r cod diwygiedig, ac yn dilyn yr ymgynghoriad, rhaid ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gyfnod o 40 diwrnod. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod, ni chaniateir ei gyhoeddi. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu cymeradwyo'r cod yna rhaid ei gyhoeddi. Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu cod yn unol â'r adran hon neu drwy gyfarwyddyd; os dirymir cod drwy gyfarwyddyd, yna rhaid i'r cyfarwyddyd hefyd gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

### **Adran 137 – Gwyro oddi wrth ofynion mewn codau**

471. Mae'r adran hon yn galluogi awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn ffordd nad yw'n glynu wrth y gofynion a nodir mewn cod os yw o'r farn bod rheswm da iddo beidio â

chydymffurfio â'r gofyniad. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r awdurdod lleol ddilyn y weithdrefn a nodir yn yr adran hon, hysbysu Gweinidogion Cymru am ei resymau a nodi ei bolisi amgen neu ei ddull arfaethedig o weithredu.

### **Adran 138 – Datganiadau polisi: gofynion a phwerau ategol**

472. Mae'r adran hon yn disgrifio'r modd y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddyroddi ei ddatganiad polisi: sef bod rhaid i'r datganiad, er enghraifft, esbonio sut y mae ei bolisi yn wahanol i'r gofyniad yn y cod, pam y mae'n gwneud pethau yn wahanol, pa bryd y bydd y datganiad a'r polisi yn cael effaith ac i gopi o'r datganiad gael ei anfon i'w gyhoeddi a chael ei anfon at Weinidogion Cymru.

### **Adran 139 – Cyfarwyddiadau i'w gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â chodau ymarfer**

473. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol i gydymffurfio â'r cod os ydynt o'r farn na fydd datganiad polisi amgen yr awdurdod yn cyflawni yn ddigonol ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid rhoi'r cyfarwyddyd ar ffurf ysgrifenedig, gellid ei ddirymu gan gyfarwyddyd diweddarach a rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

### **Adran 140 – Y seiliau dros ymyrryd**

474. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion ymyrryd mewn awdurdod lleol os ydynt o'r farn fod yr awdurdod wedi methu neu'n debygol o fethu wrth arfer dyletswydd sy'n swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol; wedi gweithredu neu'n bwriadu gweithredu'n afresymol wrth arfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol neu'n methu neu'n debygol o fethu â chyflawni swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol yn unol â safon ddigonol. Mae'r adran hon yn deillio'n rhannol o adran 7D o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 mewn cysylltiad â'r modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Er hynny, mae wedi ei llunio'n ehangach ac yn atgynhyrchu i "bobl" y pwerau ymyrryd ehangach sydd ar gael i Weinidogion Cymru i ymyrryd â'r modd o arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol mewn perthynas â phlant (o dan adrannau 496 – 497B o Ddeddf Addysg 1996 ac adran 50 o Ddeddf Plant 2004).

### **Adran 141 – Hysbysiad rhybuddio**

475. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio i awdurdod lleol os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod unrhyw un neu rai o'r seiliau yn adran 140 yn bodoli. Rhaid i'r hysbysiad bennu'r seiliau dros ymyrryd, y rhesymau pam y mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y seiliau'n bodoli, y modd y mae rhaid i'r awdurdod lleol weithredu i ymateb i'r seiliau hynny, yr amser a ganiateir ar

gyfer gweithredu, a'r camau y bydd Gweinidogion Cymru â'u bryd ar eu cymryd os na fydd yr awdurdod lleol yn gweithredu fel sy'n ofynnol. Yn ogystal mae'n nodi gofynion i Weinidogion Cymru hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o'r camau y maent wedi eu cymryd o dan y ddarpariaeth hon.

#### **Adran 142 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd**

476. Mae'r adran hon yn darparu bod pŵer gan Weinidogion Cymru i ymyrryd yn y modd y mae awdurdod lleol yn arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol os oes hysbysiad rhybuddio wedi ei roi ac nad yw'r awdurdod wedi cymryd y camau gofynnol. Pan fo gan Weinidogion Cymru y pŵer i ymyrryd, rhaid iddynt adolygu'n gyson yr amgylchiadau y daeth y pŵer hwnnw i fodolaeth odanynt a bydd y pŵer yn parhau i gael effaith hyd nes yr hysbysir yr awdurdod yn wahanol ar ffurf ysgrifenedig. Hefyd, nid yw Gweinidogion Cymru wedi eu cyfyngu i gymryd y camau a nodwyd yn yr hysbysiad rhybuddio eu bod â'u bryd ar eu cymryd. Yn ogystal mae'n nodi gofynion i Weinidogion Cymru hysbysu Cynulliad Cenedlaethol yn gyson am y camau y maent wedi eu cymryd o dan y ddarpariaeth hon.

#### **Adran 143 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gael gwasanaethau cyngori**

477. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan adran 142, y cânt gyfarwyddo'r awdurdod lleol i ymrwymo i gontract gyda pherson neu gorff i ddarparu gwasanaethau o natur gynghorol benodedig, yn unol â thelerau ac amodau penodol.

#### **Adran 144 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bersonau eraill ar ran yr awdurdod**

478. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan adran 142, y cânt gyfarwyddo'r awdurdod lleol i sicrhau y cyflawnwir y swyddogaethau, yr oeddent yn barnu bod ymyrryd yn angenrheidiol mewn cysylltiad â hwy o dan adran 140, gan berson arall ac yn unol â thelerau ac amodau penodol.

#### **Adran 145 – Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i swyddogaethau gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu enwebai**

479. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan adran 142, y cânt gyfarwyddo y câi gwaith cyflawni'r swyddogaethau, y barnwyd bod ymyrryd yn angenrheidiol mewn cysylltiad â hwy o dan adran 140, ei wneud ganddynt hwy eu hunain neu gan berson a enwebir ganddynt a rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r arweiniad a roddir.

#### **Adran 146 – Pŵer i gyfarwyddo bod swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol eraill yn cael eu harfer**

480. Mae'r adran hon yn darparu y caiff y cyfarwyddyd ymwneud â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol eraill yn ychwanegol at y rheini y mae'r seiliau dros ymyrryd yn ymwneud â hwy. Wrth wneud hynny, caiff Gweinidogion Cymru roi sylw, ymhlith pethau eraill, i ystyriaethau ariannol.

#### **Adran 147 – Pŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau a chymryd camau**

481. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan adran 142, fod ganddynt bŵer cyffredinol i roi cyfarwyddiadau neu gymryd unrhyw gamau eraill.

#### **Adran 148 – Ymyrryd: dyletswydd i adrodd**

482. Mae'r adran hon yn pennu'r gofynion ar Weinidogion Cymru i hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyson mewn cysylltiad ag arfer pwerau o dan adrannau 143-145 a 147.

#### **Adran 149 – Cyfarwyddiadau**

483. Mae'r adran hon yn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan adran 142, fod rhaid i awdurdod lleol, neu swyddog i awdurdod sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd neu arweiniad o'r fath gydymffurfio ag ef.

#### **Adran 150 – Dyletswydd i gydweithredu**

484. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd neu arweiniad gydweithredu a chynorthwyo Gweinidogion Cymru (neu berson enwebedig) sy'n arfer swyddogaethau yn unol â'r Rhan hon o'r Bil.

#### **Adran 151 – Pwerau mynd i mewn ac arolygu**

485. Mae'r adran hon yn darparu bod gan y bobl sy'n cynorthwyo Gweinidogion Cymru i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol hawl ar bob adeg resymol i fynd i mewn i fangre'r awdurdod lleol o dan sylw; yr hawl i arolygu ac i wneud copïau o unrhyw ddogfennau perthnasol; hawl mynediad i unrhyw gyfrifiadur a ddefnyddir mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r dogfennau uchod a gall ei gwneud yn ofynnol i'r bobl sy'n defnyddio'r cyfrifiaduron ddarparu gwybodaeth i gynorthwyo o ran rhoi'r wybodaeth ar gael i'w harolygu.

## **RHAN 9 – CYDWEITHREDIAD A PHARTNERIAETH**

### **Adran 152 – Trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad — oedolion y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth a gofalwyr**

486. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr awdurdod lleol, pob un o "bartneriaid perthnasol" yr awdurdod a chyrrff eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n berthnasol i oedolion y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng swyddogion yr awdurdod. Mae'r trefniadau i'w gwneud gyda'r bwriad o wella llesiant oedolion sydd ag anghenion am ofal a chymorth a gofalwyr. Bydd angen i drefniadau ganolbwyntio hefyd ar wella ansawdd y gofal a'r cymorth ac amddiffyn oedolion sy'n cael neu sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

487. Mae'r adran hon hefyd yn pennu pwy yw "partneriaid perthnasol" yr awdurdod lleol, sef: yr heddlu; unrhyw awdurdod lleol arall; unrhyw ddarparwr gwasanaethau prawf sy'n ofynnol o dan adran 3(2) o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007; BILL; Ymddiriedolaeth GIG; Gweinidogion Cymru mewn perthynas â swyddogaethau a gyflawnir o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac unrhyw berson arall y ceir ei bennu mewn rheoliadau. Rhaid i bob partner perthnasol gydweithredu â'r awdurdod lleol i wneud trefniadau o dan yr adran hon a chânt ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety, sefydlu a chynnal cronfa gyfun a rhannu gwybodaeth â'i gilydd. Diffinnir "cronfa gyfun" fel un a ffurfir o gyfraniadau'r awdurdod a'r "partneriaid perthnasol" ac y caniateir gwneud taliadau ohoni wrth gyflawni swyddogaethau. Rhaid i'r awdurdod lleol a'i "partneriaid perthnasol" hefyd roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

### **Adran 153 – Trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad — plant**

488. Mae'r adran hon yn gwneud diwygiadau i adran 25 o Ddeddf Plant 2004 (cydweithrediad i wella llesiant: Cymru). Gwneir y diwygiadau hyn er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd bresennol yn Neddf 2004 i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad er mwyn gwella llesiant plant, yn gydnaws â'r ddyletswydd newydd yn adran 152 o'r Bil hwn (trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad - oedolion y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth a gofalwyr). Yn benodol, yn lle'r diffiniad presennol o "well-being" yn adran 25 o Ddeddf 2004 mewnosodir y diffiniad sydd yn adran 2 o'r Bil hwn ynghyd â diffiniad newydd o "care and support".

### **Adran 154 – Dyletswydd i gydweithredu a darparu gwybodaeth wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol**

489. Mae'r adran hon yn darparu, os yw'r awdurdod lleol, wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, yn gofyn i "bartner perthnasol" am ei gydweithrediad neu am ddarparu gwybodaeth, rhaid i'r

partner perthnasol wneud hynny, oni fyddai'n anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hunan neu fel arall yn cael effaith andwyol ar ei swyddogaethau ei hunan. Rhaid i "bartner perthnasol" sy'n gwrthod cydweithredu neu ddarparu gwybodaeth wneud hynny ar ffurf ysgrifenedig gan roi rhesymau dros y penderfyniad. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

#### **Adran 155 – Hyrwyddo integreiddio gofal a chymorth â gwasanaethau iechyd etc**

490. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol gyda golwg ar integreiddio darpariaeth o ofal a chymorth â'r ddarpariaeth iechyd a'r ddarpariaeth sy'n ymwneud ag iechyd, os ystyria y byddai hynny'n hyrwyddo llesiant plant, oedolion y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt anghenion am gymorth; cyfrannu at atal neu oedi anghenion am ofal a chymorth ac anghenion cymorth a gwella ansawdd am ofal a chymorth a chymorth, gan gynnwys y canlyniadau sydd i'w cyflawni.

#### **Adran 156 – Trefniadau partneriaeth**

491. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu trefniadau partneriaeth sydd i'w gwneud gan ddau neu ragor o awdurdodau lleol; neu gan un neu ragor o awdurdodau lleol ac un neu ragor o BILlau. Mae'r trefniadau partneriaeth ar gyfer cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol neu swyddogaethau BILl neu Ymddiriedolaeth GIG. Rhaid i reoliadau bennu ffurf y trefniant partneriaeth a rhaid iddynt wneud darpariaeth ar gyfer gweithredu a rheoli'r trefniant ac ar gyfer rhannu gwybodaeth. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer trefniadau staffio; y bobl y bwriedir iddynt gael budd o'r trefniant partneriaeth; atgyfeirio pobl i'r gwasanaethau a ddarperir gan y trefniant partneriaeth; adolygu achosion; ymdrin â chwynion neu anghydfodau a chyfrifon ac archwilio.

#### **Adran 157 – Adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth**

492. Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdod lleol a BILl dalu tuag at sefydlu a gweithredu trefniadau partneriaeth drwy wneud taliadau yn uniongyrchol neu i "gronfa gyfun" a thrwy ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau, llety ac adnoddau eraill. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach drwy ei gwneud yn ofynnol, er enghraifft, sefydlu "cronfa gyfun"; gwneud cyfraniadau o faint penodol i'r gronfa; gwariant ar swyddi sy'n rhan o'r trefniant partneriaeth a gwariant gweinyddol.

#### **Adran 158 – Byrddau partneriaeth**

493. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol sefydlu Bwrdd Partneriaeth mewn cysylltiad â threfniadau partneriaeth a wnaed o dan reoliadau o dan adran 156. Caiff y rheoliadau

ddarparu ar gyfer aelodaeth y Bwrdd; talu cydnabyddiaeth ariannol; amcanion a swyddogaethau'r Bwrdd; gweithdrefnau a threfniadau adrodd.

### **Adran 159 – Canllawiau ynghylch trefniadau partneriaeth**

494. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch trefniadau partneriaeth a bod rhaid i aelodau Bwrdd Partneriaeth roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath.

### **Adran 160 – Gwasanaeth mabwysiadu – trefniadau ar y cyd**

495. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer gwneud trefniadau gweithio ar y cyd mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu. Mewnsoedir adran yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Effaith hyn yw caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o awdurdodau lleol i gydweithio i ddarparu agweddau penodedig ar eu gwasanaeth mabwysiadu. Caiff trefniadau ar y cyd o'r fath gynnwys sefydlu cronfa gyfun, pennu trefniadau staffio a lletya, sefydlu panel mabwysiadu a phrosesau ar gyfer datrys anghydfodau a chwynion.

## **RHAN 10 – CWYNION A SYLWADAU**

### **Pennod 1 – Cwynion a Sylwadau am wasanaethau cymdeithasol**

#### **Adran 161 – Cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol**

496. Mae'r adran hon yn rhoi i Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau sy'n sefydlu gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y rhain yn disodli'r darpariaethau cyfredol ynghylch gweithdrefnau cwynion ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol Cymru o dan adrannau 114 a 115 o Ddeddf 2003, sydd wedi eu diddymu.

497. Mae is-adran (1) yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn â thrin ac ystyried cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'r ddarpariaeth yn nodi pa gwynion y ceir eu hystyried o dan y rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys cwynion ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau gan awdurdod lleol neu berson arall o dan drefniant partneriaeth o dan adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 neu adran 75 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 mewn perthynas â swyddogaethau corff GIG, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Y bwriad yw y bydd modd i berson sy'n cael gwasanaethau iechyd yn ogystal â gwasanaethau awdurdod lleol gan awdurdod lleol o dan drefniant o'r fath gwyno wrth yr awdurdod lleol hwnnw hyd yn oed os bydd y gŵyn yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a ddarperir gan yr awdurdod.

498. Mae is-adran (2) yn caniatáu i'r rheoliadau wneud darpariaeth ynglŷn â phwy fydd yn ystyried cwyn. Rhagwelir mai'r cam cyntaf yn y weithdrefn fydd gwneud cwyn i'r awdurdod lleol o dan sylw pan ymdrechir i ddatrys y



mater yn anffurfiol. Os na fydd hynny'n bosibl, eir ymlaen i gynnal ymchwiliad ffurfiol i'r gŵyn.

499. Mae is-adran (3) yn darparu ar gyfer atgyfeirio cwynion, neu unrhyw fater a godir gan gŵyn, i fan arall. Mae'n gwneud darpariaeth benodol sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu, mewn rheoliadau, y ceir atgyfeirio materion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") i'w hystyried o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Gwneir hyn gyda'r bwriad o godi'r ymwybyddiaeth ymhlith achwynwyr o'u hawl i gwyno wrth yr Ombwdsmon. Fel arall, ceir atgyfeirio'r gŵyn neu fater a godir gan y gŵyn at unrhyw gorff arall ar gyfer penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau.

500. Mae is-adran (4) yn gwahardd rheoliadau a wneir o dan yr adran hon rhag gwneud darpariaeth ynglŷn â chwynion a sylwadau y gellir eu gwneud o dan adrannau 164 neu 166. Mae'r weithdrefn gwynion ar wahân ar gyfer grwpiau penodedig o blant yn cael ei chadw ac yn cynrychioli'r gwahaniaeth sy'n bodoli rhwng Deddf 2003 a Deddf 1989.

#### **Adran 162 – Cwynion ynghylch gwasanaethau cymdeithasol: materion atodol**

501. Mae'r adran hon yn pennu darpariaethau atodol ynglŷn â rheoliadau cwynion a wneir o dan adran 161. Bydd y rhain yn disodli'r darpariaethau cyfredol ynghylch gweithdrefnau cwynion o dan adran 115 o Ddeddf 2003, sydd wedi ei diddymu o ran Cymru. Mae is-adran (2) yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n pennu materion megis pwy a gaiff wneud cynw ac wrth bwy, y cwynion y caniateir ac na chaniateir eu gwneud, a'r weithdrefn ar gyfer gwneud, trin ac ystyried cynw. Mae is-adran (3) yn ymwneud â gwneud taliad mewn perthynas ag ystyried cynw. Mae is-adran (4) yn caniatáu i'r rheoliadau wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau neu gyrff sy'n ymdrin â chwynion roi gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ynglŷn â'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn o dan y rheoliadau. Mae is-adran (5) yn galluogi'r rheoliadau i awdurdodi dangos neu ddatgelu gwybodaeth neu ddogfennau. Pan na fyddai'n bosibl, oherwydd dyletswyddau cyfrinachedd o dan y gyfraith gyffredin, ddatgelu gwybodaeth berthnasol ynglŷn â chwyn i'r corff sydd i'w hystyried o dan y rheoliadau, neu i'r corff y mae'r gŵyn i'w hatgyfeirio ato ar gyfer ei hystyried o dan ddarpariaethau eraill, mae is-adran (5) yn caniatáu i'r rheoliadau wneud y datgeliad yn gyfreithlon. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn drech na darpariaethau penodol Deddf Diogelu Data 1998, i'r perwyl bod rhaid peidio â datgelu gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn heb gydsyniad yr unigolyn hwnnw oni fydd yn angenrheidiol gwneud hynny am unrhyw un neu rai o'r rhesymau a bennir yn y Bil.

502. Caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran (6) ddarparu ar gyfer sefyllfa pan fo achwynydd yn codi materion y dylid eu hystyried o dan rheoliadau a wnaed o dan adran 161, a hefyd o dan weithdrefn gwynion arall. Caiff y rheoliadau ddarparu y ceir gwneud y gŵyn o dan y rheoliadau, ac i'r graddau y mae'r gŵyn yn ymwneud â materion sydd i'w hystyried o dan y

weithdrefn arall, caiff y gŵyn ei thrin fel pe bai wedi ei chodi mewn cwyn a wnaed o dan y weithdrefn arall honno (e.e. caiff rheoliadau ddarparu y ceir cyflwyno i gorff GIG gŵyn ynghylch gwasanaethau GIG yn ogystal â gwasanaethau awdurdod lleol, a bod y gŵyn ynghylch gwasanaethau awdurdod lleol i'w thrin fel pe bai wedi ei gwneud o dan y rheoliadau a wnaed o dan adran 161). Yn y modd hwn, bydd modd i achwynydd wneud ei gŵyn i un corff yn unig, gan ysgogi'r ddwy gyfres o weithdrefnau. Rhagwelir hefyd y bydd y ddwy weithdrefn wedi hynny yn gweithredu cyn belled ag y bo modd ochr yn ochr â'i gilydd ac felly yn ymddangos i'r achwynydd fel pe bai'n un system.

### **Adran 163– Cymorth i achwynwyr**

503. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynorthwyo pobl sy'n gwneud cwyn. Gallai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau eirioli i alluogi pobl i wneud cwynion. Caiff y rheoliadau bennu gwahanol grwpiau neu fathau o bersonau y dylid darparu cynhorthwy iddynt. Pwrpas hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i dargedu'r ddyletswydd er mwyn cynorthwyo grwpiau a adwaenir fel y rhai sydd arnynt fwyaf o angen eiriolaeth a chymorth arall. Caiff y rheoliadau hefyd gynnwys darpariaeth ynglŷn â rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw drefniadau ar gyfer darparu cynhorthwy o'r fath.

### **Adran 164 – Sylwadau sy'n ymwneud â phlant penodol etc**

504. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sefydlu gweithdrefn ar gyfer ystyried sylwadau sy'n ymwneud â phlant penodol. Mae'n atgynhyrchu i raddau helaeth y darpariaethau yn adran 26(3) i (3C) o Ddeddf 1989, sydd i'w diddymu. Gellir rhannu swyddogaethau awdurdod lleol a all fod yn ddarostyngedig i sylwadau o dan yr adran hon yn dri chategori:

- a. Sylwadau ynghylch y swyddogaethau canlynol, naill ai mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu mewn perthynas â phlant nad ydynt yn derbyn gofal ond y gall fod arnynt anghenion am ofal a chymorth:
  - i. swyddogaethau sy'n arferadwy o dan Rannau 3 i 6 o'r Bil hwn (ac eithrio swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas â phlentyn fel gofalwr).
  - ii. swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas â phlentyn o dan Ran 7 o'r Bil hwn.
  - iii. swyddogaethau o dan Ran 4 neu 5 o Ddeddf Plant 1989 ond a bennir mewn rheoliadau.

Mewn achosion o'r fath rhaid i sylwadau gael eu gwneud gan y personau a restrir yn is-adran (3).

- b. Sylwadau ynghylch swyddogaethau awdurdod lleol o dan adran 14F o Ddeddf Plant 1989 a wneir gan y personau a restrir yn is-adran (4). Mae adran 14F yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniant ar gyfer darparu, o fewn eu hardal, gwasanaeth cynnal gwarcheidiaeth arbennig (megis cwnsela, cyngor a gwybodaeth).
- c. Sylwadau ynghylch swyddogaethau awdurdod lleol o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, sydd wedi eu pennu mewn rheoliadau ac a wneir gan y personau a bennir yn is-adran (5). O dan is-adran (6), rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y weithdrefn a sefydlir ganddo o dan yr adran hon yn darparu bod sylwadau'n cael eu hystyried gan un person, o leiaf, nad yw'n aelod o'r awdurdod lleol o dan sylw. Mae hefyd yn darparu bod rhaid i unrhyw drafodaethau a gynhelir gan yr awdurdod ynglŷn â'r sylwadau gynnwys person nad yw'n aelod o'r awdurdod lleol o dan sylw. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod lefel ddigonol o annibyniaeth yn rhan annatod o'r broses, er mwyn rhoi sylw digonol i safbwyntiau plant a allai fod yn agored i niwed. Gall rheoliadau ddatgymhwyso'r gofyniad hwn mewn sefyllfaoedd pan ystyrir, neu pan drafodir, sylwadau at ddibenion ceisio datrys materion yn anffurfiol (gweler is-adran (8)). Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'r weithdrefn a sefydlir ganddo o dan yr adran hon.

#### **Adran 165 – Sylwadau sy'n ymwneud a phlant penodol: darpariaeth bellach**

- 505. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol, wrth ystyried sylwadau, gydymffurfio â'r gofynion a osodir arno o dan adran 164(6) i (8) (gofynion gweithdrefnol a'r gofyniad bod ystyried sylwadau yn cynnwys ystyriaeth gan berson nad yw'n aelod nac yn swyddog yr awdurdod lleol o dan sylw), a chaiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol fonitro'r camau a gymerwyd ganddo i sicrhau cydymffurfedd.
- 506. Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganfyddiadau'r person a fu'n ystyried ysylwadau a ystyriwyd o dan adran 164 a rhaid iddo hysbysu'r person a wnaeth y sylw, y plentyn (os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol) ac unrhyw berson arall y mae'n ymddangos i'r awdurdod yr effeithir arno yn ôl pob tebyg, ynghylch penderfyniad yr awdurdod lleol a'r rhesymau dros y penderfyniad.

#### **Adran 166 – Sylwadau sy'n ymwneud â phlant a fu gynt yn derbyn gofal etc**

- 507. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol sefydlu gweithdrefn ar gyfer ystyried sylwadau gan gategorïau penodol o blant a phobl ifanc ynghylch cyflawni swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Rannau 3 i 7 o'r Bil mewn perthynas â'r plant a'r bobl ifanc hynny. Mae

hyn yn atgynhyrchu i rannau helaeth adran 24D o Ddeddf 1989 sydd yn cael ei diddymu.

508. Disgrifir y plant a'r bobl ifanc y cyfeirir atynt fel pobl ifanc yng nghategoriâu 1 i 5. Mae i'r categorïau hyn yr ystyron a ddarperir gan adran 95 o'r Bil. Yn eu hanfod mae'r rhain yn blant hŷn (16 -17 oed) sy'n derbyn gofal neu a fu gynt yn derbyn gofal a phobl ifanc (18 oed neu'n hŷn) sydd fel rheol yn gadael gofal. Diffinnir plentyn sy'n derbyn gofal yn adran 65 o'r Bil fel plentyn sydd naill ai yng ngofal awdurdod lleol neu y darperir llety iddo gan yr awdurdod wrth i'r awdurdod arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol penodedig.

509. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau a gaiff osod gofynion ynghylch y weithdrefn y mae rhaid i'r awdurdod lleol ei sefydlu o dan yr adran hon, a chânt bennu terfynau amser.

510. Mae awdurdod lleol o dan ddyletswydd i roi cyhoeddusrwydd i'r weithdrefn a sefydlir ganddo o dan yr adran hon a rhaid i'r awdurdod gydymffurfio ag unrhyw ofynion gweithdrefnol a nodir mewn rheoliadau.

#### **Adran 167 – Rhoi ystyriaeth bellach i sylwadau**

511. Mae'r adran hon yn darparu y ceir gwneud rheoliadau mewn perthynas â sylwadau (gan gynnwys cwynion) a ystyriwyd gan awdurdod lleol o dan adran 164 neu 166. Mae hyn yn atgynhyrchu'r ddarpariaeth flaenorol a oedd wedi ei chynnwys yn adran 26ZB o Ddeddf Plant 1989. Mae'r adran hon yn enwi ystod eang o bwerau gwneud rheoliadau.

512. Mae is-adran (4) yn darparu ar gyfer atgyfeirio cwynion, neu unrhyw fater a godir gan gŵyn, i fan arall. Mae'n gwneud darpariaeth benodol i alluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu, mewn rheoliadau, y ceir atgyfeirio materion at yr Ombwdsmon i'w hystyried o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Diben hyn yw codi'r ymwybyddiaeth ymysg achwynwyr o'u hawl i gwyno wrth yr Ombwdsmon. Fel arall, ceir atgyfeirio'r gŵyn neu'r mater a godir gan yr achwynwr at unrhyw gorff arall ar gyfer penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau.

#### **Adran 168 – Cynhorthwy i bersonau sy'n cyflwyno sylwadau**

513. Mae'r adran hon yn darparu bod awdurdod lleol o dan ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer darparu cynhorthwy i blant sy'n gwneud sylwadau o dan adran 164 a phersonau sy'n gwneud sylwadau sy'n dod o fewn adran 166. Rhaid i'r awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'r trefniadau ar gyfer eu cynorthwyo. Mae'r ddarpariaeth hon yn atgynhyrchu'r ddarpariaeth yn adran 26A o Ddeddf Plant 1989 (sydd i'w diddymu o ran Cymru). Rhaid i'r cynhorthwy a ddarperir o dan yr adran hon gynnwys cynhorthwy ar ffurf cynrychiolaeth ac felly bydd yn darparu ar gyfer cymorth eiriolwr ar gyfer gwneud sylwadau. Gwneir hyn er mwyn hwyluso sylwadau gan blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Rhaid i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol na fydd rhai categorïau o bobl yn darparu'r

cynhorthwy a chânt osod gofynion eraill megis gofyniad i'r awdurdod lleol fonitro'r camau a gymerir ganddo i gydymffurfio â'r gofynion a osodir.

## **Pennod 2 – Cwynion am Ofal Cymdeithasol a Gofal Lliniarol Preifat**

### **Adran 169 – Ymchwilio i gwynion am ofal cymdeithasol a gofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat**

514. Mae'r adran hon yn rhoi effaith i Atodlen 3 i'r Bil hwn. Mae'n mewnosod Rhannau 2A, 2B a 3A yn Neddf 2005 sy'n rhoi i'r Ombwdsmon bwerau i ymchwilio i gwynion ynghylch mathau penodol o ofal cymdeithasol a gofal lliniarol.

### **Adran 170 – Gwasanaethau eiriol annibynnol ar gyfer cwynion am ofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat**

515. Mae'r adran hon yn diwygio adran 187 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006"). Mae adran 187 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol (hynny yw gwasanaethau sy'n darparu cynhorthwy i unigolion sy'n gwneud neu'n bwriadu gwneud cwynion) mewn perthynas â chwynion ynghylch gwasanaethau iechyd penodedig. Ar hyn o bryd, mae adran 187 o Ddeddf 2006 yn cwmpasu unrhyw gwynion a wneir i'r Ombwdsmon o dan Ddeddf 2005. Mae'r adran yn cael ei diwygio i'w gwneud yn eglur mai dim ond mewn perthynas â chwynion gofal iechyd i'r Ombwdsmon y mae'r ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol yn gymwys. Mae hyn yn cynnwys cwynion ynghylch darparwyr gofal lliniarol annibynnol (term sydd â'r un ystyr iddo ag a roddir i "independent palliative care provider" yn Neddf 2005).

## **RHAN 11 – ATODOL A CHYFFREDINOL**

### **Adran 171 – Ymchwil a darparu gwybodaeth**

516. Mae'r adran hon yn rhoi amlinellu pwerau Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i wneud, comisiynu neu gynorthwyo i wneud, ymchwil i faterion a bennir yn y Bil. Yn ogystal, mae'n gosod gofynion ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a sefydliadau gwirfoddol i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru o fewn paramedrau penodol wedi eu diffinio.

### **Adran 172 – Methiant darparwr – dyletswydd dros dro ar awdurdod lleol**

517. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol os bydd sefydliad neu asiantaeth sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, sy'n darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth, yn methu â pharhau i weithredu oherwydd methiant busnes. Yn yr amgylchiadau hynny, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion pobl (am ba hyd bynnag ag y mae'n ystyried yn angenrheidiol) a oedd yn cael eu diwallu gan y sefydliad neu'r

asiantaeth o'r blaen. Mae hefyd yn amlinellu'r trefniant ar gyfer codi ffi, dehongli preswylfa arferol a datrys anghydfodau.

#### **Adran 173 – Methiant darparwr: eithriad i'r ddyletswydd dros dro**

518. Mae'r adran hon yn amlinellu'r eithriadau i'r ddyletswydd dros dro a osodir gan adran 172.

#### **Adran 174 – Methiant darparwr: atodol**

519. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer materion ychwanegol mewn perthynas â'r ddyletswydd newydd yn adran 172 gan gynnwys y rhyng-gysylltiad ag adrannau eraill o'r Bil a chynnwys rheoliadau.

#### **Adran 175 – Diwygio Deddf Cymorth Gwladol 1948**

520. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer diwygio adran 49 o'r Ddeddf Uchod.

#### **Adran 176 – Adennill costau rhwng awdurdodau lleol**

521. Mae'r adran hon yn casglu ynghyd y trefniadau ar gyfer adennill costau rhwng awdurdodau lleol sydd i'w cael ar hyn o bryd yn adran 32 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (mewn perthynas ag oedolion) ac adran 29 o Ddeddf Plant 1989 (mewn perthynas â phlant).

522. Mae'n sicrhau, mewn amgylchiadau pan fo awdurdod lleol yn arfer pŵer i ddarparu gofal a chymorth i berson nad yw fel arfer yn preswyllo yn ei ardal, y caiff adennill y costau oddi wrth yr awdurdod lleol lle y mae'r person fel arfer yn preswyllo.

523. Bydd hyn yn codi pan yw'n ofynnol diwallu anghenion person ar frys neu mewn unrhyw achos pan fo'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r person yn byw yn hysbysu'r awdurdod arall.

524. Mae'r adran yn nodi'r amgylchiadau penodol pan fo hawl gan yr awdurdod lleol sy'n darparu llety neu wasanaethau gofal a chymorth eraill ar gyfer plentyn i adennill y costau oddi wrth awdurdod lleol arall.

#### **Adran 177 – Preswylfa arferol**

525. Nid yw'r adran hon yn cynnwys diffiniad o "breswylfa arferol" a fydd yn cadw ei ystyr cyffredin a naturiol. Mae'r ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud gan yr adran hon wedi ei seilio ar ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud yn adran 24 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ac adran 105 o Ddeddf Plant 1989.

526. Mae is-adran (1) yn disgrifio'r effaith ar statws preswylfa arferol person o ganlyniad i'r ffaith bod person yn symud i'r llety y mae ei angen i ddiwallu'r anghenion gofal a chymorth. Mae is-adran (4) yn disgrifio'r

effaith ar breswylfa arferol person os yw'n cael ei dderbyn i'r ysbyty neu unrhyw lety arall a ddarperir o dan ddeddfiad iechyd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

527. Caiff rheoliadau bennu'r mathau o lety y mae is-adran (1) yn gymwys iddynt a chânt wneud darpariaeth ynghylch a oes ar oedolyn angen am fath penodol o lety.

528. Pan wneir unrhyw ddyfarniad ynghylch ardal 'preswylfa arferol' plentyn, mae unrhyw gyfnod pan fo'r plentyn yn byw mewn ysgol neu sefydliad tebyg; yn unol â gorchymyn goruchwyllo o dan Ddeddf Plant 1989; yn unol â gorchymyn adsefydlu ieuenctid o dan Ran 1 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008; mewn llety a ddarperir gan awdurdod lleol (gan gynnwys awdurdod lleol yn Lloegr) neu fan a bennir mewn rheoliadau, i'w ddiystyru.

### **Adran 178 – Anghydfodau ynghylch preswylfa arferol a hygludedd gofal a chymorth**

529. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer dyfarnu ar unrhyw anghydfodau ynghylch "preswylfa arferol" person gan Weinidogion Cymru neu gan unrhyw un a benodir ganddynt. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach, er enghraifft, i sicrhau bod anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu tra bo'r anghydfod yn cael ei ddatrys a darpariaeth mewn perthynas â'r weithdrefn ar gyfer atgyfeirio'r anghydfod at Weinidogion Cymru neu berson penodedig. Mae'r adran hon yn deillio o ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud yn adran 32 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ac adran 30 o Ddeddf Plant 1989.

### **Adran 179 – Gorchmynion a rheoliadau**

530. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â gwneud gorchmynion a rheoliadau o dan y Bil hwn.

531. Mae is-adran (6) yn pennu pa orchmynion a rheoliadau sydd i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Bydd yr holl orchmynion a rheoliadau eraill yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

### **Adran 180 – Dehongli cyffredinol a mynegai o ymadroddion a ddiffiniwyd**

532. Mae'r adran hon yn darparu rhestr o'r termau a ddefnyddir yn y Bil hwn a'u diffiniadau, er enghraifft "camdriniaeth" a "cam-drin"; "deddfiad"; "magwraeth"; "meini prawf cymhwystra"; a "swyddogaeth".

### **Adran 181 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc**

533. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth atodol, cysylltiedig neu ganlyniadol neu sy'n gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

## **Adran 182 – Cychwyn**

534. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer cychwyn y Bil hwn.

## **Adran 183 – Enw byr**

535. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer enw'r Bil.

## **Atodlen 1 – Cyfraniadau tuag at gynhaliaeth plant sy'n derbyn gofal**

## **Atodlen 2 – Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol**

## **Atodlen 3 – Ymchwilio i gwynion ynghylch gofal cymdeithasol a gofal lliniarol a drefnir neu a ariennir yn breifat**

536. Mae paragraffau 1 a 2 yn mewnosod rhan 2A a 2B newydd yn Neddf Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae rhannau 2A a 2B yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

537. Mae Adran 34A yn nodi bod Rhan 2A o Ddeddf 2005 yn gymwys i'r tri mater a ganlyn: (1) Camau a gymerwyd gan ddarparwr cartref gofal mewn cysylltiad â darparu llety, gofal nyrsio neu ofal personol mewn cartref gofal yng Nghymru. (2) Camau a gymerwyd gan ddarparwr gofal cartref mewn cysylltiad â darparu gofal cartref yng Nghymru. (3) Camau a gymerwyd gan ddarparwr gofal lliniarol annibynnol mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth gofal lliniarol yng Nghymru. Nid yw Rhan 2A yn gymwys i gwynion y mae rhan 2 o Ddeddf 2005 yn ymdrin â hwy na materion a ddisgrifir yn yr Atodlen 3A newydd i Ddeddf 2005. Mae is-adrannau (3) a (4) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio Atodlen 3A drwy orchymyn ond bod rhaid iddynt ymgynghori â'r Ombwdsmon cyn gwneud hynny. Rhaid i orchymyn o'r fath gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo. Mae'r termau a ddefnyddir yn yr adran hon wedi eu diffinio yn adrannau 34R i 34T.

538. Mae adran 34B yn adlewyrchu'r dull cyffredinol a ddefnyddiwyd yn adran 2 o Ddeddf 2005. Yn rhinwedd adran 34(B)(1) ni chaiff yr Ombwdsmon ymchwilio i gwyn sy'n ymwneud â mater oni bai:

- a. bod y gwyn wedi ei chyflwyno iddo'n briodol neu wedi ei chyfeirio ato'n briodol; a
- b. cyn i'r Ombwdsmon ystyried y gwyn, bod y mater wedi cael ei ddwyn i sylw'r darparwr hwnnw y mae'r gwyn yn ymwneud ag ef. Hefyd, rhaid bod y darparwr wedi cael cyfle rhesymol i ystyried y mater ac ymateb iddo.

539. Yn achos cwynion ynghylch darparwyr gofal lliniarol annibynnol, mae un amod ychwanegol, sef i'r darparwr gofal lliniarol annibynnol gael arian



cyhoeddus o fewn y tair blynedd cyn dyddiad y weithred y mae'r gŵyn yn ymwneud â hi. Diffinnir "public funding" yn is-adran (3) a'i ystyr yw arian oddi wrth Weinidogion Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, Ymddiriedolaeth GIG neu gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.

540. Mae adrannau 34B(4) a 34(E) yn nodi'r amgylchiadau pan gyflwynir cwyn yn briodol i'r Ombwdsmon. Mae adran 34B(5) ac adran 34F yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff cwyn ei chyfeirio'n briodol at yr Ombwdsmon gan ddarparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef. Mae adran 34B(7) yn galluogi'r Ombwdsmon i dderbyn cwyn hyd yn oed os nad yw'r gofynion penodol o ran y ffordd y cafodd y gŵyn ei chyflwyno neu ei chyfeirio wedi cael eu bodloni, a hynny os yw o'r farn ei bod yn rhesymol i wneud hynny. Mae is-adrannau 34B(8) a (9) yn rhoi disgrisiwn eang i'r Ombwdsmon o ran a ddylid dechrau ymchwiliad, parhau ag ymchwiliad neu ei derfynu. Mae adran 34B(10) yn ei gwneud yn gwbl glir y caiff yr Ombwdsmon ddechrau ymchwiliad neu barhau ag ef hyd yn oed os yw'r gŵyn wedi ei thynnu yn ôl. Mae hynny'n cynnwys sefyllfa pan fo cwyn wedi ei gwneud, er enghraifft, mewn perthynas â chymau gan y darparwr sy'n effeithio ar fwy nag un person, ond pan fo'r gŵyn a dynnwyd yn ôl wedi ei chyflwyno fel y gŵyn "arweiniol". Mewn achosion o'r fath, pan dynnwyd y gŵyn "arweiniol" yn ôl, mater i'r Ombwdsmon fydd penderfynu dechrau ymchwiliad neu barhau ag ymchwiliad yn ôl yr hyn y gwêl yn dda.
541. Mae adran 34C yn adlewyrchu adran 3 o Ddeddf 2005 ac yn rhoi pŵer eang i'r Ombwdsmon i gymryd camau i ddatrys cwynion heb fynd ymlaen i ymchwiliad ffurfiol, Mae'r pŵer hwn ar gael i'r Ombwdsmon ei ddefnyddio yn lle'r pŵer i ymchwilio neu'n ychwanegol at y pŵer hwnnw.
542. Mae adran 34D yn seiliedig ar adran 4 o Ddeddf 2005. Nid oes hawlogaeth gan aelod o'r cyhoedd (y person a dramgwyddir, sef "the person aggrieved") gwyno i'r Ombwdsmon oni bai ei fod yn honni ei fod wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant yn y gwasanaeth (yn ôl y digwydd). Nid unigolion yn unig sy'n gallu cwyno i'r Ombwdsmon. Caiff cwmnïau neu gyrff corfforaethol eraill gwyno i'r Ombwdsmon er enghraifft. Ni chaiff personau sy'n gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel darparwyr cartrefi gofal, darparwyr gofal cartref, darparwyr gofal lliniarol annibynnol neu awdurdodau rhestredig gwyno i'r Ombwdsmon (gweler is-adran 34D(3)). Yr Ombwdsmon sy'n dyfarnu a oes gan berson hawlogaeth i wneud cwyn o dan yr adran hon.
543. Mae adran 34E yn darparu bod rhaid i gwynion i'r Ombwdsmon gael eu cyflwyno, ar y cyfan, yn ysgrifenedig (sy'n cynnwys drwy ddulliau electronig) (adran 34E(1)(a)). Fodd bynnag, o dan adran 34B(7) caiff yr Ombwdsmon benderfynu derbyn cwyn a gyflwynwyd ar ffurf nad yw'n ysgrifenedig os yw'n credu ei bod yn rhesymol iddo wneud hynny. Er enghraifft, os oes gan y person a dramgwyddir anabledd sy'n ei gwneud yn anodd iddo wneud ei gŵyn ar ffurf ysgrifenedig, mae gan yr

Ombwdsmon ddisgresiwn i benderfynu p'un ai i dderbyn cwyn lafar yn lle hynny.

544. Mae adran 34E(2) yn darparu mai'r terfyn amser ("y cyfnod a ganiateir") ar gyfer gwneud cwyn i'r Ombwdsmon yw:

- a. pan fo'r person a dramgwyddir wedi cael ei hysbysu ynglŷn â'r mater hwn cyn y dyddiad y daw adran 34B i rym, y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y dyddiad y daw'r adran i rym; a
- b. mewn unrhyw achos arall, o fewn 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y person a dramgwyddir yr hysbysiad cyntaf ynglŷn â'r mater.

545. Eto, o dan adran 34B(7), mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn i ystyried cwyn a gyflwynir y tu allan i'r terfyn amser hwnnw os yw'n ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny o dan amgylchiadau'r achos. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd bŵer i wneud rheoliadau sy'n addasu'r modd y mae Deddf 2005 yn gymwys i gyn-ddarparwyr cartrefi gofal yng Nghymru, cyn-ddarparwyr gofal cartref yng Nghymru a chyn-ddarparwyr gofal lliniarol annibynnol yng Nghymru (gweler y diwygiadau y mae paragraff 29 o Atodlen 3A yn eu gwneud i adran 42 o Ddeddf 2005). Rhagwelir y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio i amrywio, er enghraifft, y terfyn amser ar gyfer gwneud cwynion i'r Ombwdsmon ynghylch gweithredoedd personau o'r fath.

546. Yn ddarostyngedig i'r gofynion datganedig penodol yn y Bil, mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu ar ei weithdrefnau ei hun, ac yn benodol, mae adran 34E(3) yn darparu mai mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a yw gofynion adran 34E wedi eu bodloni mewn achos penodol.

547. Mae adran 34F yn darparu y gall darparwr gyfeirio cwyn a gyflwynwyd iddo at yr Ombwdsmon ond dim ond os yw'r gŵyn wedi ei gwneud gan berson y byddai hawlogaeth wedi bod ganddo i wneud y gŵyn honno'n uniongyrchol i'r Ombwdsmon. Rhaid i'r gŵyn fod wedi ei gwneud hefyd i'r darparwr cyn diwedd y cyfnod a ganiateir y cyfeirir ato yn adran 34E(2). Rhaid cyfeirio cwyn o'r fath yn ysgrifenedig a rhaid i'r gŵyn gael ei chyfeirio cyn diwedd y flwyddyn sy'n dechrau ar y diwrnod y gwnaed y gŵyn i'r darparwr. O dan adran 34B(7) caiff yr Ombwdsmon, at ddibenion derbyn cwyn sydd wedi ei chyfeirio, ddiystyru'r naill neu'r llall (neu'r ddau) o'r terfynau amser hynny (fel y'u disgrifwyd uchod) os yw o'r farn ei bod yn rhesymol iddo wneud hynny.

548. Mae adran 34G yn darparu bod rhaid i'r Ombwdsmon lunio datganiad o resymau mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad y mae'n ei wneud i beidio â dechrau ymchwiliad neu i derfynu ymchwiliad. Mae hyn yn cynnwys sefyllfa, o dan adran 34C, pan fo'r Ombwdsmon wedi datrys cwyn ac felly wedi penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad. O dan adran 34G(2), rhaid i'r Ombwdsmon anfon copi o'r datganiad hwnnw at:

- a. y person a gyflwynodd y gŵyn iddo; a
- b. y darparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef.

549. O dan adran 34G(3) caiff yr Ombwdsmon anfon copi o'r datganiad at unrhyw berson arall.

550. Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o'r fath os yw gofynion adran 34G(4) wedi eu bodloni. Ni chaiff yr Ombwdsmon gyhoeddi datganiad o'r fath oni bai ei fod o'r farn bod cyhoeddi er budd y cyhoedd. Wrth ddod i gasgliad, rhaid i'r Ombwdsmon ystyried buddiannau'r person a dramgwyddir ac unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn briodol.

551. Mae adran 34G(6) a (7) yn darparu pan fo'r Ombwdsmon yn llunio datganiad:

- a. sy'n enwi unrhyw berson (ac eithrio'r darparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef); neu
- b. sy'n cynnwys gwybodaeth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol o beri i berson o'r fath gael ei adnabod, ac y gall yr wybodaeth honno, ym marn yr Ombwdsmon, gael ei hepgor o'r datganiad heb amharu ar ei effeithiolrwydd,

ni chaiff yr Ombwdsmon gynnwys gwybodaeth o'r fath yn y fersiwn o'r datganiad y mae'n ofynnol iddo ei hanfon neu y mae'r pŵer ganddo i'w hanfon, neu y mae'n ei chyhoeddi, oni bai bod ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys enw o'r fath neu fanylion o'r fath sy'n peri i'r person gael ei adnabod. Wrth ddod i gasgliad, rhaid i'r Ombwdsmon ystyried buddiannau'r person a dramgwyddir ac unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn briodol.

552. Yn achos y fersiwn o'r datganiad y mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon ei hanfon, o dan adran 34G(2), at y person a gyflwynodd y gŵyn a'r darparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef, rhagwelir na fyddai'n anodd i'r Ombwdsmon ddangos bod cynnwys gwybodaeth o'r fath er budd i'r cyhoedd. Y rheswm dros hynny yw, mewn achosion o'r fath, ei bod yn debygol bod budd mawr i'r cyhoedd bod y partïon hynny yn gwybod enwau a manylion adnabod y personau y mae'r Ombwdsmon yn ystyried bod angen cyfeirio atynt yn y datganiad. Mewn llawer o achosion, yr unig rai y mae datganiad o'r fath yn debygol o'u henwi neu beri iddynt gael eu hadnabod yw'r person a dramgwyddir, y darparwr a gyflawnodd y weithred sy'n destun y gŵyn, a'r rhai o blith ei gyflogeion sy'n berthnasol.

553. Mae adran 34H(3) yn darparu, yn ddarostyngedig i'r gofynion yn is-adrannau (1) a (2) o'r adran honno, mai mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu ar y weithdrefn ar gyfer cynnal ymchwiliad. Gallai'r Ombwdsmon, er enghraifft, sefydlu gweithdrefnau gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o gwynion a gallai, mewn unrhyw achos penodol, wyro

oddi wrth weithdrefnau sefydledig o'r fath os yw'n ystyried bod hynny'n briodol.

554. Mae adran 34H(4)(a) yn ei gwneud yn glir y caiff yr Ombwdsmon wneud unrhyw ymholiadau y mae'n credu eu bod yn briodol. Mae adran 13(4)(b) yn darparu mai mater i'r Ombwdsmon yw penderfynu a gaiff person gael ei gynrychioli'n gyfreithiol neu ei gynrychioli mewn rhyw fodd arall (e.e. gan eiriolwr annibynnol).
555. Mae adran 34H(6) yn rhoi pŵer i'r Ombwdsmon wneud taliadau tuag at dreuliau'r personau sy'n ei gynorthwyo mewn ymchwiliad, ac yr amod bod y costau hynny wedi eu tynnu'n briodol, ac i dalu lwfansau penodol. Mater i'r Ombwdsmon yw dyfarnu a yw'n briodol gwneud taliadau o'r fath neu osod unrhyw amodau ar daliadau o'r fath.
556. Mae adran 34I yn rhoi pwerau eang i'r Ombwdsmon i'w gwneud yn ofynnol i ddangos gwybodaeth neu ddogfennau mewn perthynas ag ymchwiliad (adran 34I(2) a (3)) ac i'w gwneud yn ofynnol i bersonau penodol ddarparu iddo unrhyw gyfleusterau y mae'n gofyn amdanynt a hynny'n rhesymol (adran 34I(4)). Mae'n bosibl y bydd angen yr ail ddarpariaeth, er enghraifft, pe bai'r Ombwdsmon yn ei gwneud yn ofynnol i galedwedd neu feddalwedd cyfrifiadur penodol gael ei defnyddio i weld dogfennau neu wybodaeth a ddarperir.
557. Man gan yr Ombwdsmon yr un pwerau â'r Uchel Lys mewn perthynas â chymryd tystiolaeth oddi wrth dystion, ymhlith pethau eraill (adran 34I(3)).
558. Mae adran 34I(5) yn darparu amddiffyniad i'r rheini y caiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol iddynt roi tystiolaeth neu ei gwneud yn ofynnol iddynt ddangos gwybodaeth neu ddogfennau. Ni chaiff yr Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i berson o'r fath roi unrhyw dystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfennau na allai'r person hwnnw gael ei orfodi i'w rhoi neu eu dangos gerbron yr Uchel Lys.
559. Mae adran 34I(6) yn rhwystro'r Goron rhag dal gwybodaeth yn ôl ar y sail bod yr wybodaeth yn ddarostyngedig i rwymedigaeth i'w chadw'n gyfrinachol neu ar y sail bod cyfyngiad ar ei datgelu.
560. Effaith adran 34I(7), mewn perthynas â phŵer yr Ombwdsmon i'w gwneud yn ofynnol bod tystiolaeth yn cael ei rhoi neu fod gwybodaeth neu ddogfennau'n cael eu dangos, yw na all y Goron ddibynnu ar naill ai ei breintiau arbennig na'i himiwneddau i drechu hawl yr Ombwdsmon i weld y fath wybodaeth nac ar yr amddiffyniad a fyddai fel arall yn cael ei roi gan adran 14(5).
561. Mae adran 34J(1) a (2) yn galluogi'r Ombwdsmon i ardystio i'r Uchel Lys, yn ei farn ef, fod person wedi ei rwystro (neu aelod o'i staff etc.) heb esgus cyfreithlon wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 2A neu fod y person wedi ymddwyn mewn modd a fyddai'n gyfystyr â chyflawni

dirmyg llys, pe bai'r weithred honno wedi ei gwneud mewn perthynas ag achos yn yr Uchel Lys.

562. Os yw'r Ombwdsmon yn dyroddi tystysgrif o'r fath, caiff yr Uchel Lys ymchwilio i'r mater ac os yw'r Uchel Lys yn darganfod bod y person o dan sylw wedi rhwystro'r Ombwdsmon, caiff yr Uchel Lys drin y person fel pe bai wedi cyflawni dirmyg mewn perthynas â'r Uchel Lys (adran 34J(4)).

563. Mae adran 34K 16(1) yn darparu bod yn rhaid i'r Ombwdsmon lunio adroddiad ar ei ddarganfyddiadau ar ôl cynnal ymchwiliad a bod yn rhaid iddo anfon copi o'r adroddiad hwnnw at y personau a bennir yn adran 34K(3), oni bai ei fod yn penderfynu cyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn amgen a nodir o dan adran 34N. Caiff yr Ombwdsmon hefyd anfon copi o'r adroddiad at unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn briodol.

564. Caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi ei adroddiad os yw gofynion adran 34K(4) wedi eu bodloni. Dim ond os yw'r Ombwdsmon yn ystyried bod cyhoeddi adroddiad o'r fath er budd y cyhoedd y caiff wneud hynny. Wrth ddod i'w gasgliad, rhaid i'r Ombwdsmon roi sylw i fuddiannau'r person a dramgwyddir ac unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn briodol.

565. Mae adran 34K(7) ac (8) yn darparu, pan fo'r Ombwdsmon yn llunio adroddiad:

- a. sy'n enwi unrhyw berson (ac eithrio'r darparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef); neu
- b. sy'n cynnwys gwybodaeth sydd, ym marn yr Ombwdsmon, yn debygol beri i unrhyw berson gael ei adnabod ac y gellir, ym marn yr Ombwdsmon, ei hepgor o'r adroddiad heb amharu ar effeithiolrwydd yr adroddiad,

ni chaiff yr Ombwdsmon gynnwys gwybodaeth o'r fath yn y fersiwn o'r adroddiad y mae'n ofynnol iddo ei hanfon neu y mae'r pŵer ganddo i'w hanfon, neu y mae'n ei chyhoeddi, oni bai ei bod er budd y cyhoedd i gynnwys enw o'r fath neu fanylion o'r fath sy'n peri i'r person gael ei adnabod. Wrth ddod i gasgliad, rhaid i'r Ombwdsmon roi sylw i fuddiannau'r person a dramgwyddir ac unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn briodol.

566. Yn achos fersiwn o'r adroddiad y mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon ei hanfon o dan adran 34K(2)(b) at y person a gyflwynodd y gŵyn ac at y darparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef etc, rhagwelir na fyddai'n anodd i'r Ombwdsmon ddangos bod cynnwys gwybodaeth o'r fath er budd i'r cyhoedd. Y rheswm dros hynny yw, mewn achosion o'r fath, ei bod yn debygol bod budd mawr i'r cyhoedd bod y partion hynny yn gwybod enwau a manylion adnabod y personau y mae'r Ombwdsmon yn ystyried bod angen cyfeirio atynt yn ei adroddiad. Yn wir, mewn llawer o achosion, yr unig rai y mae adroddiad o'r fath yn debygol o'u enwi neu beri iddynt gael eu hadnabod yw'r person a dramgwyddir, y darparwr a gyflawnodd y

weithred sy'n destun y gŵyn a'r rhai o blith cyflogeion y darparwr sy'n berthnasol (e.e. am mai'r cyflogai a gyflawnodd y weithred sy'n destun y gŵyn).

567. Mae adran 34L yn darparu y caiff yr Ombwdsmon gyhoeddi hysbysiad ynghylch adroddiad ymchwiliad mewn papur newydd, neu gyfrwng ddarlledu/electronig arall. Rhaid i unrhyw benderfyniad i gyhoeddi hysbysiad o'r fath ystyried budd y cyhoedd, buddiannau'r person a dramgwyddir ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Ombwdsmon yn credu eu bod yn briodol (gweler adran 34L(4)). Caiff yr hysbysiad (ymhlith pethau eraill) gynnwys y materion a bennir yn adran 34L(2). Rhaid i'r darparwr y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef ad-dalu'r costau rhesymol ar gyfer trefnu i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi i'r Ombwdsmon, os yw'r Ombwdsmon yn gofyn iddo wneud hynny.

568. Mae adran 34M yn darparu os yw'r Ombwdsmon, yn dilyn ymchwiliad, yn adrodd (o dan adran 34K) bod y person a dramgwyddir wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r camau gweithredu yr ymchwilir iddynt, mae'n ofynnol i'r darparwr o dan sylw ystyried adroddiad yr Ombwdsmon a'i hysbysu am y camau y mae'r darparwr wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb i hynny ac yn ogystal am y cyfnod amser y cymerir y camau hyn ynddo. Rhaid i'r darparwr o dan sylw wneud yr hysbysiad o fewn un mis gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r darparwr yn cael yr adroddiad neu unrhyw gyfnod hwy a bennir gan yr Ombwdsmon yn ôl ei ddisgresiwn.

569. Mae adran 34N yn darparu nad yw'r weithdrefn adrodd lawn o dan adrannau 34K i 34M yn gymwys os yw'r Ombwdsmon yn penderfynu adrodd o dan y weithdrefn amgen a nodir yn yr adran hon. Os yw'r Ombwdsmon, ar ôl ymchwiliad, yn dod i'r casgliad a ganlyn ynghylch y person a dramgwyddir:

- a. nad yw wedi dioddef anghyfiawnder na chaledi o ganlyniad i'r camau gweithredu yr ymchwilir iddynt; neu
- b. y mae wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o'r fath ac mae'r darparwr y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef yn cytuno o fewn y cyfnod a ganiateir (fel y'i diffinnir yn adran 34N(3)) i weithredu argymhellion yr Ombwdsmon, yna caiff yr Ombwdsmon benderfynu cyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn amgen o dan adran 34N ond dim ond os yw wedi ei fodloni nad yw budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyflwyno adroddiad o dan y weithdrefn adrodd lawn a nodir yn adrannau 34K i 34M.

570. Mae adroddiad o dan y weithdrefn amgen yn yr adran hon yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau o ran enwi unigolion neu beri iddynt gael eu hadnabod ag adroddiad o dan adran 34K (adran 34N(8) a (9)).

571. O dan adran 34O, caiff yr Ombwdsmon ddyroddi adroddiad arbennig mewn tri achos:

- a. mae'r Ombwdsmon yn dod i'r casgliad mewn adroddiad ar ymchwiliad bod y person wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yr ymchwilyd iddo ac yn nhermau gofynion adran 34M (y camau i'w cymryd ar ôl cael adroddiadau ymchwiliadau) nid yw'r Ombwdsmon wedi cael yr hysbysiad sy'n ofynnol o dan yr adran honno, ac nid yw'r hysbysiad neu'r camau sydd i'w cymryd neu y bwriedir eu cymryd wedi ei fodloni;
- b. mae'r Ombwdsmon wedi llunio adroddiad o dan adran 34N(2) (y weithdrefn amgen) ac nid yw wedi ei fodloni bod y darparwr wedi gweithredu ei argymhellion o fewn y cyfnod a ganiateir; ac
- c. mae cwyn wedi ei datrys o dan adran 34C (dull amgen o ddatrys cwynion), ac wrth ddatrys y gŵyn mae'r person a dramgwyddir wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef, mae'r darparwr wedi cytuno i gymryd camau penodol ac nid yw'r Ombwdsmon wedi ei fodloni bod y darparwr wedi cymryd y camau hynny cyn diwedd y cyfnod a ganiateir.

572. Mae adran 34P(1) yn darparu bod rhaid i'r Ombwdsmon wneud pa argymhellion bynnag y mae'n credu eu bod yn briodol mewn cysylltiad â'r camau y mae'n credu y dylid eu cymryd i unioni'r anghyfiawnder neu'r caledi a ddioddefwyd gan y person a dramgwyddir ac i atal anghyfiawnder neu galedi rhag cael ei achosi eto. Mae adran 34P(2) a (3) yn nodi at bwy y mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon anfon copi o adroddiad arbennig. Mae'r gofyniad yn dibynnu ar b'un a oedd yr adroddiad gwreiddiol yn adroddiad llawn o dan adran 34K, yn adroddiad a wnaed o dan adran 34N (adroddiadau'r weithdrefn amgen) neu'n ddatganiad a wnaed ar ôl datrys y gŵyn o dan adran 34C.

573. Mae adran 34P(4) i (10) yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag adroddiadau arbennig. Yn benodol, mae adroddiad arbennig yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau mewn cysylltiad ag enwi neu beri i unigolion gael eu hadnabod ag adroddiad o dan adran 34K.

574. Mae adran 34Q yn darparu pŵer i'r Ombwdsmon gyhoeddi hysbysiad am adroddiad arbennig mewn papur newydd neu drwy gyfryngau darlledu a chyfryngau electronig, ac wrth ddyfarnu a ddylid cyhoeddi, dylid ystyried budd y cyhoedd, buddiannau'r person a dramgwyddir a buddiannau unrhyw berson arall y mae'r Ombwdsmon yn credu ei fod yn briodol. Os yw'r Ombwdsmon yn gofyn i ddarparwr y mae adroddiad yn ymwneud ag ef ad-dalu'r costau rhesymol i'r Ombwdsmon am drefnu i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, rhaid iddo wneud hynny. Os nad yw darparwr yn talu, disgwylir y gallai'r Ombwdsmon adennill y costau fel dyled sifil.

575. Mae adran 34R yn darparu diffiniadau o gartref gofal ("care home") a darparwr cartref gofal ("care home provider") drwy gyfeirio at Ddeddf Safonau Gofal 2000. Bydd camau gweithredu'r darparwr yn cynnwys

camau gweithredu staff y darparwr ac eraill sy'n gweithredu ar ran y darparwr.

576. Mae adran 34S yn darparu diffiniadau o ofal cartref (“domiciliary care”) a darparwr gofal cartref (“domiciliary care provider”). Bydd camau gweithredu darparwr yn cynnwys camau gweithredu staff y darparwr ac eraill sy'n gweithredu ar ran y darparwr.
577. Yn adran 34T ceir diffiniadau o wasanaeth gofal lliniarol (“palliative care service”) a darparwr gofal lliniarol annibynnol (“independent palliative care provider”). Ystyr gwasanaeth gofal lliniarol yw gwasanaeth y mae ei brif bwrpas yn golygu darparu gofal lliniarol. Felly ni fwriedir iddo gynnwys gwasanaethau sy'n darparu elfen o ofal lliniarol, ond mae gofal o'r fath yn gysylltiedig â'r prif wasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, bwriedir iddo gynnwys ystod eang o wasanaethau gofal lliniarol sy'n amrywio o wasanaethau yn y gymuned i ysbytai gofal lliniarol. Bydd camau gweithredu darparwr yn cynnwys camau gweithredu staff y darparwr ac eraill sy'n gweithredu ar ran y darparwr.

## **RHAN 2B**

578. Mae adran 34U(1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori ag ombwdsmon penodedig arall pryd bynnag y bo'n meddwl bod cwyn yn ymwneud â mater a allai fod yn destun ymchwiliad gan yr ombwdsmon arall hwnnw. Mae'r ombwdsmyr eraill y mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori â hwy wedi eu pennu yn adran 34U(7). Mae gan Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, bŵer i ddiwygio'r rhestr hon o ombwdsmyr penodedig (adran 34U(8) a (9)).
579. Pan fo'n ofynnol i'r Ombwdsmon ymgynghori ag ombwdsmon arall ar fater, caiff gydweithredu hefyd â'r ombwdsmon arall hwnnw ar y mater hwnnw (adran 34U(3)). Caiff yr ymgynghori a'r cydweithredu estyn i unrhyw beth sy'n ymwneud â'r mater. Ceir enghreifftiau o faterion y caniateir ymgynghori yn eu cylch a chydweithredu arnynt yn adran 34U(4), sef:
- a. sut y dylid cynnal ymchwiliad i'r gŵyn;
  - b. ffurf a chynnwys adroddiad a'i gyhoeddi yn dilyn ymchwiliad.
580. Mae adran 34U(5) a (6) yn darparu, pan fo ymgynghoriad o'r fath yn digwydd, y gall yr Ombwdsmon ac unrhyw un neu rai o'r ombwdsmyr penodedig (ac eithrio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban) gynnal ymchwiliadau ar y cyd a chyhoeddi adroddiadau ar y cyd.
581. Yn achos ymgynghori ynglŷn â chŵyn, bydd yr Ombwdsmon yn gallu defnyddio ei bwerau atodol ym mharagraff 21 o Atodlen 1 i'r Bil er mwyn anfon copi o'r gŵyn at yr ombwdsmon arall. At hynny, gallai'r Ombwdsmon ddefnyddio'r pwerau atodol hynny i hysbysu'r person sydd wedi gwneud y gŵyn sut y gall wneud cwyn i'r ombwdsmon arall.



582. Mae adran 34V yn ymdrin â sefyllfaoedd pan fo'r Ombwdsmon, wrth ddelio â chwyn, yn canfod materion a allai fod yn ddarostyngedig i ymchwiliad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru neu Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon hysbysu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac ymgynghori ag ef a chaiff yr Ombwdsmon hysbysu Comisiynydd y Gymraeg ac ymgynghori ag ef. Caiff yr Ombwdsmon a Chomisiynydd arall y cyfeirir ato yn yr adran hon gydweithredu neu gynnal ymchwiliadau ar y cyd. Cânt lunio adroddiadau ar y cyd.
583. Mae adran 34W yn cynnwys darpariaeth bellach ynghylch gallu'r Ombwdsmon i gydweithio â Chomisiynwyr eraill (yn benodol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg) pan fo'r cwynion yn cynnwys materion y gallai'r Ombwdsmon neu'r Comisiynwyr priodol ddelio â hwy (materion y cyfeirir atynt fel materion cysylltiedig ("connected matters")).
584. Mae adran 34X yn darparu bod gwybodaeth a geir mewn perthynas â chwynion neu mewn cysylltiad â hwy i'w chadw'n gyfrinachol ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig. Mae adran 34X(2) yn darparu ar gyfer yr eithriadau pan gaiff gwybodaeth o'r fath gael ei datgelu, sef:
- a. at ddibenion penderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn; at ddibenion ymchwiliad; at ddibenion datrys cwyn ac at ddibenion adrodd ar ymchwiliad;
  - b. at ddibenion ymgynghori, cydweithredu, gweithio ac adrodd ar y cyd ag ombwdsmyr eraill yn unol ag adrannau 34U, 34V a 34W;
  - c. at ddibenion achosion cyfreithiol penodol neu ar gyfer ymholiadau gyda golwg ar ddilyn achosion cyfreithiol penodol;
  - d. pan fo'r Ombwdsmon yn credu ei fod er budd y cyhoedd, at ddibenion amddiffyn rhag unrhyw fygythiad i iechyd neu ddiogelwch unrhyw berson neu bersonau, neu osgoi neu leihau etc. unrhyw fygythiad o'r fath;
  - e. yn achos gwybodaeth o fewn adran 34X(3) i (5) i'r Comisiynydd Gwybodaeth.
585. Mae adran 34X (6) yn darparu na ellir ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon nac unrhyw aelod o'i staff nac unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ei ran neu sy'n ei gynorthwyo, mewn unrhyw achos cyfreithiol (ac eithrio achosion cyfreithiol a bennir yn adran 34X(2)) ddatgelu gwybodaeth y mae'n ei chael wrth benderfynu p'un a ddylid ymchwilio i gŵyn; yn ystod ymchwiliad i gŵyn; wrth ddatrys cwyn; neu wrth ymgynghori, cydweithredu, gweithio neu adrodd ar y cyd ar gŵyn gydag ombwdsmon arall.
586. Mae adran 34Y(1) yn darparu y caiff un o Weinidogion y Goron roi hysbysiad i'r Ombwdsmon yn nodi y byddai datgelu unrhyw ddogfen neu wybodaeth neu ddogfen neu wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad, ym marn y Gweinidog, yn niweidiol i ddiogelwch y Wladwriaeth

neu fel arall yn groes i fudd y cyhoedd. Pan fo hysbysiad o'r fath yn cael ei roi, nid yw'r Bil hwn yn awdurdodi'r Ombwdsmon nac yn ei gwneud yn ofynnol iddo, nac aelod o'i staff neu unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo, ddatgelu gwybodaeth benodedig o'r fath.

587. Pan fo Ombwdsmon neu aelod o'i staff etc. o dan rwymedigaeth i ddatgelu'r wybodaeth yn rhinwedd gofyniad cyfreithiol arall, nid oes dim yn yr adran hon yn atal y person hwnnw rhag cydymffurfio â'r rhwymedigaeth honno.

588. Mae adran 34Z yn darparu bod y canlynol yn destun braint absoliwt at ddibenion difenwi, sef:

- a. unrhyw gyhoeddiad (a fydd yn dwyn ei ystyr arferol o fewn y gyfraith sy'n ymwneud â difenwi) ynghylch unrhyw fater gan yr Ombwdsmon, aelod o'i staff neu berson arall sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil;
- b. unrhyw gyhoeddiad ynghylch mater mewn unrhyw adroddiad a gyhoeddir gan berson wrth arfer ei swyddogaethau o dan adran 17 (gofyniad ar awdurdodau rhestredig i gyhoeddi adroddiad yr Ombwdsmon ar ymchwiliad); ac
- c. unrhyw gyhoeddiad mewn cyfathrebiadau penodol ynghylch cwyn, sef:
  - i) cyfathrebiadau rhwng awdurdod rhestredig (gan gynnwys aelod neu aelod cyfetholedig, swyddog neu aelod o staff neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod neu sy'n cynorthwyo i gyflawni swyddogaethau'r awdurdod) a'r Ombwdsmon (neu ei staff neu bersonau sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau);
  - ii) cyfathrebiadau rhwng darparwr cartref gofal, darparwr gofal cartref neu ddarparwr gofal lliniarol annibynnol, (gan gynnwys swyddog neu aelod o staff neu berson arall sy'n gweithredu ar ran y darparwr hwnnw neu'n ei gynorthwyo i gyflawni swyddogaethau'r darparwr hwnnw) a'r Ombwdsmon (neu ei staff neu bersonau sy'n gweithredu ar ei ran neu sy'n ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau.)
  - iii) cyfathrebiadau rhwng y person a dramgwyddir neu'r person sy'n gwneud y gŵyn ar ran y person a dramgwyddir ac aelod etholedig o'r Cynulliad; a
  - iv) cyfathrebiadau rhwng y person a dramgwyddir neu'r person sy'n gwneud y gŵyn ar ran y person a dramgwyddir a'r Ombwdsmon (neu ei staff, personau sy'n gweithredu ar ei ran neu'n ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau).

589. Mae'r ddarpariaeth hon yn atgynhyrchu'n gyffredinol amddiffyniad tebyg a geir o dan y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ombwdsmyr eraill.

590. Mae paragraffau 3 i 36 o'r Atodlen yn gwneud newidiadau canlyniadol i Ddeddf 2005 a deddfwriaeth gysylltiedig.

## **ATODIAD 2 - TABL TARDIDIADAU**

Bwriedir i'r ddogfen hon roi cymorth anffurfiol wrth gynnal dadl ar y Bil yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Er ein bod wedi cymryd gofal i sicrhau bod y ddogfen mor gywir ag y bo'n rhesymol ymarferol, nid yw'r ddogfen yn honni bod yn awdurdodol ac felly ni ddylid dibynnu arni fel pe bai'n awdurdodol.

Bwriedir i'r tabl atodedig ddarparu gwybodaeth ynghylch tarddiad y darpariaethau a geir ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Nid yw'r tabl yn darparu canllawiau diffiniol na chyflawn, a dylid darllen y tabl ar y cyd â'r Bil a'r nodiadau esboniadol ar y Bil.

### **YR ALLWEDD I'R BYRFODDAU**

DCG 1948 – Deddf Cymorth Gwladol 1948

DGIIC 1968 – Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968

DCCPhA 1970 – Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970

DGCALI 1970 – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970

DIGCDNC 1983 – Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983

DIM 1983 – Deddf Iechyd Meddwl 1983

DPA(GYCh) 1986 – Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986

DP 1989 – Deddf Plant 1989

DGIGGG 1990 – Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990

DG(CG) 1995 – Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995

DA 1996 – Deddf Addysg 1996

DGPhA 2000 – Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000

DIGC 2001 – Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001

DIGC(ICS) 2003 – Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003

DP 2004 – Deddf Plant 2004

DOGC(C) 2005 – Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005

DGIG(C) 2006 – Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

MCFfWGC(C) 2010 – Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010

MSG(C) 2010 – Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010

## TABL TARDDIADAU

ADRAN / PARAGRAFF	CYFEIRIAD CYFATEBOL YN Y DDEDDFWRIAETH BRESENNOL	A OES NEWID SYLWEDDOL?
<b>RHAN 1 : CYFLWYNIAD</b>		
<b>1</b>	<b>Newydd</b>	
<b>2</b>	<b>Newydd, er bod ystyr “llesiant” yn seiliedig ar adran 25(2) o DP 2004 ac, mewn perthynas â phlant mae'n cynnwys “llesiant” at ddibenion DP 1989</b>	
<b>3</b>	<b>Ystyr “gofalwr” - adran 1 o MSG(C) 2010; adran 1 o DGPhA 2000.  Ystyr “anabl” – adran 17(11) o DP 1989 mewn perthynas â phlant; adran 16 o DPA(GYCh) 1986 mewn perthynas ag oedolion</b>	<b>Oes</b>
<b>RHAN 2 : SWYDDOGAETHAU CYFFREDINOL</b>		
<b>4</b>	<b>Newydd o ran oedolion ond, mewn perthynas â phlant, mae is-adran (54)(a) yn tarddu o adran 17(1) a (54)(b) yn tarddu o adran 22(4) a (5) o DP 1989</b>	
<b>5</b>	<b>Newydd</b>	
<b>6</b>	<b>Newydd</b>	
<b>7</b>	<b>Newydd</b>	
<b>8</b>	<b>Newydd</b>	
<b>9</b>	<b>Newydd</b>	
<b>10</b>	<b>Newydd</b>	
<b>11</b>	<b>Newydd Gwneir diwygiadau i adran 40 o DGIG(C) 2006 ac adran 26 o DP 2004</b>	
<b>12</b>	<b>Newydd ond yn seiliedig yn rhannol ar adran 17 o DP 1989 ac Atodlen 2 iddi mewn perthynas â phlant</b>	
<b>13</b>	<b>Newydd</b>	
<b>14</b>	<b>Newydd, ond yn seiliedig yn rhannol ar: mewn perthynas ag oedolion - adran 29(4) o DCG 1948, ac adran 1 o DCCPhA 1970; mewn perthynas â gofalwyr - MSG(C) 2010;</b>	

	ac mewn perthynas â phlant – paragraff 1 o Atodlen 2 i DP 1989	
15	Adran 29(4) o DCG 1948 mewn perthynas ag oedolion a paragraff 2 o Atodlen 2 i DP 1989 mewn perthynas â phlant anabl	Oes
<b>RHAN 3: ASESU ANGHENION UNIGOLION</b>		
16	Newydd ond yn seiliedig yn rhannol ar adran 47(1) o DGIGGG 1990	
17	Newydd	
18	Newydd	
19	Newydd	
20	Newydd	
21	Newydd ond mae adran 1 o DG(CG) 1995 ac adran 1 ac adran 6 o DGPhA 2000 yn darparu ar gyfer asesu gofalwyr ar hyn o bryd.	
22	Newydd	-
23	Newydd o ran oedolion, ond mewn perthynas â phlant mae'n tarddu o baragraff 3 o Atodlen 2 i DP 1989	
24	Newydd ond mae adran 47(4) o DGIGGG 1990 yn cynnwys pŵer i roi cyfarwyddiadau	
25	Rhan 3 – Dehongliad Newydd	
<b>RHAN 4: DIWALLU ANGHENION</b>		
26	Newydd	
27	Newydd	
28	Newydd ond mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau mewn perthynas â diwallu anghenion gofal a chymorth oedolion o dan nifer o statudau, gan gynnwys DCG 1948, DGILC 1968, DCCPhA 1970, DGIG(C) 2006	
29	Newydd ond mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau mewn perthynas â diwallu anghenion gofal a chymorth oedolion o dan nifer o statudau, gan gynnwys DCG 1948, DGILC 1968, DCCPhA 1970, DGIG(C) 2006	
30	Newydd ond yn tarddu o swyddogaethau	Nac oes

	presennol sydd gan awdurdodau lleol mewn perthynas â diwallu anghenion gofal a chymorth plant, eu teuluoedd ac eraill o dan adran 17 o DP 1989 ac Atodlen 2 iddi.	
31	Newydd ond yn tarddu o swyddogaethau presennol sydd gan awdurdodau lleol mewn perthynas â diwallu anghenion gofal a chymorth plant, eu teuluoedd ac eraill o dan adran 17 o DP 1989 ac Atodlen 2 iddi.	Nac oes
32	Paragraff 10 o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
33	Newydd	-
34	Newydd	-
35	Newydd	-
36	Newydd er bod eisoes pwerau i ddarparu gwasanaethau i ofalwyr o dan adran 2 o DGPhA 2000 ac i rieni plant mewn angen o dan adran 17(3) o DP 1989	-
37	Adran 21(1A) o DCG 1948	Nac oes
38	Adrannau 21(8), 26(1C) (1D) a 29(6)(b) o DCG 1948; adran 49 o DIGC 2001	Oes
39	Adran 21(8) o DCG 1948	
40	Newydd ond mae adran 29(6)(b) yn cynnwys cyfyngiadau ar ddarparu taliadau	
41	Adran 57 o DIGC 2001	Nac oes
42	Adran 17A o DP 1989 ac adran 57 o DIGC 2001	Nac oes
43	Adran 57 o DIGC 2001	Nac oes
44	Adran 57 o DIGC 2001	Nac oes
45	Newydd, er bod canllawiau eisoes wedi eu dyroddi o dan DGCALI 1970 y mae ffurf a chynnwys cynlluniau gofal ar gyfer plant ac oedolion sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol yn seiliedig arnynt.	Oes
46	Newydd	
47	Newydd	
48	Newydd ond yn seiliedig yn rhannol ar adran 54 o DIGC 2001. Mae Cyfarwyddiadau Deddf Cymorth Gwladol 1948 (Dewis Llety) 1993 wedi eu dyroddi o dan bwerau yn DGCALI 1970 (adran 7A)	Nac oes

49	Adran 48 o DCG 1948 mewn perthynas ag oedolion	Oes
RHAN 5: CODI FFIOEDD AC ASESIAU ARIANNOL		
50	Newydd, ond yn tarddu o - adran 22 o DCG 1948, adrannau 17(7) – (10) a 29(1) – (5) o DP 1989, ac adrannau 1 a 3 o MCFfWGC(C) 2010	Oes
51	Newydd, ond yn tarddu o - adran 22 o DCG 1948, adrannau 17 a 29 o DP 1989, ac adran 3 o MCFfWGC(C) 2010	Nac oes
52	Newydd, yn tarddu o adran 2 o MCFfWGC(C) 2010 (sydd ond yn gymwys mewn perthynas â ffioedd ar gyfer gwasanaethau gofal dibreswyl ar gyfer oedolion)	
53	Newydd, yn tarddu o adran 3 o MCFfWGC(C) 2010	
54	Newydd, ond yn tarddu o – adran 22 o DCG 1948, adrannau 17 a 29 o DP 1989, ac adrannau 4 – 6 o MCFfWGC(C) 2010	
55	Newydd, ond yn tarddu o – adran 22 o DCG 1948, ac adran 5 o MCFfWGC(C) 2010	
56	Newydd	
57	Newydd, ond yn tarddu o – adran 22 o DCG 1948, adrannau 17 a 29 o DP 1989, ac adran 7 o MCFfWGC(C) 2010	
58	Newydd, yn tarddu o adran 8 o MCFfWGC(C) 2010	
59	Newydd, yn tarddu o adran 11 o MCFfWGC(C) 2010	
60	Newydd, yn tarddu o adran 55 o DIGC 2001 (sydd ond yn gymwys mewn perthynas â ffioedd	

	ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl ar gyfer oedolion)	
61	Newydd	
62	Newydd, ond yn tarddu o – adrannau 45, 52 a 56 o DCG 1948, adran 24 o DIGCDNC 1983, ac adran 1 o MCFfWGC(C) 2010	
63	Newydd, yn tarddu o – adran 22 o DIGCDNC 1983 (sydd ond yn gymwys mewn perthynas â ffioedd ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl ar gyfer oedolion)	
64	Newydd, ond yn tarddu o – adran 21 o DIGCDNC 1983 (sydd ond yn gymwys mewn perthynas â ffioedd ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl ar gyfer oedolion)	
<b>RHAN 6: PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA</b>		
65	Adran 22(1) a (2) o DP 1989	Nac oes
66	Adran 22G o DP 1989	Nac oes
67	Adran 20 o DP 1989	Nac oes
68	Adran 21 o DP 1989	Nac oes
69	Adran 22(3) – (8) o DP 1989	Nac oes
70	Adran 22A o DP 1989	Nac oes
71	Adran 22B o DP 1989	Nac oes
72	Adran 22C o DP 1989, a darpariaeth newydd o fewn is-adrannau (10) i (12) o adran 65	Oes (mewn perthynas ag is- adrannau (10) i (12))
73	Adran 22D o DP 1989	Nac oes
74	NEWYDD	
75	NEWYDD	
76	Adran 29(6) o DP 1989 a pharagraff 3 o Atodlen 2 iddi	Nac oes
77	Adran 22E o DP 1989	Nac oes
78	Adrannau 22C(11) a 22F o DP 1989 a Rhan 2 o Atodlen 2 iddi	Nac oes
79	Paragraff 12A o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes



80	Paragraff 12B o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
81	Paragraff 12C o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
82	Paragraff 12D o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
83	Paragraff 12E o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
83	Paragraff 12F o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
85	Paragraff 12G o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
86	Paragraff 15 o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
87	Paragraff 16 o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
88	Adran 23ZA o DP 1989	Nac oes
89	Adran 23ZB o DP 1989	Nac oes
90	Adran 25A o DP 1989	Nac oes
91	Adran 25B o DP 1989	Nac oes
92	Adran 25C o DP 1989	Nac oes
93	Adran 26(1) a (2) o DP 1989	Nac oes
94	Paragraff 19A o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
95	<p>Mae adran 95 yn tarddu o'r darpariaethau a ganlyn yn DP 1989 -</p> <p>is-adrannau (1) a (2) -</p> <p>Paragraff 19B(2) o Atodlen 2, adran 23A(2), adran 23C(1), (6) a (7), adran 23C (7) a 23CA, adran 24A ac adran 24(1B)</p> <p>is-adran 3 - adran 24(2) ac adran 24(1B)</p> <p>is-adran (4) – adran 24(3) ac adran 24(1B)</p> <p>is-adran (5) - paragraff 19B(1) o Atodlen 2, adran 23A(4) o DP 1989, adran 23C(1)(a), adran 24(4) a (5)</p> <p>is-adran (6) – paragraff 19B(3) o Atodlen 2,</p>	Nac oes

	adran 23A(3) a (5)	
96	<p>Mae adran 96 yn tarddu o'r darpariaethau a ganlyn yn DP 1989 –</p> <p>is-adran (1) – adran 23B(1), adran 23C(2)(a)</p> <p>is-adran (2) – adran 23B(11), adran 23C(2)(b)</p> <p>is-adran (3) – adran 23B(11)</p> <p>is-adran (4) adran 23C DP 1989 adran 24A a 24B DP 1989</p> <p>is-adran (5) – adran 24(4)</p>	Nac oes
97	<p>Mae adran 97 yn tarddu o'r darpariaethau a ganlyn yn DP 1989 –</p> <p>is-adrannau (1) a (2) – paragraff 19C o Atodlen 2, adran 23B(2), adran 23C(3)(a) ac adran 23CA(2)</p> <p>is-adran (3) adran 23C DP 1989 adran 24A a 24B DP 1989</p> <p>adran (4)</p> <p>adran 23D</p>	Nac oes
98	<p>Mae adran 98 yn tarddu o'r darpariaethau a ganlyn yn DP 1989 –</p> <p>is-adran (1) – paragraff 19B(4) o Atodlen 2</p>	Nac oes

	<p>is-adran (2) – adran 23B(3), adran 23C(3)(b), ac adran 23CA(3)</p> <p>is-adran (3) – paragraff 19B(4) o Atodlen 2, adran 23B(3)(b), adran 23C(3)(b), ac adran 23CA(3)(b)</p> <p>is-adran (7) – adran 23E(1), paragraff 19B(4), adran 23B(3)(a), adran 23C(3)(b) ac adran 23CA(3)(a)</p> <p>is-adrannau (8) a (9) – adran 23E(1) ac (1B)</p> <p>is-adran (10) – paragraff 19B(5) o Atodlen 2, adran 23E(1D), ac adran 23C(3)(b)</p> <p>is-adran (11) – adran 23E(1)</p> <p>is-adran (12) ac (13) adran 23C DP 1989 adran 24A a 24B DP 1989</p>	
99	<p>Mae adran 99 yn tarddu o'r darpariaethau a ganlyn yn DP 1989 –</p> <p>is-adran (1) – adran 23B(8)</p>	Nac oes

	<p>is-adran (2) – adran 23B(9)</p> <p>is-adran (3) – adran 23B(10)</p> <p>is-adran (4) – adran 23B(13)</p>	
100	<p>Mae adran 100 yn tarddu o'r darpariaethau a ganlyn yn DP 1989 –</p> <p>is-adran (1) – adran 23C(4), adran 23C(4)(a) ac adran 24B(1), adran 23C(4)(a) ac adran 24B(2)(a) ac adran 23CA(5)(a) adran 23C(4)(b) ac adran 24B(2)(b) ac adran 23CA(5)(b)</p> <p>is-adran (2) – adran 23C(5)</p> <p>is-adran (3) – adran 23C(5A)</p> <p>is-adran (5) a (6) – adran 23C(9) ac adran 24B(5), ac adran 23CA(9) ac adran 24B(5)</p>	Nac oes
101	<p>Terfynu dyletswyddau mewn perthynas â phobl ifanc categori 3</p> <p>adran 23C DP 1989 adran 24A a 24B DP 1989</p>	
102	<p>Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 4 adran 24A a 24B</p> <p>Paragraff 19 o Atodlen 2 i DP 1989</p>	Nac oes
103	Terfynu dyletswyddau mewn perthynas â	

	<p>phobl ifanc categori 4</p> <p>adran 23C DP 1989 adran 24A a 24B DP 1989</p>	
104	<p>Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 5 a phobl ifanc oedd yn arfer bod yng nghategori 5</p> <p>adran 24A a 24B DP 1989</p>	
105	<p>Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 6 a phobl ifanc oedd yn arfer bod yng nghategori 6</p> <p>adran 24A a 24B DP 1989</p>	
106	<p>Darpariaeth atodol ynghylch cymorth i bobl ifanc mewn addysg bellach neu uwch</p> <p>adran 23C(5B) DP 1989</p>	
107	<p>Mae adran 107 yn tarddu o'r darpariaethau a ganlyn yn DP 1989 - adran 23B(12) ac adran 17(7) – (9), adran 23B(10) ac adran 17(7) – (9), adran 23CA(8) ac adran 17(7) – (9), adran 24A(6) ac adran 17(7) – (9)</p>	Nac oes
108	Adran 24C o DP 1989	Nac oes
109	Adran 25 o DP 1989	Nac oes
110	Adran 85 o DP 1989	Nac oes
111	Adran 86 o DP 1989	Nac oes
112	Adran 86A o DP 1989	Nac oes
113	Paragraff 8A o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
115	Paragraff 20 o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
<b>RHAN 7: DIOGELU</b>		
116	Newydd	
117	Newydd	

118	Newydd	
119	Diddymu Adran 47 o DCG 1948	
120	Paragraff 4 o Atodlen 2 i DP 1989	
121	Canllawiau am oedolion mewn perygl a phlant mewn perygl Newydd	-
122	Newydd	-
123	Newydd ond mae'r Byrddau Diogelu Plant yn seiliedig ar fodel tebyg i'r rheini a geir yn rhan 3 o DP 2004	-
124	Newydd ond mae'r Byrddau Diogelu Plant yn seiliedig ar fodel tebyg i'r rheini a geir yn rhan 3 o DP 2004	-
125	Newydd	-
126	Newydd ond yn seiliedig ar adran 32A o DP 2004	-
127	Newydd ond gan gynnwys rhai agweddau ar adran 33 o DP 2004 sydd ar hyn o bryd yn gynnwys i'r Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant	-
128	Newydd ond gan gynnwys rhai agweddau ar adran 34 o DP 2004	
129	Newydd	-
130	Newydd	-
131	Gweithdrefn ar gyfer gwneud gorchmynion o dan adran 130 Newydd	
132	Newydd	
<b>RHAN 8: SWYDDOGAETHAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</b>		
133	Adran 1A o DGCALI 1970	Nac oes
134	Adran 6 o DGCALI 1970, Gofynion newydd wedi eu cynnwys yn is-adrannau (2) a (3)	Oes, mewn perthynas ag is-adrannau (2) a (3)
135	Newydd	
136	Newydd	
137	Newydd	
138	Newydd	

139	Newydd	
140	Newydd, ond yn tarddu o adran 7D o DGCALI 1970 (mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion) ac adrannau 496 – 497B o DA 1996 ac adran 50 o DP 2004 (mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant)	Oes (mewn perthynas ag oedolion)
141	Newydd	
142	Newydd	
143	Newydd, yn seiliedig ar adran 497A o DA 1996	
144	Newydd, yn seiliedig ar adran 497A o DA 1996	
145	Newydd, yn seiliedig ar adran 497A o DA 1996	
146	Newydd	
147	Newydd, yn seiliedig ar adran 497 o DA 1996	
149	Newydd, yn seiliedig ar adran 497AA o DA 1996	
150	Newydd, yn seiliedig ar adran 497AA o DA 1996	
151	Newydd, yn seiliedig ar adran 497B o DA 1996	
<b>RHAN 9: CYDWEITHREDIAD A PHARTNERIAETH</b>		
152	Newydd	
153	Mae'n diwygio adran 25 o DP 2004	
154	Newydd ond yn seiliedig yn rhannol ar adran 27 o DP 1989	
155	Newydd	
156	Newydd	
157	Newydd	
158	Newydd	
159	Newydd	

160	Newydd	
<b>RHAN 10: CWYNION A SYLWADAU</b>		
<b>PENNOD 1: CWYNION A SYLWADAU AM WASANAETHAU CYMDEITHASOL</b>		
161	Adran 114(3)(4)(5)(6) o DIGC(ICS) 2003 â rhai newidiadau	Nac oes
162	Adran 115 o DIGC(ICS) 2003	Nac oes
163	Newydd	-
164	Adran 26(3) i (3C) a (4)(4A)(5A) ac (8) o DP 1989	Nac oes
165	Adran 26(4A)(6) a (7) o DP 1989	Nac oes
166	Adran 24D o DP 1989	Nac oes
167	Adran 26ZB o DP 1989	Nac oes
168	Adran 26A o DP 1989	Nac oes
<b>PENNOD 2: CWYNION AM OFAL CYMDEITHASOL A GOFAL LLINIAROL PREIFAT</b>		
169	Newydd	-
170	Newydd	-
<b>RHAN 11 : ATODOL A CHYFFREDINOL</b>		
171	Ymchwil a Darparu Gwybodaeth Yn seiliedig ar adran 30A Deddf Cymorth Gwladol 1948 (mewn perthynas ag oedolion) ac adran 83A Deddf Plant 1989 (mewn perthynas â phlant)	
172	Methiant gan ddarparwr: dyletswydd dros dro ar awdurdod lleol Newydd	
173	Methiant gan ddarparwr: eithriad i ddyletswydd dros dro Newydd	
174	Methiant gan ddarparwr: atodol Newydd	
175	Diwygio adran 49 Deddf Cymorth Gwladol 1948	
176	Newydd, ond yn seiliedig ar – adran 32 o DCG 1948, ac adran 29 o DP 1989	
177	Adran 24 o DCG 1948 (mewn perthynas ag	Oes



	oedolion), adran 105 o DP 1989 mewn perthynas â phlant	
178	Adran 32 o DCG 1948 (mewn perthynas ag oedolion), adran 30 o DP 1989 (mewn perthynas â phlant)	Oes
179	Newydd	
180	Newydd	
181	Newydd	
182	Newydd	
183	Newydd	
<b>ATODLEN 1 : CYFRANIADAU TUAG AT GYNHALIAETH PLANT SY’N DERBYN GOFAL</b>		
1	Paragraff 21 o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
2	Paragraff 22 o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
3	Paragraff 23 o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
4	Paragraff 24 o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
5	Paragraff 25 o Atodlen 2 i DP 1989	Nac oes
<b>ATODLEN 2 : SWYDDOGAETHAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</b>		
	<b>Atodlen 1 i DGCALI 1970</b>	<b>Nac oes</b>
<b>ATODLEN 3 : YMCHWILIO I GWYNIION YNGHYLCH GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL LLINIAROL A DREFNIR NEU A ARIENNIR YN BREIFAT</b>		
1	Newydd	-
2	Newydd	-
3	Newydd	-
4	Newydd	-
5	Newydd	-
6	Newydd	-
7	Newydd	-
8	Newydd	-
9	Newydd	-
10	Newydd	-
11	Newydd	-
12	Newydd	-

<b>13</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>14</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>15</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>16</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>17</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>18</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>19</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>20</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>21</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>22</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>23</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>24</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>25</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>26</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>27</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>28</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>29</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>30</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>31</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>32</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>33</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>34</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>35</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>
<b>36</b>	<b>Newydd</b>	<b>-</b>

